# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 07/07/2015

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Band Eang Cyflym Iawn
3. Statement: Superfast Broadband

4. Datganiad: Y Diweddaraf ar Borthladdoedd
4. Statement: An Update on Ports

5. Datganiad: Blwyddyn Antur 2016
5. Statement: Year of Adventure 2016

6. Datganiad: Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin
6. Statement: The Common Agricultural Policy Basic Payment Scheme

7., 8. & 9. Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru), Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru), a Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru)
7., 8. & 9. The Higher Education (Fee and Access Plans) (Wales) Regulations, the Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations, and the Higher Education (Designation of Providers of Higher Education) (Wales) Regulations

10. & 11. Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 a Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Mentrau Cymdeithasol, Cydweithredol a Thrydydd Sector) (Cymru) 2015
10. & 11. The Care and Support (Partnership Arrangements for Population Assessments) (Wales) Regulations 2015 and the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (Social Enterprise, Co-operative and Third Sector) (Wales) Regulations 2015

12. Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)
12. Debate on the General Principles of the Renting Homes (Wales) Bill

13. Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)
13. Debate on the Financial Resolution of the Renting Homes (Wales) Bill

14. Cyfnod Pleidleisio
14. Voting Time

15. Dadl Fer a Ohiriwyd o 24 Mehefin: Hofrennydd Heddlu Dyfed-Powys—Pam Mae'r X99 yn Darparu Cefnogaeth Hanfodol i Ddiogelwch y Cyhoedd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru
15. Short Debate Postponed from 24 June: The Dyfed-Powys Police Helicopter—Why the X99 Provides Vital Support to Public Safety in Mid and West Wales


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Before we go to the first item, it gives me pleasure to announce that, in accordance with Standing Order 26.75, the Planning (Wales) Bill was given Royal Assent on 6 July.

Cyn i ni fynd at yr eitem gyntaf, mae'n bleser gennyf gyhoeddi, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Fil Cynllunio (Cymru) ar 6 Gorffennaf.

13:30 **1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog** / **1. Questions to the First Minister** Y

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

We now move to the agenda, and the first item this afternoon is questions to the First Minister, and question 1 is from Paul Davies.

Symudwn nawr at yr agenda, a'r eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Prif Weinidog, a daw cwestiwn 1 gan Paul Davies.

### Band Eang mewn Cymunedau Gwledig

### Broadband in Rural Communities

13:30

## Paul Davies

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella'r ddarpariaeth band eang mewn cymunedau gwledig? OAQ(4)2383(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on improving broadband provision in rural communities? OAQ(4)2383(FM)*

13:30

## Carwyn Jones

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i ddarparu band eang mewn cymunedau gwledig, drwy barhau i gyflwyno'r rhaglen Cyflymu Cymru. Hyd at ddiwedd mis Mehefin, mae'r rhaglen wedi darparu cysylltiad cyflym iawn i bron 0.5 miliwn o gartrefi a busnesau ledled Cymru.

The Welsh Government remains committed to the provision of broadband to rural communities, through the continued delivery of the Superfast Cymru programme. To the end of June, the programme has provided superfast connectivity to nearly 0.5 million homes and business premises throughout Wales.

13:30

## Paul Davies

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, Brif Weinidog, mae band eang yn dal i fod yn broblem i rai o fy etholwyr i. Rwyf wedi derbyn gohebiaeth yn ddiweddar gan rywun sydd yn byw mewn ardal wledig, sydd wedi gorfod gwrthod gwaith oherwydd bod cyflymder band eang yn amrywio rhwng 0.01 MB a 0.05 MB, sydd wrth gwrs yn cael effaith ofnadwy ar fusnes fy etholwr i. Rwy'n siŵr y byddwch chi'n cytuno â mi fod cyflymder band eang fel hyn, yn yr unfed ganrif ar hugain, yn syml, yn annerbyniol. Felly, a allwch chi ddweud wrthyf fi pa gymorth digidol penodol sydd ar gael i bobl sy'n byw mewn ardaloedd fel hyn, a pha gyngor rydych chi'n gallu ei roi i fy etholwr i?

Well, First Minister, broadband continues to be a problem for some of my constituents. I received correspondence recently from an individual living in a rural area who has had to reject work because of the variability of broadband speed between 0.01 MB and 0.05 MB. That, obviously, has a huge impact on my constituent's business. I'm sure you'd agree with me that this level of broadband speed in the twenty-first century is simply unacceptable. So, can you tell me what particular digital support is available for people living in areas such as these, and what advice can you give my constituent?

13:31

## Carwyn Jones

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, bydd y farchnad, wrth gwrs, byth yn gallu rhoi y gwasanaeth hyn i lawer o gymunedau gwledig. Dyna pam, wrth gwrs, yr ydym ni fel Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod 96 y cant o bobl, ac adeiladau, dros Gymru yn gyfan gwbl yn gallu cael mynediad i fand eang erbyn mis Medi y flwyddyn nesaf.

Well, the market, of course, will never be able to provide this service to many rural communities, and that is why we as a Government have committed to ensuring that 96 per cent of people and premises across Wales have access to broadband by September of next year.

13:31 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, roedd gan y BBC gyfrifoldeb am fand eang gwledig yn setliad ffi'r drwydded yn 2010, ynghyd â chyfrifoldeb dros S4C. Nawr rydym yn deall bod Llywodraeth Prydain wedi caniatáu i'r BBC leihau'r arian i fand eang i ddim erbyn 2020, gan arbed £150 miliwn i'r gorfforaeth. O ystyried bod Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y Deyrnas Unedig wedi dweud wrth fy nghydweithwyr seneddol y byddai'n rhesymol i S4C ysgwyddo yr un fath o doriadau â'r BBC, a fyddech chi heddiw yn cysylltu â Llywodraeth San Steffan i ddweud nad yw hyn yn dderbyniol, ac a fyddech chi'n ymgyrchu yn erbyn mwy o doriadau i S4C, sydd wedi gweld, dros y pum mlynedd diwethaf, fwy o doriadau nag sy'n angenrheidiol?

First Minister, the BBC had responsibility for rural broadband in the licence fee settlement in 2010, as well as responsibility for S4C. We are now given to understand that the UK Government has allowed the BBC to reduce the funding available for broadband to nothing by 2020, saving £150 million for the corporation. Given that the UK Secretary of State for Culture, Media and Sport told my parliamentary colleague that it would be reasonable for S4C to shoulder the same sort of cuts as the BBC, would you today contact the UK Government to say that this is not acceptable and that you will campaign against further cuts to S4C, which, over the past five year, has seen more cuts than are necessary?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae e'n annerbyniol, ac mae yna lythyr yn cael ei ddrafftio tra mod i'n siarad, a fydd yn cael ei hala i arweinwyr y pleidiau y prynhawn yma, er mwyn cael cyfarfod trawsbleidiol er mwyn delio â'r mater hyn, achos mae hyn yn bwysig dros ben o ran dyfodol darlledu yn yr iaith Gymraeg.

It is unacceptable, and a letter is being drafted as I speak, which will be sent to party leaders this afternoon so that we can hold a cross-party meeting to deal with this issue, because this is extremely important in terms of the future of Welsh-language broadcasting.

13:32 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, nid ardaloedd gwledig yn unig sy'n dioddef o broblemau band eang. Rydych chi'n ymwybodol, rwy'n siŵr, o'r problemau ar barth menter Glannau Dyfrdwy ac ar stad ddiwydiannol Wrecsam. Mae rhaglen gan y Llywodraeth—rhaglen mewn-lenwi cam 1—sydd yn cael ei dendro ar hyn o bryd, yn delio â 46,000 o safleoedd, ond fe fydd yna lawer iawn mwy ar ôl hynny. Felly, a ydy hi'n fwriad gennych chi i gael ail gam yn y rhaglen yna, ac erbyn pryd fydd y busnesau yma ar y stadau diwydiannol sydd ar ôl yn gallu dweud eu bod nhw'n derbyn gwasanaeth derbyniol?

First Minister, it's not only rural areas that suffer as a result of broadband problems. You'll be aware, I'm sure, of problems in the Deeside enterprise zone and the Wrexham industrial estate. The Government does have a programme—the stage 1 infill programme—which is out to tender at present, dealing with 46,000 sites, but there will be far more after that. So, is it your intention now to have a second stage to that programme, and when will these businesses on the industrial estate that remain be able to say that they are receiving an acceptable level of broadband?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Fel y dywedais i, erbyn mis Medi y flwyddyn nesaf, bydd 96 y cant o adeiladau yn gallu cael mynediad i'r band eang. Ynglŷn â'r rheini sydd ar ôl, bydd yn rhaid, wrth gwrs, ystyried ffyrdd eraill o ddatrys eu problemau nhw. Ond, mae hwn yn rhywbeth sy'n ein dodi ni o flaen gweddill y gymuned Ewropeaidd, ac mae'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl yn cael mynediad i fand eang cyflym.

As I said, by September of next year, 96 per cent of premises will be able to access broadband. In terms of those that remain, we will, of course, have to consider alternative in dealing with their problems. But this, of course, is something that puts us ahead of the rest of the European community, and it demonstrates the Welsh Government's commitment to ensure that people do have access to fast broadband.

### Ynni Gwynt ar y Tir

### Onshore Wind Energy

13:34 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ynghylch diddymu cymorthdaliadau ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y tir? OAQ(4)2393(FM)*

*2. What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding abolishing subsidies for onshore wind energy development? OAQ(4)2393(FM)*

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae Gweinidogion wedi bod yn hollol glir gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd ein bod ni'n erfyn y bydd yna siarad, o leiaf, rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Llywodraethau datganoledig ynglŷn â phenderfyniadau sydd yn effeithio arnom ni i gyd ym Mhrydain Fawr.

Ministers have been very clear with the Secretary of State for Energy and Climate Change that we expect at least discussions between the United Kingdom Government and the devolved Governments on decisions that will have an impact on us all in Great Britain.

13:34 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Brif Weinidog. Mae datblygiad ynni gwynt ar y mynyddoedd yn fy rhanbarth i yn cyflogi pobl wrth godi'r datblygiad yna, yn rhoi prentisiaethau i bobl—er enghraifft, yn Llanidloes—ac yn rhoi swyddi yn y gadwyn swyddi, ar gyfer cynnal a chadw'r datblygiadau hyn. Nawr, rwyf fi ar ddeall bod y Llywodraeth yn San Steffan am dynnu'r tystysgrifau rhwymo i ynni adnewyddadwy—ROCS, fel maent yn cael eu galw—yn ôl, ar gyfer datblygiadau gwynt ar y tir erbyn y flwyddyn nesaf a dweud y gwir, a, hynny yw, gyda nemor ddim trafodaeth, am wn i, gyda chi fel Llywodraeth, ac yn sicr dim trafodaeth yn y Senedd hon fel Senedd Cymru chwaith. A ydy hon yn sefyllfa rydych yn ei chanfod yn dderbyniol, ac a ydych chi'n gweld hyn yn ergyd economaidd i gefn gwlad Cymru?

Thank you, First Minister. The development of wind energy on the uplands in my area provides employment in constructing those sites, provides apprenticeships for people—for example, in Llanidloes—and provides jobs in the supply chain in terms of maintaining these developments. Now, I am given to understand that the Westminster Government is to withdraw the renewables obligation certificates—the ROCs, as they are known—for onshore wind energy developments by next year, and, as far as I am aware, that is with hardly any discussion with you as a Government, and certainly no discussion with this Senedd as the Senedd of Wales. Is this a situation that you believe to be acceptable, and do you see this as being an economic blow for rural Wales?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid yw'n dderbyniol. Wrth gwrs, rydym ni'n wastad, fel Llywodraeth, wedi dadlau y dylai Cymru reoli'r ROCs, fel mae'r Alban a Gogledd Iwerddon yn ei wneud. Nid felly y mae hi ar hyn o bryd. Mae hyn yn mynd i fod yn ergyd i swyddi, ergyd i economi Cymru, ac ergyd ynglŷn ag ym mha ffordd y bydd ynni'n cael ei greu yn y pen draw. Os nad oes ynni gwynt, a dim ynni yn dod o'r haul, beth sydd ar ôl? Rhagor o ffracio, efallai, sydd ar yr agenda gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

It is not acceptable. Of course, we as a Government have always argued that Wales should manage the ROCs, as Scotland and Northern Ireland do. That is not the case at present. It will be a blow for jobs, and it will have an impact on the Welsh economy and on how we generate energy ultimately. If there is no wind energy and no solar energy, then what will be left? More fracking, perhaps, is what's on the agenda of the United Kingdom Government.

13:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth.

Janet Haworth.

13:35 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

13:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No; I'm the Presiding Officer.

Na; Fi yw'r Llywydd.

13:35 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry. First Minister, I know that you, like me, are a keen supporter of devolution. Therefore, can you explain the rationale of the Welsh Government potentially bringing decisions in-house for windfarm developments between 25 MW and 50 MW, as suggested in the consultation on developments of national significance? In addition, will you provide an assurance that local authorities will continue to have a say in matters that have such an impact on so many people across Wales?

Mae'n ddrwg gennyf. Brif Weinidog, gwn eich bod chi, fel minnau, yn gefnogwr brwd o ddatganoli. Felly, a allwch chi esbonio'r rhesymeg dros y posibilrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau'n fewnol ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt rhwng 25 MW a 50 MW, fel yr awgrymwyd yn yr ymgynghoriad ar ddatblygiadau o bwysigrwydd cenedlaethol? Hefyd, a wnewch chi roi sicrwydd y bydd awdurdodau lleol yn parhau i gael llais mewn materion sy'n cael cymaint o effaith ar gynifer o bobl ledled Cymru?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

If the Member speaks to people in Powys, she will know that neither they, nor the local authority, nor the Welsh Government, have any control over the mid-Wales conjoined inquiry. It's being determined entirely by the UK Government, using English planning guidance, which is the bizarre scenario that we find ourselves in. We take the view that where there are developments of national significance, they should be dealt with by Welsh Government, and we believe that local planning authorities have a very strong role in the planning system, something that is being denied to them in England.

Os yw'r Aelod siarad â phobl ym Mhowys, bydd hi'n gwybod nad oedd ganddyn nhw, na'r awdurdod lleol, na Llywodraeth Cymru, unrhyw reolaeth dros yr ymchwiliad cyfunedig o ganolbarth Cymru. Mae'n cael ei benderfynu yn gyfan gwbl gan Lywodraeth y DU, gan ddefnyddio canllawiau cynllunio Lloegr, a dyna'r sefyllfa ryfedd iawn yr ydym ni'n canfod ein hunain ynddi. Ein barn ni yw, pan geir datblygiadau o bwysigrwydd cenedlaethol, mai Llywodraeth Cymru ddylai ymdrin â nhw, ac rydym ni'n credu bod gan awdurdodau cynllunio lleol swyddogaeth gref iawn yn y system gynllunio, rhywbeth sy'n cael ei wadu iddyn nhw yn Lloegr.

13:37 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, given the turbulence that's been unleashed by the announcements on ROCs, what can the Welsh Government do ahead of the enactment of the Planning (Wales) Bill to ensure that live applications currently in the system in local planning authorities across Wales are given urgent attention to give them every prospect of being consented, if appropriate, so as to take advantage of the new timetable?

Brif Weinidog, o ystyried y cynnwrf sydd wedi deillio o'r cyhoeddiadau ar Dystysgrifau Rhwymo i Ynni Adnewyddadwy, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud cyn deddfiad Mesur Cynllunio (Cymru) i sicrhau y rhoddir sylw brys i geisiadau byw sydd yn y system mewn awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru ar hyn o bryd, er mwyn rhoi pob siawns iddynt dderbyn cysyniad, os yw'n briodol, er mwyn manteisio ar yr amserlen newydd?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The UK Government has said that there will be a grace period for applications that, on 18 June, already had planning consent, already had a grid connection and, indeed, had land rights. We understand that there are now plans to say that unless the windfarms are up and running and commissioned by a certain date, then they will be prevented as well. We know, in Powys, that there are many communities that actually want to have wind power and wind turbines. Some don't, and we know that, but that choice is now being denied them. We know that there are communities in Powys, like Carno, who have benefited from their ability to access funds from windfarm developments, but they will no longer be able to do so as a result of the UK Government's decision.

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd cyfnod gras ar gyfer ceisiadau yr oedd, ar 18 Mehefin, eisoes ganiatâd cynllunio ar eu cyfer, yr oedd ganddynt eisoes gysylltiad â'r grid ac, yn wir, hawliau tir. Rydym ni'n deall bod cynlluniau bellach i ddweud y bydd ffermydd gwynt yn cael eu hatal hefyd, oni bai eu bod yn gweithredu ac wedi'u comisiynu erbyn dyddiad penodol. Rydym ni'n gwybod, ym Mhowys, bod llawer o gymunedau sydd eisiau ynni gwynt a thyrbinau gwynt. Mae rhai nad ydynt eu heisiau, ac rydym ni'n gwybod hynny, ond mae'r dewis hwnnw'n cael ei wadu iddyn nhw erbyn hyn. Rydym ni'n gwybod bod cymunedau ym Mhowys, fel Carno, sydd wedi elwa ar eu gallu i gael gafael ar gyllid o ddatblygiadau ffermydd gwynt, ond ni fyddant yn gallu gwneud hynny mwyach o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:38 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 swept away nearly every existing law relating to community care, but it did not set out the standards of care that sick, elderly and disabled people could expect. Now that you have set out those standards and the regulations to be voted on next week, it's clear that vulnerable people will only be eligible for support if their needs can, and can only, be met by the local councils. Isn't this a green light for local authorities to reduce social services support?

Brif Weinidog, cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wared ar bron i bob cyfraith a oedd yn bodoli yn ymwneud â gofal yn y gymuned, ond nid oedd yn nodi'r safonau gofal y gallai pobl sâl, oedrannus ac anabl eu disgwyl. Nawr eich bod chi wedi cyflwyno'r safonau a'r rheoliadau hynny ar gyfer pleidlais yr wythnos nesaf, mae'n amlwg y bydd pobl agored i niwed ddim ond yn gymwys i gael cymorth os gall eu hanghenion gael eu diwallu, a dim ond cael eu diwallu, gan y cynghorau lleol. Onid yw hwn yn rhwydd hynt i awdurdodau lleol leihau cymorth gwasanaethau cymdeithasol?

13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

No, I don't believe that that's right. It shows the duty that we place on local authorities to provide the kind of care that people would want, and local authorities are aware of the challenge that they face and I'm sure they'll meet it.

Na, nid wyf yn credu bod hynny'n iawn. Mae'n dangos y ddyletswydd rydym ni'n ei gosod ar awdurdodau lleol i ddarparu'r math o ofal y byddai pobl ei eisiau, ac mae awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r her sy'n eu hwynebu ac rwy'n siŵr y byddant yn ymateb iddi.

13:39 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Right now, as we speak, some local councils are already reassessing people's care needs with a view to reducing support, and their excuse is that what they're doing is in line with the Government's changes. Now, I'm sure that your Government would not want to trigger such a massive shift without having carefully thought through the impact on individuals. So, let me ask you: how many people do you estimate will lose their support as a result of these changes, and how many people will no longer be eligible for support once these regulations are passed that would have been eligible for support under the current system?

Nawr, ar y funud hon, mae rhai cynghorau lleol eisoes yn ailasesu anghenion gofal pobl gyda'r bwriad o leihau cymorth, a'u hesgus yw bod yr hyn maen nhw'n ei wneud yn unol â newidiadau'r Llywodraeth. Nawr, rwy'n siŵr na fyddai eich Llywodraeth eisiau sbarduno newid mor enfawr heb ystyried yr effaith ar unigolion yn ofalus. Felly, gadewch i mi ofyn i chi: faint o bobl ydych chi'n amcangyfrif fydd yn colli eu cymorth o ganlyniad i'r newidiadau hyn, a faint o bobl a fyddai wedi bod yn gymwys i dderbyn cymorth o dan y system bresennol na fydd yn gymwys i dderbyn cymorth mwyach ar ôl i'r rheoliadau hyn gael eu pasio?

13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We do not anticipate that anybody will be in that position. Local authorities must, of course, provide the level of care that people would expect. It has been the case for many, many years, of course, that local authorities will make an assessment every year in order to understand what level of care they would be expected to provide. If you look at case law, for example, local authorities have had, in the past, to outline who they would support, what criteria would be applied, and then, if people fit into those criteria, then support and help must be given. What they cannot do is to deny help and support to people once those criteria have been established.

Nid ydym ni'n rhagweld y bydd unrhyw un yn y sefyllfa honno. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, wrth gwrs, ddarparu'r lefel o ofal y byddai pobl yn ei ddisgwyl. Mae wedi bod yn wir ers blynyddoedd lawer, wrth gwrs, y bydd awdurdodau lleol yn gwneud asesiad bob blwyddyn er mwyn deall pa lefel o ofal y byddai disgwyl iddyn nhw ei darparu. Os edrychwch chi ar gyfraith achosion, er enghraifft, bu'n rhaid i awdurdodau lleol, yn y gorffennol, amlinellu pwy fyddent yn eu cynorthwyo, pa feini prawf fyddai'n cael eu defnyddio, ac yna, os bydd pobl yn bodloni'r meini prawf hynny, yna mae'n rhaid rhoi cefnogaeth a chymorth. Yr hyn na chânt ei wneud yw gwadu cymorth a chefnogaeth i bobl ar ôl sefydlu'r meini prawf hynny.

13:40 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I'm well aware, First Minister, how the system works now, and how it will work in the future. The crucial element is, of course, as you've just said, whether they fit the criteria. I'm asking you, because I'm sure your Government will have wanted to do this work, how many people you anticipate will no longer fit eligibility criteria as a result of those regulations, and whether you anticipate a drop in numbers that will be eligible for support under the new system as opposed to the old system. The reality is that, if those regulations are passed next week, your Government will offload responsibility for care to the voluntary sector, unpaid carers, friends and relatives, who are already struggling, if they're in the voluntary sector, to maintain their funding, and struggling, if they're carers, to do what they want to do for their relatives. First Minister, I'm glad that you've said that no-one who is currently eligible will lose their support. That, actually, is very welcome, and I'm sure you will want to hold local authorities to that next year. But, First Minister, are you satisfied that your Government is allowing local authorities to offload support in this way?

Rwy'n gwbl ymwybodol, Brif Weinidog, o sut mae'r system yn gweithio nawr, a sut y bydd yn gweithio yn y dyfodol. Yr elfen hanfodol, wrth gwrs, fel yr ydych chi newydd ei ddweud, yw pa un a ydyn nhw'n bodloni'r meini prawf. Rwy'n gofyn i chi, oherwydd rwy'n siŵr y bydd eich Llywodraeth wedi bod yn awyddus i wneud y gwaith hwn, faint o bobl yr ydych chi'n rhagweld na fyddant yn bodloni meini prawf cymhwyso mwyach o ganlyniad i'r rheoliadau hynny, ac a ydych chi'n rhagweld gostyngiad i'r niferoedd a fydd yn gymwys i gael cymorth o dan y system newydd o'i chymharu â'r hen system. Y gwir amdani yw y bydd eich Llywodraeth, os caiff y rheoliadau hynny eu pasio yr wythnos nesaf, yn trosglwyddo cyfrifoldeb am ofal i'r sector gwirfoddol, gofalwyr di-dâl, ffrindiau a pherthnasau, sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd, os ydyn nhw yn y sector gwirfoddol, er mwyn cynnal eu cyllid, ac yn ei chael hi'n anodd, os ydyn nhw'n ofalwyr, i wneud yr hyn maen nhw eisiau ei wneud i'w perthnasau. Brif Weinidog, rwy'n falch eich bod chi wedi dweud na fydd unrhyw un sy'n gymwys ar hyn o bryd yn colli cefnogaeth. Mae hynny i'w groesawu'n fawr, ac rwy'n siŵr y byddwch chi eisiau sicrhau bod awdurdodau lleol yn cadw at hynny y flwyddyn nesaf. Ond, Brif Weinidog, a ydych chi'n fodlon bod eich Llywodraeth yn caniatáu i awdurdodau lleol osod cyfrifoldeb cymorth ar rywun arall fel hyn?

13:41 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

There's no evidence at all to support what the leader of the Liberal Democrats has said. The objective of the Bill, and subsequent regulations and guidance, is to ensure that local authorities are able to provide the service that people would expect, and to ensure, of course, that the method by which they provide that service, and the criteria they use to provide that service, are more transparent. The objective of the Act is to make sure that people are able to get a better level of support than before; that much is true. There is no evidence to suggest that somehow care is being offloaded to others that would lead to detriment to members of the public.

Nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl i gefnogi'r hyn y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi ei ddweud. Nod y Bil, a rheoliadau a chanllawiau dilynol, yw sicrhau y gall awdurdodau lleol ddarparu'r gwasanaeth y byddai pobl yn ei ddisgwyl, ac i sicrhau, wrth gwrs, bod y dull maen nhw'n ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw, a'r meini prawf maen nhw'n eu defnyddio i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw, yn fwy tryloyw. Amcan y Ddeddf yw gwneud yn siŵr y gall pobl gael gwell lefel o gefnogaeth nag o'r blaen; mae cymaint â hynny'n wir. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu, rywsut, bod cyfrifoldeb gofal yn cael ei osod ar eraill, a fyddai'n arwain at anfantais i aelodau o'r cyhoedd.

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:42 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you, Presiding Officer. First Minister, last week, 'Week In, Week Out' did a programme on care in north Wales and, in particular, they raised concerns about the Gwanwyn ward in the Heddfan unit in Wrexham Maelor Hospital. There were 47 allegations—and I use the word 'allegations' because, in fairness, they are unproven. But your Deputy Minister, Vaughan Gething, was asked whether he believed that the ward was safe in Wrexham Maelor Hospital. He did not answer that question. Can you confirm that that ward is safe, and, more importantly, is it your view that it has been safe in the past, given that these 47 allegations have been made?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, gwnaeth 'Week In, Week Out' raglen ar ofal yn y gogledd ac, yn benodol, codwyd pryderon ganddynt ynghylch ward Gwanwyn yn uned Heddfan yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Roedd 47 o honiadau—ac rwy'n defnyddio'r gwair 'honiadau' oherwydd, a bod yn deg, nid ydynt wedi'u profi. Ond gofynnwyd i'ch Dirprwy Weinidog, Vaughan Gething, pa un a oedd yn credu bod y ward yn ddiogel yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Ni atebodd y cwestiwn hwnnw. A allwch chi gadarnhau bod y ward yn ddiogel, ac, yn bwysicach, a ydych chi o'r farn ei bod wedi bod yn ddiogel yn y gorffennol, o ystyried bod y 47 o honiadau hyn wedi eu gwneud?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We have spot checks in place now that examine facilities such as these. They have not identified serious concerns in any facility across Wales. One thing that has to be said is that there have been no allegations of any assaults by staff on patients. The BBC did not make that clear last week. I make it clear now: that has never been the case.

Mae gennym hapwiriadau ar waith nawr sy'n archwilio cyfleusterau fel y rhain. Nid ydyn nhw wedi nodi pryderon difrifol mewn unrhyw gyfleuster ledled Cymru. Un peth y mae'n rhaid ei ddweud yw na fu unrhyw honiadau o unrhyw ymosodiadau gan staff ar gleifion. Ni wnaeth y BBC hynny'n eglur yr wythnos diwethaf. Rwyf fi'n gwneud hynny'n eglur nawr: nid yw hynny wedi bod yn wir erioed.

13:43 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I did ask for a straight 'yes' or 'no', because it was a simple 'yes' or 'no': is there safety on that ward? I think that's important for people to understand. Obviously, the Deputy Minister was offered that opportunity in the programme and chose not to. That programme, along with many reports that have come forward, such as the 'Trusted to Care' report on the Princess of Wales Hospital by Professor Julie—June Andrews, the report that came out last week of the independent inquiry into Cardiff and Vale accident and emergency services, the survey by the BMA, the targeted intervention at Betsi Cadwaladr undertaken by Ann Lloyd, give a general direction of travel, of report after report, showing that there have been serious faults in many aspects of delivery of the NHS in Wales. Two years ago, I asked you whether your Government would commission a Keogh-style inquiry. You have said to me that the reason why you would not commission such a Keogh-style inquiry is because it would cost too much, yet all these reports and all the revelations over the last two years clearly show that a Keogh-style report would have got in under the skin of many of these issues, giving you, the Government, recommendations to deal with, and people could have had confidence restored. Will you now, in light of all these reports, and the revelations that are out there, commission a Keogh-style report in Wales?

Gofynnais am ateb o ddim ond 'oes' neu 'nac oes' gan mai 'oes' neu 'nac oes' syml oedd yr ateb: a oes diogelwch ar y ward honno? Rwy'n credu bod hynny'n bwysig i bobl ei ddeall. Yn amlwg, cynigiwyd y cyfle hwnnw i'r Dirprwy Weinidog yn y rhaglen a dewisodd beidio ag ateb. Mae'r rhaglen honno, ynghyd â llawer o adroddiadau a gyhoeddwyd, fel yr adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal' ar Ysbyty Tywysoges Cymru gan yr Athro Julie—June Andrews, adroddiad yr ymchwiliad annibynnol i wasanaethau damweiniau ac achosion brys Caerdydd a'r Fro a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, yr arolwg gan y BMA, yr ymyrraeth wedi'i thargedu yn Betsi Cadwaladr a gynhaliwyd gan Ann Lloyd, yn rhoi cyfeiriad teithio cyffredinol, o adroddiad ar ôl adroddiad, yn dangos y bu diffygion difrifol mewn sawl agwedd ar ddarpariaeth y GIG yng Nghymru. Ddwy flynedd yn ôl, gofynnais i chi a fyddai eich Llywodraeth yn comisiynu ymchwiliad o fath Keogh. Rydych chi wedi dweud wrthyf mai'r rheswm pam na fyddech chi'n comisiynu ymchwiliad o fath Keogh yw oherwydd y byddai'n costio gormod, ac eto mae'r holl adroddiadau hyn a'r holl ddatgeliadau dros y ddwy flynedd diwethaf yn dangos yn eglur y byddai adroddiad o fath Keogh wedi mynd at wraidd llawer o'r materion hyn, gan roi argymhellion i chi, y Llywodraeth, ymdrin â nhw, a gellid bod wedi adfer ffydd pobl. A wnewch chi nawr, yng ngoleuni'r holl adroddiadau hyn, a'r datgeliadau a wnaed, gomisiynu adroddiad o fath Keogh yng Nghymru?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, the very fact that there have been these reports, and action has been taken as a result of them, shows that the system is working. Yes, there have been problems in the Welsh NHS. Nobody is going to deny that. We all saw what happened at Tawel Fan. My own hospital, the Princess of Wales, has had difficult issues that it's had to deal with, and action was taken. The 'Trusted to Care' report has shown that. Professor June Andrews—and it's June Andrews, not Julie Andrews, as he put it—has followed up on the work that she has done, and that work still continues. The fact is we have a robust reporting system. We have spot checks in place, and those spot checks have revealed no serious problems with the delivery of the Welsh NHS. An inquiry as he has described, the public inquiry that he has called for, would involve lawyers and would cost millions. Best spend that money on patients and not lawyers.

Wel, mae'r union ffaith y cafwyd yr adroddiadau hyn, a bod camau wedi eu cymryd o ganlyniad iddynt, yn dangos bod y system yn gweithio. Do, cafwyd problemau yn y GIG yng Nghymru. Nid oes unrhyw un yn mynd i wadu hynny. Gwelodd pob un ohonom ni'r hyn a ddigwyddodd yn Nhawel Fan. Mae fy ysbyty fy hun, Tywysoges Cymru, wedi cael problemau anodd y bu'n rhaid iddi ymdrin â nhw, a chymerwyd camau. Mae'r adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal' wedi dangos hynny. Mae'r Athro Andrews—a June Andrews yw hi, nid Julie Andrews fel y dywedodd ef—wedi gwneud gwaith dilynol ar y gwaith y mae hi wedi ei wneud, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau. Y ffaith amdani yw bod gennym ni system adrodd gadarn. Mae gennym ni haparchwiliadau ar waith, ac nid yw'r haparchwiliadau hynny wedi datgelu unrhyw broblemau difrifol â darpariaeth y GIG yng Nghymru. Byddai ymchwiliad fel y mae ef wedi ei ddisgrifio, yr ymchwiliad cyhoeddus y mae wedi galw amdano, yn golygu defnyddio cyfreithwyr ac yn costio miliynau. Mae'n well gwario'r arian hwnnw ar gleifion ac nid cyfreithwyr.

13:45 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, you can try and divert attention by trying to take the mick out of what I've said to you today. I did say June Andrews. Everyone understands exactly the point I was making, and everyone understands that you were acting as the roadblock to actually getting an overall impression of exactly where the NHS is, led by a clinician who could deal with many, many of these serious allegations. Time and time again, we deal in a pocket battle-type situation, with postcode reports done in various parts of Wales, rather than looking across the whole of Wales to see how we can look at best practice. And there is much good practice in the Welsh NHS, but, sadly, these reports identify many areas that need dramatic improvement.

Brif Weinidog, gallwch geisio tynnu sylw oddi ar y mater trwy geisio gwneud hwyl ar ben yr hyn yr wyf wedi ei ddweud wrthych chi heddiw. June Andrews ddywedais i. Mae pawb yn deall yr union bwynt yr oeddwn i'n ei wneud, ac mae pawb yn deall eich bod chi'n cynrychioli'r rhwystr i gael yr argraff gyffredinol o'r union sefyllfa y mae'r GIG ynddi, dan arweiniad clinigydd a allai ymdrin â llawer iawn o'r honiadau difrifol hyn. Dro ar ôl tro, rydym ni'n ymdrin â sefyllfa o frwydr poced, gydag adroddiadau cod post yn cael eu gwneud mewn gwahanol rannau o Gymru, yn hytrach nag edrych ar draws Cymru gyfan i weld sut allwn ni edrych ar arfer gorau. A cheir llawer o arfer da yn y GIG yng Nghymru, ond, yn anffodus, mae'r adroddiadau hyn yn nodi llawer o ardaloedd sydd angen gwelliant tra sylweddol.

I also called for a duty of candour to be brought forward some two years ago. That is in the Green Paper. You could bring that forward now, if you so chose, as a Government, rather than have it in a Green Paper that will not see the light of day this side of the Assembly election. Why, why, First Minister, do you constantly stop making these improvements in the Welsh NHS that could give confidence to people, whether they're patients or clinicians working in our NHS? We need a Keogh-style inquiry. We need a duty of candour. I've asked for two years for that. Why won't you grant it?

Galwais hefyd am ddyletswydd o onestrwydd i gael ei chyflwyno tua dwy flynedd yn ôl. Mae hynny yn y Papur Gwyrdd. Gallech chi gyflwyno honno nawr, pe byddech chi'n dewis, fel Llywodraeth, yn hytrach na'i chael mewn Papur Gwyrdd na fydd yn gweld golau dydd yr ochr hon i etholiad y Cynulliad. Pam, pam, Brif Weinidog, ydych chi'n rhoi'r gorau'n gyson i wneud y gwelliannau hyn yn y GIG yng Nghymru a allai roi hyder i bobl, pa un a ydyn nhw'n gleifion neu'n glinigwyr sy'n gweithio yn ein GIG? Mae angen ymchwiliad o fath Keogh arnom. Mae angen dyletswydd o onestrwydd arnom. Rwyf wedi gofyn am hynny ers dwy flynedd. Pam na wnewch chi ganiatáu hynny?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

There is no need for a Keogh-style inquiry. We already have the reports that have been mentioned. They have done their job, they have dealt with situations as they have arisen, and spot checks have been put in place to ensure they don't arise in the future. I have to say to the leader of the opposition: he stands here and asks questions about health. We've just had an in-year cut of £50 million to our budget. Let me tell him what that would've bought: 62 community hospital wards, 50 medical wards in terms of 50 people on those wards, 327 consultants, 500 doctors, 1,100 nurses, 12,000 orthopaedic operations, and it would pay for 75 per cent of the cost of our district nurses. I am not going to take lectures from him on health when he says absolutely nothing when our own budget is cut. If he'd have stood up against his own party leader in London and said, 'A £50 million cut to the Welsh public service budget is unacceptable', I'd have more respect for him, but now, he stands there and complains, but will not stand up for Wales.

Nid oes angen ymchwiliad o fath Keogh. Mae'r adroddiadau sydd wedi eu crybwyll gennym eisoes. Maen nhw wedi gwneud eu gwaith, maen nhw wedi ymdrin â sefyllfaoedd wrth iddyn nhw godi, ac mae haparchwiliadau wedi eu cyflwyno i sicrhau nad ydyn nhw'n codi yn y dyfodol. Mae'n rhaid i mi ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid: mae'n sefyll yma ac yn gofyn cwestiynau am iechyd. Rydym ni newydd gael toriad o £50 miliwn i'n cyllideb yn ystod y flwyddyn. Gadewch i mi ddweud wrtho beth fyddai hynny wedi ei brynu: 62 o wardiau ysbyty cymuned, 50 o wardiau meddygol o ran 50 o bobl ar y wardiau hynny, 327 o ymgynghorwyr, 500 o feddygon, 1,100 o nyrsys, 12,000 o lawdriniaethau orthopedig, a byddai'n talu am 75 y cant o gost ein nyrsys ardal. Nid wyf yn mynd i dderbyn darlithoedd ganddo ef ar iechyd pan ei fod yn dweud dim byd o gwbl pan fydd ein cyllideb ein hunain yn cael ei thorri. Pe byddai wedi sefyll i fyny i arweinydd ei blaid ei hun yn Llundain a dweud, 'Mae toriad o £50 miliwn i gyllideb gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn annerbyniol', byddai gennyf fwy o barch iddo, ond nawr, mae'n sefyll yn y fan yna ac yn cwyno, ond ni wnaiff sefyll dros Gymru.

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We finally move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn yn olaf at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:47 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, mae Llywodraeth San Steffan wedi datgan y bydd disgwyl i S4C wneud toriadau sylweddol. Beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddyfodol S4C?

Thank you, Presiding Officer. First Minister, the Westminster Government has stated that S4C will be expected to make substantial cuts. What is the Welsh Government's position on the future of S4C?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n annerbyniol, wrth gwrs, fel y dywedais i yn fy ateb yn gynharach, ac mae yna lythyr yn dod at arweinwyr y pleidiau er mwyn inni, wrth gwrs, drafod y pwnc yn drawsbleidiol.

It's unacceptable, of course, as I said in my earlier reply, and a letter is on its way to the party leaders so that we can, of course, discuss the subject across the parties.

13:48 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch. Fel y gwyddoch, mae'r rhan fwyaf o arian S4C yn dod o ffi'r drwydded. Mae hefyd ran o arian S4C yn dod o Lywodraeth San Steffan. Mae'n debyg y bydd yr arian yn cael ei dorri. Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o angen ariannol S4C?

Thank you. As you know, most of S4C's funding comes from the licence fee. Part of S4C's funding also comes from the Westminster Government. It is likely that that funding will be cut. What assessment have you made of the financial needs of S4C?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae rhai adroddiadau yn dweud y dylai S4C golli £30 miliwn. Byddai hwnnw'n doriad mawr. Y broblem yw hyn, wrth gwrs: mae'r system drwyddedu yn sigledig dros ben. Os yw'r BBC yn credu bod yna ffordd o estyn y system drwyddedu i bobl sy'n gwylio'r BBC ar yr iPlayer, er enghraifft, ym mha ffordd mae hynny'n mynd i gael ei blismona? Ym mha ffordd mae hynny'n mynd i allu cael ei fonitro? Na—beth rŷm ni wedi'i weld fan hyn yw cais gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i roi cost ar ben y BBC i rywbeth y maen nhw'n moyn ei wneud fel Llywodraeth, a bydd S4C yn talu o achos hynny. Felly, rwy'n barod, wrth gwrs, fel y dywedais i'n gynharach, i weithio'n drawsbleidiol gyda'r pleidiau eraill er mwyn sicrhau bod dyfodol S4C yn cael ei sicrhau.

Some reports state that S4C should lose £30 million. That would be a big cut. The problem is this, of course: the licensing system is extremely shaky. If the BBC thinks that there's a way of extending the licence fee to people who watch the BBC on iPlayer, for example, how is that going to be policed? How is that going to be able to be monitored? No— what we have seen here is an attempt by the United Kingdom Government to impose an additional cost on the BBC for something that they want to do as a Government, and S4C will have to pay because of that. Therefore, I am willing, of course, as I said earlier, to work on a cross-party basis with the other party leaders in order to ensure that the future of S4C is safeguarded.

13:49 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I welcome your cross-party approach to this, and I'm sure that you would agree with me that S4C is much more than a tv channel—it's a catalyst for creativity with significant cultural and economic benefits for the country, too. In light of further cuts, S4C now faces a fight for survival. What has also come to light is the shoddy way in which the UK Government has decided upon the future of the BBC without proper scrutiny, without consultation and without transparency. Are you now, then, of the view that this Assembly should now take greater responsibility for broadcasting, to secure and prioritise not just S4C, but public broadcasting in general?

Brif Weinidog, rwy'n croesawu eich dull trawsbleidiol o ymdrin â hyn, ac rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno â mi bod S4C yn llawer mwy na sianel teledu—mae'n gatalydd ar gyfer creadigrwydd gyda manteision diwylliannol ac economaidd sylweddol i'r wlad, hefyd. Yng ngoleuni toriadau pellach, mae S4C yn wynebu brwydr i oroesi erbyn hyn. Yr hyn sydd hefyd wedi dod i'r amlwg yw'r ffordd wael y mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu ar ddyfodol y BBC heb graffu priodol, heb ymgynghori a heb dryloywder. A ydych chi bellach o'r farn, felly, y dylai'r Cynulliad hwn gymryd mwy o gyfrifoldeb am ddarlledu nawr, i sicrhau a blaenoriaethu nid yn unig S4C, ond darlledu cyhoeddus yn gyffredinol?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm sympathetic to the idea of looking at how we can have a greater say in broadcasting, that much is true. For example, there's no reason why we shouldn't have equivalent powers to the Scottish Government when it comes to the BBC charter. In terms of funding S4C, it's a substantial amount of money. The UK Government take the view that broadcasting isn't devolved. Therefore, they have a responsibility to fund all broadcasting properly. I can't quite understand the BBC's thinking in taking on board a £650 million burden for someone else's policy, and in some way extending the licence system to pay for it. We all know that the licence system is becoming more and more difficult to collect, because more and more people are watching BBC programmes on electronic devices. How do you monitor that? How do you police that? It is very, very difficult. It is becoming more and more difficult to see how the licence model will work in the future and that, of course, then imperils the future of S4C. But this is typical. When Jeremy Hunt was the culture Secretary, he had no real idea of what he wanted to do with S4C. I met him, and it was fairly clear that they hadn't thought very strongly about it. It's the same this time around. It's about time the Welsh language was not seen as an afterthought by the UK Government.

Wel, rwy'n cydymdeimlo â'r syniad o edrych ar sut allwn ni gael mwy o lais mewn darlledu, mae cymaint â hynny'n wir. Er enghraifft, nid oes unrhyw reswm pam na ddylem ni gael pwerau cyfatebol i Lywodraeth yr Alban pan ddaw i siarter y BBC. O ran cyllid S4C, mae'n swm sylweddol o arian. Mae Llywodraeth y DU o'r farn nad yw darlledu wedi'i ddatganoli. Felly, mae ganddyn nhw gyfrifoldeb i ariannu'r holl faes darlledu'n briodol. Ni allaf ddeall meddylfryd y BBC o ran derbyn baich o £650 miliwn ar sail polisi rhywun arall, ac ymestyn y system drwydded mewn rhyw ffordd i dalu am hynny. Rydym ni i gyd yn gwybod bod y system drwydded yn dod yn fwyfwy anodd ei chasglu, gan fod mwy a mwy o bobl yn gwylio rhaglenni'r BBC ar ddyfeisiau electronig. Sut ydych chi'n monitro hynny? Sut ydych chi'n plismona hynny? Mae'n anodd iawn, iawn. Mae'n dod yn fwyfwy anodd gweld sut y bydd y model trwydded yn gweithio yn y dyfodol ac mae hynny, wrth gwrs, yn peryglu dyfodol S4C wedyn. Ond mae hyn yn nodweddiadol. Pan roedd Jeremy Hunt yn Ysgrifennydd diwylliant, nid oedd ganddo unrhyw syniad o'r hyn yr oedd eisiau ei wneud gydag S4C mewn gwirionedd. Cefais gyfarfod ag ef, ac roedd yn weddol amlwg nad oedden nhw wedi meddwl rhyw lawer am y peth. Mae yr un fath y tro hwn. Mae'n hen bryd i'r iaith Gymraeg beidio â chael ei gweld fel ôl-ystyriaeth gan Lywodraeth y DU.

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper. Question 3 is from Christine Chapman.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr. Daw Cwestiwn 3 gan Christine Chapman.

### Lefelau Tlodi Plant

### Child Poverty Levels

13:51 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i'r effaith y bydd newidiadau i'r system les a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn ei chael ar lefelau tlodi plant yng Nghymru? OAQ(4)2392(FM)*

*3. What consideration has the Welsh Government given to the effects on child poverty levels in Wales of welfare system changes brought in by the UK Government? OAQ(4)2392(FM)*

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Analysis by the Institute for Fiscal Studies on the impact of the changes in Wales suggests that it is those around the poverty line, and particularly those with children, who are expected to see the largest income losses. That is bound to impact negatively on child poverty.

Mae dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar effaith y newidiadau yng Nghymru yn awgrymu mai'r rhai o gwmpas y llinell dlodi, a'r rhai â phlant yn enwedig, y disgwylir iddynt weld y golled fwyaf mewn incwm. Mae hynny'n siŵr o gael effaith negyddol ar dlodi plant.

13:52 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. You will be aware, First Minister, of the call by the four UK children's commissioners, including Welsh commissioner Sally Holland, for the UK Government to think again and cancel its policy of savage welfare cuts, as they rightly recognise the devastating impact these have had on children and young people, including here in Wales. The commissioners say that any changes should not impact on particular groups such as disabled children or children from single-parent families or larger families. How can the Welsh Government best protect these vulnerable children from the worst effects of UK Government changes?

Diolch yn fawr. Byddwch yn ymwybodol, Brif Weinidog, o'r alwad gan bedwar comisiynydd plant y DU, gan gynnwys comisiynydd Cymru, Sally Holland, i Lywodraeth y DU i ailfeddwl a diddymu ei pholisi o doriadau lles ffyrnig, gan eu bod yn cydnabod yn gywir yr effaith ddinistriol y mae'r rhain wedi ei chael ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys yma yng Nghymru. Mae'r comisiynwyr yn dweud na ddylai unrhyw newidiadau effeithio ar grwpiau penodol fel plant anabl neu blant o deuluoedd un rhiant neu deuluoedd mwy. Sut y gall Llywodraeth Cymru ddiogelu'r plant agored i niwed hyn orau rhag effeithiau gwaethaf newidiadau Llywodraeth y DU?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are two points here. The Member asks what we can do to help people. We have Communities First, Families First, of course, and Flying Start. We know, through the evaluation report on Families First, that it has led to improvements in people's situations and, indeed, helped to mitigate child poverty. But we know that the UK Government will abolish child poverty, because they're just going to change the definition of it. That's what the plan is. It's as obvious as that. Last night, I was talking to somebody who works hard, who does have in-work benefits, and who's going to lose them. She said to me: 'Why am I being targeted in this way?' We used to say to people, 'If you get a job, then your income will improve and your financial situation will improve'. That's no longer the case. What the Prime Minister has done is say, 'We're not going to help people who are in work by helping them with benefits; we're going to plead with employers to pay a living wage and, if that doesn't happen, tough luck'. Typical Tories.

Ceir dau bwynt yma. Mae'r Aelod yn gofyn beth allwn ni ei wneud i helpu pobl. Mae gennym ni Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, wrth gwrs, a Dechrau'n Deg. Rydym ni'n gwybod, drwy'r adroddiad gwerthuso ar Teuluoedd yn Gyntaf, ei fod wedi arwain at welliannau i sefyllfaoedd pobl ac, yn wir, wedi helpu i liniaru tlodi plant. Ond rydym ni'n gwybod y bydd Llywodraeth y DU yn dileu tlodi plant, dim ond oherwydd eu bod yn mynd i newid y diffiniad ohono. Dyna beth yw'r cynllun. Mae mor amlwg â hynny. Neithiwr, roeddwn i'n siarad â rhywun sy'n gweithio'n galed, sy'n derbyn budd-daliadau mewn gwaith, ac sy'n mynd i'w colli. Dywedodd hi wrthyf: 'Pam ydw i'n cael fy nhargedu fel hyn?' Roeddem ni'n arfer dweud wrth bobl, 'Os cewch chi swydd, yna bydd eich incwm yn gwella a bydd eich sefyllfa ariannol yn gwella'. Nid yw hynny'n wir erbyn hyn. Yr hyn y mae Prif Weinidog y DU wedi ei wneud yw dweud, 'Nid ydym ni'n mynd i helpu pobl sydd mewn gwaith trwy eu helpu gyda budd-daliadau; rydym ni'n mynd i bledio gyda chyflogwyr i dalu cyflog byw ac, os na fydd hynny'n digwydd, hen dro'. Mae'n nodweddiadol o'r Torïaid.

13:53 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Across the UK, the proportion of children living in low-income households is at its lowest level since the 1980s, but in Wales, of course, your Government's responsible for tackling poverty. Why do you think it is that child poverty in Wales is at the highest level amongst the UK nations, and why is it falling at only half the rate in England and Scotland?

Ledled y DU, mae cyfran y plant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel ar ei lefel isaf ers y 1980au, ond yng Nghymru, wrth gwrs, eich Llywodraeth chi sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â thlodi. Pam ydych chi'n meddwl bod tlodi plant yng Nghymru ar y lefel uchaf o blith gwledydd y DU, a pham mae'n gostwng ar ddim ond hanner y gyfradd yn Lloegr a'r Alban?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It's incredible. He doesn't even attempt to defend his own party's policy. The reality is there is an attack on housing benefit, an attack on hard-working people—that's what they're doing: attacking hard-working people by removing their incomes—and an attack on people who have worked hard. I mean, in England, now, they're going to say to people, 'If you have two people in a household and you earn £15,000 a year each'—below the average salary—'we're going to penalise you with your rent'. A tax on aspiration. It carries the resonance of people having to know their place. Well, we on this side of the Chamber believe that people should have opportunity, and that people should have the chance to make sure that they can develop themselves to their best potential. We will not tax people for their aspiration, as the Tories want to do.

Mae'n anhygoel. Nid yw hyd yn oed yn ceisio amddiffyn polisi ei blaid ei hun. Y gwir amdani yw bod ymosodiad ar fudd-dal tai, ymosodiad ar bobl sy'n gweithio'n galed—dyna maen nhw'n ei wneud: ymosod ar bobl sy'n gweithio'n galed trwy gael gwared ar ei hincwm—ac ymosodiad ar bobl sydd wedi gweithio'n galed. Hynny yw, yn Lloegr, nawr, maen nhw'n mynd i ddweud wrth bobl, 'Os oes gennych chi ddau o bobl mewn cartref a'ch bod yn ennill £15,000 y flwyddyn yr un'—sy'n is na'r cyflog cyfartalog —'rydym ni'n mynd i'ch cosbi chi gyda'ch rhent'. Treth ar ddyhead. Mae'n awgrymu bod yn rhaid i bobl wybod eu lle. Wel, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn credu y dylai pobl gael cyfle, ac y dylai pobl gael y siawns i wneud yn siŵr y gallant ddatblygu eu hunain i'w potensial gorau. Ni fyddwn yn trethu pobl am eu dyhead, fel y mae'r Torïaid eisiau ei wneud.

13:54 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I think the greatest divide between the people on these benches here and the Tories is in the way we actually tackle child poverty. With the Tories, it goes up even when they try to define what child poverty is. The figures are rising, and we're seeing that now. I was therefore very surprised to hear Helen Mary Jones make a comment recently—I know she's reflected on it since—that her best political moment was when Neil Kinnock lost the 1992 election, to see his face then. That actually put more and more children into poverty for those remaining years that that Tory Government stayed in power, and that's the reality of what we do. So, do you agree with me that there are more children now facing poverty, and we hold our breath tomorrow, but we don't hold out any hope that this present UK Tory Government will actually address the issues that many of the families that we're trying to represent will face from their cuts?

Brif Weinidog, rwy'n meddwl mai'r rhaniad mwyaf rhwng y bobl ar y meinciau hyn yma a'r Torïaid yw'r ffordd yr ydym ni'n mynd i'r afael â thlodi plant mewn gwirionedd. Gyda'r Torïaid, mae'n cynyddu hyd yn oed pan fyddant yn ceisio diffinio beth yw tlodi plant. Mae'r ffigurau'n codi, ac rydym ni'n gweld hynny nawr. Roedd yn syndod mawr i mi, felly, glywed Helen Mary Jones yn gwneud sylw yn ddiweddar—gwn ei bod wedi myfyrio arno ers hynny—mai ei hoff foment wleidyddol oedd pan gollodd Neil Kinnock etholiad 1992, i weld ei wyneb ar yr adeg honno. Rhoddodd hynny fwy a mwy o blant mewn tlodi yn ystod y blynyddoedd eraill hynny a oedd pan roedd y Llywodraeth Dorïaidd yn dal mewn grym, a dyna'r gwir am yr hyn rydym ni'n ei wneud. Felly, a ydych chi'n cytuno â mi bod mwy o blant yn wynebu tlodi nawr, ac rydym ni'n dal ein hanadl yfory, ond nid oes gennym unrhyw obaith y bydd Llywodraeth Dorïaidd bresennol y DU yn mynd i'r afael â'r materion y bydd llawer o'r teuluoedd rydym ni'n ceisio eu cynrychioli yn eu hwynebu yn sgil eu toriadau?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It was a very odd comment by Helen Mary Jones. I know that Plaid Cymru have claims to be a left-of-centre party, I don't know how it is that, by celebrating the election of a right-wing Government in 1992, that claim is actually supported or bolstered.

Roedd yn sylw od iawn gan Helen Mary Jones. Gwn fod Plaid Cymru yn honni ei bod yn blaid i'r chwith o'r canol, nid wyf yn gwybod sut y mae'r honiad hwnnw'n cael ei gefnogi na'i atgyfnerthu trwy ddathlu ethol Llywodraeth adain dde ym 1992.

## Y Sefyllfa Ariannol yn Ewrop

## The Financial Situation in Europe

13:56 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y sefyllfa ariannol yn Ewrop ar hyn o bryd? OAQ(4)2382(FM)*

*4. What discussions has the Welsh Government had with the UK Government regarding the current European financial situation? OAQ(4)2382(FM)*

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We regularly discuss a range of issues with the UK Government, including the current developments within the European Union. I think it's right to say we all hope that European leaders can reach a deal that will put Greece back on the right course. It's important not just for the eurozone, but for Britain as well.

Rydym ni'n trafod amrywiaeth o faterion gyda Llywodraeth y DU yn rheolaidd, gan gynnwys y datblygiadau presennol yn yr Undeb Ewropeaidd. Rwy'n meddwl ei fod yn iawn dweud ein bod i gyd yn gobeithio y gall arweinwyr Ewropeaidd ddod i gytundeb a fydd yn rhoi Gwlad Groeg yn ôl ar y trywydd cywir. Mae'n bwysig nid yn unig i ardal yr ewro, ond i Brydain hefyd.

13:56 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. As you've shown, I'm not alone in this Chamber in hoping that, following Sunday's referendum in Greece, a fair, just and sustainable solution to the Greek debt crisis can now be found. Unfortunately, in the interim, the situation in Greece and the continuing uncertainty surrounding the future of the euro will almost certainly take its toll on European markets. In the last financial year, the value of exports from Wales to the European Union was around £6.5 billion. Given this, First Minister, can you outline what measures the Westminster Government is putting in place to assist Welsh companies that may be facing cash flow difficulties as a result of the current troubles?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Fel rydych chi wedi ei ddangos, nid wyf ar ben fy hun yn y Siambr hon o ran fy mod yn gobeithio y gellir dod o hyd i ateb teg, cyfiawn a chynaliadwy i argyfwng dyled Gwald Groeg bellach, yn dilyn y refferendwm ddydd Sul yng Ngwlad Groeg. Yn anffodus, yn y cyfamser, bydd y sefyllfa yng Ngwlad Groeg a'r ansicrwydd parhaus ynghylch dyfodol yr ewro bron yn sicr o gael effaith andwyol ar farchnadoedd Ewropeaidd. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, tua £6.5 biliwn oedd gwerth allforion o Gymru i'r Undeb Ewropeaidd. O ystyried hyn, Brif Weinidog, a allwch chi amlinellu pa fesurau mae Llywodraeth San Steffan yn eu rhoi ar waith i gynorthwyo cwmnïau o Gymru a allai fod yn wynebu anawsterau llif arian o ganlyniad i'r trafferthion presennol?

13:57

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, we all hope to see a solution to the crisis. I think there's a level of reality that's needed on both sides. I think, from the Greek point of view, shouting at people whose money you want is not a wise tactic. On the side of the European Central Bank, I think it has to be recognised, for example, that the people of Greece work more hours. I think it's right to say that they are the second highest in terms of number of hours worked in the world, in terms of developed countries, so we're talking here about people who work very hard and who have seen their incomes hit year after year after year, and that has to be recognised. So, I hope that there is a level of compromise that's reached between the two sides.

Yn gyntaf oll, rydym i gyd yn gobeithio gweld ateb i'r argyfwng. Rwy'n meddwl bod angen lefel o realiti ar y ddwy ochr. Rwy'n meddwl, o safbwynt Gwlad Groeg, nad yw gweiddi ar bobl yr ydych chi eisiau eu harian yn dacteg ddoeth. O safbwynt Banc Canolog Ewrop, rwy'n credu bod yn rhaid cydnabod, er enghraifft, bod pobl Gwlad Groeg yn gweithio mwy o oriau. Rwy'n meddwl ei fod yn gywir i ddweud mai nhw yw'r ail uchaf o ran nifer yr oriau a weithir yn y byd, o ran gwledydd datblygedig, felly rydym ni'n sôn yma am bobl sy'n gweithio'n galed iawn ac sydd wedi gweld eu hincwm yn cael ei daro flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mae'n rhaid cydnabod hynny. Felly, rwy'n gobeithio bod lefel o gyfaddawd y gellir ei gyrraedd rhwng y ddwy ochr.

I can say, in terms of businesses working in Greece or exporting to Greece, the Department for Business, Innovation and Skills and the Treasury have issued guidance for business on temporary capital controls that are in place in Greece. Where Welsh businesses believe they may be at risk from the Greek capital controls, they should contact the business debt line for advice on cash flow, which available on the Gov.uk website. I can say that total exports to Greece represent under 1 per cent of total Welsh exports. So, there will be some businesses, of course, that will be affected, but in terms of the overall impact on Welsh exports, that, at the moment, is small. But the effect on Wales and on Britain of a Greek default and a Greek exit from the euro are significant.

Gallaf ddweud, o ran busnesau sy'n gweithio yng Ngwlad Groeg neu'n allforio i Wlad Groeg, bod yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Trysorlys wedi cyhoeddi canllawiau i fusnesau ar reolaethau cyfalaf dros dro sydd ar waith yng Ngwlad Groeg. Pan fo busnesau yng Nghymru yn credu y gallen nhw fod mewn perygl yn sgil rheolaethau cyfalaf Gwlad Groeg, dylen nhw gysylltu â'r llinell dyledion busnes am gyngor ar lif arian, sydd ar gael ar wefan Gov.uk. Gallaf ddweud bod cyfanswm yr allforion i Wlad Groeg yn cynrychioli llai nag 1 y cant o gyfanswm yr allforion o Gymru. Felly, bydd rhai busnesau, wrth gwrs, a fydd yn cael eu heffeithio, ond o ran yr effaith gyffredinol ar allforion o Gymru, bach yw honno ar hyn o bryd. Ond byddai effaith Gwlad Groeg yn diffygdalu ac yn gadael yr ewro yn sylweddol, ar Gymru ac ar Brydain.

13:58

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, what advice would you give to Welsh tourists going to Greece, other than to take a lot of cash with them? It appears that the systems there are about to break down even further. Although I'm sure we would all welcome a resolution of this long-standing problem, you will know, First Minister, that Greece, unfortunately, has had a period where corruption appears to be endemic, paying tax appears to be voluntary, and the economy's been mismanaged for many years. Let's hope that this can be resolved quickly.

Brif Weinidog, pa gyngor fyddech chi'n ei roi i dwristiaid yng Nghymru sy'n mynd i Wlad Groeg, heblaw mynd â llawer o arian parod gyda nhw? Mae'n ymddangos bod y systemau yno ar fin torri i lawr hyd yn oed ymhellach. Er fy mod i'n siŵr y byddai pob un ohonom yn croesawu ateb i'r broblem hirhoedlog hon, byddwch yn gwybod, Brif Weinidog, bod Gwlad Groeg, yn anffodus, wedi cael cyfnod lle mae'n ymddangos bod llygredigaeth yn endemig, bod talu treth yn ymddangos yn wirfoddol, a bod yr economi wedi cael ei chamreoli ers blynyddoedd lawer. Gadewch i ni obeithio y gellir datrys hyn yn gyflym.

13:59

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I would advise tourists to look at the Foreign and Commonwealth Office website. It provides travel guidance for all those going to countries across the world. That website gives advice to people in terms of carrying cash, that's true, and in terms of security, but it does not say that people shouldn't go to Greece. Tourism is an exceptionally important part of the Greek economy. If people don't go to Greece, then of course that will have an even greater negative effect on the country.

Wel, byddwn yn cynghori ymwelwyr i edrych ar wefan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Mae'n cynnig canllawiau teithio i bawb sy'n mynd i wledydd ledled y byd. Mae'r wefan honno'n rhoi cyngor i bobl o ran cario arian parod, mae hynny'n wir, ac o ran diogelwch, ond nid yw'n dweud na ddylai pobl fynd i Wlad Groeg. Mae twristiaeth yn rhan eithriadol o bwysig o economi Gwlad Groeg. Os na fydd pobl yn mynd i Wlad Groeg, yna, wrth gwrs, bydd hynny'n cael effaith fwy negyddol fyth ar y wlad.

13:59 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, a fyddech chi'n cytuno bod sicrhau sefydlogrwydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd—gan gynnwys Gwlad Groeg, wrth reswm—yn eithriadol o bwysig i fusnesau o Gymru, gan fod y farchnad honno yn farchnad sy'n cynrychioli prif farchnad Cymru, a'r Deyrnas Unedig, o ran hynny? A ydych chi'n cynnal trafodaethau ar hyn o bryd gyda Llywodraeth San Steffan a chyda'r Undeb Ewropeaidd er mwyn sicrhau bod y farchnad honno yn cael ei diogelu i fusnesau o Gymru?

First Minister, would you agree that ensuring stability within the European Union—including Greece, of course—is exceptionally important for Welsh businesses, because that market is one that represents the main market for Wales, and the United Kingdom, for that matter? Are you holding any discussions at present with the Westminster Government and the European Union in order to ensure that that market is safeguarded for Welsh businesses?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi sôn yn barod am yr arweiniad sydd ar gael, y canllawiau sydd ar gael, i fusnesau. Mae'n wir i ddweud nad oes neb yn gwybod ar hyn o bryd beth yn gwmws sy'n mynd i ddigwydd dros yr wythnosau nesaf, a faint o arian fydd yn economi Groeg. Rydym ni'n gwybod taw tua £2 biliwn i £3 biliwn o arian cadw sydd gyda nhw; nid yw hynny'n ddim byd o ystyried economi gwlad. Beth sy'n bwysig yw bod yna gytundeb ac felly bod arian yn gallu cael ei roi i mewn i economi Groeg, bod y banciau yn gallu cael arian unwaith eto, a bod pethau yn gallu cael ei normaleiddio yna.

I've already mentioned the guidance available for businesses. It's true to say that nobody yet knows what will happen over ensuing weeks, and how much money there will be in the Greek economy. We know that they have reserves of some £2 billion to £3 billion; that's virtually nothing given the scale of the country's economy. What's important is that agreement is reached and that money can be put into the Greek economy, and that the banks can access finance again, and things can be normalised there.

## Adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal'

## The 'Trusted to Care' Report

14:01 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithredu'r adroddiad Ymddiried mewn Gofal? (OAQ(4)2385(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the implementation of the Trusted to Care report? (OAQ(4)2385(FM)*

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. An extensive programme of work has been undertaken at a local and national level to address the concerns raised within the 'Trusted to Care' report. We will be publishing a report in the early autumn setting out what's been done, which is leading to improved quality of care.

Gwnaf. Ymgymerwyd â rhaglen helaeth o waith ar lefel lleol a chenedlaethol i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal'. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ddechrau'r hydref yn nodi'r hyn sydd wedi ei wneud, ac sy'n arwain at ansawdd gofal gwell.

14:01 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, but recently some of the campaigners, who actually live in your constituency of Bridgend, received an anonymous letter from some people who work at the hospital, and they are still saying that morale is very low and that they feel that nurses are being scapegoated in all of this. They say the board has appointed six new nurse directors, six medical directors and six unit directors on salaries of up to £100,000. Those promoted to these positions include middle management in charge of the wards that prompted this particular Andrews review. Now, First Minister, this doesn't really reflect to me that things are changing as fast as they need to in the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board area. So, what are you doing in your leadership capacity to make sure that changes are happening and not just that spot-checks are being administered? What more are you doing, First Minister?

Diolch ichi am yr ateb yna, ond, yn ddiweddar, derbyniodd rhai o'r ymgyrchwyr, sy'n byw yn eich etholaeth chi ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a dweud y gwir, lythyr dienw gan rai pobl sy'n gweithio yn yr ysbyty, ac maen nhw'n dal i ddweud bod ysbryd y staff yn isel iawn a'u bod yn teimlo mai nyrsys sy'n dioddef yn hyn i gyd. Maen nhw'n dweud bod y bwrdd wedi penodi chwe chyfarwyddwr nyrsio newydd, chwe chyfarwyddwr meddygol a chwe chyfarwyddwr uned ar gyflogau o hyd at £100,000. Mae'r rhai a ddyrchafwyd i'r swyddi hyn yn cynnwys rheolwyr canol a oedd yn gyfrifol am y wardiau a sbardunodd yr adolygiad Andrews penodol hwn. Nawr, Brif Weinidog, nid yw hyn wir yn awgrymu i mi fod pethau'n newid mor gyflym ag y mae angen iddyn nhw wneud yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Felly, beth ydych chi'n ei wneud yn eich swyddogaeth arweinyddol i sicrhau bod newidiadau'n digwydd ac nid dim ond bod haparchwiliadau'n cael eu cynnal? Beth arall ydych chi'n ei wneud, Brif Weinidog?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can say that the 'Trusted to Care' report has the support and confidence of the vast majority of my constituents. That I can say. If Professor Andrews is unhappy with anything that has been done since, she is of course free to say so. I can say that the last and final meeting of the chief executive and the executive team took place on 1 June 2015. Professor Andrews is still involved, because, this month, a follow-up review is scheduled to take place; Professor Andrews will be there, and we await, of course, the outcome of that review. If the allegations in the anonymous letter are true, then we would, of course, expect Professor Andrews to refer to that.

Gallaf ddweud bod mwyafrif llethol fy etholwyr yn cefnogi'r adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal', a bod ganddynt hyder ynddo. Gallaf ddweud hynny. Os yw'r Athro Andrews yn anhapus ag unrhyw beth sydd wedi cael ei wneud ers hynny, mae croesi iddi ddweud hynny, wrth gwrs. Gallaf ddweud y cynhaliwyd y cyfarfod olaf a therfynol rhwng y prif weithredwr a'r tîm gweithredol ar 1 Mehefin, 2015. Mae'r Athro Andrews yn dal i gymryd rhan, oherwydd, y mis hwn, bwriedir cynnal adolygiad dilynol; bydd yr Athro Andrews yno, ac rydym ni'n aros, wrth gwrs, am ganlyniad yr adolygiad hwnnw. Os yw'r honiadau yn y llythyr dienw yn wir, yna byddem, wrth gwrs, yn disgwyl i'r Athro Andrews gyfeirio at hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **David Rees** Bywgraffiad Biography

First Minister, last month, I actually attended a briefing for all AMs in our region on the work undertaken by AMBU in relation to the Andrews report, and actually was pleased to see the progress that was being reported on the recommendations in that report relating to ABMU. As you've said now, I'm aware Professor Andrews is actually returning this month—in fact, I think she's actually there this week—for follow-up work. I also await the outcome of that follow-up assessment and her views on the progress being made. However, there are four recommendations for the Welsh Government in that report. You've indicated briefly that you will make a statement or report later this year, but what actions have been taken on these to date, and when will we receive the update from the Minister on that report and the actions taken on those recommendations specifically?

Brif Weinidog, y mis diwethaf, roeddwn yn bresennol mewn cyfarfod briffio ar gyfer pob AC yn ein rhanbarth ar y gwaith a wnaed gan PABM o ran adroddiad Andrews, ac roeddwn yn falch o weld y cynnydd a oedd yn cael ei adrodd ar yr argymhellion yn yr adroddiad hwnnw'n ymwneud â PABM. Fel yr ydych chi newydd ddweud, rwy'n ymwybodol bod yr Athro Andrews yn dychwelyd y mis hwn—rwy'n meddwl ei bod hi yno yr wythnos hon a dweud y gwir—ar gyfer gwaith dilynol. Rwyf hefyd yn aros am ganlyniad yr asesiad dilynol hwnnw a'i safbwyntiau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud. Fodd bynnag, ceir pedwar argymhelliad i Lywodraeth Cymru yn yr adroddiad hwnnw. Rydych chi wedi nodi'n gryno y byddwch yn gwneud datganiad neu adroddiad yn ddiweddarach eleni, ond pa gamau a gymerwyd ar y rhain hyd yn hyn, a phryd byddwn ni'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog ar yr adroddiad hwnnw a'r camau a gymerwyd ar yr argymhellion hynny'n benodol?

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, as the Member has already said, there will be a further statement in the autumn. I should add that Professor Andrews herself will be visiting both Neath Port Talbot Hospital and the Princess of Wales Hospital this month; she will be speaking to clinical staff, to managers, and to board members as well as others, and it's entirely a matter for her to determine who she speaks to. She is not under any instruction of any kind. The whole point of the report was to provide an independent and objective assessment, and that's precisely what Professor Andrews has done.

Wel, fel y mae'r Aelod wedi dweud eisoes, bydd datganiad pellach yn yr hydref. Dylwn ychwanegu y bydd yr Athro Andrews ei hun yn ymweld ag Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Tywysoges Cymru y mis hwn; bydd yn siarad gyda staff clinigol, gyda rheolwyr, a chydag aelodau o'r bwrdd yn ogystal ag eraill, ac mae'n fater iddi hi'n gyfan gwbl i benderfynu pwy mae hi'n siarad â nhw. Nid yw hi o dan unrhyw gyfarwyddyd o unrhyw fath. Holl bwynt yr adroddiad oedd darparu asesiad annibynnol a gwrthrychol, a dyna'n union y mae'r Athro Andrews wedi ei wneud.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

First Minister, one of the problems identified in the 'Trusted to Care' report, and, indeed, the recent report into the problems at the Tawel Fan unit, was that complaints were often being made but not properly being addressed by the individual health boards concerned, and very often there was no learning from complaints once they had been upheld. What action are you taking as a Government to ensure that there is learning from the complaints system—and not just complaints made by patients and their families, but also by members of staff, who were often discouraged from making complaints for fear of retribution by managers?

Brif Weinidog, un o'r problemau a nodwyd yn adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal', ac, yn wir, yr adroddiad diweddar ar y problemau yn uned Tawel Fan, oedd bod cwynion yn aml yn cael eu gwneud ond nad oeddent yn cael sylw gan y byrddau iechyd unigol dan sylw, ac yn aml iawn nid oedd unrhyw ddysgu o gwynion ar ôl iddyn nhw gael eu cadarnhau. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd fel Llywodraeth i sicrhau y ceir dysgu o'r system gwynion—ac nid dim ond cwynion a wneir gan gleifion a'u teuluoedd, ond hefyd gan aelodau staff, a oedd yn aml yn cael eu hatal rhag gwneud cwynion gan eu bod yn ofni dial gan reolwyr?

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, of course, the whistleblowing procedures are in place, but I can offer evidence of what's happened in terms of complaints. He is right—he won't hear that often from me, but he is right to say that there was a severe problem with the dealing of complaints at the Princess of Wales Hospital. There were, I understand, some 200 complaints that were literally sitting on a desk. The new complaints manager came in and visited, I understand, personally each and every one of the people who had made complaints in order to apologise to them and take those complaints forward, something I very much welcome: that's how people should be treated when the system has not worked as they should expect. But as a result, of course, of 'Trusted to Care'—in fact, before 'Trusted to Care' was actually commissioned—work was carried out to make sure that complaints were dealt with in a timely and thorough fashion, and that's been done with the new team that's in place at the hospital.

Wel, wrth gwrs, mae'r gweithdrefnau chwythu'r chwiban ar waith, ond gallaf gynnig tystiolaeth o'r hyn sydd wedi digwydd o ran cwynion. Mae'n iawn—ni fydd yn clywed hynny'n aml gennyf i, ond mae'n iawn i ddweud y bu problem ddifrifol gydag ymdrin â chwynion yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Rwy'n deall bod tua 200 o gwynion a oedd yn eistedd ar ddesg, a hynny'n llythrennol. Daeth y rheolwr cwynion newydd i mewn ac ymwelodd, rwy'n deall, â phob un o'r bobl a oedd wedi gwneud cwynion yn bersonol er mwyn ymddiheuro iddyn nhw a bwrw ymlaen â'r cwynion hynny, rhywbeth rwy'n ei groesawu'n fawr: dyna sut y dylid trin pobl pan na fydd y system wedi gweithio fel y dylent ddisgwyl iddi wneud. Ond o ganlyniad, wrth gwrs, i 'Ymddiried mewn Gofal'—cyn comisiynu 'Ymddiried mewn Gofal' a dweud y gwir—gwnaed gwaith i sicrhau yr ymdriniwyd â chwynion mewn modd prydlon a thrylwyr, a gwnaed hynny gyda'r tîm newydd sydd wedi'i sefydlu yn yr ysbyty.

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

First Minister, I noted that the number of complaints in ABMU has, in fact, reduced quite significantly, and that's very welcome. Like David Rees, I was also at the briefing on the implementation of 'Trusted to Care' in ABMU. There is, though, a lot of concern about the appointment of the senior management posts, as Bethan Jenkins has outlined. Can I ask you what scrutiny does the Welsh Government apply to health boards in terms of the sort of ratio of management costs to staff costs in this, and are you satisfied that that extra expenditure on management is actually justified and will make a difference in terms of how the health board is run?

Brif Weinidog, nodais fod nifer y cwynion yn PABM wedi gostwng yn eithaf sylweddol, a dweud y gwir, ac mae hynny i'w groesawu'n fawr. Fel David Rees, roeddwn innau hefyd yn y cyfarfod briffio ar weithredu 'Ymddiried mewn Gofal' yn PABM. Fodd bynnag, ceir llawer o bryder ynghylch penodi i'r swyddi uwch reolwyr, fel y mae Bethan Jenkins wedi ei amlinellu. A gaf i ofyn i chi pa graffu y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar fyrddau iechyd o ran y math o gymhareb costau rheolwyr i gostau staff yn hyn o beth, ac a ydych chi'n fodlon y gellir cyfiawnhau'r gwariant ychwanegol hwnnw ar reolwyr mewn gwirionedd ac y bydd yn gwneud gwahaniaeth o ran sut mae'r bwrdd iechyd yn cael ei redeg?

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There's no reason to suggest otherwise. One of the issues at the Princess of Wales Hospital was that nobody was taking responsibility, and sometimes then there is a need to appoint managers in order for there to be somebody with whom the buck stops, if I can put it that way. LHBs must make a judgment as to what the balance should be between managers and clinical staff. It's important, clearly, to have sufficient clinical staff in place. It's also important to have the right level of expertise, for example, so that people can negotiate contracts, which doctors couldn't do in terms of what they've been trained to do and their time, in order to provide the equipment for the clinical staff to use. And it's for the LHB to determine how that should be done. But he is right to point out—I've seen it myself in terms of my caseload—that the number of complaints has dropped substantially, certainly since this time last summer.

Nid oes unrhyw reswm i awgrymu'n wahanol. Un o'r problemau yn Ysbyty Tywysoges Cymru oedd nad oedd unrhyw un yn cymryd cyfrifoldeb, ac weithiau mae angen penodi rheolwyr wedyn fel bod rhywun yno i gymryd y cyfrifoldeb terfynol, os caf ei roi felly. Mae'n rhaid i BILlau wneud penderfyniad o ran yr hyn y dylai'r cydbwysedd fod rhwng rheolwyr a staff clinigol. Mae'n bwysig, yn amlwg, bod digon o staff clinigol ar gael. Mae hefyd yn bwysig cael y lefel gywir o arbenigedd, er enghraifft, fel y gall pobl gytuno contractau, na allai meddygon ei wneud o ran yr hyn maen nhw wedi cael eu hyfforddi i'w wneud a'u hamser, er mwyn darparu'r offer i staff clinigol ei ddefnyddio. A chyfrifoldeb y BILl yw penderfynu sut y dylid gwneud hynny. Ond mae ef yn iawn i nodi—rwyf wedi ei weld fy hun o ran fy llwyth achosion—bod nifer y cwynion wedi gostwng yn sylweddol, yn sicr ers yr adeg hon yr haf diwethaf.

Senedd.tv Fideo Video

### Mynd i'r Afael â Sgamiau

### Tackling Scams

14:07 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â mynd i'r afael â sgamiau? OAQ(4)2391(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement outlining progress made in tackling scams? OAQ(4)2391(FM)*

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It's primarily a matter for the UK Government, but we have provided funding to increase the number of no-cold-calling zones in Wales, which help to protect vulnerable people from scams.

Mater i Lywodraeth y DU yw hwn yn bennaf, ond rydym ni wedi darparu cyllid i gynyddu nifer yr ardaloedd dim galw diwahoddiad yng Nghymru, sy'n helpu i amddiffyn pobl agored i niwed rhag sgamiau.

14:07 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, First Minister. Many of our older people are actually being mugged in their homes every day. What can help is more no-cold-call zones. That's hard to say, isn't it? The guidelines regarding the setting up of no-cold-call zones was written over a decade ago by the now-defunct Office of Fair Trading. The process for setting up no-cold-call zones is difficult and overly complex. Since local government is responsible for those zones, can you tell us how can national Government work closely with local government and really take a lead now in easing the processes for setting up the no-cold-call zones, and will you call, please, for the formal devolution of powers over this area of policy to end any more confusion? We need to decide this in Cardiff, not London, because London has failed.

Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Mae llawer o'n pobl hŷn yn cael eu mygio yn eu cartrefi bob dydd. Yr hyn a allai helpu fyddai rhagor o ardaloedd dim galw diwahoddiad. Mae'n anodd dweud hynna, onid yw? Ysgrifennwyd y canllawiau ar sefydlu ardaloedd dim galw diwahoddiad dros ddegawd yn ôl gan y Swyddfa Masnachu Teg, sydd wedi cau erbyn hyn. Mae'r broses ar gyfer sefydlu ardaloedd dim galw diwahoddiad yn anodd ac yn rhy gymhleth. Gan mai llywodraeth leol sy'n gyfrifol am yr ardaloedd hynny, a allwch chi ddweud wrthym sut y gall Llywodraeth genedlaethol weithio'n agos gyda llywodraeth leol ac arwain o ddifrif nawr i wneud y prosesau ar gyfer sefydlu'r ardaloedd dim galw diwahoddiad yn haws, ac a wnewch chi alw, os gwelwch yn dda, am i bwerau yn ymwneud â'r maes polisi hwn gael eu datganoli'n ffurfiol i roi terfyn ar fwy o ddryswch? Mae angen i ni benderfynu hyn yng Nghaerdydd, nid yn Llundain, gan fod Llundain wedi methu.

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, there are two points here. First of all, the Member asks the question: what have we done? In November 2013, we invited local authorities to bid for funding to support the creation of no-cold-caller zones. Twelve authorities responded and just under £35,000 was provided to local authorities. The difficulty is, of course, the scams that are set up by telephone and online, and devolution won't help that. I would urge the UK Government to ensure that the Telephone Preference Service, for example, has more teeth. People register with it, but they still get cold calls from one of them, and other people will find themselves in that situation, because it's voluntary—not every organisation has to, I understand, register under the Telephone Preference Service system, and some therefore ignore it and keep on cold calling. That has to change and the UK Government could do that. With regard, of course, to online scams, it's more difficult as many of them—most of them—originate abroad, and it can be very difficult then in terms of the police investigating them and in terms of being able to control them from within Wales or, indeed, within the UK. But a start could certainly be made in terms of telephone cold calling, which is the bane of many people's lives.

Wel, ceir dau bwynt yma. Yn gyntaf oll, mae'r Aelod yn gofyn y cwestiwn: beth ydym ni wedi ei wneud? Ym mis Tachwedd 2013, gwahoddwyd awdurdodau lleol i wneud cais am gyllid i gefnogi'r broses o greu ardaloedd dim galw diwahoddiad. Ymatebodd deuddeg awdurdod a darparwyd ychydig yn llai na £35,000 i awdurdodau lleol. Y drafferth, wrth gwrs, yw'r sgamiau sy'n cael eu sefydlu dros y ffôn ac ar-lein, ac ni wnaiff datganoli helpu hynny. Byddwn yn annog Llywodraeth y DU i sicrhau bod y Gwasanaeth Dewis Ffôn, er enghraifft, yn fwy grymus. Mae pobl yn cofrestru ag ef, ond maen nhw'n dal i gael galwadau diwahoddiad gan un ohonyn nhw, a bydd pobl eraill yn canfod eu hunain yn y sefyllfa honno, gan ei fod yn wirfoddol—nid oes rhaid i bob sefydliad, rwy'n deall, gofrestru o dan system y Gwasanaeth Dewis Ffôn, ac mae rhai'n ei anwybyddu felly ac yn parhau i wneud galwadau diwahoddiad. Mae'n rhaid i hynny newid a gallai Llywodraeth y DU wneud hynny. O ran, wrth gwrs, sgamiau ar-lein, mae'n fwy anodd, gan fod llawer ohonyn nhw—y rhan fwyaf ohonyn nhw—yn cael eu gwneud o dramor, a gall fod yn anodd iawn wedyn o ran yr heddlu'n gallu ymchwilio iddyn nhw ac o ran gallu eu rheoli o Gymru neu, yn wir, o'r DU. Ond gellid dechrau arni yn sicr o ran galwadau diwahoddiad dros y ffôn, sy'n felltith ar fywydau llawer o bobl.

14:09 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are many different types of scam—the internet and technology have made it much easier to attempt scams. As the First Minister just said, many of them start off abroad in countries with limited laws to deal with it. In part of Morriston, the Clasemont Park area, a no-cold-calling zone has been set up, which has made a huge difference to the lives of the people living there. Will the First Minister support the development of more no-cold-calling zones in Wales in order to stop one of the most common scams of cold calling and demanding huge sums of money for little or no work?

Ceir nifer o wahanol fathau o sgamiau—mae'r rhyngrwyd a thechnoleg wedi ei gwneud yn llawer haws i geisio cynnal sgamiau. Fel y mae'r Prif Weinidog newydd ei ddweud, mae llawer ohonyn nhw'n dechrau dramor mewn gwledydd â deddfau cyfyngedig i ymdrin â nhw. Mewn rhan o Dreforys, ardal Parc Clasemont, sefydlwyd ardal dim galw diwahoddiad, sydd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau'r bobl sy'n byw yno. A wnaiff y Prif Weinidog gefnogi datblygu mwy o ardaloedd dim galw diwahoddiad yng Nghymru er mwyn atal un o'r sgamiau mwyaf cyffredin o alw'n ddiwahoddiad a gofyn am symiau enfawr o arian am ychydig neu ddim gwaith?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, yes, the old story of 'your chimney is falling down, so therefore I can fix it for you for an enormous amount of money'—that was one of the oldest scams in the book. That, unfortunately, is still continuing, and many vulnerable elderly people particularly do fall prey to that kind of scam. I can say first of all that the number of homes covered by no-cold-calling zones is about 38,000, and the Minister, indeed, issued a written statement on 4 February to inform Members of this. But, of course, we will look at ways of extending no-cold-calling zones in the future whilst at the same time looking to lobby the UK Government to tighten up the law particularly with telephone cold calling.

Wel, ie, yr hen stori 'mae eich simnai'n cwympo i lawr, felly gallaf ei thrwsio i chi am swm enfawr o arian'—roedd honno'n un o'r sgamiau hynaf a welwyd. Mae hynny'n dal i barhau, yn anffodus, ac mae llawer o bobl oedrannus agored i niwed yn enwedig yn cael eu twyllo gan y math hwnnw o sgam. Gallaf ddweud yn gyntaf oll mai tua 38,000 yw nifer y cartrefi sydd wedi'u cynnwys mewn ardaloedd dim galw diwahoddiad, a chyhoeddodd y Gweinidog, yn wir, ddatganiad ysgrifenedig ar 4 Chwefror i hysbysu'r Aelodau am hyn. Ond, wrth gwrs, byddwn yn edrych ar ffyrdd o ymestyn ardaloedd dim galw diwahoddiad yn y dyfodol a cheisio lobïo Llywodraeth y DU ar yr un pryd i dynhau'r gyfraith, yn enwedig o ran galwadau ffôn diwahoddiad.

14:10 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I hear your answer in regard to telephone preference calling. Many of my constituents often report a frustration themselves on this matter. I've heard your answer with regard to the UK Government responsibility, but I'd be grateful perhaps if you could speak to Ofcom yourself with regard to tighter regulation.

Brif Weinidog, rwy'n clywed eich ateb o ran galwadau dewis ffôn. Mae llawer o fy etholwyr yn aml yn nodi rhwystredigaeth eu hunain o ran y mater hwn. Rwyf wedi clywed eich ateb o ran cyfrifoldeb Llywodraeth y DU, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi efallai siarad ag Ofcom eich hun o ran rheoleiddio tynnach.

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it needs tighter law. The system has been largely voluntary in the past, and those organisations who are respectable businesses have ensured that they're part of the Telephone Preference Service system. People are now getting cold calls from organisations that are not part of that system, inevitably trying to sell something. And at UK level, I think it is time—and I don't make this point in terms of a party political point—to ensure that that system is tightened up and that anybody who is looking to cold call an individual should be bound by whether that individual has agreed or not to be part of the TPS system.

Wel, mae angen cyfraith dynnach. Mae'r system wedi bod yn wirfoddol i raddau helaeth yn y gorffennol, ac mae'r sefydliadau hynny sy'n fusnesau parchus wedi sicrhau eu bod yn rhan o system y Gwasanaeth Dewis Ffôn. Mae pobl yn cael galwadau diwahoddiad gan sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r system honno erbyn hyn, yn ceisio gwerthu rhywbeth, yn anochel. Ac ar lefel y DU, rwy'n credu ei bod yn bryd—ac nid wyf yn gwneud y pwynt hwn fel pwynt gwleidyddol— sicrhau bod y system honno'n cael ei thynhau ac y dylai unrhyw un sy'n ceisio galw unigolyn yn ddiwahoddiad fod wedi ei rwymo iddi, pa un a yw'r unigolyn hwnnw wedi cytuno i fod yn rhan o system y Gwasanaeth Dewis Ffôn ai peidio.

14:12 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one scam that is perpetrated by cold callers is the distraction burglary, and one community that's been particularly badly affected by this in my region over the last few years is the Asian community, who have been targeted for burglaries of gold jewellery. I'm wondering if we can encourage local authorities to be broader in their description of what a vulnerable community actually is and not just assume that only people who are elderly could possibly be vulnerable and that, actually, a community that is being specifically targeted can also be considered vulnerable as well.

Brif Weinidog, un sgam sy'n cael ei chyflawni gan alwyr diwahoddiad yw'r fwrgleriaeth tynnu sylw, ac un gymuned sydd wedi cael ei heffeithio'n arbennig o wael gan hyn yn fy rhanbarth i dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yw'r gymuned Asiaidd, sydd wedi cael eu targedu ar gyfer bwrgleriaethau o emwaith aur. Rwy'n meddwl tybed a allwn ni annog awdurdodau lleol i fod yn ehangach yn eu disgrifiad o beth yw cymuned agored i niwed mewn gwirionedd a pheidio â thybio mai dim ond pobl sy'n oedrannus allai fod yn agored i niwed, ac, mewn gwirionedd, y gellir ystyried cymuned sy'n cael ei thargedu'n benodol yn agored i niwed hefyd.

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's a matter for the police and crime commissioners, I would argue. They have responsibility for crime prevention in their areas, and they should be working with local authorities in order to run awareness weeks—I've seen it happen in Bridgend in my own part of the world—to inform people of the dangers. I know, for example, that Dyfed-Powys Police ran a week of action in line with the national week of action for cyber crime in March of this year. They, along with Gwent Police and South Wales Police, have also introduced digital media investigation officers to increase awareness and identification of online scams. So, we have examples of the police understanding the challenge of dealing with crime of this sort, and, of course, it's a matter for the police to run awareness-raising of distraction burglary as well, working with local authorities and with the police and crime commissioners.

Wel, mater i'r comisiynwyr heddlu a throseddu yw hwn, byddwn yn dadlau. Nhw sy'n gyfrifol am atal troseddu yn eu hardaloedd, a dylen nhw fod yn gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn cynnal wythnosau ymwybyddiaeth—rwyf wedi ei weld yn digwydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn fy rhan i o'r byd—i hysbysu pobl am y peryglon. Gwn, er enghraifft, fod Heddlu Dyfed-Powys wedi cynnal wythnos o weithredu yn unol â'r wythnos o weithredu genedlaethol ar gyfer troseddau seiber ym mis Mawrth eleni. Maen nhw, ynghyd â Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru, hefyd wedi cyflwyno swyddogion ymchwilio i gyfryngau digidol i gynyddu ymwybyddiaeth a nodi sgamiau ar-lein. Felly, mae gennym ni enghreifftiau o'r heddlu'n deall yr her o ymdrin â throseddau o'r math hwn, ac, wrth gwrs, mater i'r heddlu yw codi ymwybyddiaeth o fwrgleriaeth tynnu sylw hefyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol a chyda'r comisiynwyr heddlu a throseddu.

14:13 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the issues that has been raised by my constituents is that the Telephone Preference Service—the opt-out within that—does not apply to Government surveys. I've been alarmed at the number of individuals in north Wales who are being contacted by Government agencies undertaking surveys and the impact that that's having on them in their homes. What action do you intend to take to address that intrusion, particularly in respect of Welsh Government surveys?

Brif Weinidog, un o'r materion a godwyd gan fy etholwyr yw nad yw'r Gwasanaeth Dewis Ffôn—yr optio allan o fewn hynny—yn berthnasol i arolygon y Llywodraeth. Cefais fy nychryn gan nifer yr unigolion yn y gogledd y mae asiantaethau Llywodraeth yn cysylltu â nhw i gynnal arolygon a'r effaith y mae hynny'n ei chael arnyn nhw yn eu cartrefi. Pa gamau ydych chi'n bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r tarfu hwnnw, yn enwedig o ran arolygon Llywodraeth Cymru?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, it's a reasonable point. I would hope that Government surveys of any kind are not seen as a scam in that sense, but there are some people who don't wish to be contacted at all. We've all, I'm sure, in this Chamber, stood upon a doorstep with the dilemma of whether to knock the door where there is a sign saying, 'No Cold Callers, Please' and whether that applies to political canvassers. We soon know, if we knock the door, what the response is of that individual as to whether we should have taken notice of it or not. I think it's time to look very carefully across the board, it's fair to say—public sector and private sector—in terms of people being able to have a reliable service that they can opt out of, and, perhaps, options within that opt-out. In other words, 'Are you happy to be contacted by Government surveys of any description, but you don't want to be contacted by anybody selling you something?' I think there is perfect scope there to change the law in order to provide that level of flexibility.

Wel, mae'n bwynt rhesymol. Byddwn yn gobeithio nad yw arolygon Llywodraeth o unrhyw fath yn cael eu hystyried fel sgam yn yr ystyr hwnnw, ond mae rhai pobl nad ydynt yn dymuno i rywun gysylltu â hwy o gwbl. Rydym ni i gyd, rwy'n siŵr, yn y Siambr hon, wedi sefyll ar garreg y drws gyda'r benbleth a ddylid cnocio ar y drws ai peidio pan geir arwydd yn dweud, 'Dim Galwyr Diwahoddiad, Os Gwelwch yn Dda' a pha un a yw hynny'n berthnasol i ganfaswyr gwleidyddol. Rydym ni'n gwybod yn fuan, os byddwn yn cnocio ar y drws, beth yw ymateb yr unigolyn hwnnw o ran a ddylem ni fod wedi cymryd sylw ohono ai peidio. Rwy'n credu ei bod yn amser edrych yn ofalus iawn ar draws y bwrdd, mae'n deg dweud—sector cyhoeddus a sector preifat—o ran pobl yn gallu cael gwasanaeth dibynadwy y gallant optio allan ohono, ac, efallai, dewisiadau o fewn yr optio allan hwnnw. Mewn geiriau eraill, 'A ydych chi'n hapus i arolygon Llywodraeth o unrhyw ddisgrifiad gysylltu â chi, ond nad ydych chi eisiau i unrhyw un sy'n gwerthu rhywbeth gysylltu â chi?' Rwy'n meddwl bod cwmpas perffaith yno i newid y gyfraith er mwyn darparu'r lefel hwnnw o hyblygrwydd.

Senedd.tv Fideo Video

## Cleifion Arennol

## Kidney Patients

14:14 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*7. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella bywydau cleifion arennol yng Nghymru? OAQ(4)2399(FM)*

*7. What plans does the Welsh Government have to improve the lives of kidney patients in Wales? OAQ(4)2399(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, we continue to invest in improved services for kidney patients, including increasing capacity and modernising facilities for dialysis across Wales. And, of course, we're taking action to increase the number of transplants, including introducing a new system of consent for organ donation from 1 December.

Wel, rydym ni'n parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau gwell i gleifion arennol, gan gynnwys cynyddu capasiti a moderneiddio cyfleusterau ar gyfer dialysis ledled Cymru. Ac, wrth gwrs, rydym ni'n cymryd camau i gynyddu nifer y trawsblaniadau, gan gynnwys cyflwyno system newydd ar gyfer cydsynio i roi organau o 1 Rhagfyr.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Thank you. On Friday, I was very pleased to host a coffee morning in the New Theatre in Cardiff, along with Jenny Rathbone, in support of the Welsh Kidney Patients Association, and one of the key issues they brought to us was the strain of having dialysis, particularly if you have to have it in hospital rather than at home. So, I wondered if the First Minister knew if there were any plans to extend the scheme run by Morriston Hospital in Swansea, in Mike Hedges's constituency, which is teaching patients not only to have dialysis at home, but also to have dialysis in their sleep, which is, obviously, much less stress on them in their daily lives.

Diolch yn fawr. Ddydd Gwener, roeddwn i'n falch iawn o gynnal bore coffi yn y Theatr Newydd yng Nghaerdydd, ynghyd â Jenny Rathbone, i gefnogi Cymdeithas Cleifion Arennol Cymru, ac un o'r materion allweddol iddyn nhw eu rhannu â ni oedd y straen o gael dialysis, yn enwedig os oes rhaid i chi ei gael yn yr ysbyty yn hytrach nag yn y cartref. Felly, roeddwn i'n meddwl tybed a yw'r Prif Weinidog yn gwybod a oes unrhyw gynlluniau i ymestyn y cynllun a redir gan Ysbyty Treforys yn Abertawe, yn etholaeth Mike Hedges, sy'n addysgu cleifion, nid yn unig i gael dialysis yn y cartref, ond hefyd i gael dialysis yn eu cwsg, sydd, yn amlwg, yn llawer llai o straen arnyn nhw yn eu bywydau beunyddiol.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That's true. The renal unit in Morriston has developed a whole nocturnal haemodialysis service; it is the first of its kind in Wales and it is far less stressful and, indeed, more convenient for patients. It has been piloted. We are now looking to roll this out nationally to make sure that more patients can take advantage of this.

Mae hynny'n wir. Mae'r uned arennol yn Nhreforys wedi datblygu gwasanaeth haemodialysis nosol cyfan; dyma'r cyntaf o'i fath yng Nghymru ac mae'n llawer llai o straen ac, yn wir, yn fwy cyfleus i gleifion. Mae wedi cael ei dreialu. Rydym ni'n bwriadu cyflwyno hwn yn genedlaethol nawr i sicrhau y gall mwy o gleifion fanteisio ar hyn.

### Llid yr Ymennydd

### Meningitis

14:16 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â llid yr ymennydd yng Nghymru? OAQ(4)2388(FM)*

*8. What action is the Welsh Government taking to tackle meningitis in Wales? OAQ(4)2388(FM)*

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Meningitis and meningococcal disease is under constant surveillance to identify trends and to evaluate prevention and control measures. Evidence-based immunisation programmes are in place and kept under review.

Mae llid yr ymennydd a chlefyd meningococaidd yn cael eu harolygu'n gyson i nodi tueddiadau ac i werthuso mesurau atal a rheoli. Mae rhaglenni imiwneiddio sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith ac yn cael eu hadolygu.

14:16 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that reply, First Minister. The charity Meningitis Now has expressed its concern that the Welsh Government has not made a firm commitment to roll out the ACWY vaccine, which prevents 17 and 18-year-olds from contracting meningitis W. This vaccine will be available in England and Scotland from August this year. When will this ACWY vaccine be available in Wales, please?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae'r elusen Meningitis Now wedi mynegi ei phryder nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad cadarn i gyflwyno'r brechlyn ACWY, sy'n atal pobl ifanc 17 a 18 oed rhag dal llid yr ymennydd W. Bydd y brechlyn hwn ar gael yn Lloegr a'r Alban o fis Awst eleni. Pryd fydd y brechlyn ACWY hwn ar gael yng Nghymru, os gwelwch yn dda?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, this particular strain of the virus has been much more of a problem in England, but of course, we cannot say, therefore, that we in Wales are, in some way, immune to it. The Member asked the question: when will this be rolled out? We're looking to do that. The next step is to agree payments per vaccination with GPs in order that this service can then be examined and rolled out across Wales.

Wel, mae'r math penodol hwn o'r feirws wedi bod yn llawer mwy o broblem yn Lloegr, ond wrth gwrs, ni allwn ddweud, felly, bod gennym ni yng Nghymru imiwnedd iddi, mewn rhyw ffordd. Gofynnodd yr Aelod y cwestiwn: pryd fydd hyn yn cael ei gyflwyno? Rydym ni'n bwriadu gwneud hynny. Y cam nesaf yw cytuno ar daliadau fesul brechiad gyda meddygon teulu fel y gellir archwilio a chyflwyno'r gwasanaeth hwn ledled Cymru wedyn.

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:17

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement and I call on the Minister, Jane Hutt.

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad busnes a galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

14:17 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Senedd.tv Fideo Video

There are no changes to report to this statement for this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement available to Members electronically.

Nid oes unrhyw newidiadau i'w hadrodd i'r datganiad hwn ar gyfer busnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:17 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could we have two statements, please? The first was raised during First Minister's questions by the Member from Neath, around businesses trading with Greece, but more importantly, southern Mediterranean countries that, as I understand it, especially in the agricultural sector, are struggling to get insurance for goods being sent out there at the moment and obviously are reticent to release goods without payment. This is causing huge problems in the supply chain, particularly in the agricultural sector, as a lot of small lambs normally go out to that market.

Weinidog, a allem ni gael dau ddatganiad, os gwelwch yn dda? Codwyd y cyntaf yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog gan yr Aelod o Gastell-nedd, ynghylch busnesau sy'n masnachu gyda Gwlad Groeg, ond yn bwysicach, gwledydd de Môr y Canoldir sydd, yn ôl a ddeallaf, yn enwedig yn y sector amaethyddol, yn cael trafferth i gael yswiriant ar gyfer nwyddau sy'n cael eu hanfon allan yno ar hyn o bryd ac maent yn amlwg yn amharod i ryddhau nwyddau heb dâl. Mae hyn yn achosi problemau enfawr yn y gadwyn gyflenwi, yn enwedig yn y sector amaethyddol, gan fod llawer o ŵyn bach yn mynd allan i'r farchnad honno fel rheol.

I appreciate the Government here in Wales does not have direct powers over this particular area, but I would hope that it would have avenues of communication with the banks, with UK Trade and Investment and other trade organisations that deal on the international trading stage. And, a statement outlining what the Government is doing to facilitate secure trading lines for companies that have strong southern European connections would be most welcome.

Rwy'n gwerthfawrogi nad oes gan y Llywodraeth yma yng Nghymru bwerau uniongyrchol dros y maes penodol hwn, ond byddwn yn gobeithio y byddai ganddi lwybrau cyfathrebu gyda'r banciau, gyda Masnach a Buddsoddi y DU a sefydliadau masnach eraill sy'n delio ar y llwyfan masnachu rhyngwladol. A, byddai datganiad yn amlinellu'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i hwyluso llinellau masnachu diogel i gwmnïau sydd â chysylltiadau cryf gyda de Ewrop yn cael ei groesawu'n fawr.

The second statement I would seek is a statement in relation to the improvements of the Cardiff west service junction with the M4. I've raised this matter on several occasions. Last night, again, this junction was closed. It does seem as if the improvements, while they're going to be very welcome, seem to be going on forever and a day on that particular junction and some sort of timeline, which, hopefully, could be put into a statement so that we could have some security as to when that junction will be fully operational and thus avoiding the traffic delays, would be most welcome.

Yr ail ddatganiad yr hoffwn ofyn amdano yw datganiad yn ymwneud â'r gwelliannau i gyffordd gwasanaeth gorllewin Caerdydd gyda'r M4. Rwyf wedi codi'r mater hwn ar sawl achlysur. Neithiwr, unwaith eto, roedd y gyffordd hon ar gau. Mae'n ymddangos fel pe byddai'r gwelliannau, er y byddant i'w croesawu'n fawr, yn mynd ymlaen am byth ar y gyffordd benodol honno a byddai rhyw fath o amserlen, a ellid, gobeithio, ei rhoi mewn datganiad fel y gallwn ni gael rhywfaint o sicrwydd ynghylch pryd bydd y gyffordd honno'n gwbl weithredol gan osgoi'r oedi traffig felly, yn cael ei groesawu'n fawr.

14:19 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Andrew R.T. Davies. In fact, I can't add more to the First Minister's response to the question from Gwenda Thomas, except to say that the Minister for Economy, Science and Transport has got this in hand, and I can assure you that she is clearly also looking at the issue in terms of trading lines in southern Mediterranean countries, as well as Greece, and she will be updating Members on her engagement, as far as that's concerned.

Diolch i chi, Andrew R.T. Davies. A dweud y gwir, ni allaf ychwanegu mwy at ymateb y Prif Weinidog i'r cwestiwn gan Gwenda Thomas, heblaw i ddweud bod hyn yn cael sylw gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, a gallaf eich sicrhau ei bod hi'n amlwg hefyd yn ystyried y mater o safbwynt llinellau masnachu mewn gwledydd yn ne Môr y Canoldir, yn ogystal â Gwlad Groeg, a bydd yn diweddaru'r Aelodau ar ei hymgysylltu, cyn belled ag y mae hynny yn y cwestiwn.

On the second point, of course, I think improvements have been very much welcomed in terms of that particular junction at Cardiff west, but, clearly, the last-minute, final conclusion of those substantial improvements has to be secured. Again, if there's anything to update, the Minister will do so.

O ran yr ail bwynt, wrth gwrs, rwy'n meddwl bod gwelliannau wedi cael eu croesawu'n fawr iawn o ran y gyffordd benodol honno yng ngorllewin Caerdydd, ond, yn amlwg, nid yw cwblhau munud olaf y gwelliannau sylweddol hynny wedi'i sicrhau eto. Unwaith eto, os oes unrhyw beth i'w ddiweddaru, bydd y Gweinidog yn gwneud hynny.

14:20 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you will be aware, Minister, the Alzheimer's Society is today launching a report on dementia in Wales. The society states that—and I quote:

The £1.4 billion annual care costs are unsustainable, and families cannot continue to shoulder the hidden costs of caring for relatives with dementia.

Will you agree to a debate on this issue, which would consider a national strategy, comprised of integrated teams working within the health board footprint, bringing together the health service, social services, the independent and voluntary sectors, and based on the model of the successful integrated family support teams for children services that are already operational?

Fel y gwyddoch, Weinidog, mae Cymdeithas Alzheimer yn lansio adroddiad ar ddementia yng Nghymru heddiw. Mae'r gymdeithas yn datgan—a dyfynnaf:

Mae'r costau gofal blynyddol o £1.4 biliwn yn anghynaliadwy, ac ni all teuluoedd barhau i ysgwyddo'r costau cudd o ofalu am berthnasau â dementia.

A wnewch chi gytuno i ddadl ar y mater hwn, a fyddai'n ystyried strategaeth genedlaethol, yn cynnwys timau integredig yn gweithio o fewn ôl troed y bwrdd iechyd, gan ddod â'r gwasanaeth iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y sectorau annibynnol a gwirfoddol ynghyd, ac wedi'i seilio ar y model llwyddiannus o dimau cymorth i deuluoedd integredig ar gyfer gwasanaethau i blant sydd eisoes yn weithredol?

14:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I thank Gwenda Thomas for very much for that question. Of course, our aim is to make Wales a truly dementia-friendly country. We have, of course, recently announced an additional £6 million of extra funding to help us achieve this. I think the way in which you associate this with the very successful integrated care teams is very helpful, but we are, of course, as a result of the extra investment, recruiting new primary care support workers, and also the new primary care link nurses visiting residential and nursing homes to provide training for staff about how to identify dementia, provide post-diagnosis support link-up with local GP services, and advise how to make buildings more dementia-friendly. But I think, also importantly, is more funding to the Alzheimer's Society's campaign to train more dementia friends. This, of course, is in addition to the £130 million invested in new elderly mental health facilities across Wales. So, I mean, these are key issues for the Welsh Government.

Wel, diolch yn fawr iawn i Gwenda Thomas am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, ein nod yw gwneud Cymru'n wlad wirioneddol ystyriol o ddementia. Yn ddiweddar, wrth gwrs, rydym ni wedi cyhoeddi £6 miliwn o gyllid ychwanegol i'n helpu ni i gyflawni hyn. Rwy'n meddwl bod y ffordd yr ydych chi'n cysylltu hyn â'r timau gofal integredig hynod lwyddiannus yn ddefnyddiol iawn, ond rydym ni, wrth gwrs, o ganlyniad i'r buddsoddiad ychwanegol, yn recriwtio gweithwyr cymorth gofal sylfaenol newydd, ac mae'r nyrsys cyswllt gofal sylfaenol newydd hefyd yn ymweld â chartrefi preswyl a nyrsio i ddarparu hyfforddiant i staff ar sut i adnabod dementia, darparu cysylltiad cymorth ôl-ddiagnosis gyda gwasanaethau meddygon teulu lleol, a chynghori ar sut i wneud adeiladau'n fwy ystyriol o ddementia. Ond rwy'n credu bod mwy o gyllid i ymgyrch Cymdeithas Alzheimer i hyfforddi mwy o ffrindiau dementia hefyd yn bwysig. Mae hyn, wrth gwrs, yn ychwanegol i'r £130 miliwn a fuddsoddwyd mewn cyfleusterau iechyd meddwl newydd i'r henoed ledled Cymru. Felly, hynny yw, mae'r rhain yn faterion allweddol i Lywodraeth Cymru.

14:22 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wanted to ask for a statement from the Welsh Government on the nature of professional standards your Government and this Assembly expects from those institutions that it provides funding to. I've recently seen a series of e-mails from Professor Niall Piercy, a chair of entrepreneurship at Swansea University's School of Management, in which he repeatedly refers to a member of staff with a German Christian name as 'ant brains'. In another e-mail, he calls a School of Management research committee 'pathetically incompetent' and says,

'I'm increasingly of the opinion that we need to move beyond considering redundancy for academic staff and just move to euthanasia for general good of the species.'

Do we really expect staff of such seniority to deal with staff in such an insulting, intimidating and downright bullying manner, particularly when this institution is in receipt of public money, and has, to date, not done anything to bring these particular people to account? I would like to have a statement from the Welsh Government in light of these comments.

Roeddwn i eisiau gofyn am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar natur y safonau proffesiynol y mae eich Llywodraeth a'r Cynulliad hwn yn eu disgwyl gan y sefydliadau hynny y mae'n darparu cyllid iddynt. Yn ddiweddar, rwyf wedi gweld cyfres o negeseuon e-bost gan yr Athro Niall Piercy, cadeirydd entrepreneuriaeth yn Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe, lle mae'n cyfeirio dro ar ôl tro at aelod o staff sydd ag enw bedydd Almaeneg fel 'ant brains'. Mewn e-bost arall, mae'n galw pwyllgor ymchwil yr Ysgol Reolaeth yn druenus o anghymwys ac yn dweud,

Rwyf fwyfwy o'r farn bod angen i ni symud y tu hwnt i ystyried dileu swyddi staff academaidd a symud at ewthanasia er lles cyffredinol y rhywogaeth

Ydym ni wir yn disgwyl i staff mewn swyddi mor uchel drin staff mewn ffordd mor sarhaus, bygythiol, sy'n fwlio llwyr, yn enwedig pan fo'r sefydliad hwn yn derbyn arian cyhoeddus, ac, hyd yma, nid yw wedi gwneud unrhyw beth i ddwyn y bobl benodol hyn i gyfrif? Hoffwn gael datganiad gan Lywodraeth Cymru yng ngoleuni'r sylwadau hyn.

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, this is, of course, a matter for the university. I know that you will have raised this with the university, and I think it's very important that you raise this again today, Bethan Jenkins, to draw attention to these alleged remarks that have been made, which of course are inappropriate if they have been made in that way.

Wel, mater i'r brifysgol yw hwn, wrth gwrs. Gwn y byddwch chi wedi codi hyn gyda'r brifysgol, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn eich bod chi'n codi hyn eto heddiw, Bethan Jenkins, er mwyn tynnu sylw at y sylwadau honedig hyn sydd wedi eu gwneud, sydd wrth gwrs yn amhriodol os ydyn nhw wedi cael eu gwneud yn y ffordd honno.

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Minister, you know that the warm weather and the good weather traditionally brings motorcyclists out onto our trunk roads. Recently we've seen yet more motorcycle fatalities, not in my constituency this time but in other parts of Wales. I wonder whether the Minister for transport would be able to update us on the action that she is taking with regard to trying to reduce motorcycling fatalities, especially in Brecon and Radnorshire where a community campaign has been left very disappointed by the response of the Dyfed-Powys police and crime commissioner to their concerns and their application for funding to address some of these issues, which has been turned down and has left them feeling as if their voices are simply not being heard and their concerns are being trivialised and ignored. I'm sure the Minister would want to assure them that that's not the case from the Welsh Government's perspective.

Weinidog, byddwch yn gwybod bod y tywydd cynnes a'r tywydd da yn dod â beicwyr modur allan ar ein cefnffyrdd yn draddodiadol. Rydym ni wedi gweld hyd yn oed mwy o farwolaethau beic modur yn ddiweddar, nid yn fy etholaeth i y tro hwn, ond mewn rhannau eraill o Gymru. Tybed a allai'r Gweinidog trafnidiaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y camau y mae'n eu cymryd o ran ceisio lleihau marwolaethau beicio modur, yn enwedig ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed lle mae ymgyrch gymunedol wedi cael ei gadael yn siomedig iawn gan ymateb comisiynydd heddlu a throseddu Dyfed-Powys i'w pryderon a'u cais am gyllid i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, sydd wedi cael ei wrthod ac wedi eu gadael yn teimlo fel pe nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu pryderon yn cael eu bychanu a'u hanwybyddu. Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog eisiau eu sicrhau nad yw hynny'n wir o safbwynt Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, of course, these are times when there is particular concern about road safety, not just in terms of trunk roads but all roads, and of course in terms of opportunities for road safety grants, for which the local authorities then have to put in appropriate proposals. Also, of course, the Minister is responding and already has made statements and written to Members about road safety on trunk roads. But, again, it's an important point to raise in terms of public awareness and concerns on these issues.

Wel, wrth gwrs, mae hon yn adeg pan fo pryder arbennig am ddiogelwch ar y ffyrdd, nid yn unig o ran cefnffyrdd, ond yr holl ffyrdd, ac wrth gwrs o ran cyfleoedd ar gyfer grantiau diogelwch ar y ffyrdd, y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol wneud cynigion priodol amdanynt wedyn. Hefyd, wrth gwrs, mae'r Gweinidog yn ymateb ac eisoes wedi gwneud datganiadau ac wedi ysgrifennu at yr Aelodau am ddiogelwch ar gefnffyrdd. Ond, unwaith eto, mae'n bwynt pwysig i'w godi o ran ymwybyddiaeth a phryderon y cyhoedd am y materion hyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Minister, last week I asked the Minister for economy and transport why the town of Monmouth has been dropped off the latest metro proposals map, and she responded that this was an area of concern. I think you said, Minister, that you were in discussions with Monmouthshire County Council about this. Can I ask for an update from the Minister at the earliest opportunity on what the Minister is planning to do regarding these anomalies? It is of concern to my constituents that some areas that previously seemed to have been included in the metro map have now not been included.

Weinidog, gofynnais i Weinidog yr economi a thrafnidiaeth yr wythnos diwethaf pam mae tref Trefynwy wedi cael ei gadael oddi ar y map cynigion metro diweddaraf, ac ymatebodd fod hwn yn faes sy'n peri pryder. Rwy'n meddwl i chi ddweud, Weinidog, eich bod chi mewn trafodaethau gyda Chyngor Sir Fynwy am hyn. A gaf i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog ar y cyfle cyntaf ar yr hyn y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wneud ynghylch yr anghysondebau hyn? Mae'n destun pryder i fy etholwyr nad yw rhai ardaloedd yr oedd yn ymddangos eu bod wedi'u cynnwys ar y map metro yn flaenorol wedi'u cynnwys erbyn hyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Thank you, Nick Ramsay. I think the Minister responded to these points last week. Of course, the map was produced to aid in initial engagements with industry on the next phase. It hasn't got planning status, and the services and stations that will form part of the metro in the next phase and beyond have yet to be decided. But there will of course be an update on the metro in the autumn by the Minister.

Diolch i chi, Nick Ramsay. Rwy'n meddwl bod y Gweinidog wedi ymateb i'r pwyntiau hyn yr wythnos diwethaf. Wrth gwrs, lluniwyd y map i gynorthwyo gydag ymgysylltiadau cychwynnol â diwydiant ar y cam nesaf. Nid yw wedi cael statws cynllunio, ac nid oes penderfyniad eto ar y gwasanaethau a'r gorsafoedd a fydd yn rhan o'r metro yn y cam nesaf a thu hwnt. Ond bydd diweddariad ar y metro gan y Gweinidog yn yr hydref, wrth gwrs.

Senedd.tv Fideo Video

14:26 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tybed a oes modd cael datganiad gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am ystadegau yn y Llywodraeth—ac mae'n bosibl taw chi yw'r Gweinidog hwnnw, Weinidog—yn enwedig parthed ystadegau addysg. Rwy'n gweld bod y ffigurau mwyaf diweddar yn dangos cwymp, am y tro cyntaf mewn degawd, yng ngwariant fesul y pen ar gyfer addysg yng Nghymru. Byddai'r ffigurau yna dipyn yn is oni bai am y cytundeb rydych chi wedi ei wneud yn y gorffennol gyda Phlaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd i ychwanegu, drwy grantiau, at wariant addysg. Yr hyn sy'n fy mhoeni i fwyfwy yw ei bod yn amhosibl nawr inni gymharu yn deg ffigurau ein gwariant ni yng Nghymru gyda'r wlad dros y ffin, sef Lloegr, a drwy hynny, gyda gwledydd eraill hefyd. Rwyf wedi gweld adroddiad y prif ystadegydd ynglŷn â'r mater yma. Mae e'n dweud ei bod yn amhosibl gwneud cymhariaeth rhwng gwariant ar addysg yng Nghymru a'r gwariant yn Lloegr oherwydd y newid patrwm sydd yn digwydd yn Lloegr. Rwy'n derbyn, wrth gwrs, bod gan Loegr agweddau ar addysg sy'n gwbl wahanol i Gymru—ysgolion rhydd, 'academies' ac ati. Ond beth sydd yn bwysig, mae'n debyg, ar gyfer tryloywder ac er mwyn i bobl deall beth sy'n digwydd yng Nghymru, yw ein bod ni'n gallu gwneud y gymhariaeth yna gyda Lloegr, yr Alban, Ffrainc, y Ffindir—pob rhan arall hefyd. Beth sydd ein dal ni yn ôl, felly, i gael yr ystadegau yma, ac a ydych chi'n gweithio'n galed i wirio'r sefyllfa?

I wonder whether it would be possible to have a statement from the Minister with responsibility for statistics within Government—and that may well be you, Minister—particularly in relation to education statistics. I see that the most recent figures demonstrate a fall for the first time in a decade in terms of per capita expenditure for education in Wales. Those figures would be a fair bit lower if it weren't for the agreement that you made in the past with Plaid Cymru and the Liberal Democrats too to add, through grants, to education expenditure. What concerns me increasingly is that it's impossible now for us to compare fairly our expenditure here in Wales with the nation over the border, namely England, and through that, with nations as well. I have seen the chief statistician's report on this matter. He says that it's impossible to make a comparison between education spend in Wales and education spend in England because of the change in pattern that's happened in England. I accept, of course, that England has aspects of education that are entirely different to Wales—free schools, academies and so on. But what's important, it seems, in the name of transparency and so that people can understand what's happening in Wales, is that we can make that comparison with England, Scotland, France, Finland—and every other part of the world also. What holds us back, therefore, in actually having those statistics, and are you working hard to put that right?

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, we have to be very clear and transparent in terms of the opportunities that we have and the figures that we can demonstrate in terms of the commitments that we've made. As you say, comparisons are now very difficult between England and Wales, because of the difference in our education systems, but I want to be very clear that we have met our commitment to increase funding for Welsh schools by 1 per cent above the money we receive from Westminster, and this has meant an additional £106 million being made available for Welsh schools over the course of this Assembly term. But also, local authorities have played their part, and many have exceeded the required level of protection over the Assembly term.

I think also, if you look at the figures from the Treasury themselves, they are important in terms of your understanding of the statistics—in 2013-14, our spend was 8 per cent higher than in England, on the Treasury programme for international student assessment figures. But we have been very transparent about the very challenging financial position that we are facing, and, of course, as you well know, by this year, the Welsh budget will be nearly £1.7 billion less than it was in 2010-11 as a result of UK Government cuts. Nevertheless, the importance of transparency I accept, and will ensure that we can give the information as fully as possible.

Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni fod yn eglur a thryloyw iawn o ran y cyfleoedd sydd gennym ni a'r ffigurau y gallwn ni eu dangos o ran yr ymrwymiadau yr ydym ni wedi eu gwneud. Fel y dywedwch, mae cymariaethau'n anodd iawn rhwng Cymru a Lloegr nawr, oherwydd y gwahaniaeth yn ein systemau addysg, ond rwyf eisiau bod yn eglur iawn ein bod ni wedi bodloni ein hymrwymiad i gynyddu'r cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghymru o 1 y cant yn uwch na'r arian yr ydym ni'n ei dderbyn gan San Steffan, ac mae hyn wedi golygu swm ychwanegol o £106 miliwn yn cael ei roi ar gael ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn ystod y tymor Cynulliad hwn. Ond hefyd, mae awdurdodau lleol wedi chwarae eu rhan, ac mae llawer wedi rhagori ar y lefel ofynnol o ddiogelwch yn ystod tymor y Cynulliad.

Rwy'n credu hefyd, os edrychwch chi ar y ffigurau gan y Trysorlys ei hun, eu bod yn bwysig o ran eich dealltwriaeth o'r ystadegau—yn 2013-14, roedd ein gwariant 8 y cant yn uwch nag yn Lloegr, ar raglen y Trysorlys ar gyfer ffigurau asesu myfyrwyr rhyngwladol. Ond rydym ni wedi bod yn dryloyw iawn ynghylch y sefyllfa ariannol anodd iawn yr ydym ni'n ei hwynebu, ac, wrth gwrs, fel y gwyddoch yn iawn, erbyn eleni, bydd cyllideb Cymru bron i £1.7 biliwn yn llai nag yr oedd yn 2010-11 o ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU. Serch hynny, rwy'n derbyn pwysigrwydd tryloywder, a byddaf yn sicrhau y gallwn roi'r wybodaeth honno mewn modd mor llwyr â phosibl.

14:29 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae nifer o Aelodau y prynhawn yma wedi cyfeirio at adroddiad 'Ymddiried Mewn Gofal', yn cynnwys yr adroddiad ar ward Gwanwyn yn Wrecsam. Fe wnes i gysylltu efo'r arolygaeth iechyd yng Nghymru, achos mae'r adroddiad hwnnw yn cynnwys rhai materion a oedd yn rhaid eu gweithredu arnynt ar frys, ond maen nhw'n dweud mai ymweliad ar ran Llywodraeth Cymru oedd hynny. Nid oes dim byd yn ymddangos ar eich gwefan chi nag ar wefan Betsi Cadwaladr. Felly, a gaf i ofyn i'r Gweinidog iechyd a ydy o'n barod i gadarnhau yr ymateb a gafwyd gan y bwrdd iechyd yn y gogledd i'r materion a oedd yn cael eu crybwyll yn yr adroddiad?

Minister, a number of Members this afternoon have alluded to the 'Trusted to Care' report, which includes the report on the Gwanwyn ward in Wrexham. I did contact the health inspectorate in Wales, because that reports includes some issues on which urgent action needed to be taken, but they say that it was a visit on behalf of Welsh Government. Nothing has appeared on your website or on the Betsi Cadwaladr website. Therefore, may I ask the health Minister whether he's willing to confirm the response given by the health board in north Wales to the issues that were raised in the report?

14:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is for the health Minister to respond to. But, very clearly, as the First Minister said, there are not only spot checks, but also, of course, the Healthcare Inspectorate Wales inspections, and they are undertaken independently, in order to ensure that that is rigorous, in terms of that inspection.

Mater i'r Gweinidog iechyd yw ymateb i hynny. Ond, yn amlwg iawn, fel y dywedodd y Prif Weinidog, yn ogystal â haparchwiliadau, ceir arolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd, wrth gwrs, ac maen nhw'n cael eu cynnal yn annibynnol, er mwyn sicrhau bod hynny'n drylwyr, o ran yr arolygiad hwnnw.

14:30 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I ask you, business Minister, for a statement on a particular traffic order from Welsh Government? The traffic order is in regard to works being carried out on the A483 between Kerry Road junction in Newtown and the entrance to Tesco. This is obviously a very congested spot, as many will be aware, and probably one of the most congested spots in mid Wales, I'd suggest. The traffic order states that the road will be closed on July 19, between 8 p.m. and 10.30 p.m. July 19 is one day before the Royal Welsh Show starts, so I would be curious to know why this particular date has been chosen, given that it could be one of the busiest Sundays of the year, and why the works aren't being carried out later into the evening.

A gaf i ofyn i chi, Weinidog busnes, am ddatganiad ar orchymyn traffig penodol gan Lywodraeth Cymru? Mae'r gorchymyn traffig yn ymwneud â gwaith sy'n cael ei wneud ar yr A483 rhwng cyffordd Ffordd Ceri yn y Drenewydd a'r fynedfa i Tesco. Mae hyn yn amlwg yn fan prysur iawn, fel y bydd llawer yn gwybod, ac mae'n debyg ei fod yn un o'r mannau prysuraf yn y canolbarth, byddwn yn awgrymu. Mae'r gorchymyn traffig yn datgan y bydd y ffordd ar gau ar 19 Gorffennaf, rhwng 8 p.m. a 10.30 p.m. Mae 19 Gorffennaf un diwrnod cyn dechrau Sioe Frenhinol Cymru, felly byddai gen i ddiddordeb mewn cael gwybod pam y dewiswyd y dyddiad penodol hwn, o ystyried y gallai fod yn o Suliau prysuraf y flwyddyn, a pham nad yw'r gwaith yn cael ei wneud yn hwyrach yn y nos.

It would also be useful to know exactly what the works are in relation to. Clearly, if it's to help traffic flow, then that's to be welcomed. But, I think it would be useful if people could be made aware of exactly what's being carried out there and why it's being carried out at this particular time. I think clarity would be very helpful indeed.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol cael gwybod beth yn union y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef. Yn amlwg, os yw er mwyn helpu llif y traffig, yna mae hynny i'w groesawu. Ond, rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe gallai pobl fod yn ymwybodol o beth yn union sy'n cael ei wneud yno a pham mae'n cael ei wneud ar yr adeg benodol hon. Rwy'n credu y byddai eglurder yn ddefnyddiol iawn yn wir.

14:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, these are always difficult operational decisions, aren't they, for the engineers who are involved in ensuring that the work is undertaken appropriately and with minimal disruption? I'm sure that you can obtain clarity, in terms of the timeline and purpose of that, from the highways officials who are involved in that.

Wel, wrth gwrs, mae'r rhain bob amser yn benderfyniadau gweithredol anodd, onid ydynt, i'r peirianwyr sy'n gwneud y gwaith o ran sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn briodol gyda chyn lleied o darfu â phosibl? Rwy'n siŵr y gallwch chi gael eglurder, o ran amserlen a diben hynny, gan y swyddogion priffyrdd sy'n gwneud y gwaith.

14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:32 **3. Datganiad: Band Eang Cyflym Iawn** / **3. Statement: Superfast Broadband**

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to a statement from the Deputy Minister for Skills and Technology on Superfast Broadband, and I call on Julie James.

Symudwn nawr at ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar Fand Eang Cyflym Iawn, a galwaf ar Julie James.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 14:32.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 14:32.*

14:32

## Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Thank you, Presiding Officer.

Diolch i chi, Lywydd.

Today, I want to provide you with an update on our plans to provide access to superfast broadband for homes and businesses across Wales. Our ambition is to move to a position as quickly as possible where every business or home in Wales is able to access superfast broadband. This is reflected in our programme for government commitment. We set ourselves the challenge of bringing superfast broadband to parts of Wales where the market would simply never go, and we have made extraordinary progress through Superfast Cymru.

Heddiw, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynlluniau i ddarparu mynediad at fand eang cyflym iawn i gartrefi a busnesau ledled Cymru. Ein huchelgais yw symud i sefyllfa cyn gynted â phosibl lle gall pob busnes neu gartref yng Nghymru gael band eang cyflym iawn. Adlewyrchir hyn yn ein rhaglen ar gyfer ymrwymiad y llywodraeth. Rydym yn gosod yr her i ni ein hunain o ddod â band eang cyflym iawn i rannau o Gymru lle na fyddai'r farchnad byth yn mynd iddynt, ac rydym ni wedi gwneud cynnydd eithriadol trwy Cyflymu Cymru.

Ensuring everyone can have access to superfast broadband is key to Wales becoming a truly digital nation. Fibre will continue to be the predominant technology, but there will be a need to have a greater mix to reach the final few per cent of premises. Technological advances and the commitment by the mobile network operators to improve geographic coverage of 4G mobile mean that other technologies are becoming increasingly viable alternatives.

Mae sicrhau y gall pawb gael mynediad at fand eang cyflym iawn yn allweddol i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddigidol. Ffibr fydd y dechnoleg flaenllaw o hyd, ond bydd angen cael mwy o gymysgedd i gyrraedd yr ychydig ganrannau olaf o safleoedd. Mae datblygiadau technolegol a'r ymrwymiad gan weithredwyr y rhwydwaith ffonau symudol i wella cwmpas daearyddol 4G symudol yn golygu bod technolegau eraill yn dod yn ddewisiadau amgen cynyddol ymarferol.

In my written statement of 21 May this year, I briefly outlined a new scheme we are developing to make superfast speeds available to all homes and businesses across Wales. It will build on the success of the Access Broadband Cymru scheme and will use a range of technologies, including satellite, wireless, and 4G, to deliver superfast speeds. I hope to launch the new scheme this year.

Yn fy natganiad ysgrifenedig ar 21 Mai eleni, amlinellais yn gryno gynllun newydd yr ydym ni'n ei ddatblygu i wneud cyflymderau cyflym iawn ar gael i bob cartref a busnes ledled Cymru. Bydd yn adeiladu ar lwyddiant cynllun Allwedd Band Eang Cymru a bydd yn defnyddio amrywiaeth o dechnolegau, gan gynnwys lloeren, diwifr, a 4G, i gyflawni cyflymderau cyflym iawn. Rwy'n gobeithio lansio'r cynllun newydd eleni.

Turning back to Superfast Cymru, to the end of June, we have provided superfast broadband to nearly 0.5 million premises, that is around 480,000 that would not be able to receive superfast broadband speeds without our intervention. Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil and Rhondda Cynon Taf are all over 90 per cent complete, with Gwynedd, Anglesey and Neath Port Talbot around 70 per cent complete. When you combine roll-out under Superfast Cymru with the commercial roll-outs of BT, Virgin and others, around 79 per cent of homes and businesses in Wales now have access to fast broadband. This puts Wales ahead of the EU average and of countries like France and Italy.

Gan droi yn ôl at Cyflymu Cymru, tan ddiwedd mis Mehefin, rydym ni wedi darparu band eang cyflym iawn i bron i 0.5 miliwn o adeiladau, sydd oddeutu 480,000 na fyddai'n gallu derbyn cyflymderau band eang cyflym iawn heb ein hymyriad ni. Mae dros 90 y cant o Flaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf i gyd wedi'u cwblhau, ac mae tua 70 y cant wedi'u cwblhau yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chastell-nedd Port Talbot. Pan fyddwch chi'n cyfuno cyflwyniad o dan Cyflymu Cymru gyda chyflwyniadau masnachol BT, Virgin ac eraill, mae gan tua 79 y cant o gartrefi a busnesau yng Nghymru fynediad at fand eang cyflym erbyn hyn. Mae hyn yn rhoi Cymru o flaen cyfartaledd yr UE a gwledydd fel Ffrainc a'r Eidal.

We are making sure that rural communities are not left behind and, through the Superfast Cymru contract, we have ensured that the costs of broadband will be no more expensive in rural areas than in cities. The progress to date is in no small part thanks to the significant efforts of the BT workforce, and their subcontractors. They have taken on 123 apprentices, created 254 jobs, provided 992 hours of work experience for pupils and students, and delivered 60 10-week adult placements.

Rydym ni'n gwneud yn siŵr nad yw cymunedau gwledig yn cael eu gadael ar ôl a, thrwy gontract Cyflymu Cymru, rydym ni wedi sicrhau na fydd costau band eang ddim drytach mewn ardaloedd gwledig nag mewn dinasoedd. Mae llawer o'r cynnydd hyd yma yn destun diolch i ymdrechion sylweddol gweithlu BT, a'u hisgontractwyr. Maen nhw wedi cyflogi 123 o brentisiaid, wedi creu 254 o swyddi, wedi darparu 992 awr o brofiad gwaith i ddisgyblion a myfyrwyr, ac wedi darparu 60 o leoliadau 10 wythnos i oedolion.

The recent Wales Audit Office report was very positive, finding that the project was making reasonable progress and that it is being properly managed both in terms of delivery and costs. We are reviewing the communications arrangements for deployment information, including a revamp of the Superfast Cymru website to make it more transparent and to give residents and businesses a greater level of certainty over when they will be able to access superfast broadband.

Roedd adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru yn gadarnhaol iawn, gan ganfod bod y prosiect yn gwneud cynnydd rhesymol a'i fod yn cael ei reoli'n briodol o ran darpariaeth a chostau. Rydym ni'n adolygu'r trefniadau cyfathrebu ar gyfer gwybodaeth ddarparu, gan gynnwys ailwampio gwefan Cyflymu Cymru i'w gwneud yn fwy tryloyw ac i roi mwy o sicrwydd i drigolion a busnesau o ran pryd y byddant yn gallu cael mynediad at fand eang cyflym iawn.

Since the Superfast Cymru project began, the number or premises that we need to address has increased either because they are new premises or where premises due for roll-out under telecommunications' companies own plans have subsequently been deemed to be economically unviable. We have identified an extra 45,000 premises. I am pleased to announce today that we have extended the Superfast Cymru contract with BT to cover over 42,000 of these premises. Accordingly, the date for completion of the build phase of the contract will be extended to June 2017. BT will still achieve the original contract target of 655,000 premises by next summer. The maximum grant payable under the project will increase by around £19 million and BT will also invest significant extra funding.

Ers cychwyn prosiect Cyflymu Cymru, mae nifer yr adeiladau y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw wedi cynyddu naill ai oherwydd eu bod yn adeiladau newydd neu lle y dyfarnwyd yn ddiweddarach nad oedd adeiladau y disgwylid iddynt dderbyn y ddarpariaeth o dan gynlluniau'r cwmnïau telathrebu eu hunain, yn ymarferol economaidd. Rydym ni wedi nodi 45,000 o adeiladau ychwanegol. Rwy'n falch o gyhoeddi heddiw ein bod ni wedi ymestyn contract Cyflymu Cymru gyda BT i gynnwys mwy na 42,000 o'r adeiladau hyn. Yn unol â hynny, bydd y dyddiad ar gyfer cwblhau cyfnod adeiladu'r contract yn cael ei ymestyn i fis Mehefin 2017. Bydd BT yn dal i gyrraedd targed gwreiddiol y contract o 655,000 o adeiladau erbyn yr haf nesaf. Bydd uchafswm y grant sy'n daladwy o dan y prosiect yn cynyddu gan tua £19 miliwn a bydd BT hefyd yn buddsoddi cyllid ychwanegol sylweddol.

We all recognise the importance to businesses of having access to the right broadband speeds and that a number of business parks and industrial estates need urgent action to improve their connectivity. Therefore, on 30 June, we let a contract with Airband, specialists in high-speed wireless broadband, to target a further nearly 2,000 of the 45,000 extra premises in business parks and industrial estates across Wales, also to be completed by summer 2016.

Rydym ni i gyd yn cydnabod pwysigrwydd cael mynediad at y cyflymderau band eang cywir i fusnesau, a bod nifer o barciau busnes ac ystadau diwydiannol angen camau ar frys i wella eu cysylltedd. Felly, ar 30 Mehefin, cytunwyd contract gydag Airband, arbenigwyr mewn band eang di-wifr cyflym, i dargedu bron i 2,000 o'r 45,000 o adeiladau ychwanegol mewn parciau busnes ac ystadau diwydiannol ledled Cymru, hefyd i'w gwblhau erbyn haf 2016.

Through our negotiations with BT in Wales, fibre on demand will be available across the majority of the country. This is a business-focused, ultrafast broadband technology, which will be available by the end of summer 2015 to the majority of premises in Wales. Coupled with our ultrafast connectivity voucher, businesses in Wales have an extraordinary range of options to allow them to connect more effectively to their customers and suppliers

Trwy ein trafodaethau gyda BT yng Nghymru, bydd ffibr ar alw ar gael ar draws y rhan fwyaf o'r wlad. Technoleg band eang gwibgyswllt sy'n canolbwyntio ar fusnesau yw hon, a fydd ar gael erbyn diwedd haf 2015 i'r rhan fwyaf o adeiladau yng Nghymru. Ynghyd â'n taleb cysylltedd gwibgyswllt, mae gan fusnesau yng Nghymru amrywiaeth anhygoel o ddewisiadau i'w galluogi i gysylltu'n fwy effeithiol â'u cwsmeriaid a'u cyflenwyr

Swansea is being used as a test bed for BT ultrafast technology, called G.fast, which can provide speeds of up to 500 Mbps, which is based on the superfast technology being deployed across Wales. Wales is also benefiting from the broadband delivery UK £10 million innovation fund to explore ways to take superfast broadband to the most difficult- to-reach places in the UK. A trial of a hybrid fixed line and fixed wireless superfast rural broadband network is being used to connect around 1,600 premises in Monmouthshire.

Mae Abertawe'n cael ei defnyddio fel man profi ar gyfer technoleg gwibgyswllt BT, o'r enw G.fast, sy'n gallu darparu cyflymder o hyd at 500 Mbps, sy'n seiliedig ar y dechnoleg gyflym iawn sy'n cael ei defnyddio ledled Cymru. Mae Cymru hefyd yn elwa ar gronfa arloesed £10 miliwn darparu band eang y DU i archwilio ffyrdd o fynd â band eang cyflym iawn i'r lleoedd anoddaf eu cyrraedd yn y DU. Mae treial o linell sefydlog hybrid a rhwydwaith band eang di-wifr sefydlog cyflym iawn gwledig yn cael ei ddefnyddio i gysylltu tua 1,600 o adeiladau yn Sir Fynwy.

Looking to the future, as the deployment gets to more and more homes and businesses, we need to focus on ensuring that businesses and homes take up superfast broadband so that they can make the best use of the technology for the benefit of the economy and society generally. Today, 22 per cent of premises that have had access to the service for over one year have taken up the service. Take-up in Wales is amongst the highest in the UK. This is important because the Superfast Cymru contract includes a clawback mechanism where Welsh Government receives funding back from BT. The level of funding is dependent on take-up levels. This will provide a future funding stream for reinvestment in broadband technologies, helping us to continue to extend and improve the reach of fibre broadband or to invest in other technologies. We have set ourselves the ambitious target of 50 per cent take-up to be achieved by the end of the operational phase of the contract in 2024. We want to see at least half of everyone who can connect to superfast broadband doing so, and I would be very grateful if all Members could raise awareness of the availability of superfast broadband in their constituencies and regions

Gan edrych i'r dyfodol, wrth i’r ddarpariaeth gyrraedd mwy a mwy o gartrefi a busnesau, mae angen i ni ganolbwyntio ar sicrhau bod busnesau a chartrefi yn manteisio ar fand eang cyflym iawn fel y gallant wneud y defnydd gorau o'r dechnoleg er budd yr economi a chymdeithas yn gyffredinol. Heddiw, mae 22 y cant o adeiladau sydd wedi bod â mynediad at y gwasanaeth ers dros flwyddyn wedi manteisio ar y gwasanaeth. Mae’r nifer sydd wedi manteisio yng Nghymru ymhlith yr uchaf yn y DU. Mae hyn yn bwysig gan fod contract Cyflymu Cymru yn cynnwys mecanwaith adfachu lle mae Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid yn ôl gan BT. Mae lefel y cyllid yn dibynnu ar y nifer sy'n manteisio. Bydd hyn yn darparu ffrwd ariannu yn y dyfodol ar gyfer ail-fuddsoddi mewn technolegau band eang, gan ein helpu i barhau i ymestyn a gwella cyrhaeddiad band eang ffibr neu i fuddsoddi mewn technolegau eraill. Rydym ni wedi gosod targed uchelgeisiol i’n hunain o 50 y cant yn manteisio i’w gyrraedd erbyn diwedd cyfnod gweithredol y contract yn 2024. Rydym ni eisiau gweld o leiaf hanner y bobl sy'n gallu cysylltu â band eang cyflym iawn yn gwneud hynny, a byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai pob Aelod godi ymwybyddiaeth o’r ffaith fod band eang cyflym iawn ar gael yn eu hetholaethau a'u rhanbarthau

To sum up, we are making extraordinary progress through the Superfast Cymru programme and we are adding to that to ensure that even more premises in Wales have access. We are also developing new schemes so that all premises in Wales can access superfast speeds. Finally, we are looking to the future by securing clawback funding to continue to bring faster speeds to more areas and working with industry to bring the best new technologies into Wales for our citizens and businesses.

I grynhoi, rydym ni’n gwneud cynnydd eithriadol trwy raglen Cyflymu Cymru ac rydym ni’n ychwanegu at hynny er mwyn sicrhau bod gan hyd yn oed mwy o adeiladau yng Nghymru fynediad. Rydym ni hefyd yn datblygu cynlluniau newydd fel y gall pob adeilad yng Nghymru gael mynediad at gyflymder cyflym iawn. Yn olaf, rydym ni’n edrych i’r dyfodol drwy sicrhau cyllid adfachu i barhau i ddod â chyflymderau cyflymach i fwy o ardaloedd a gweithio gyda diwydiant i ddod â'r technolegau newydd gorau i Gymru ar gyfer ein dinasyddion a’n busnesau.

14:38

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I’m most grateful to the Deputy Minister for bringing her statement today; it is most timely. She will know that there are many questions about the capacity of this particular programme, both for and against, and, certainly, this gives a very good example of best practice in the way in which BT are rolling out this scheme right across Wales. There remain significant problems, as the Minister is aware but, clearly, this also demonstrates good co-operation between Governments, with the Prime Minister here last year announcing the £57 million being made available for this very comprehensive scheme.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am gyflwyno ei datganiad heddiw; mae'n amserol iawn. Bydd yn gwybod bod llawer o gwestiynau am allu'r rhaglen benodol hon, o blaid ac yn erbyn, ac, yn sicr, mae hyn yn rhoi enghraifft dda iawn o arfer gorau yn y ffordd y mae BT yn cyflwyno’r cynllun hwn ledled Cymru. Ceir problemau sylweddol o hyd, fel y mae’r Gweinidog yn ymwybodol ond, yn amlwg, mae hyn hefyd yn dangos cydweithrediad da rhwng Llywodraethau, gyda Phrif Weinidog y DU yma y llynedd yn cyhoeddi’r £57 miliwn sy’n cael ei roi ar gael ar gyfer y cynllun cynhwysfawr iawn hwn.

I note that the Deputy Minister is quite rightly proud of many of the achievements that have been achieved, but I hope there’s not a note of complacency here, because she knows that there is only a really short period where we will actually be ahead of other countries; very quickly they will catch up an may exceed us. It’s good news about what’s happening in Swansea and in Monmouthshire, but, more recently, I was in the Deeside enterprise zone in north Wales, where they had very significant problems. The Deputy Minister will no doubt be well aware of that, but I ask her to comment on that.

Sylwaf fod y Dirprwy Weinidog yn haeddiannol falch o lawer o'r llwyddiannau a gyflawnwyd, ond rwy’n gobeithio nad oes nodyn o hunanfodlonrwydd yma, oherwydd mae hi'n gwybod mai dim ond am gyfnod byr iawn y byddwn ni ar y blaen i wledydd eraill mewn gwirionedd; byddant yn dal i fyny’n gyflym iawn ac efallai’n mynd heibio i ni. Mae'n newyddion da am yr hyn sy'n digwydd yn Abertawe ac yn sir Fynwy, ond, yn fwy diweddar, roeddwn i yn ardal fenter Glannau Dyfrdwy yn y gogledd, lle'r oedd ganddyn nhw broblemau sylweddol iawn. Mae'n siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn gwbl ymwybodol o hynny, ond gofynnaf iddi gynnig sylwadau ar hynny.

Also, there remain a number of notspots here in the city of Cardiff and within a few miles of this building, between Newport and Cardiff, where there are significant problems that have not yet been correctly addressed. I mention to the Deputy Minister that one contributor to the Enterprise and Business Committee reported how his business spent £20,000 a year on leased lines so he would have a reliable broadband connection to customers. Will the Deputy Minister also confirm that the option will remain to allow businesses in a fibre to the cabinet-enabled area to be able to upgrade to fibre to the premises on demand, should Welsh businesses want to upgrade to even faster speeds?

Hefyd, ceir nifer o fannau gwan yma yn ninas Caerdydd ac o fewn ychydig filltiroedd i'r adeilad hwn, rhwng Casnewydd a Chaerdydd, lle ceir problemau sylweddol nad ydynt wedi cael sylw priodol eto. Rwy'n sôn wrth y Dirprwy Weinidog bod un cyfrannwr i'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi hysbysu sut y gwariodd ei fusnes £20,000 y flwyddyn ar linellau ar brydles fel y byddai ganddo gysylltiad band eang dibynadwy i gwsmeriaid. A wnaiff y Dirprwy Weinidog gadarnhau hefyd y bydd y dewis yn parhau i ganiatáu i fusnesau mewn ardal ffibr i'r cabinet allu uwchraddio i ffibr i'r adeilad yn ôl y gofyn, pe byddai busnesau yng Nghymru eisiau uwchraddio i gyflymder cyflymach fyth?

14:40

## Julie James [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you for those comments. We are rightly proud, I think, of the scheme. I think it's worth mentioning that we're only second to the exemplar projects in Cornwall, where the take-up, for example, is around 25 per cent, and we're at just about 22 per cent here in Wales, so we're doing very well on that. Also, the roll-out is much faster than it is elsewhere in the UK and in large parts of Europe, so we're also doing very well there.

Diolch i chi am y sylwadau yna. Rydym ni'n haeddiannol falch, rwy'n meddwl, o'r cynllun. Rwy'n credu ei bod yn werth sôn ein bod ni'n ail i'r prosiectau enghreifftiol yng Nghernyw yn unig, lle mae'r nifer sy'n manteisio, er enghraifft, tua 25 y cant, ac rydym ni wedi cyrraedd tua 22 y cant yma yng Nghymru, felly rydym ni'n gwneud yn dda iawn o ran hynny. Hefyd, mae'r broses o gyflwyno yn llawer cyflymach nag y mae mewn mannau eraill yn y DU ac mewn rhannau helaeth o Ewrop, felly rydym ni hefyd yn gwneud yn dda iawn o'r safbwynt hwnnw.

I do, however, acknowledge the Member's point that there are some areas where we've had some difficulty, and that, of course, is the purpose of my announcement today. So, the announcement today is to cover those premises that were hitherto uncovered. He mentions Deeside in particular, and I specifically mentioned the ultrafast scheme that's now available, and also the roll-out of superfast using alternative technologies, which was in my statement. So, we are confident that that will address the issues in Deeside that have been brought to my attention by a number of Members from the area.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod pwynt yr Aelod bod rhai ardaloedd lle'r ydym ni wedi cael rhywfaint o anhawster, a dyna, wrth gwrs, yw diben fy nghyhoeddiad heddiw. Felly, diben y cyhoeddiad hynny yw cynnwys yr adeiladau hynny nad oeddent wedi'u cynnwys hyd yma. Mae'n sôn am Lannau Dyfrdwy yn benodol, a soniais yn benodol am y cynllun gwibgyswllt sydd ar gael erbyn hyn, yn ogystal â'r broses o gyflwyno band eang cyflym iawn gan ddefnyddio technolegau amgen, a oedd yn fy natganiad. Felly, rydym ni'n hyderus y bydd hynny'n mynd i'r afael â'r problemau yng Nglannau Dyfrdwy y tynnwyd fy sylw atynt gan nifer o Aelodau o'r ardal.

In terms of notspots, the difficulty there is that this is a scheme that is intended to cover those areas that are not commercially viable. The areas the Member mentions, whilst frustrating, are, of course, in the commercially viable areas. So, it's not until, I'm afraid, the end of this programme that we'll be able to see what the actual problem across Wales is, and to have a negotiation with the UK Government, the European funding programme and, indeed, the commercial operators to see what the issues are there and whether those notspots are, in fact, commercially unviable. I'm afraid that is one of the complications of this programme, and those people will have to be patient for a couple more years until we get to the end of the roll-out.

O ran mannau gwan, yr anhawster yn hynny o beth yw nad yw'r cynllun hwn wedi'i fwriadu i gwmpasu'r ardaloedd hynny nad ydynt yn fasnachol hyfyw. Mae'r ardaloedd y mae'r Aelod yn eu crybwyll, er yn rhwystredig, yn yr ardaloedd sy'n fasnachol hyfyw, wrth gwrs. Felly, mae gen i ofn y bydd hi'n ddiwedd y rhaglen hon cyn i ni allu gweld beth yw'r broblem wirioneddol ledled Cymru, ac i gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, y rhaglen ariannu Ewropeaidd ac, yn wir, y gweithredwyr masnachol i weld beth yw'r problemau yn hynny o beth a pha un a yw'r mannau gwan hynny yn fasnachol anhyfyw mewn gwirionedd. Mae gen i ofn mai dyna un o gymhlethdodau'r rhaglen hon, a bydd yn rhaid i'r bobl hynny fod yn amyneddgar am flwyddyn neu ddwy arall tan i ni gyrraedd diwedd y broses gyflwyno.

14:42 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Deputy Minister for the update today. It's quite right, of course, as you say, that we aim towards universal roll-out in order to ease our transition to a truly digital economy. A few questions arise from your statement today. You say that the recent Wales Audit Office report was very positive. I know my constituents, for example, won't be excited, as they wait with bated breath for their superfast connection, to hear from the Wales Audit Office that the scheme is making reasonable progress. I'd certainly like it to be making more than reasonable progress at this point, but you point out yourself that Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil and Rhondda Cynon Taf are 90 per cent complete, with Gwynedd and Anglesey amongst areas with 70 per cent completion. It is confirmation, is it not, that there is a lag related to rurality with the roll-out at the moment? You point out two schemes that the Government is involved in to ensure that the last 4 per cent, if you like, are targeted for superfast broadband. Is there a place, moving forward, to bring in the inclusion of, say, 4G connectivity into the superfast programme, rather than just relying on the market itself to reach those last 4 per cent?

Diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am y diweddariad heddiw. Mae'n gwbl gywir, wrth gwrs, fel y dywedwch, bod gennym y nod o gyflwyniad cyffredinol er mwyn hwyluso ein newid i economi wirioneddol ddigidol. Mae ychydig o gwestiynau'n codi o'ch datganiad heddiw. Rydych chi'n dweud bod adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru yn gadarnhaol iawn. Gwn na fydd fy etholwyr, er enghraifft, yn cael eu cyffroi, wrth iddyn nhw aros yn eiddgar am eu cysylltiad cyflym iawn, i glywed gan Swyddfa Archwilio Cymru fod y cynllun yn gwneud cynnydd rhesymol. Byddwn yn sicr yn hoffi iddo fod yn gwneud mwy na chynnydd rhesymol ar yr adeg hon, ond rydych chi'n nodi eich hun fod 90 y cant o'r gwaith wedi'i gwblhau ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, ac mae Gwynedd ac Ynys Môn ymhlith yr ardaloedd lle mae 70 y cant wedi'i gwblhau. Mae'n gadarnhad, onid yw, bod oedi'n gysylltiedig â natur wledig o ran y broses gyflwyno ar hyn o bryd? Rydych chi'n nodi dau gynllun y mae'r Llywodraeth yn rhan ohonynt i sicrhau bod y 4 y cant olaf, os mynnwch chi, yn cael eu targedu ar gyfer band eang cyflym iawn. A oes lle, wrth symud ymlaen, i gynnwys, er enghraifft, cysylltedd 4G yn y rhaglen band eang cyflym iawn, yn hytrach na dibynnu ar y farchnad ei hun i gyrraedd y 4 y cant olaf hwnnw?

You mentioned that 42,000 new premises have been targeted and will now be included in the scheme, and that, accordingly, the date for completion of the build phase of the contract will be extended to June 2017. Does that mean the whole scheme is extended until 2017, or is that just additional time for those 42,000 premises? You say that BT will still achieve the original contract target of 655,000 premises by next summer, but has there been now a change of prioritisation? Will some premises in some parts of Wales find that they may have to wait an additional period—an additional year—or is that additional year only for those additional premises? It would be good to have a response on that.

Soniasoch fod 42,000 o adeiladau newydd wedi cael eu targedu ac y byddant yn cael eu cynnwys yn y cynllun bellach, ac, yn unol â hynny, y bydd y dyddiad ar gyfer cwblhau cyfnod adeiladu'r contract yn cael ei ymestyn i fis Mehefin 2017. A yw hynny'n golygu bod y cynllun cyfan yn cael ei ymestyn hyd at 2017, neu ai dim ond amser ychwanegol ar gyfer y 42,000 o adeiladau hynny yw hwnnw? Rydych chi'n dweud y bydd BT yn dal i gyrraedd targed gwreiddiol y contract o 655,000 o adeiladau erbyn yr haf nesaf, ond a fu newid blaenoriaeth erbyn hyn? A fydd rhai adeiladau mewn rhai rhannau o Gymru yn canfod y gallai fod yn rhaid iddyn nhw aros am gyfnod ychwanegol—blwyddyn arall—neu a yw'r flwyddyn ychwanegol honno ar gyfer yr adeiladau ychwanegol hynny yn unig? Byddai'n dda cael ymateb ar hynny.

There have been concerns raised with me regarding the funding for Superfast Cymru. It's jointly funded by the UK Government, the Welsh Government and the EU. The contribution from the EU is made under the agreement that the Welsh Government would match fund it. Can the Deputy Minister reassure the Assembly that the match funding from the Welsh Government is committed, that it is in the budget, and that it certainly hasn't been spent elsewhere?

Codwyd pryderon gyda mi ynghylch y cyllid ar gyfer Cyflymu Cymru. Mae'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Gwneir y cyfraniad gan yr UE yn unol â'r cytundeb y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu arian cyfatebol ar ei gyfer. A all y Dirprwy Weinidog roi sicrwydd i'r Cynulliad bod yr arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru wedi ei ymrwymo, ei fod yn y gyllideb, a'i fod yn sicr heb gael ei wario yn rhywle arall?

There is excitement in Swansea about the prospect of super-superfast broadband. One last point, though: given that the EU's definition of 'superfast' is speeds in excess of 30 Mbps and that the Superfast Cymru project only commits BT to delivering speeds in excess of 24 Mbps, is there a danger that, when the project is complete, Wales will be lagging behind what will, by then, become the new benchmarks for the success of superfast roll-out?

Mae cyffro yn Abertawe am y posibilrwydd o fand eang cyflym iawn. Un pwynt olaf, fodd bynnag: o ystyried mai diffiniad yr UE o 'cyflym iawn' yw cyflymder o fwy na 30 Mbps a bod prosiect Cyflymu Cymru ddim ond yn ymrwymo BT i gyflwyno cyflymderau o dros 24 Mbps, a oes perygl, ar ôl cwblhau'r prosiect, y bydd Cymru ar ôl o ran yr hyn a fydd, erbyn hynny, yn feincnodau newydd ar gyfer llwyddiant cyflwyno band eang cyflym iawn?

One other point, actually: on take-up, 22 per cent of premises that have had access to the service for over one year have taken up the service. You say that Wales is amongst the highest in the UK. Frankly, I still find it a desperately low figure. We need to be aiming much, much higher. I find the 50 per cent take-up by 2024 to be rather low, still, for a period that is nine years in the future. I'll certainly do my bit, as you appeal for AMs to make constituents aware of the availability of superfast broadband, but what's the Government going to do?

Un pwynt arall, a dweud y gwir: o ran y nifer sy'n manteisio, mae 22 y cant o adeiladau y bu ganddynt fynediad at y gwasanaeth ers dros flwyddyn wedi manteisio ar y gwasanaeth. Rydych chi'n dweud bod Cymru ymhlith yr uchaf yn y DU. I fod yn blaen, rwy'n dal o'r farn ei fod yn ffigur truenus o isel. Mae angen i ni fod â nod llawer, llawer uwch. Rwy'n meddwl bod y ganran sy'n manteisio o 50 y cant erbyn 2024 braidd yn isel, o hyd, am gyfnod sydd naw mlynedd i'r dyfodol. Byddaf yn sicr yn chwarae fy rhan, gan eich bod yn apelio i ACau wneud etholwyr yn ymwybodol o'r ffaith fod band eang cyflym iawn ar gael, ond beth mae'r Llywodraeth yn mynd i'w wneud?

14:46

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

There was quite a range there. I'll do my best. In terms of the additional premises, most of those will be in the final year of the phasing, because actually a lot of them are difficult to reach, so that's why they're in this second phase. Having said that, it's not all of them. Some of them are in areas with new build, which are reasonably easy to fix. So, we haven't said that they have to be phased in accordance with the original programme, although actually, in practice, that is more or less how it will work out. There are a couple of new builds and so on in the new set of 43,000 premises, which will be relatively easy to fix, so they'll go fast, although they won't be reached before—. It's not disrupting the other programme, which is, I think, what the Member was asking me.

Roedd cryn amrywiaeth yn y fan yna. Byddaf yn gwneud fy ngorau. O ran yr adeiladau ychwanegol, bydd y rhan fwyaf o'r rheini ym mlwyddyn olaf y cyfnodau, gan fod llawer ohonyn nhw'n anodd eu cyrraedd, a dweud y gwir, felly dyna pam maen nhw yn yr ail gam hwn. Wedi dweud hynny, nid yw'n cynnwys pob un ohonynt. Mae rhai ohonyn nhw mewn ardaloedd ag adeiladau newydd, sy'n weddol hawdd eu datrys. Felly, nid ydym wedi dweud bod yn rhaid iddyn nhw gael eu cyflwyno'n unol â'r rhaglen wreiddiol, er, yn ymarferol, dyna sut y byddai'n gweithio fwy neu lai. Mae un neu ddau o brosiectau adeiladau newydd ac yn y blaen yn y gyfres newydd o 43,000 o adeiladau, a fydd yn gymharol hawdd eu datrys, felly byddant yn mynd yn gyflym, er na fyddant yn cael eu cyrraedd cyn—. Nid yw'n amharu ar y rhaglen arall, sef, rwy'n meddwl, yr hyn yr oedd yr Aelod yn ei ofyn i mi.

The roll-out is dependent, obviously, on the difficulty of reaching the premises and the difficulty of the technology involved. The other question you asked me is whether we were looking at 4G, and the answer is simply 'yes' to that. We're actually looking at all technologies that will get people superfast speeds—and, indeed, ultrafast speeds at some point. We've had a lot of negotiations with mobile providers about coverage and so on. In terms of the match funding, I can confirm the match funding is there.

Mae'r broses gyflwyno'n dibynnu, yn amlwg, ar yr anhawster o gyrraedd yr adeiladau ac anhawster y dechnoleg dan sylw. Y cwestiwn arall y gwnaethoch ei ofyn i mi yw a ydym ni'n edrych ar 4G, ac 'ydym' yw'r ateb syml i hynny. Rydym ni'n edrych ar bob technoleg a fydd yn cyflwyno cyflymder cyflym iawn i bobl—ac, yn wir, cyflymder gwibgyswllt ar ryw adeg. Rydym ni wedi cael llawer o drafodaethau gyda darparwyr ffonau symudol am dderbyniad ac yn y blaen. O ran arian cyfatebol, gallaf gadarnhau bod yr arian cyfatebol ar gael.

In terms of the average megabits per second, we had to have a floor, but it's a floor not a target, and, actually, most of them are way above that. That's the floor, so if they don't get the premises to the floor, they don't get paid. That's how the mechanism works. They're paid by premises passed, not by premises planned. So, it's not until the actual premises could get speeds of that amount that BT are paid under the contract.

O ran y megabitau yr eiliad cyfartalog, roedd yn rhaid i ni gael sylfaen, ond sylfaen ydyw yn hytrach na tharged, ac, mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn llawer uwch na hynny. Dyna'r sylfaen, felly os nad ydynt yn cael yr adeilad i'r sylfaen, nid ydyn nhw'n cael eu talu. Dyna sut mae'r mecanwaith yn gweithio. Fe'u telir ar sail adeiladau a gymeradwyir, nid ar sail adeiladau a gynllunnir. Felly, nid yw BT yn cael ei dalu dan y contract tan y gall yr adeilad gael y cyflymder hwnnw.

In terms of take-up, I take the Member's point, because obviously it's tempting to say it should be 100 per cent and so on, but we're actually going by average take-up across countries with superfast and so on, and so we are actually doing very well. We have set the ambitious target of getting half of the people to do it. I would just remind the Member that you can take a horse to water, but you can't necessarily make it drink. So, obviously, this is a matter for people. If they don't wish to purchase it, then we're not in a position to make them do that.

O ran y nifer sy'n manteisio, rwy'n derbyn pwynt yr Aelod, gan ei bod yn amlwg ei fod yn demtasiwn i ddweud y dylai fod yn 100 y cant ac yn y blaen, ond rydym ni'n gweithio ar sail nifer gyfartalog sy'n manteisio ar draws gwledydd â band eang cyflym iawn ac yn y blaen, ac felly rydym ni'n gwneud yn dda iawn mewn gwirionedd. Rydym ni wedi gosod targed uchelgeisiol o gael hanner y bobl i wneud hynny. Hoffwn atgoffa'r Aelod y gallwch chi fynd â cheffyl at ddŵr, ond ni allwch chi wneud iddo yfed o reidrwydd. Felly, yn amlwg, mae hwn yn fater i bobl. Os nad ydyn nhw eisiau ei brynu, yna nid ydym ni mewn sefyllfa i'w gorfodi i wneud hynny.

14:48 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, I actually appreciate the statement today and I welcome it, because it's important that we see how broadband is going to be delivering for Wales and how we are getting to a stage where a large proportion of Wales is now able to access superfast broadband. It's not just rurality, which was identified by Rhun ap Iorwerth, because Neath Port Talbot was one of the 70 per cents, and that's obviously got areas that are in the Valleys, which we've got to look at as well, in difficulty.

Ddirprwy Weinidog, rwyf wir yn gwerthfawrogi datganiad heddiw ac yn ei groesawu, oherwydd mae'n bwysig ein bod ni'n gweld sut y mae band eang yn mynd i fod yn cyflawni dros Gymru a sut yr ydym ni'n cyrraedd sefyllfa lle gall cyfran helaeth o Gymru gael mynediad at fand eang cyflym iawn erbyn hyn. Nid dim ond ardaloedd gwledig yw'r broblem, fel y nodwyd gan Rhun ap Iorwerth, gan fod Castell-nedd Port Talbot yn un o'r ardaloedd 70 y cant, ac mae hynny'n amlwg yn cynnwys ardaloedd sydd yn y Cymoedd, y mae'n rhaid i ni eu hystyried hefyd, fel bod mewn trafferth.

There are a couple of points I want to raise with you. As you know, I've raised with you and your predecessor the issue of industrial estates, particularly the two in Baglan, but I've also got the one in Kenfig Hill. It's important they can access, because broadband is about getting to the businesses, so businesses can actually drive forward and grow the economy. We have concerns over the linkages for those business parks as such. You've identified here that you've actually let a contract. Can you clarify a couple of points for me? Why weren't they perhaps included in the change of contract, or the additional contract, for the BT 42,000 premises? There are 3,000 clearly in there, so why weren't they included in that type of agreement, particularly as many of those industrial estates are surrounded by residential areas, which probably are delivered by the contract by BT in one sense? Can you confirm the speeds that those businesses will have access to? We talk about the 500 Mbps for the superfast, but what speeds and megabits are those going to expect to receive, and is that futureproofed? If we're in a situation where the infrastructure is in place for many areas to deliver future possibilities of 500 Mbps, will these services be able to deliver the same, or will we see the possibility of businesses saying, 'I won't go there because in 10 years' time, I can't have the speeds everyone else will have'? So, what is going to happen with those speeds?

Mae un neu ddau o bwyntiau yr hoffwn eu codi gyda chi. Fel y gwyddoch, rwyf wedi codi gyda chi a'ch rhagflaenydd y mater o ystadau diwydiannol, yn enwedig y ddau ym Maglan, ond mae'r un ym Mynydd Cynffig gen i hefyd. Mae'n bwysig eu bod yn gallu cael mynediad, gan mai diben band eang yw cyrraedd y busnesau, fel y gall busnesau fwrw ymlaen a thyfu'r economi. Mae gennym ni bryderon ynghylch y cysylltiadau ar gyfer y parciau busnes hynny fel y cyfryw. Rydych chi wedi nodi yma eich bod wedi cytuno ar gontract. A allwch chu esbonio un neu ddau o bwyntiau i mi? Pam na chawsant eu cynnwys yn y newid contract efallai, neu'r contract ychwanegol, ar gyfer y 42,000 o adeiladau BT? Mae 3,000 i mewn yna'n amlwg, felly pam na chawsant eu bod yn cynnwys yn y math hwnnw o gytundeb, yn enwedig gan fod llawer o'r ystadau diwydiannol hynny wedi'u hamgylchynu gan ardaloedd preswyl, y mae'n debyg sy'n cael eu darparu gan y contract gan BT mewn un ystyr? A allwch chi gadarnhau'r cyflymder y bydd gan y busnesau hynny fynediad ato? Rydym ni'n sôn am y 500 Mbps ar gyfer y band eang cyflym iawn, ond pa gyflymder a megabitiau mae'r rheini'n mynd i ddisgwyl eu cael, ac a yw hynny wedi'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol? Pe baem ni mewn sefyllfa lle mae'r seilwaith ar waith i lawer o ardaloedd gyflawni posibiliadau o 500 Mbps yn y dyfodol, a fydd y gwasanaethau hyn yn gallu darparu'r un fath, neu a fyddwn ni'n gweld y posibilrwydd o fusnesau'n dweud, 'Nid wyf am fynd yno gan na allaf i gael yr un cyflymder y bydd gan bawb arall ymhen 10 mlynedd'? Felly, beth sy'n mynd i ddigwydd gyda'r cyflymder hwnnw?

Can you also confirm the service providers, because we're talking about infrastructure here, but, to access broadband, you need a service provider for broadband? What service providers will be available on that particular contract so businesses will have a choice of providers, so they're not stuck to a particular provider, which may then mean they're stuck in businesses?

A allwch chi hefyd gadarnhau'r darparwyr gwasanaeth, gan ein bod yn sôn am seilwaith yma, ond, i gael mynediad at fand eang, mae angen darparwr gwasanaeth ar gyfer band eang arnoch? Pa ddarparwyr gwasanaeth fydd ar gael ar y contract penodol hwnnw fel y bydd gan fusnesau ddewis o ddarparwyr, fel nad ynghlwm i ddarparwr penodol, a allai olygu wedyn eu bod yn sownd mewn busnesau?

Can you also clarify—and I agree with you—the take-up issue? It's a big thing, because I've had a situation in Glyncorrwg where someone contacted me to say, 'We haven't got superfast broadband; we've got a business here'. We've checked it. They did have it, they just didn't know they had to actually apply for the connection and service use. So, who's going to fund this promotion to actually encourage people to take up this? BT may do the commercial aspect, but is the Welsh Government going to provide any funding to promote the actual take-up? It is all about futureproofing. It's about putting things in place for the future, for businesses and our communities.

A allwch chi hefyd egluro—ac rwy'n cytuno â chi—mater y nifer sy'n manteisio? Mae'n beth mawr, gan fy mod i wedi cael sefyllfa yng Nglyncorrwg lle cysylltodd rhywun â mi i ddweud, 'Nid oes gennym ni fand eang cyflym iawn; mae gennym ni fusnes yma'. Rydym ni wedi ei wirio. Roedd ganddyn nhw fand eang cyflym, ond nid oeddent yn gwybod bod rhaid iddyn nhw wneud cais am y cysylltiad a defnydd o'r gwasanaeth. Felly, pwy sy'n mynd i ariannu'r hyrwyddiad hwn i annog pobl i fanteisio ar hyn? Efallai fod BT yn gwneud yr agwedd fasnachol, ond a yw Llywodraeth Cymru'n mynd i ddarparu unrhyw gyllid i annog pobl i fanteisio? Mae'n ymwneud yn llwyr â diogelu ar gyfer y dyfodol. Mae'n ymwneud â rhoi pethau ar waith ar gyfer y dyfodol, i fusnesau a'n cymunedau.

14:51 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I'll start with that last point first. The answer is 'yes', we are funding it. We're funding it in partnership with BT. Just to confirm once again that the roll-out is the wholesale bit of it, so if you think of it like electricity, it's the pylons and the supply, and actually you can buy your electricity off any service provider. So, the internet service providers who choose to provide a commercial service on the infrastructure that's been rolled out by Superfast Cymru can do so if they want to. So, virtually everywhere in Wales, there will be a range of service providers who are doing that. Actually, Members will have noticed recently that a number of service providers have started to advertise services in Wales, which they weren't doing earlier on. It's not until you get to a critical mass of infrastructure that it's actually worth people providing it, but there are now a number of ISPs—including BT, obviously, as a provider—who supply that. All the usual names that Members will be familiar with are providing those services.

Wel, rwyf am ddechrau gyda'r pwynt olaf yn gyntaf. 'Ydym' yw'r ateb, rydym ni yn ariannu hynny. Rydym ni'n ei ariannu mewn partneriaeth â BT. Dim ond i gadarnhau unwaith eto mai'r broses o gyflwyno yw'r agwedd cyfanwerthu arno, felly os gwnewch chi feddwl amdano fel trydan, dyma'r peilonau a'r cyflenwad, a gallwch brynu eich trydan gan unrhyw ddarparwr gwasanaeth. Felly, gall darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd sy'n dewis darparu gwasanaeth masnachol ar y seilwaith sydd wedi cael ei gyflwyno gan Cyflymu Cymru wneud hynny os ydynt yn dymuno. Felly, bron ym mhob man yng Nghymru, bydd amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaeth sy'n gwneud hynny. A dweud y gwir, bydd yr Aelodau wedi sylwi'n ddiweddar bod nifer o ddarparwyr gwasanaeth wedi dechrau hysbysebu gwasanaethau yng Nghymru, nad oeddent yn ei wneud yn gynharach. Nid yw'n werth i bobl ei ddarparu tan i chi gyrraedd màs critigol o seilwaith, ond ceir nifer o ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd erbyn hyn—gan gynnwys BT, yn amlwg, fel darparwr—sy'n cyflenwi hynny. Mae'r holl enwau arferol y bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â nhw yn darparu'r gwasanaethau hynny.

In terms of the businesses and how that's being rolled out, on the specifics, I don't actually know which provider it is off the top of my head, so I'll write to the Member and say specifically which one it is in his particular area. Basically, we've gone for the one that's most likely to be able to get it there fastest in any particular area, but I'm afraid I don't know off the top of my head which one it is in your constituency.

O ran y busnesau a sut mae hynny'n cael ei gyflwyno, o ran y manylion, nid wyf yn gwybod mewn gwirionedd pa ddarparwr yw ef oddi ar dop fy mhen, felly byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ac yn dweud yn benodol pa un ydyw yn ei ardal benodol ef. Yn y bôn, rydym ni wedi dewis yr un sydd fwyaf tebygol o allu ei gael yno gyflymaf mewn unrhyw ardal benodol, ond mae gen i ofn nad wyf yn gwybod oddi ar dop fy mhen pa un ydyw yn eich etholaeth chi.

The speeds will be the speeds that we've promised. So, the floor speed is as discussed with Rhun ap Iorwerth earlier, but I would just point out, for businesses, you can, of course, go for ultra-connectivity as well, but you have to pay the price for that. So, it's obviously more expensive to get, but it's a lot faster when you've got it. We are providing connectivity schemes in enterprise zones and business areas and so on. So, again, if the Member wants to write to me specifically about a particular business or area, then I'd be happy to provide the best information for that specifically, but we have a range of options for businesses, including the ability to purchase much faster speeds if that's what the business requires.

Y cyflymder rydym ni wedi ei addo fydd y cyflymder. Felly, mae'r cyflymder sylfaen fel y trafodwyd gyda Rhun ap Iorwerth yn gynharach, ond hoffwn nodi, ar gyfer busnesau, y gallwch, wrth gwrs, ddewis gwibgyswllt hefyd, ond mae'n rhaid i chi dalu'r pris am hynny. Felly, mae'n amlwg yn fwy drud i'w gael, ond mae'n llawer cyflymach pan ei fod gennych chi. Rydym ni'n darparu cynlluniau cysylltedd mewn ardaloedd menter ac ardaloedd busnes ac yn y blaen. Felly, unwaith eto, os hoffai'r Aelod ysgrifennu ataf yn benodol am fusnes neu ardal benodol, yna byddwn yn hapus i ddarparu'r wybodaeth orau ar gyfer hynny'n benodol, ond mae gennym ni amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer busnesau, gan gynnwys y gallu i brynu cyflymder llawer cyflymach os mai dyna sydd ei angen ar y busnes.

I think I've covered most of the things that you raised. In terms of the original contract, this is just the whole complication about this as a European-funded programme, and therefore it's interfering in a market, and we have to prove that the market has failed in order to be able to conduct the interference. I'm afraid that, until the service providers told us that commercially they wouldn't cover areas, we weren't able to extend the programme. That's why most of the business areas are last not first, because actually they did intend to commercially roll out into those areas, and it's only very recently that we've realised—or they've realised—that they're not intending to do so. So, it's driven, I'm afraid, by the market, and not by us.

Rwy'n credu fy mod i wedi trafod y rhan fwyaf o'r pethau a godwyd gennych. O ran y contract gwreiddiol, dyma'r holl gymhlethdod am hon fel rhaglen a ariennir gan Ewrop, ac felly mae'n ymyrryd mewn marchnad, ac mae'n rhaid i ni brofi bod y farchnad wedi methu er mwyn gallu ymyrryd. Mae gen i ofn, tan i'r darparwyr gwasanaeth ddweud wrthym na fyddent yn darparu ar gyfer ardaloedd yn fasnachol, nid oeddem yn gallu ymestyn y rhaglen. Dyna pam mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd busnes yn olaf nid yn gyntaf, gan eu bod nhw, mewn gwirionedd, yn bwriadu cyflwyno'n fasnachol yn yr ardaloedd hynny, a dim ond yn ddiweddar iawn rydym ni wedi sylweddoli—neu maen nhw wedi sylweddoli—nad ydynt yn bwriadu gwneud hynny. Felly, mae'n cael ei yrru, yn anffodus, gan y farchnad, ac nid gennym ni.

14:54

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, I recognise that when it comes to scrutinising broadband, obviously we're trying to hit a moving target with things moving on very quickly. Clearly, constituents, for all of us, are reporting to us issues that they have with their broadband, and you will know that I have issues within my own region as well. If I could just turn to a few specifics within the statement, if I may, you talk about the mixture of technologies that you're hoping to employ to meet, as you describe,

Ddirprwy Weinidog, rwy'n cydnabod pan ddaw i graffu ar fand eang, yn amlwg rydym ni'n ceisio bwrw targed symudol gyda phethau'n symud ymlaen yn gyflym iawn. Yn amlwg, mae etholwyr, i bob un ohonom, yn ein hysbysu am broblemau sydd ganddynt gyda'u band eang, a byddwch yn gwybod bod gennyf broblemau yn fy rhanbarth fy hun hefyd. Pe gallwn i droi at ychydig o fanylion yn y datganiad, os caf, rydych chi'n siarad am y gymysgedd o dechnolegau yr ydych chi'n gobeithio eu defnyddio i fodloni, fel rydych chi'n disgrifio,

'the final few per cent of premises'.

'yr ychydig ganrannau olaf o adeiladau'.

Many constituents will be concerned that mobile solutions might not always be a viable proposition given the mobile coverage that we currently have in Wales. Whilst that's improving, I'm wondering if you can tell us what percentage of Wales is currently covered by 4G. Sadly, it tends to be the same places covered by 4G that are already covered by relatively decent infrastructure in other ways. I'm wondering if you can tell us as well how fast that situation is improving. Clearly, I know that some of the networks are investing in further infrastructure, but there are planning issues in the way of developing masts, as I understand it, and I'd be interested to know what discussions you've had with the Minister with responsibility for planning about removing some of those hurdles.

Bydd llawer o etholwyr yn poeni efallai na fydd atebion symudol yn ddewis ymarferol bob amser o ystyried y derbyniad symudol sydd gennym yng Nghymru ar hyn o bryd. Er bod hwnnw'n gwella, rwy'n meddwl tybed a allwch chi ddweud wrthym pa ganran o Gymru sy'n derbyn 4G ar hyn o bryd. Yn anffodus, y duedd yw mai lleoedd sydd eisoes â seilwaith cymharol dda mewn ffyrdd eraill sy'n derbyn 4G. Rwy'n meddwl tybed a allwch chi ddweud wrthym hefyd pa mor gyflym mae'r sefyllfa honno'n gwella. Gwn, yn amlwg, fod rhai o'r rhwydweithiau'n buddsoddi mewn seilwaith pellach, ond ceir problemau cynllunio sy'n rhwystro datblygiad mastiau, yn ôl a ddeallaf, a byddai gen i ddiddordeb mewn cael gwybod pa drafodaethau yr ydych chi wedi eu cael gyda'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am gynllunio ynghylch cael gwared ar rai o'r rhwystrau hynny.

Also, clearly, between 4G and fibre-based broadband, there will be differences in terms of the connection speeds, and I'm wondering if you can explain to us, across all of the technologies, what speed is the floor that you have set, and is this likely to change over time as broadband speeds generally increase? Do you have any kind of idea of how quickly that might happen?

Hefyd, yn amlwg, rhwng 4G a band eang ffeibr, bydd gwahaniaethau o ran y cyflymder cysylltu, ac roeddwn i'n meddwl tybed a allwch chi egluro wrthym, ar draws pob un o'r technolegau, pa gyflymder yw'r llawr yr ydych wedi'i osod, ac a yw hyn yn debygol o newid dros amser wrth i gyflymder band eang gynyddu'n gyffredinol? A oes gennych chi unrhyw fath o syniad o ba mor gyflym y gallai hynny ddigwydd?

Turning to the Superfast Cymru infill project, I wanted to query some statistics. Clearly, when you have come to the Enterprise and Business Committee previously, you have been talking about releasing places like the Penylan notspots into the infill project. I was working under the understanding that they would be in there, but it would seem, in answer to other Members, that you're suggesting that perhaps they will not be necessarily in there.

I droi at y prosiect mewnlenwi Cyflymu Cymru, roedd arnaf eisiau holi am rai ystadegau. Yn amlwg, pan eich bod wedi dod at y Pwyllgor Menter a Busnes yn flaenorol, rydych chi wedi bod yn sôn am ryddhau lleoedd fel mannau gwan Penylan i mewn i'r prosiect mewnlenwi. Roeddwn ar ddeall y byddent i mewn yno, ond mae'n ymddangos, mewn atebion i Aelodau eraill, eich bod yn awgrymu efallai na fyddant o reidrwydd i mewn yno.

As I say, on specific points, in evidence to the Public Accounts Committee, you talked about phase 1 reaching 46,000 sites. You also talked about there being a phase 2 to reach some of those more tricky premises. Today, we're down to 45,000 sites, so we've lost 1,000 premises, and there is no mention of phase 2. I am wondering what has happened to those 1,000 premises, and is phase 2 likely to be going ahead. If so, on what timescale? Once phase 2 is complete, I'm wondering if we are leaving any premises unreached, because clearly there will be people who are struggling to do business in the modern world without having a decent broadband speed.

Fel y dywedais, ar bwyntiau penodol, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, fe soniasoch am gam 1 yn cyrraedd 46,000 o safleoedd. Soniasoch hefyd am gam 2 i gyrraedd rhai o'r safleoedd mwy anodd hynny. Heddiw, rydym i lawr i 45,000 o safleoedd, felly rydym wedi colli 1,000 o safleoedd, ac nid oes sôn am gam 2. Tybed beth sydd wedi digwydd i'r 1,000 o safleoedd hynny, ac a yw cam 2 yn debygol o ddigwydd? Os ydyw, beth fudd yr amserlen? Ar ôl i gam 2 gael ei gwblhau, rwy'n meddwl tybed a ydym ni'n gadael unrhyw safle heb ei gyrraedd, oherwydd yn amlwg bydd rhai pobl yn cael trafferth i wneud busnes yn y byd modern heb gyflymder band eang digonol.

I'm wondering if you can confirm the commercial element of the infill project. I was under the understanding that it was to reach those places that hadn't been commercially reached previously, but if BT do not release places into the superfast or the infill, the problem we have is that BT are holding on to places that cannot get broadband because, while they may be commercially viable in the future, they are not deemed to be so now. I met someone from the chamber of commerce just earlier, and she told me 'My mother can't get broadband'. I was able to tell her where she lived before she volunteered the information to me. We have some existing issues. In my own office, my constituency office, they're devastated they can't watch me in Plenary live because the broadband speed is inadequate. But in the centre of Cardiff, people are still unable to get the kind of broadband speeds that they are anticipating. So, I would welcome some clarification on that.

Tybed a allwch chi gadarnhau elfen fasnachol y prosiect mewnlenwi? Roeddwn ar ddeall y byddai'n cyrraedd y lleoedd hynny nad oeddent wedi cael eu cyrraedd yn fasnachol o'r blaen, ond os na fydd BT yn rhyddhau lleoedd i mewn i'r prosiect cyflym iawn neu'r prosiect mewnlenwi, y broblem sydd gennym yw bod BT yn dal eu gafael ar leoedd na allant gael band eang oherwydd, er y gallent fod yn fasnachol hyfyw yn y dyfodol, nid ydynt yn cael eu hystyried felly ar hyn o bryd. Cyfarfûm â rhywun o'r siambr fasnach yn gynharach heddiw, a dywedodd hi wrthyf 'Ni all fy mam gael band eang'. Roeddwn i'n gallu dweud wrthi lle'r oedd hi'n byw cyn iddi roi'r wybodaeth honno i mi. Mae gennym ni rai materion sydd eisoes yn bodoli. Yn fy swyddfa i, swyddfa fy etholaeth, maent yn torri eu calonnau am na allant fy ngwylio i yn y Cyfarfod Llawn yn fyw oherwydd bod y cyflymder band eang yn annigonol. Ond yng nghanol Caerdydd, mae pobl yn dal i fethu â chael y math o gyflymder band eang y maent yn ei ddisgwyl. Felly, byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurhad ar hynny.

In terms of fibre on demand, you talk about the majority of the country being reached by this particular technology. I'm wondering if you can confirm what that majority is likely to be. What percentage are we going to cover? Previously, we've talked about it being rolled out across the country, and I had anticipated that 'across the country' was perhaps more comprehensive than 'the majority of the country' now appears to be.

O ran ffibr ar alw, rydych yn dweud bod y dechnoleg benodol hon yn cyrraedd y rhan fwyaf o'r wlad. Tybed a allwch chi gadarnhau pa mor fawr yw'r 'rhan fwyaf' honno? Pa ganran y bydd yn ei gyrraedd? Yn flaenorol, rydym wedi sôn am gyflwyno hyn ledled y wlad, ac roeddwn wedi rhagweld y byddai 'ledled y wlad' efallai'n fwy cynhwysfawr nag y mae 'y rhan fwyaf o'r wlad' yn ymddangos nawr.

Just finally, in terms of futureproofing, I'm afraid this is another one regarding the commercial behaviour of British Telecom. I was surprised to discover that a number of new estates in my region had not been covered by either superfast broadband or, indeed, had not had adequate reparations made to their own existing broadband provision, because despite the fact that British Telecom installs the telephone lines to these hundreds of new homes, they had not actually told the broadband department that they had done so, and therefore the broadband department did not know that these homes existed. Can you please raise this with BT and ask them if they have improved their commercial operations to make sure that new homes are not left behind when planning is being done?

Yn olaf, o ran diogelu ar gyfer y dyfodol, yn anffodus mae hyn eto'n ymwneud ag ymddygiad masnachol British Telecom. Cefais fy synnu o ddarganfod nad oedd nifer o stadau newydd yn fy rhanbarth yn gallu cael naill ai fand eang cyflym iawn nac, yn wir, wedi cael gwaith gwella digonol wedi'i wneud i'w darpariaeth band eang bresennol eu hunain, oherwydd er gwaethaf y ffaith mai British Telecom sy'n gosod y llinellau ffôn yn y cannoedd o gartrefi newydd hyn, nid oeddent mewn gwirionedd wedi dweud wrth yr adran band eang eu bod wedi gwneud hynny, ac felly nid oedd yr adran band eang yn gwybod bod y cartrefi hyn yn bodoli. A allwch os gwelwch yn dda godi hyn gyda BT a gofyn iddynt a ydynt wedi gwella eu gweithrediadau masnachol i wneud yn siŵr nad yw cartrefi newydd yn cael eu gadael ar ôl pan fo'r gwaith cynllunio'n cael ei wneud?

14:59

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay, there's quite a list there, so I'll do my best to get through it all. In terms of the futureproofing—because I should have answered that in response to David Rees's question as well, and I'm sorry I forgot—I'll just say that that's actually one of the reasons we've got the clawback mechanism in place. So, once BT break even, we get a clawback amount, and that will be reinvested. The idea of that money is that it's an ability to constantly reinvest in emerging technologies and also to ensure that we have the widest possible spread. So, that's the futureproofing, if you like.

Iawn, mae honna'n dipyn o restr, felly gwnaf fy ngorau i fynd drwy'r cyfan. O ran diogelu ar gyfer y dyfodol—gan y dylwn fod wedi ateb hynny wrth ateb cwestiwn David Rees hefyd, ac mae'n ddrwg gen i fy mod wedi anghofio—yr oll yr wyf am ei ddweud yw mai dyna mewn gwirionedd yw un o'r rhesymau pam mae'r mecanwaith adfachu ar waith gennym. Felly, cyn gynted ag y bydd BT yn adennill eu costau, byddwn yn cael swm adfachu, a chaiff hwnnw ei ail-fuddsoddi. Diben yr arian hwnnw yw ei fod yn ffordd o allu ail-fuddsoddi'n gyson mewn technolegau newydd a hefyd o sicrhau bod gennym y lledaeniad ehangaf posibl. Felly, dyna'r diogelu ar gyfer y dyfodol, os mynnwch chi.

In terms of mobile coverage, I've had an enormous number of meetings with various mobile providers, and we are assured that we will have very, very widespread coverage of mobile 4G within the next couple of years. I'm not at liberty to say exactly what, I'm afraid, because obviously some of that is commercially confidential, but we are assured it will be happening, and we will be contracting with people accordingly in order to get some of the coverage that we need. We are talking about 100 per cent, so the 4 per cent that we always knew would be left out of Superfast Cymru, we're talking about getting to those 4 per cent with other technologies, because technology is moving very quickly, and, obviously, since the beginning of this programme to now a lot of the technology has improved, and so we are confident we will get to everyone eventually.

O ran darpariaeth symudol, rwyf wedi cael nifer enfawr o gyfarfodydd â gwahanol ddarparwyr ffonau symudol, ac rydym wedi cael sicrwydd y bydd gennym gyrhaeddiad 4G symudol eang iawn, iawn o fewn y ddwy flynedd nesaf. Nid wyf yn rhydd i ddweud beth yn union, yn anffodus, oherwydd mae'n amlwg bod rhywfaint o hynny'n fasnachol gyfrinachol, ond rydym wedi cael sicrwydd y bydd yn digwydd, a byddwn yn contractio â phobl yn unol â hynny er mwyn cael rhywfaint o'r cyrhaeddiad sydd ei angen arnom. Rydym yn sôn am 100 y cant, felly mae'r 4 y cant yr oeddem bob amser yn gwybod y byddai'n cael ei adael allan o Gyflymu Cymru, rydym yn sôn am gyrraedd y 4 y cant hynny â thechnolegau eraill, oherwydd mae technoleg yn symud yn gyflym iawn, ac, yn amlwg, ers dechrau'r rhaglen hon hyd heddiw mae llawer o'r dechnoleg wedi gwella, ac felly rydym yn hyderus y gallwn gyrraedd pawb yn y pen draw.

In terms of fibre on demand, that's an ultrafast business product, of course, and that will be available across the country very shortly. In fact, we are in negotiations with BT at the moment about that.

O ran ffibr ar alw, mae hwnnw'n gynnyrch busnes gwibgyswllt, wrth gwrs, a bydd ar gael ledled y wlad yn fuan iawn. A dweud y gwir, rydym mewn trafodaethau gyda BT ynglŷn â hynny ar hyn o bryd.

In terms of planning and wayleaves, that's a very complicated area indeed, but I have been in discussions with colleague Ministers in the UK Government as well as colleague Ministers here in the Welsh Government about some of the issues. That's actually tied up with the Member's questions about some of the issues around notspots and all that sort of stuff, because some of those have turned out to be quite complicated issues around how you can get across to premises, and so on.

O ran cynllunio a ffyrddfreintiau, mae hwnnw'n faes cymhleth iawn yn wir, ond rwyf wedi bod mewn trafodaethau gyda chyd-Weinidogion yn Llywodraeth y DU yn ogystal â chyd-Weinidogion yma yn Llywodraeth Cymru am rai o'r materion hyn. Mae hynny'n gysylltiedig mewn gwirionedd â chwestiynau'r Aelod am rai o'r materion yn ymwneud â mannau gwan a'r math yna o beth, oherwydd mae rhai o'r rheini wedi profi i fod yn faterion eithaf cymhleth o ran sut y gallwch gael at eiddo, ac yn y blaen.

I confess I don't know whether Penylan is one of the notspots that is or isn't in it, and so I'm afraid I'll have to write to the Member on that point, in that I don't have a list in my head of the ones that aren't and are included. So, I can't answer the specific question but will write to you about that. Some of them are in and some of them aren't; it does depend on this commercial roll-out point that I was making.

Rwy'n cyfaddef nad wyf yn gwybod a yw Penylan yn un o'r mannau gwan sydd ynddo ai peidio, felly mae arnaf ofn y bydd yn rhaid imi ysgrifennu at yr Aelod am y pwynt hwnnw; does gen i ddim rhestr yn fy mhen o'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys a'r rhai sydd wedi'u cynnwys. Felly, ni allaf ateb y cwestiwn penodol, ond byddaf yn ysgrifennu atoch ynglŷn â hynny. Mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys ac nid yw rhai eraill; mae'n dibynnu ar y pwynt hwn yr oeddwn yn ei wneud am gyflwyno masnachol.

In terms of that, obviously, BT is a commercial operator but it's not just BT; we have got other infrastructure providers here in Wales—Virgin, for example, has a large number of infrastructures, and there are others. So, it's not just BT that's rolling out the infrastructure commercially. BT is rolling out the superfast for us, but there are other commercial operators, and it does rather matter where you are. I'm afraid in my own constituency I have a place that's not covered by either of them either, so it's very frustrating. But it won't be until the end of the programme that we can address some of those issues, because we'll be able to see that they're the ones that are left, I'm afraid.

O ran hynny, yn amlwg, mae BT yn weithredwr masnachol, ond nid dim ond BT yw hynny; mae gennym ddarparwyr seilwaith eraill yma yng Nghymru—mae gan Virgin, er enghraifft, nifer fawr o seilweithiau, ac mae rhai eraill. Felly, nid dim ond BT sy'n cyflwyno'r seilwaith yn fasnachol. BT sy'n cyflwyno'r band eang cyflym iawn i ni, ond mae gweithredwyr masnachol eraill yn bodoli, ac mae'n dibynnu i raddau helaeth ar ble'r ydych chi. Mae arnaf ofn bod gennyf fan yn fy etholaeth fy hun nad yw'n cael ei gyrraedd gan y naill na'r llall ohonynt ychwaith, felly mae'n peri llawer o rwystredigaeth. Ond ni allwn ymdrin â rhai o'r materion hynny tan ddiwedd y rhaglen, pan fyddwn yn gallu gweld mai dyna'r rhai sydd ar ôl, yn anffodus.

15:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Right. I have five people who still want to be called, and we are about to go into extra time, so all the other contributions will have to be superfast rather than broadband. [Laughter.] I will cut you off after a minute. Russell George.

Iawn. Mae gen i bump o bobl a hoffai gael eu galw o hyd, ac rydym ar fin mynd i mewn i amser ychwanegol, felly bydd yn rhaid i'r holl gyfraniadau eraill fod yn rhai cyflym iawn yn hytrach na rhai band eang cyffredin. [Chwerthin.] Byddaf yn eich datgysylltu ar ôl munud. Russell George.

15:02 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Thank you for your statement, Minister—very welcome. I do have to say that the Welsh Government does seem to stonewall me a little when I ask questions relating to premises that fall outside the scope of the Superfast Cymru roll-out. Can I ask why is the Government reticent to obtain and publish precise details of the addresses that are affected from Mott MacDonald, who conducted the open-market review, so that the 45,000 residences and businesses in Wales who will not benefit from the project can make contingency plans and make arrangements, of course, to approach such schemes as Access Broadband Cymru?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch am eich datganiad, Weinidog—mae i'w groesawu'n fawr. Mae'n rhaid imi ddweud ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru'n gwrthod ymateb imi braidd pan fyddaf yn gofyn cwestiynau sy'n ymwneud ag adeiladau sydd y tu allan i gwmpas cyflwyno Cyflymu Cymru. A gaf i ofyn pam mae'r Llywodraeth yn gyndyn i gael a chyhoeddi union fanylion y cyfeiriadau y mae hyn yn effeithio arnynt oddi wrth Mott MacDonald, a gynhaliodd yr adolygiad marchnad agored, fel y gall y 45,000 o breswylfeydd a busnesau yng Nghymru na fyddant yn elwa ar y prosiect wneud cynlluniau wrth gefn a gwneud trefniadau, wrth gwrs, i ddefnyddio cynlluniau megis Allwedd Band Eang Cymru?

Secondly, with regard to the 78 per cent of premises that are enabled but have not yet received Superfast Cymru, could I ask what budget has the Welsh Government put forward to marketing more the access opportunities?

Yn ail, o ran y 78 y cant o eiddo sy'n gallu cael Cyflymu Cymru ond heb ei dderbyn eto, a gaf i ofyn pa gyllideb y mae Llywodraeth Cymru wedi'i darparu i wneud mwy i farchnata'r cyfleoedd mynediad?

15:03 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of the specific premises, we just don't hold the information; we only hold it on postcodes. It's as simple as that—we're not holding it back from you; we haven't got it. So, the whole information is done on postcode areas, and I think we've written to you to that effect as well.

O ran eiddo penodol, nid yw'r wybodaeth gennym; dim ond codau post sydd gennym. Mae mor syml â hynny—nid ydym yn ei chelu oddi wrthych; nid yw gennym. Felly, mae'r holl wybodaeth yn seiliedig ar ardaloedd cod post, ac rwy'n credu ein bod wedi ysgrifennu atoch i ddweud hynny hefyd.

In terms of the budget, it's £1.5 million for the comms budget for it.

Deputy Minister, I don't think there's one other issue that creates as much frustration for people in Ceredigion as broadband, and that includes businesses as well as rural homes and homes in towns. By now, I think we know where all the BT cabinets are in Ceredigion and which ones have been upgraded and which haven't been upgraded to superfast. Some of the communities that are truly angry about what's happened so far are those communities that were promised an upgrade by last year at some point, and which still haven't been upgraded at all. I'm thinking of communities such as Tal-y-bont and Llangwyryfron in my constituency. I welcome that in your statement you say that the website is to be updated to provide more specific information to people. I think that one of the pieces of information that people will need to know relatively quickly is whether they are going to be in the 650,000 people who are going to be upgraded by the summer of 2016, or whether they will be in the additional 42,000 that now have a date of the summer of 2017? It's very important that the Government and BT can provide that specific information—

15:03

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Ddirprwy Weinidog, nid wyf yn meddwl bod yna unrhyw fater arall sydd yn creu mwy o rwystredigaeth i bobl yng Ngheredigion na band llydan, ac mae hynny'n cynnwys busnesau yn ogystal â thai gwledig a thai mewn trefi. Erbyn hyn, rwy'n credu ein bod ni'n gwybod lle mae bob cabinet BT yng Ngheredigion a pha rai sydd wedi cael eu huwchraddio a heb gael eu uwchraddio i 'superfast'. Rhai o'r cymunedau sydd yn wirioneddol flin gyda'r hyn sydd wedi digwydd hyd yn hyn yw'r cymunedau hynny a gafodd addewid y byddent wedi cael eu huwchraddio erbyn rhyw bwynt y llynedd, ac sy'n dal heb gael eu huwchraddio o gwbl. Rwy'n meddwl am gymunedau fel Tal-y-bont a Llangwyryfon yn fy ardal i. Rwy'n croesawu'r ffaith eich bod yn dweud yn eich datganiad fod y wefan nawr yn mynd i gael ei diweddaru i roi gwybodaeth fwy penodol i bobl. Rwy'n credu mai un darn o wybodaeth y bydd pobl angen ei wybod yn weddol sydyn yw a ydyn nhw yn mynd i fod yn y 650,000 o bobl sy'n mynd i gael eu huwchraddio erbyn haf 2016, neu a fyddan nhw yn y 42,000 ychwanegol sydd bellach â dyddiad o haf 2017? Mae'n bwysig iawn bod y Llywodraeth a BT yn gallu'r rhoi'r wybodaeth sbesiffig yna—

Quickly.

15:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yn gyflym.

[Continues.]—to people through the new website.

15:05

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

[Yn parhau.]—i bobl drwy'r wefan newydd.

Wel, mae 41.35 y cant o'r cyflwyno yng Ngheredigion wedi'i gwblhau ar hyn o bryd ac mae 18.3 y cant wedi dechrau ei ddefnyddio. Felly, nid yw hyd yn oed hanner ffordd eto. Felly, rwy'n deall rhwystredigaeth yr Aelod, ond mae yn y rhaglen. Rydym yn symud ymlaen mor gyflym ag y gallwn. Mae rhywfaint o'r rhaglen wedi cael ei hailbroffilio. Rwyf yn derbyn pwynt yr Aelod bod y wefan yn peri rhwystredigaeth. Un o'r materion yw, os ydych chi'n byw yn bell oddi wrth y cabinet, yna mae gennych chi broblem; mae'n rhaid inni eich cyrraedd gyda ffibr i'r eiddo. Caiff y wefan ei diweddaru i ddweud hynny. Rwy'n rhannu rhwystredigaeth yr Aelod am rywfaint o'r wybodaeth. Felly, byddwn yn gwneud hynny. O ran lle y maent, mae arnaf ofn y bydd yn rhaid i'r Aelod roi codau post penodol i mi er mwyn imi allu rhoi'r manylion hynny iddi, ond rwy'n hapus i wneud hynny os hoffai hi roi'r codau post hynny imi.

15:05 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the roll-out in Ceredigion is currently 41.35 per cent complete and we have 18.3 per cent take-up. So, it's not even halfway yet. So, I appreciate the Member's frustration, but it is in the programme. We are going as fast as we possibly can. Some of the programme has been re-profiled. I take the Member's point about the website being frustrating. One of the issues is that, if you live a long way from the cabinet, then you've got a problem; we've got to get to you with fibre to the premises. The website will be updated to say that. I share the Member's frustration about some of the information. So, we will be doing that. In terms of where they are, I'm afraid the Member will have to supply me with specific postcodes for me to be able to give her that detail, but I'm happy to do so if she wants to supply me with those postcodes.

A gaf fi ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad? Fel cyn-Ddirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, rwyf yn deall rhai o'r problemau ymarferol y mae'r cynllun hwn wedi eu hwynebu, megis, er enghraifft, gallu dod o hyd i gabinetau mewn ardaloedd trefol. A gaf i, fodd bynnag, ofyn ichi ynglŷn â dod â'r manteision i'n cymunedau mwyaf difreintiedig—manteision gwell mynediad band eang? A allwch chi gadarnhau imi y byddwch yn parhau i weithio gyda'ch cydweithiwr, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, yn ogystal â'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, i sicrhau nad yw ein hardaloedd difreintiedig yn cael eu hesgeuluso'n anfwriadol wrth ichi gyflwyno band eang cyflym iawn? Rwy'n meddwl, yn benodol, am gydweithio'n agos drwy fentrau fel cynllun olynu Cymunedau 2.0, Cymunedau Digidol Cymru, a defnyddio ein llyfrgelloedd lleol, fel y rhai yng Nghaerffili a Bargoed yn fy etholaeth i, fel canolfannau i annog cymunedau i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn eang ac ymgysylltu, gan ddarparu gwell mynediad at swyddi a chyfleoedd hyfforddi?

15:05 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Deputy Minister for her statement? As a former Deputy Minister for Skills and Technology, I do understand some of the practical problems that this scheme has encountered, such as, for example, being able to locate cabinets in urban areas. Can I, however, ask you about bringing the benefits to our more deprived communities—the benefits of better broadband access? Can you confirm for me that you will continue to work with your colleague the Minister for Communities and Tackling Poverty, as well as the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, to ensure that our disadvantaged areas are not inadvertently overlooked by the superfast broadband roll-out? I have in mind, particularly, close working through initiatives such as the successor scheme to Communities 2.0, Digital Communities Wales, and using our local libraries, such as those at Caerphilly and Bargoed in my constituency, as hubs to encourage widespread community internet usage and engagement, providing better access to jobs and training opportunities?

Mae'r Aelod yn gwneud pwynt da iawn. Fel y gŵyr, mae olynydd Cymunedau 2.0, Cymunedau Digidol Cymru, bellach ar waith. A dweud y gwir, cefais y fraint a'r pleser o fod ym mhrosiect newydd y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall yn ddiweddar iawn, a oedd yn dangos gwir fanteision y math hwn o gyflwyno i bobl â nam ar eu synhwyrau a'r cysylltedd y gallant yna ei gael a sut y gallant wedyn ail-ymgysylltu â chymdeithas drwy'r rhaglen honno. Felly, mae'r Aelod yn gwneud pwynt pwysig, a gallaf ei sicrhau ein bod yn ymwybodol iawn ohono ac yn gweithio'n agos iawn gyda'n gilydd i sicrhau na chaiff unrhyw gymuned yng Nghymru ei gadael ar ôl.

15:06 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It's a very good point the Member makes. As he knows, the successor to Communities 2.0, Digital Communities Wales, is now up and running. Actually, I had the privilege and pleasure of being at the new Royal National Institute of Blind People project only very recently, which was illustrating the real benefits for people with sensory deprivation of this kind of roll-out and the connectivity that they can then get and the re-engagement with society that they can then get through that programme. So, the Member makes an important point, and I can assure him that we are very alive to it and working very closely together to ensure that no community in Wales is left behind.

Weinidog, wrth sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael i gwsmeriaid a darpar gwsmeriaid yn cael ei gwella, a wnewch chi sicrhau bod y wybodaeth honno yn ddefnyddiol? Rwy'n dal i fethu cael atebion gan BT ar gyfer fy etholwyr sy'n byw yn ardal Cwmdu, Tretŵr a Phengenffordd ynghylch pryd y bydd eu diffyg band eang yn cael sylw. A wnewch chi sicrhau bod y wybodaeth honno'n gywir ac y cedwir ati? Mae ogofâu Dan yr Ogof, busnes adnabyddus yn fy etholaeth i, wedi buddsoddi'n helaeth mewn apiau TG ar gyfer eu hatyniad twristaidd ar sail addewid y byddai band eang ar gael eleni. Nid yw ar gael. Yn y diwedd, cawsom gadarnhad na fydd ar gael tan fis Mawrth y flwyddyn nesaf. Mae hynny'n golygu colli cyfle gwych i'r busnes penodol hwnnw. Ac a wnewch chi sicrhau, pan fyddwch yn gwneud gwaith mewn gwirionedd, ei fod yn arwain at welliant mewn gwasanaethau? Mae nifer o etholwyr a'r cyngor cymuned yn Llanwrtyd wedi cysylltu â mi i ddweud, ers i'w cabinetau gael sylw, bod gwasanaethau mewn gwirionedd wedi bod yn waeth yn y gymuned benodol honno, gan arwain at lawer iawn o rwystredigaeth oherwydd bod disgwyliadau busnesau lleol, sy'n aml yn ddarparwyr twristiaeth ar raddfa fach, o'r rhaglen wedi cael eu chwalu o ganlyniad i wirionedd yr hyn sydd ganddynt erbyn hyn.

15:07 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, in ensuring that the information available to customers and potential customers is improved, will you ensure that that information is useful? I'm still unable to get answers from BT for my constituents living in the Cwmdu, Tretower and Pengenffordd area about when their lack of broadband will be addressed. Will you ensure that that information is correct and adhered to? Dan yr Ogof caves, a well-known business in my constituency, invested heavily in IT apps for their tourist attraction on the promise that broadband would be available this year. It's not. We finally got confirmation that it will not be available until March next year. That's a huge opportunity lost to that particular business. And will you ensure that, when work is actually carried out, it leads to an improvement in services? I've been contacted by a number of constituents and the community council in Llanwrtyd Wells who've said that, since their cabinets have been addressed, services have actually been worse in that particular community, leading to a great deal of frustration that the expectations that local businesses, often small-scale tourism providers, had about the programme have been dashed as a result of the reality of what they've been left with.

O ran y pwynt olaf, dydw i ddim yn ymwybodol o hynny, felly rwy'n hapus iawn i ymchwilio i hynny ar ran yr Aelod i weld beth sydd wedi digwydd yn y fan yna. Yn amlwg, nid dyna yw'r bwriad, ac nid wyf wedi clywed hynny o'r blaen. Felly, gwnaf edrych ar hynny ac ysgrifennu atoch yn ei gylch. O ran bod yn ddefnyddiol ac yn gywir, rwy'n cytuno. Credaf, wrth inni fynd yn llawer pellach i mewn i'r rhaglen, ei bod mewn gwirionedd yn llawer haws darparu gwybodaeth fwy penodol am y pellteroedd o'r cabinet ac yn y blaen, sy'n ddefnyddiol i bobl. O ran yr union amseru, mae hynny'n fwy anodd, oherwydd rydym yn canfod, os ydym yn rhoi union amseriadau ac yna'n cael problemau gyda hawliau tramwy neu gynllunio neu rywbeth a'i fod yn cael ei ohirio, mae pobl hyd yn oed yn fwy rhwystredig—fel yn wir sydd wedi digwydd yn yr enghraifft y soniodd hi amdani—bod rhywbeth wedi'i ddweud wrth bobl a'u bod yna'n cael gwybod na fydd hynny'n digwydd mewn gwirionedd. Felly, mae gennyf rywfaint o gydymdeimlad gyda BT am y ffaith bod hyn, weithiau, y tu hwnt i'w rheolaeth. Yr hyn yr wyf wedi gofyn iddynt ei wneud yw bod yn llawer mwy eglur am beth yw eu problemau mewn gwirionedd, fel y gall pobl ddeall a yw'n fater o gynllunio neu fforddfraint neu beth yn union yw'r broblem. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y wefan yn cynnwys gwybodaeth lawer mwy defnyddiol a chywir yn hynny o beth ac, yn wir, y gall pobl sy'n ysgrifennu atynt ar wahân gael gwybodaeth fwy cywir hefyd.

15:08 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On that last point, I'm not aware of that, so I'm very happy to look into that for the Member to see what's happened there. That's obviously not the intention, and I've not heard that before. So, I'll look into that and write to you about it. In terms of being useful and correct, I agree. I think that, as we get much further into the programme, it's actually much easier to provide more specific information about the distances from the cabinet and so on, which people find useful. In terms of the exact timing, that's more difficult, because we find that, if we do provide exact timings and then we have problems with wayleaves or planning or something and it gets put off, people are even more frustrated—as indeed has happened in the example she quoted—to have been told something only to be told that that's actually not happening. So, I have a little sympathy with BT about the fact that, sometimes, it's beyond their control. What I have asked for them to do is to be much more explicit about what the problems actually are, so people can understand whether there is a planning or wayleave issue or what exactly the problem is. So, I hope that the website will contain much more useful and correct information in that regard and, indeed, that people who write in separately can be given more accurate information as well.

Rwyf yn awyddus iawn i ofyn ichi, Ddirprwy Weinidog, pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod ymgynghoriad llawn ac ymgysylltu â'r gymuned leol. Rwyf mewn cysylltiad â chadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, lle maent wedi rhoi cabinet yn Nolwyddelan yn union o flaen giatiau'r capel, a hefyd o flaen dau blannwr y mae'r gymuned wedi'u cynnig a'u prynu. Er bod llawer o negeseuon e-bost wedi mynd yn ôl at Ann Beynon—yn ôl ac ymlaen—a'r awdurdod lleol, ni fu unrhyw ymgynghori o gwbl.

15:09 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd really like to ask you, Deputy Minister, what steps you're taking to ensure there is full consultation and engagement with the local community. I'm actually in touch with the chairman of Conwy County Borough Council, where they've put a cabinet in Dolwyddelan right in front of the chapel gates, and also in front of two planters that the community has volunteered and purchased. Despite several e-mails going back to Ann Beynon—backwards and forwards—and the local authority, there was no consultation whatsoever.

Yn gwbl briodol, roedd cadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n credu, fel finnau, y câi rhywfaint o gydnabyddiaeth o dreftadaeth hanesyddol ei hystyried yn rhan o'r broses o leoli'r cabinetau hyn. Ar ôl trafod y syniad o'u symud, mae'r gymuned leol wedi cael gwybod y gallai fod yn rhaid iddynt ddod o hyd i £2,000 ar gyfer hyn. Gwirfoddolwyr yw'r rhain. Beth yr ydych chi'n ei wneud? Byddaf yn gweithio gyda chi ar yr achos hwn, ond gallaf ddweud wrthych nad yw cymuned Dolwyddelan yn hapus ac nad wyf innau, fel yr Aelod Cynulliad, yn hapus o gwbl, oherwydd nid dyma'r ffordd o wneud pethau.

Quite rightly, the chairman of Conwy County Borough Council believed, as I did, that some recognition of historical heritage would be considered as part of the siting of these cabinets. Having now discussed their possible movement, the local community have been told that they may have to find £2,000 for this. These are volunteers. What are you doing? I will work with you on this case, but I can tell you the community of Dolwyddelan are not happy and I, as the Assembly Member, am not happy at all, because this is not the way to go about it.

Mae arnaf ofn na allaf wneud sylw am yr achos unigol, felly nid wyf yn gwybod unrhyw fanylion, felly bydd yn rhaid inni wneud hynny mewn gohebiaeth rhyngom.

15:11 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm afraid I can't comment on the individual case, so I don't know any of the details, so we'll have to do that in correspondence between us.

Heddiw ddiwethaf, cyfarfûm â phedair ysgol gynradd o Sir y Fflint a dynnodd sylw at fater band eang 'araf iawn' mewn ysgolion gwledig. Pa gamau yr ydych chi'n eu cymryd i flaenoriaethu mynediad digidol ar gyfer disgyblion mewn ysgolion gwledig, fel y rhai a ymwelodd â'r Cynulliad heddiw?

15:11

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Only today, I met four primary schools from Flintshire that highlighted the issue of 'superslow' broadband in rural schools. What action are you taking to prioritise digital access for pupils in rural schools, such as those who visited the Assembly today?

Dydy ysgolion cynradd ddim yn rhan o gyflwyno band eang cyflym iawn, mewn gwirionedd; maent yn rhan o raglen wahanol i gyflwyno Hwb a Hwb+, felly rwy'n hapus i ysgrifennu at yr Aelod ar wahân am hynny, ond nid yw hynny'n rhan o'r rhaglen yr ydym yn ei thrafod heddiw. Byddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân am y peth.

15:11

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Primary schools are not part of the superfast roll-out, actually, they're part of a different programme for roll-out for Hwb and Hwb+, so I'm happy to write to the Member separately about that, but it's not actually part of the programme that we're discussing today. I'll write to you separately about it.

Diolch, Weinidog. Croyw iawn, os caf i ddweud.

15:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. Very crisply done, if I may say.

Hefyd, yn amlwg, rhwng 4G a band eang ffeibr, bydd gwahaniaethau o ran y cyflymder cysylltu, ac roeddwn i'n meddwl tybed a allwch chi egluro wrthym, ar draws pob un o'r technolegau, pa gyflymder yw'r llawr yr ydych wedi'i osod, ac a yw hyn yn debygol o newid dros amser wrth i gyflymder band eang gynyddu'n gyffredinol? A oes gennych chi unrhyw fath o syniad o ba mor gyflym y gallai hynny ddigwydd?

15:11

# 4. Datganiad: Y Diweddaraf ar Borthladdoedd

# 4. Statement: An Update on Ports

Senedd.tv
Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Eitem 4, datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth—y diweddaraf ar borthladdoedd. Galwaf Edwina Hart.

Item 4, a statement by the Minister for Economy, Science and Transport—an update on ports. I call Edwina Hart.

15:11

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thought it would be helpful to bring Members up to date on the devolution of ports policy in light of the integral role they have to play in supporting economic growth and jobs in Wales.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ddatganoli polisi porthladdoedd yng ngoleuni'r rhan annatod sydd ganddynt i'w chwarae wrth gefnogi twf economaidd a swyddi yng Nghymru.

Welsh ports are nationally significant, servicing a range of markets and acting as a gateway to economic hubs in the Republic of Ireland, the rest of Europe and beyond. They are uniquely placed to be a driving force for economic wealth through the co-location of commercial, industrial, logistics, leisure and fishing activities. The St David's Day agreement recognises the importance of the devolution of ports policy as appropriate for Wales and I expect it to be taken forward as part of the Wales Bill that will come forward in the autumn.

Mae gan borthladdoedd Cymru arwyddocâd cenedlaethol; maent yn gwasanaethu amryw o farchnadoedd ac yn gweithredu fel porth at ganolfannau economaidd yng Ngweriniaeth Iwerddon, gweddill Ewrop a thu hwnt. Maent mewn sefyllfa unigryw i sbarduno cyfoeth economaidd drwy gydleoli gweithgareddau masnachol, diwydiannol, logisteg, hamdden a physgota. Mae cytundeb Dydd Gŵyl Dewi'n cydnabod pwysigrwydd datganoli polisi porthladdoedd fel y bo'n briodol i Gymru ac rwy'n disgwyl iddo gael datblygu fel rhan o Fil Cymru a gaiff ei gyflwyno yn yr hydref.

My department is preparing the ground so that we can hit the ground running when we receive the powers next year. The future of our ports is in diversification. I believe there is a real opportunity for an increase in short sea shipping through Welsh ports and am awaiting final advice from the Welsh ports group on short sea opportunities for ports, and other developments that would support the trans-European transport network.

Mae fy adran yn paratoi'r tir fel y gallwn wneud dechrau da pan gawn y pwerau’r flwyddyn nesaf. Dyfodol ein porthladdoedd yw arallgyfeirio. Credaf fod hwn yn gyfle gwirioneddol i gynyddu morgludiant byr drwy borthladdoedd Cymru ac rwy’n aros am gyngor terfynol gan grŵp porthladdoedd Cymru am gyfleoedd morgludiant byr i borthladdoedd, a datblygiadau eraill a fyddai'n cefnogi'r rhwydwaith trafnidiaeth traws-Ewropeaidd.

We are working with the EU Commission to look at innovative solutions that could attract European funding through the motorways of the sea concept, and I will be hosting a two-day visit to Wales next week by the TEN-T corridor co-ordinator, highlighting Wales’s importance to that European transport network. We will pursue all feasible opportunities for integrating port developments with other infrastructure project improvements to make sure that the sum is greater than all the parts.

Rydym yn gweithio gyda Chomisiwn yr UE i edrych ar atebion arloesol a allai ddenu cyllid Ewropeaidd drwy gysyniad traffyrdd y môr, a byddaf yn croesawu cydgysylltydd y coridor TEN-T ar ymweliad deuddydd â Chymru yr wythnos nesaf, sy’n amlygu pwysigrwydd Cymru i’r rhwydwaith trafnidiaeth Ewropeaidd hwnnw. Byddwn yn mynd ar drywydd pob cyfle ymarferol i integreiddio datblygiadau porthladd gyda gwelliannau prosiectau seilwaith eraill i wneud yn siŵr bod y swm yn fwy na'r holl rannau.

Holyhead, the north Wales main line, and its potential to play a key role in the development of Wylfa Newydd, are a good example of this approach. The master plan for Holyhead that we are developing will test what is possible in terms of boosting the local and regional economy and provide a blueprint for other ports. Welsh ports will continue to be an integral player in the low carbon energy agenda and I’m committed to unlocking the energy in our seas in order to develop and grow the marine sector in Wales. The Welsh marine demonstration zones, such as the Morlais marine demonstration zone, will provide further opportunities for ports.

Mae Caergybi, prif linell y gogledd, a’i botensial i chwarae rhan allweddol yn natblygiad Wylfa Newydd, yn enghraifft dda o'r dull gweithredu hwn. Bydd y prif gynllun yr ydym yn ei ddatblygu ar gyfer Caergybi yn profi beth sy'n bosibl o ran rhoi hwb i'r economi leol a rhanbarthol ac yn cynnig glasbrint ar gyfer porthladdoedd eraill. Bydd porthladdoedd Cymru’n parhau i fod yn rhan hollbwysig o’r agenda ynni carbon isel ac rwy'n ymroddedig i ddatgloi’r ynni yn ein moroedd er mwyn datblygu a thyfu'r sector morol yng Nghymru. Bydd parthau arddangos morol Cymru, megis parth arddangos morol Morlais, yn cynnig cyfleoedd pellach ar gyfer porthladdoedd.

Ports also provide a recreation space that enhances our growing tourism sector and I’m delighted that we have made available over £700,000 for the phased redevelopment of the Saundersfoot harbour, long recognised as one of the jewels in the crown of Pembrokeshire, with one of the most idyllic settings for a harbour. The investment will significantly enhance the visitor experience, offering major benefits for the local community in securing the long-term future of the harbour.

Mae porthladdoedd hefyd yn fannau hamdden sy'n cyfoethogi ein sector twristiaeth cynyddol ac rwyf wrth fy modd ein bod wedi darparu dros £700,000 ar gyfer ailddatblygu harbwr Saundersfoot fesul cam, harbwr sydd wedi’i gydnabod ers amser maith fel un o'r tlysau yng nghoron Sir Benfro, ac un o'r lleoliadau prydferthaf ar gyfer harbwr. Bydd y buddsoddiad yn gwella profiad ymwelwyr yn sylweddol, gan gynnig manteision mawr i'r gymuned leol drwy sicrhau dyfodol hirdymor yr harbwr.

We are also supporting the use of ports in Wales as cruise liner call ports, and encouraging ports and marinas as tourism gateways. In 2014, we saw a 155 per cent increase in cruise ships visiting Wales on the previous year, with an economic impact on Wales of some £2.9 million. This year, we will welcome 41 cruise vessels, carrying more than 21,000 passengers.

Rydym hefyd yn cefnogi’r defnydd o borthladdoedd yng Nghymru fel porthladdoedd galw llongau mordeithio, ac yn hybu porthladdoedd a marinas fel pyrth twristiaeth. Yn 2014, gwelsom gynnydd o 155 y cant mewn llongau mordeithio’n ymweld â Chymru oddi ar y flwyddyn flaenorol, ac roedd economi Cymru ar ei hennill o tua £2.9 miliwn o ganlyniad i hyn. Eleni, byddwn yn croesawu 41 o longau mordeithio, yn cludo mwy na 21,000 o deithwyr.

Again, adopting a co-ordinated approach, we are working with Anglesey to develop the on-land visitor infrastructure to improve the sense of welcome for cruise visitors. The project is one of the three regionally prioritised projects from north Wales to be included within Visit Wales’s European regional development fund destination programme.

Unwaith eto, gan fabwysiadu dull cydlynol, rydym yn gweithio gydag Ynys Môn i ddatblygu'r seilwaith ymwelwyr ar y tir i wella’r ymdeimlad o groeso i ymwelwyr mordeithiau. Mae'r prosiect yn un o'r tri phrosiect rhanbarthol o’r gogledd sydd wedi cael blaenoriaeth o ran eu cynnwys yn rhaglen cyrchfannau cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop Croeso Cymru.

In Fishguard, we are also exploring an option to deliver a floating pontoon to allow cruise ships to berth from 2016 onwards.

Yn Abergwaun, rydym hefyd yn archwilio’r posibilrwydd o gyflwyno pontŵn arnofiol i ganiatáu i longau mordeithio angori o 2016 ymlaen.

Fundamental to the delivery for the ports sector will be an integrated approach to the management of the land/sea interface and to ensure our terrestrial planning reform and marine plans are joined up to provide a seamless framework that supports sustainable growth.

Bydd dull integredig o reoli'r rhyngwyneb tir/môr, a sicrhau bod ein diwygiad o gynlluniau daearol a'n cynlluniau morol yn gydgysylltiedig er mwyn darparu fframwaith di-dor sy'n cefnogi twf cynaliadwy, yn hanfodol ar gyfer y sector porthladdoedd.

In developing our ports along commercial lines, we are committed to working closely with the ports sector, the enterprise zone boards and other external partners to ensure that we maximise the commercial opportunities that the change in devolution arrangements will bring. I will keep Members informed of the progress and will provide a further update on that work before the end of the year.

Wrth ddatblygu ein porthladdoedd ar sail fasnachol, rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda'r sector porthladdoedd, byrddau'r ardaloedd menter a phartneriaid allanol eraill i sicrhau ein bod yn elwa i'r eithaf ar y cyfleoedd masnachol a ddaw o ganlyniad i'r newid yn y trefniadau datganoli. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd ac yn rhoi diweddariad pellach am y gwaith hwnnw cyn diwedd y flwyddyn.

15:15

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I thank the Minister for her timely statement this afternoon? I share her confidence that the Wales Bill will include the importance of the devolution of ports policy to Wales, and trust that this will be forthcoming as soon as parliamentary time allows. I also share the Minister's remarks that the future of our ports is clearly in diversification. Many of our ports throughout Wales have achieved this in a relatively short period. Could I ask the Minister, when she is meeting with the EU Commission, to highlight our concerns with regard to the designation of Liverpool rather than our north Wales ports? I'm sure the Minister has this on her agenda, and no doubt we will hear from her about that in due course.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad amserol y prynhawn yma. Rwy'n rhannu ei hyder y bydd Bil Cymru'n cynnwys pwysigrwydd datganoli polisi porthladdoedd i Gymru, ac yn hyderu y daw hyn i law cyn gynted ag y bydd amser seneddol yn caniatáu hynny. Rwyf hefyd yn rhannu sylwadau'r Gweinidog ei bod yn amlwg mai dyfodol ein porthladdoedd yw arallgyfeirio. Mae llawer o'n porthladdoedd ledled Cymru wedi cyflawni hyn mewn cyfnod cymharol fyr. A gaf ofyn i'r Gweinidog, pan fydd yn cyfarfod â Chomisiwn yr UE, i dynnu sylw at ein pryderon ynglŷn â dynodi Lerpwl yn hytrach na'n porthladdoedd yn y gogledd? Rwy'n siŵr bod hyn ar agenda'r Gweinidog, ac mae'n siŵr y byddwn yn clywed ganddi am hynny maes o law.

In terms of Holyhead and the north Wales main line, the potential there remains enormous. You touched on the increase in cruise ships, which is also to be welcomed. I'm grateful for the report on that. May I also say that your willingness to engage with the Enterprise and Business Committee on the tourism aspect has been greatly welcomed?

O ran Caergybi a phrif linell y gogledd, mae'r potensial yno'n dal i fod yn enfawr. Fe sonioch chi am y cynnydd mewn llongau mordeithio; mae hynny hefyd i'w groesawu. Rwy'n ddiolchgar am yr adroddiad ar hynny. A gaf hefyd ddweud bod eich parodrwydd i ymgysylltu â'r Pwyllgor Menter a Busnes ar yr agwedd dwristiaeth wedi cael croeso mawr?

Minister, you don't actually say very much about Milford Haven, which is, as Nelson said, the finest port west of Trincomalee. Although it has some challenges it has great potential, and a remark on that would be welcomed. Fishguard you did mention, then. Let's hope that that particular project is worth while.

Weinidog, nid ydych yn dweud llawer iawn am Aberdaugleddau mewn gwirionedd, sef, fel y dywedodd Nelson, y porthladd gorau i'r gorllewin o Trincomalee. Er bod rhai heriau yn perthyn iddo, mae ganddo botensial mawr, a byddwn yn croesawu eich sylwadau am hynny. Fe wnaethoch sôn am Abergwaun. Dewch inni obeithio y bydd y prosiect penodol hwnnw'n werth chweil.

Minister, you will know that as a former chairman of the harbour commission in Newport, we welcome your M4 infrastructure report, and also the fact that there's a possibility there may well be a direct link to the M4—something that many ports, not only in Wales but throughout the United Kingdom, would greatly welcome.

Weinidog, byddwch yn gwybod fel cyn-gadeirydd comisiwn yr harbwr yng Nghasnewydd, ein bod yn croesawu eich adroddiad ar seilwaith M4, a hefyd y ffaith bod posibilrwydd y gallai fod cysylltiad uniongyrchol â'r M4—rhywbeth y byddai llawer o borthladdoedd, nid dim ond yng Nghymru ond ledled y Deyrnas Unedig, yn ei groesawu'n fawr.

15:17 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. Can I say that you're absolutely right, I think, to raise the issue about the importance of the devolution of ports in this discussion? I think we have to recognise that ports policy is currently non-devolved. We want it to come to us. But we also need to make it quite clear, I think, that all ports have to be run on a commercial basis, whether they're privately owned, trust ports, or local authority-owned. I think I want to make that clear if we do have the devolution of ports coming through. So, we are committed, of course, for all ports to be run in a proper manner.

Diolch. A gaf i ddweud eich bod yn gwbl gywir, rwy'n meddwl, i sôn am bwysigrwydd datganoli porthladdoedd yn y drafodaeth hon? Rwy'n meddwl bod yn rhaid inni gydnabod nad yw polisi porthladdoedd wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd. Hoffem iddo ddod atom ni. Ond mae angen inni hefyd ei gwneud yn gwbl glir, rwy'n meddwl, bod yn rhaid cynnal yr holl borthladdoedd ar sail fasnachol, p'un a ydynt yn eiddo preifat, yn borthladdoedd ymddiriedolaeth, neu'n eiddo i'r awdurdod lleol. Rwy'n meddwl yr hoffwn wneud hynny'n glir os caiff porthladdoedd eu datganoli. Felly, rydym ni wedi ymrwymo, wrth gwrs, i gynnal pob porthladd mewn modd priodol.

As it happens, I have a discussion later this week with the Minister to discuss ports in the UK Government, and I will certainly bring up the point that you make about Liverpool, because there's been a lot of concern about the way Liverpool has been favourably treated in comparison to issues in north Wales. I think it's important that we keep that issue on the particular agenda.

Fel y mae'n digwydd, byddaf yn trafod â Gweinidog Llywodraeth y DU i drafod porthladdoedd yn nes ymlaen yr wythnos hon, ac yn sicr, byddaf yn codi'r pwynt yr ydych yn ei wneud am Lerpwl, oherwydd mae llawer o bryder am y ffordd y mae Lerpwl wedi cael triniaeth ffafriol o'i gymharu â materion yn y gogledd. Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod ni'n cadw'r mater hwnnw ar yr agenda benodol hon.

Also, in terms of cruise ships, we have been very pleased by what's going on with cruise ships, but we have had some difficulties in Holyhead of late, with some of the cruise ship issues—about whether they're able to berth. There are concerns there, which we are now trying to resolve.

Hefyd, o ran llongau mordeithio, rydym wedi bod yn falch iawn o'r yr hyn sy'n digwydd gyda llongau mordeithio, ond rydym wedi cael rhai anawsterau yng Nghaergybi'n ddiweddar, gyda rhai o'r materion am longau mordeithio—o ran pa un a ydynt yn gallu angori. Mae pryderon yno, ac rydym nawr yn ceisio eu datrys.

On the question of Milford Haven, yes, I cannot say that we have excellent relationships with Milford Haven as a board. We engage with the board, although I do hope they now have much better relationships with the chair of the enterprise zone, who's very keen to use the opportunities in Milford Haven to get more business into the haven and work constructively with the port. Obviously, as I said, there are further issues on Milford Haven that I will be discussing with the UK Government.

O ran o Aberdaugleddau, ie, ni allaf ddweud bod gennym ni berthynas ardderchog ag Aberdaugleddau fel bwrdd. Rydym yn ymgysylltu â'r bwrdd, er fy mod yn gobeithio bod ganddynt nawr berthynas gwell o lawer â chadeirydd yr ardal fenter, sy'n awyddus iawn i fanteisio ar y cyfleoedd yn Aberdaugleddau i gael mwy o fusnes i mewn i'r harbwr a gweithio'n adeiladol gyda'r porthladd. Yn amlwg, fel y dywedais, mae materion pellach ar Aberdaugleddau y byddaf yn eu trafod gyda Llywodraeth y DU.

In terms of Fishguard, we have an excellent relationship with Stena. I think it's very pleasing that when small cruise ships have gone into Fishguard they've really appreciated the environment that they've gone into. They've loved the town, they've loved what's available, and it's very good when you see people so keen to look at it. Of course, we have to remember that 'Moby Dick' was filmed, wasn't it, in Fishguard? So, there's a Gregory Peck link, and there's a link into other things, which you always need to put into anything you're doing with tourism. Sometimes you have to have a little hook. I realise that's probably an old hook, perhaps, for some of the people we are attracting in. But there are definitely challenges, I think, for us in getting the ports policy correct. I'm eagerly awaiting when I can have the issues about transporting around Wales and using the reports from that particular committee.

O ran Abergwaun, mae gennym berthynas ardderchog â Stena. Rwy'n meddwl ei bod yn braf iawn, pan fo llongau mordeithio bach wedi mynd i mewn i Abergwaun, eu bod yn wir wedi gwerthfawrogi'r amgylchedd y maent wedi mynd i mewn iddo. Maent wrth eu bodd â'r dref, maent wrth eu bodd â'r hyn sydd ar gael, ac mae'n braf iawn pan fyddwch yn gweld pa mor awyddus yw pobl i edrych arno. Wrth gwrs, rhaid inni gofio bod 'Moby Dick' wedi'i ffilmio, onid oedd, yn Abergwaun? Felly, ceir cysylltiad â Gregory Peck, a cheir cysylltiad â phethau eraill, sy'n rhywbeth y mae angen ichi ei gynnwys yn y maes twristiaeth. Weithiau mae'n rhaid ichi gael bachyn bach. Rwy'n sylweddoli bod hwnnw'n hen fachyn, efallai, yn ôl pob tebyg, i rai o'r bobl yr ydym yn eu denu. Ond yn sicr mae heriau'n ein hwynebu, rwy'n meddwl, o ran cael y polisi porthladdoedd yn gywir. Rwy'n aros yn eiddgar i gael gwybod am y materion ynghylch cludo o gwmpas Cymru a defnyddio'r adroddiadau gan y pwyllgor penodol hwnnw.

15:19 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am yr addysg ynglŷn â chyswllt 'Moby Dick' â gorllewin Cymru, a diolch hefyd am y datganiad hwn ynglŷn â dyfodol porthladdoedd yng Nghymru? Yr ydym ni, wrth gwrs, yn cytuno ynglŷn ag arwyddocâd cenedlaethol ein porthladdoedd ni, ac yn cytuno bod angen i'n porthladdoedd fod yn rym dros dyfu economi Cymru. Mi gafodd llawer gormod ei adael allan, wrth gwrs, o ddatganiad Dydd Gŵyl Dewi eleni, ond mi oeddwn i, yn sicr, a'm mhlaid i, yn falch gweld bod ymrwymiad i ddatganoli cyfrifoldeb am borthladdoedd yn un o'r pethau a oedd wedi cael eu cynnwys.

May I thank the Minister for educating us on the 'Moby Dick' link with west Wales, and thank him also for this statement on the future of ports in Wales? We are agreed, of course, on the national significance of our ports, and are agreed that our ports need to be a driving force in growing the Welsh economy. Far too much was left out, of course, of the St David's Day announcement this year, but I was certainly pleased, along with my party, to see a commitment to devolution of responsibility for ports included in that announcement.

Mae gennym ni ambell gwestiwn. Mae Plaid Cymru wedi galw yn y gorffennol am adolygu anghenion seilwaith pob porthladd Cymreig, naill ai cyn i'r cyfrifoldebau newydd gael eu datganoli, neu cyn gynted â bod y pwerau yn cael eu datganoli. O ystyried y cyfle a ddaw yn sgil y pwerau yma, a fydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i wneud y math yma o adolygiad?

We do have a few questions. Plaid Cymru has called in the past for a review of the infrastructure needs of all Welsh ports, either before the new responsibilities are devolved, or as soon as those powers are devolved. Given the opportunity that will arise as a result of these powers, will the Welsh Government commit to carrying out that sort of review?

Ar fuddsoddiad Ewropeaidd posib, rwy'n croesawu'r ffaith bod yna glymu cyfleoedd TEN-T—y rhaglen Ewropeaidd o fuddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth—i'r posibiliadau ar gyfer y porthladd Caergybi. Tybed os caf i ddefnyddio'r achlysur yma fel cyfle i ofyn am y newyddion diweddaraf am y gwaith rydych chi wedi amrwymo i'w wneud i gysylltu'r A55 i mewn i borthladd Caergybi, sydd yn brosiect pwysig iawn yn yr ardal honno. Mae yna gryn gyffro ynglŷn â phosibiliadau'r diwydiant criws yng Nghymru. Rwy'n falch iawn o weld y posibilrwydd o fuddsoddi yn Abergwaun, a datblygiad y pontŵn yn y fan honno. Ond mae yna, fel y gwnaeth y Gweinidog gyfeirio ato fo, gwestiynau wedi cael eu gofyn yng Nghaergybi yn ddiweddar yn dilyn achlysur pan gafodd un llong yn arbennig ei throi i ffwrdd. A gaf i ofyn a ydy'r Gweinidog wedi cael yr atebion yr oedd hi yn gobeithio eu cael o ran beth ddigwyddodd ar yr achlysur hwnnw, ac a ydy hi wedi cael ei hargyhoeddi bod dyfodol y diwydiant yng Nghaergybi yn ddiogel fel y mae? Yn ail—ac mae'n gwestiwn y gwnes i ofyn i'r Prif Weinidog yn yr wythnosau diwethaf—a ydy hi'n fodlon ymrwymo i'r posibilrwydd o ddatblygu safle parhaol ar gyfer llong criws yng Nghaergybi, ac o bosib i symud ymlaen tuag at waith dichonoldeb ar hynny?

On possible European investment, I welcome the fact that there is a link between the opportunities of TEN-T—the European programme of investment into transport infrastructure—and the possibilities for the port of Holyhead. I wonder whether I could use this occasion as an opportunity to ask for an update on the work you've committed to do to link the A55 into Holyhead port, which is an important project in that area. There is quite some excitement about the possibility of the cruise-ship industry in Wales. I am very pleased to see the possibility of investment in Fishguard, and the development of a pontoon there. But, as the Minister has suggested, questions have been asked in Holyhead recently following one incident when a cruise ship was turned away. May I ask whether the Minister has had the responses that she was hoping to have in terms of what happened on that particular occasion, and whether she's been convinced that the future of the industry in Holyhead is safe as things currently stand? And secondly—and it's a question I've asked of the First Minister over the past few weeks—is she happy to commit to the possibility of developing a permanent site for cruise ships in Holyhead, and perhaps to move towards a feasibility study on that?

Yng Nghasnewydd ar hyn o bryd mae yna rywfaint o straen, wrth gwrs, rhwng y porthladdoedd yno a Llywodraeth Cymru, yn sgil y cynlluniau ar gyfer llwybr du yr M4, a fyddai'n bygwth rhan o'r porthladd hwnnw. Nid wyf am fynd ar ôl hynny yn fan hyn, er ei bod hi'n bwysig cyfeirio ato fo, ond a gaf i ofyn yn fan hyn sut berthynas a fyddai Llywodraeth Cymru yn gobeithio'i datblygu efo gwahanol berchnogion porthladdoedd yng Nghymru pan fydd y pwerau wedi cael eu datganoli? Tybed hefyd pa wersi sydd wedi cael eu dysgu o'r Alban, gan fod y pwerau wedi cael eu datganoli yn y fan honno'n barod.

In Newport at present there is a little bit of tension, of course, between the ports there and the Welsh Government, in the light of the plans for the black route of the M4, which would put at risk parts of that port. I'm not going to pursue that here, although it's important that we do make reference to it, but may I ask what kind of relationship would the Welsh Government hope to develop with the various owners of ports in Wales when the powers are devolved? I wonder what lessons have been learnt from Scotland, given that the powers have already been devolved there.

15:23 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If I can deal with some of these points, I think we'll deal with the very positive point first in terms of a permanent cruise facility at Holyhead. The officials are investigating the potential funding opportunities to deliver cruise berth improvements at Holyhead. We are currently preparing a cruise development strategy for Wales, and this will include recommendations for any future cruise berth and port developments. Officials recently met with Stena, who provide marine charts for the port, which did actually identify a possible cruise berth development, which I think is quite important, and initial feasibility studies would be needed to identify dredging costs in any potential design proposals. So, we'll continue having those discussions in Holyhead.

Os caf ymdrin â rhai o'r pwyntiau hyn, rwy'n meddwl y byddwn yn rhoi sylw i'r pwynt cadarnhaol iawn yn gyntaf o ran cyfleuster mordeithiau parhaol yng Nghaergybi. Mae'r swyddogion yn ymchwilio i'r cyfleoedd ariannu posibl i ddarparu gwelliannau i'r angorfa mordeithiau yng Nghaergybi. Ar hyn o bryd rydym yn paratoi strategaeth datblygu mordeithiau i Gymru, a bydd hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer unrhyw ddatblygiadau i angorfeydd mordeithiau a phorthladdoedd yn y dyfodol. Cafodd swyddogion gyfarfod yn ddiweddar â Stena, sy'n darparu siartiau morol ar gyfer y porthladd, a oedd mewn gwirionedd yn nodi datblygiad angorfa mordeithiau bosibl, sy'n eithaf pwysig yn fy marn i, a byddai angen astudiaethau dichonoldeb cychwynnol i ganfod costau carthu mewn unrhyw gynigion dylunio posibl. Felly, byddwn yn parhau i gael y trafodaethau hynny yng Nghaergybi.

The north Wales economic ambition board has also prioritised a project to develop a visitor welcome in Holyhead for the cruise, and this will be part of a suite of measures that we will be investigating, and which I will be more than happy to report back on. I think the Member, like myself, was very concerned that the Celebrity call was cancelled. Apparently, I am advised that Anglesey Aluminium approached their insurers due to the weather conditions a few days prior, and they would not insure the call. There are other issues, I have to say, with Anglesey Aluminium. Of course, we are all aware that Anglesey Aluminium lease the jetty till 2024, and it's owned by Stena. Of course, Anglesey Aluminium ceased their operations there, and are hoping to enter into a deal with another company, but this has not yet happened. Of course, this is really affecting some of the issues that we can deal with in terms of the cruise. So, I'm much more attracted now to look at some of the issues about a cruise berth.

Mae bwrdd uchelgais economaidd y gogledd hefyd wedi blaenoriaethu prosiect i ddatblygu croeso i ymwelwyr yng Nghaergybi ar gyfer mordeithiau, a bydd hyn yn rhan o gyfres o fesurau y byddwn yn ymchwilio iddynt, ac y byddaf yn fwy na pharod i adrodd yn ôl amdanynt. Rwy'n meddwl bod yr Aelod, fel fi, yn bryderus iawn bod yr alwad Celebrity wedi'i chanslo. Mae'n debyg, rwyf wedi cael gwybod bod Alwminiwm Môn wedi cysylltu â'u hyswirwyr oherwydd y tywydd ychydig ddyddiau ymlaen llaw, ac nid oeddent yn fodlon yswirio'r alwad. Mae materion eraill, rhaid i mi ddweud, gydag Alwminiwm Môn. Wrth gwrs, rydym ni i gyd yn ymwybodol bod Alwminiwm Môn yn prydlesu'r lanfa tan 2024, a'i bod yn eiddo i Stena. Wrth gwrs, mae Alwminiwm Môn wedi rhoi'r gorau i'w gweithrediadau yno, ac maent yn gobeithio ymrwymo i gytundeb gyda chwmni arall, ond nid yw hyn wedi digwydd eto. Wrth gwrs, mae hyn yn cael effaith fawr ar rai o'r materion y gallwn ymdrin â hwy o ran mordeithiau. Felly, mae edrych ar rai o'r materion ynghylch angorfa mordeithiau nawr yn llawer mwy deniadol imi.

Can I just say, in terms of devolution, we do need to understand the relationship that we will have, I think, with all of those that are involved? There are some quite small trust ports, yes? We've already got a good relationship with Saundersfoot, which is a small trust port. We will have to then decide, if Milford Haven is devolved to us as part of cruise policy, what type of relationship we have there, because that is a major port, and I think people would particularly, perhaps, want a lot of scrutiny in some of these areas about the developments and how Milford Haven would be taken forward. I'm sure the Assembly committee and everybody would want a role in the future of those matters, Deputy Presiding Officer. So, I think those are key issues for us on that in the future of devolution.

A gaf i ddweud, o ran datganoli, bod angen inni ddeall y berthynas a fydd gennym, rwy'n meddwl, â phawb dan sylw? Mae rhai porthladdoedd ymddiriedolaeth yn eithaf bach, onid ydynt? Mae gennym eisoes berthynas dda â Saundersfoot, sy'n borthladd ymddiriedolaeth bach. Bydd yn rhaid inni benderfynu, wedyn, os caiff Aberdaugleddau ei ddatganoli inni fel rhan o'r polisi mordeithiau, pa fath o berthynas sydd gennym yno, oherwydd mae hwnnw'n borthladd pwysig, ac rwy'n meddwl yr hoffai pobl yn benodol, efallai, weld llawer o graffu mewn rhai o'r meysydd hyn am y datblygiadau a sut y byddwn yn bwrw ymlaen o ran Aberdaugleddau. Rwy'n siŵr yr hoffai pwyllgor y Cynulliad a phawb chwarae rhan yn nyfodol y materion hynny, Ddirprwy Lywydd. Felly, rwy'n meddwl bod y rheini'n faterion allweddol inni o ran hynny yn nyfodol datganoli.

Can I also say as well that it's important to recognise that the Holyhead development is actually part, strategically, of what we're doing with the A55? I'd be happy, once I've published the national transport plan and various other things, to give more details to Members about how we intend to proceed with all those issues, which will, of course, benefit Holyhead. We have to be quite clear, because you did mention the M4, as did William Graham, that, obviously, at the end of the day, there'll have to be constructive dialogue with Associated British Ports, depending on what decisions are taken in future on this matter.

A gaf i hefyd ddweud yn ogystal ei bod yn bwysig cydnabod bod datblygiad Caergybi mewn gwirionedd yn rhan strategol o'r hyn yr ydym yn ei wneud gyda'r A55? Byddwn yn hapus, unwaith y byddaf wedi cyhoeddi'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol ac amryw bethau eraill, i roi mwy o fanylion i'r Aelodau ynglŷn â sut yr ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r holl faterion hynny, a fydd, wrth gwrs, o fudd i Gaergybi. Rhaid inni fod yn eithaf clir, oherwydd gwnaethoch sôn am yr M4, fel y gwnaeth William Graham, yn amlwg, yn y pen draw, y bydd yn rhaid inni gael trafodaethau adeiladol ag Associated British Ports, yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneir yn y dyfodol ar y mater hwn.

Can I assure you that, in terms of ports, I do see them as a lifeline for Wales? I do see them as a development opportunity, and I do think that, once we have devolution of them, we will be looking at a clear strategy. I will be developing a clear strategy about our approach to further devolution in the autumn.

A gaf i eich sicrhau, o ran porthladdoedd, fy mod i yn eu gweld yn bwysig iawn i Gymru? Rwyf yn eu gweld nhw fel cyfle datblygu, ac rwy'n credu, ar ôl inni eu datganoli, y byddwn yn edrych ar strategaeth glir. Byddaf yn datblygu strategaeth glir ynghylch ein hagwedd at ddatganoli pellach yn yr hydref.

15:26

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement today. I particularly welcome the £700,000 investment in Saundersfoot harbour, as do the people of Pembrokeshire. We do know that progress is being made on ports and, perhaps, the devolution, but that progress will depend on the interchange between the Welsh and UK Governments, as well as the port authorities themselves. And we all know that, for Milford Haven, we can also add in the enterprise zone board to that mix. Since last October, Minister, there was an appointment of a new chair of that board. Have you any update that you could offer today, in terms of the impact that that appointment has had in terms of developing any opportunities for Milford Haven? We all know that those opportunities are significant.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad heddiw. Rwy'n croesawu'n arbennig y buddsoddiad o £700,000 yn harbwr Saundersfoot, fel y mae pobl Sir Benfro. Rydym yn gwybod bod cynnydd yn cael ei wneud ar borthladdoedd ac, efallai, ar eu datganoli, ond bydd y cynnydd hwnnw'n dibynnu ar y gyfnewidfa rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal â'r awdurdodau porthladd eu hunain. Ac rydym ni i gyd yn gwybod, yn Aberdaugleddau, y gallwn hefyd ychwanegu bwrdd yr ardal fenter at y gymysgedd. Ers mis Hydref diwethaf, Weinidog, mae'r bwrdd hwnnw wedi penodi cadeirydd newydd. A oes gennych unrhyw ddiweddariad y gallech ei gynnig heddiw, o ran effaith y penodiad hwnnw ar ddatblygu unrhyw gyfleoedd ar gyfer Aberdaugleddau? Rydym ni i gyd yn gwybod bod y cyfleoedd hynny'n rhai sylweddol.

Picking up, as others have, on the issues of infrastructure and transport links, this is something that the Enterprise and Business Committee looked at. One of the topics that was discussed in Brussels last month was the EU trans-European transport network, or TEN-T. Milford Haven is designated as a core network port under that scheme, and Fishguard is included on the comprehensive network. Could you update Members on discussions that you've had with the UK Government and, maybe, the European Commissioner, Minister, about any funding opportunities under that scheme? In terms of transport links to and from the ports, you have invested—again, this is hugely welcome—in record rail services to and from Milford Haven and Fishguard. Is there any update that you might give, either now or in future, about any opportunities for our ports' connection to that electrification of the Great Western mainline?

I sôn, fel y gwnaeth eraill, am faterion seilwaith a chysylltiadau trafnidiaeth, mae hyn yn rhywbeth yr edrychodd y Pwyllgor Menter a Busnes arno. Un o'r pynciau a drafodwyd ym Mrwsel y mis diwethaf oedd rhwydwaith trafnidiaeth traws-Ewropeaidd yr UE, neu TEN-T. Mae Aberdaugleddau wedi ei ddynodi'n borthladd rhwydwaith craidd o dan y cynllun hwnnw, ac mae Abergwaun wedi'i gynnwys ar y rhwydwaith cynhwysfawr. A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y trafodaethau yr ydych chi wedi'u cael â Llywodraeth y DU ac, efallai, gyda'r Comisiynydd Ewropeaidd, Weinidog, am unrhyw gyfleoedd ariannu o dan y cynllun hwnnw? O ran cysylltiadau trafnidiaeth â'r porthladdoedd, rydych wedi buddsoddi—unwaith eto, mae hyn i'w groesawu'n fawr—mewn gwasanaethau rheilffordd gwell nag erioed i ac o Aberdaugleddau ac Abergwaun. A oes unrhyw ddiweddariad y gallech roi, naill ai nawr neu yn y dyfodol, am unrhyw gyfleoedd i gysylltu ein porthladdoedd â thrydaneiddio prif reilffordd y Great Western?

15:28 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. Obviously, we're delighted about the support we're able to give to Saundersfoot; it's key in terms of the tourism strategy and will develop a lot of full-time jobs, in terms of what can be undertaken there when the work is completed. In terms of the trans-European transport network, these are, obviously, issues we discuss with the UK Government. The UK Government takes the lead in Europe, and they do keep us fully updated about their intentions, in terms of their negotiation stance, and tell us what's going on as a result of the negotiations, and I will be having a meeting with the appropriate ports Minister.

Diolch. Yn amlwg, rydym ni'n falch iawn am y cymorth yr ydym yn gallu ei roi i Saundersfoot; mae'n allweddol o ran y strategaeth dwristiaeth a bydd yn datblygu llawer o swyddi llawn-amser, o ran yr hyn y gellir ei wneud yno pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau. O ran y rhwydwaith trafnidiaeth traws-Ewropeaidd, mae'r rhain, yn amlwg, yn faterion yr ydym yn eu trafod â Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU yn cymryd yr awenau yn Ewrop, ac maent yn ein diweddaru'n llawn am eu bwriadau, o ran eu safbwynt negodi, ac yn dweud wrthym beth sy'n digwydd o ganlyniad i'r trafodaethau, a byddaf yn cael cyfarfod â'r Gweinidog porthladdoedd priodol.

Welsh ports are very well represented on the TEN-T strategic network, and we are committed to working with all of them to maximise the opportunities that TEN-T status can represent. Holyhead is a comprehensive but not core TEN-T port, but all ports in the TEN-T network are strategic, I think, by definition, and the European funding that supports the development of TEN-T routes extends to the comprehensive network. We continue to explore all of the opportunities, as I indicated in responding to Rhun ap Iorwerth, to look at port operators and developers in their area, engaging directly, of course, with the European Commission on opportunities, which will be followed up with meetings next week, and, of course, with the UK and Irish Governments.

Mae porthladdoedd Cymru wedi'u cynrychioli'n dda iawn ar rwydwaith strategol TEN-T, ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phob un ohonynt i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y gall statws TEN-T eu cynrychioli. Mae Caergybi'n borthladd TEN-T cynhwysfawr ond nid yn un craidd, ond mae pob porthladd yn y rhwydwaith TEN-T yn strategol, rwy'n meddwl, drwy ddiffiniad, ac mae'r cyllid Ewropeaidd sy'n cefnogi datblygiad llwybrau TEN-T yn ymestyn i'r rhwydwaith cynhwysfawr. Rydym yn parhau i archwilio pob un o'r cyfleoedd, fel y dywedais wrth ymateb i Rhun ap Iorwerth, i edrych ar weithredwyr a datblygwyr porthladdoedd yn eu hardal, gan ymgysylltu'n uniongyrchol, wrth gwrs, â'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfleoedd, a dilynir hynny gyda chyfarfodydd yr wythnos nesaf, ac, wrth gwrs, gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Iwerddon.

Welsh bids under the first call for the Connecting Europe Facility funding were all port themed, covering road projects that would enable access to TEN-T ports, including the A55 in Holyhead, and we should know the results of that bidding process this summer. So, I will advise Members as soon as that is completed. On your reference to rail, Network Rail also submitted a bid, under the first call for electrification of the south Wales main line, which is a core TEN-T railroad, and we're working with the Department for Transport and Network Rail to improve the other TEN-T routes, including the north Wales main line. So, these are all integral and all linked.

Porthladdoedd oedd thema pob cynnig o Gymru o dan yr alwad gyntaf am gyllid Cyfleuster Cysylltu Ewrop, gan gwmpasu prosiectau ffyrdd a fyddai'n galluogi mynediad i borthladdoedd TEN-T, gan gynnwys yr A55 yng Nghaergybi, a dylem wybod canlyniadau'r broses gynnig honno yr haf hwn. Felly, byddaf yn rhoi gwybod i'r Aelodau cyn gynted ag y bydd hynny wedi'i gwblhau. O ran eich cyfeiriad at reilffyrdd, cyflwynwyd cais hefyd gan Network Rail, o dan yr alwad gyntaf ar gyfer trydaneiddio prif reilffordd y de, sy'n rheilffordd graidd TEN-T, ac rydym yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail i wella'r llwybrau TEN-T eraill, gan gynnwys prif linell y gogledd. Felly, mae'r rhain i gyd yn rhan annatod o hyn ac yn gysylltiedig â'i gilydd.

As integral to this work is exploring relief lines, and the opportunity for enhancing support for intermodal freight through our ports. That's really quite important as well, as part of this discussion. The aim is for further port-relevant pipeline projects to be developed in the future. Connecting Europe Facility calls, and information on future calls is still awaited in that respect, but we are on the case with this, because we need to maximise the opportunity to get in funding.

Peth arall sy'r un mor hanfodol i'r gwaith hwn yw archwilio rheilffyrdd rhyddhau, a'r cyfle i ddefnyddio ein porthladdoedd i wella cefnogaeth i gludo nwyddau rhyngfoddol. Mae hynny hefyd yn eithaf pwysig wir, fel rhan o'r drafodaeth hon. Y nod yw datblygu mwy o brosiectau piblinell sy'n berthnasol i borthladdoedd yn y dyfodol. Mae Cyfleuster Cysylltu Ewrop yn galw, ac rydym yn dal i ddisgwyl am wybodaeth am alwadau yn y dyfodol yn hynny o beth, ond rydym yn gweithio ar hyn, oherwydd mae angen inni fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i gael cyllid.

15:30 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We look forward to seeing the Wales Bill as it progresses, and detail of what will actually be contained within it, in terms of powers. Now, one of the big arguments for devolution in the first place was to unlock the economic development potential of having the decision-making point closer to the people. Clearly, the sea has a huge potential to make a contribution to the Welsh economy and to our productivity. I note that Ireland, actually, has a target for the percentage of the GDP that it would like to see derived from the marine economy. Well, we are surrounded on nearly as many sides by the water as Ireland are, and I'm wondering whether the Minister considers that we ought to be thinking about a blue economic strategy, to bring together the different strands of ways in which we can generate productivity from our access to the sea. I'm wondering, as well, whether there is an indicative percentage of GDP that you think might be created, or an amount of value that might be generated from the sea.

Rydym yn edrych ymlaen at weld Bil Cymru wrth iddo ddatblygu, a manylion yr hyn a fydd wedi'i gynnwys ynddo, o ran pwerau. Nawr, un o'r dadleuon mawr o blaid datganoli yn y lle cyntaf oedd datgloi'r potensial datblygu economaidd sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau mewn man sy'n nes at y bobl. Yn amlwg, mae gan y môr botensial enfawr i gyfrannu at economi Cymru a'n cynhyrchiant. Nodaf fod Iwerddon, mewn gwirionedd, wedi gosod targed ar gyfer y canran o gynnyrch domestig gros y byddent yn hoffi ei weld yn deillio o'r economi forol. Wel, rydym wedi ein hamgylchynu gan ddŵr ar bron gynifer o ochrau ag Iwerddon, ac rwy'n meddwl tybed a yw'r Gweinidog o'r farn y dylem fod yn meddwl am strategaeth economaidd las, i ddwyn ynghyd y gwahanol fathau o ffyrdd y gallwn gynhyrchu cynhyrchiant o'r môr sydd ar gael inni? Tybed, hefyd, a oes canran dangosol o gynnyrch domestig gros yr ydych yn meddwl y gellid ei greu, neu swm o werth y gellid ei gynhyrchu o'r môr?

Looking at the opportunities that are covered in your statement, you've talked about energy, shipping and tourism. You haven't talked about the opportunities economically for fishing or aquaculture within your statement. Now, I understand, clearly, these are within the purview of another Minister, but they can make a significant contribution. If we look, for example, at the tidal lagoon in Swansea bay, one of the opportunities that they're pursuing there—alongside the energy generation—is aquaculture, to provide a test bed, to see whether it can be done here in Wales to a greater level. I'm wondering what assessment you've made of that potential.

O edrych ar y cyfleoedd sydd wedi'u cynnwys yn eich datganiad, rydych wedi sôn am ynni, llongau a thwristiaeth. Nid ydych wedi sôn am y cyfleoedd economaidd ar gyfer pysgota neu ddyframaeth yn eich datganiad. Nawr, rwy'n deall, yn amlwg, mai cyfrifoldeb Gweinidog arall yw'r rhain, ond gallant wneud cyfraniad sylweddol. Os edrychwn, er enghraifft, ar y morlyn llanw ym mae Abertawe, un o'r cyfleoedd y maent yn mynd ar eu trywydd yno—ochr yn ochr â chynhyrchu ynni—yw dyframaeth, er mwyn darparu gwely prawf, i weld a ellir ei wneud yma yng Nghymru ar raddfa fwy. Tybed pa asesiad yr ydych wedi ei wneud o'r potensial hwnnw?

In terms of shipping, I'm wondering whether you can tell us—because you've talked about the growth in tourism numbers, but you haven't actually talked about the raw data in terms of the freight situation in Wales—whether freight shipping is increasing or decreasing at the moment. I'm wondering as well whether you have had an opportunity to discuss with Network Rail and others, and the port authorities, what potential there is for improving rail links to our ports, to create the kind of sustainable freight infrastructure that will help us to move freight off our roads, which are congested and dangerous—and, as we know, when incidents have been caused in the Brynglas tunnels, they've been caused by freight, not by cars—and to see whether we can look towards improving, as I say, the sustainability of our freight infrastructure.

O ran morgludiant, tybed a allwch chi ddweud wrthym—oherwydd rydych chi wedi sôn am y twf yn niferoedd twristiaeth, ond nid ydych wedi sôn mewn gwirionedd am y data crai o ran sefyllfa cludo nwyddau yng Nghymru—a yw morgludiant nwyddau'n cynyddu ynteu'n lleihau ar hyn o bryd? Tybed hefyd a ydych wedi cael cyfle i drafod â Network Rail ac eraill, a'r awdurdodau porthladd, pa botensial sydd i wella cysylltiadau rheilffordd â'n porthladdoedd, i greu'r math o seilwaith cludo nwyddau cynaliadwy a fydd yn ein helpu i symud cludiant nwyddau oddi ar ein ffyrdd, sy'n orlawn ac yn beryglus—ac, fel y gwyddom, pan fo digwyddiadau wedi cael eu hachosi yn nhwneli Brynglas, cerbydau cludo nwyddau sydd wedi eu hachosi, nid ceir—ac i weld a allwn edrych tuag at wella, fel y dywedais, gynaliadwyedd ein seilwaith cludo nwyddau?

I'm also wondering in terms of the potential for short sea shipping. Clearly, there's an opportunity there, which is something that we should look towards, but is this something that we're doing in order to balance against a decline in long-distance shipping in Wales? I'm wondering whether you see the future of Wales as moving towards more short-distance coverage, and whether that long-distance business is gone, and whether that is perhaps indicated by the M4 route cutting off the potential for accepting bigger ships in the Newport harbour.

Rwyf hefyd yn meddwl am y potensial ar gyfer morgludiant byr. Yn amlwg, mae yna gyfle, sy'n rhywbeth y dylem edrych tuag ato, ond a yw hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei wneud er mwyn cydbwyso yn erbyn lleihad mewn morgludiant pellter hir yng Nghymru? Tybed a ydych yn gweld dyfodol Cymru'n symud tuag at fwy o forgludiant pellter byr, ac a yw'r busnes pellter hir hwnnw wedi mynd, ac ai dyna pam efallai y mae llwybr yr M4 yn atal y potensial i dderbyn llongau mwy yn harbwr Casnewydd?

In terms of tourism, I very much welcome the increase in the number of ships and visitors that are coming into Wales. It's fantastic for Wales to see this. I'm wondering what steps are being taken to boost the spend per head that visitors to Wales are making, and to increase the amount of time that those visitors are spending here with us. Clearly, there's a job to be done in terms of the land-side infrastructure, to make sure that we can actually get people off the larger ships and into our ports comfortably.

O ran twristiaeth, rwy'n croesawu'n fawr y cynnydd yn nifer y llongau a'r ymwelwyr sy'n dod i mewn i Gymru. Mae'n wych i Gymru weld hyn. Rwy'n meddwl tybed pa gamau sy'n cael eu cymryd i roi hwb i'r gwariant fesul pen y mae ymwelwyr â Chymru'n ei wneud, ac i gynyddu'r amser y mae'r ymwelwyr hynny'n ei dreulio yma gyda ni. Yn amlwg, mae gwaith i'w wneud o ran y seilwaith ar y tir, i wneud yn siŵr bod pobl mewn gwirionedd yn gallu dod oddi ar y llongau mwy ac i mewn i'n porthladdoedd yn gyfforddus.

But it's not just about terminals at major ports. We need to be thinking about some of the softer infrastructure, like making sure that we're able to have coach tours in sufficient numbers to take the passengers off a really big cruise ship. I'm wondering what discussions are being had with tourism businesses to encourage them to collaborate on packages that are within reach of cruise ports, to make sure, as I say, that we're making the most of the opportunities that these visitors are bringing to us.

Ond nid dim ond mater o derfynellau prif borthladdoedd yw hwn. Mae angen inni fod yn meddwl am rywfaint o'r seilwaith meddalach, fel gwneud yn siŵr ein bod yn gallu sicrhau digon o deithiau bws i gymryd y teithwyr oddi ar long fordeithio fawr iawn. Tybed pa drafodaethau sy'n cael eu cynnal â busnesau twristiaeth i'w hannog i gydweithio ar becynnau sydd o fewn cyrraedd porthladdoedd mordeithiau, i wneud yn siŵr, fel y dywedais, ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r ymwelwyr hyn yn eu creu inni.

I also wonder about smaller ships and point-to-point cruising within Wales and within the Irish sea—something along the lines of the Hurtigruten in Norway, which visits very, very small towns. It brings a small number of people more frequently into smaller locations, and it is much more manageable and much more sustainable in terms of a business than an occasional boost of maybe 1,000 people into a location, and then nobody again for another three weeks. So, I'm wondering if you've had any opportunities to talk to operators about that, because it could be a fantastic opportunity for smaller towns like Penarth or Porthcawl, for example, to have regular, smaller ships.

Rwyf hefyd yn meddwl am longau llai a mordeithio pwynt i bwynt yng Nghymru a Môr Iwerddon—rhywbeth tebyg i'r Hurtigruten yn Norwy, sy'n ymweld â threfi bach iawn, iawn. Mae'n dod â nifer bach o bobl yn amlach i leoliadau llai, ac mae'n llawer mwy hylaw a llawer mwy cynaliadwy o ran busnesau na rhyw hwb o bryd i'w gilydd o efallai 1,000 o bobl i mewn i leoliad, ac yna neb eto am dair wythnos arall. Felly, rwy'n meddwl tybed a ydych wedi cael unrhyw gyfleoedd i siarad â gweithredwyr am hynny, oherwydd gallai fod yn gyfle gwych i drefi llai fel Penarth neu Borthcawl, er enghraifft, i gael llongau llai yn rheolaidd.

Finally, one thing that's not in the statement as well is the situation regarding business rates in and around our ports. Given that you already have powers around business rates, I'm wondering if you can give us an update on the situation there.

Yn olaf, un peth arall nad yw yn y datganiad yw'r sefyllfa o ran ardrethi busnes yn ein porthladdoedd ac o'u cwmpas. O gofio bod gennych eisoes bwerau o gwmpas ardrethi busnes, tybed a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa honno inni?

15:36

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If I can deal with the questions in some semblance of order, I'll talk first about the cruise strategy, which actually takes into account the work that they're doing under the tourism part of my department to actually look at a totally integrated cruise strategy. Part of that is strengthening the relationship between the Welsh Government, ports, local authorities and tourism businesses to ensure there's a co-ordinated approach. A good example is that when we've had the large ships into Holyhead, we've had excellent tours, with local providers putting on, I have to assure you, sufficient coaches to take everyone across all the gems across north Wales. That's proved very satisfactory. Added to that, when we had a lot of German tourists coming in, we actually advertised for people who spoke German to be guides for the day, and they just came, they went on board, they might've had lunch, and they took people around, and that was very well received. That's a policy we're going to continue.

Os caf ateb y cwestiynau mewn rhyw fath o drefn, soniaf yn gyntaf am y strategaeth mordeithiau, sydd mewn gwirionedd yn ystyried y gwaith y maent yn ei wneud o dan ran dwristiaeth fy adran, i edrych ar strategaeth mordeithiau gwbl integredig. Rhan o hynny yw cryfhau'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, porthladdoedd, awdurdodau lleol a busnesau twristiaeth i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig. Enghraifft dda yw, pan ydym wedi cael y llongau mawr yng Nghaergybi, rydym wedi cael teithiau rhagorol, ac mae darparwyr lleol wedi darparu, rhaid imi eich sicrhau, digon o fysiau i fynd â phawb i weld holl drysorau'r gogledd. Mae hynny wedi bod yn foddhaol iawn. Yn ychwanegol at hynny, pan ddaeth llawer o dwristiaid o'r Almaen yma, gwnaethom hysbysebu am bobl a oedd yn siarad Almaeneg i fod yn dywyswyr am y dydd, a daethant, aethant ar y llong, efallai eu bod wedi cael cinio, ac aethant â phobl o gwmpas, a chafodd hynny dderbyniad da iawn. Mae hwnnw'n bolisi yr ydym yn mynd i barhau ag ef.

Also, of course, the issues are that we've got to have the discussions with the ports and operators in relation to berthing and future developments, including the development of shore-side services, and, as indicated, the linguistic guides. Now, with shore-side services, that is an opportunity for businesses to be part and parcel of what developments might be taken on in the port.

Hefyd, wrth gwrs, mae'n rhaid inni gael y trafodaethau â'r porthladdoedd a'r gweithredwyr ynglŷn ag angori a datblygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys datblygu gwasanaethau ar y lan, ac, fel y nodwyd, y tywyswyr ieithyddol. Nawr, o ran gwasanaethau ar y lan, mae hynny'n gyfle i fusnesau fod yn rhan annatod o'r datblygiadau a allai ddigwydd yn y porthladd.

We've also got a cruise Wales marketing plan in place on this, which is linked to the tourism strategy. We took an exhibition stand to Seatrade Europe and Cruise Shipping Miami, which was attended by all the top executives. The top executives, if they like what they see, are the ones who actually bring the ships to our shores. We're very fortunate to have some Welsh links into some of these companies, so they've been quite pleased to consider Wales as somewhere to go.

Mae gennym hefyd gynllun marchnata mordeithiau Cymru ar waith ar hyn, sy'n gysylltiedig â'r strategaeth dwristiaeth. Aethom â stondin arddangos i Seatrade Europe a Cruise Shipping Miami, ac roedd yr holl brif swyddogion gweithredol yn bresennol. Y prif swyddogion gweithredol, os ydynt yn hoffi'r hyn a welant, yw'r rhai sydd mewn gwirionedd yn dod â'r llongau i'n glannau. Rydym yn ffodus iawn bod gennym rai cysylltiadau Cymreig yn rhai o'r cwmnïau hyn, felly maent wedi bod yn eithaf hapus i ystyried Cymru fel rhywle i fynd iddo.

Visits to the coast account for 41 per cent of all the overnight trips in Wales, and there are enormous figures around developing the coastal issues. On what you indicated as well, we do look at the smaller ships because smaller ships are very keen to dock in smaller ports. We have had some progress in that area, looking at these particular issues. I think in real terms we've got a lot more to do, but we are on the right track in terms of the development of the policy.

Mae ymweliadau â'r arfordir yn cyfrif am 41 y cant o'r holl deithiau dros nos yng Nghymru, ac mae'r ffigurau yn enfawr o ran datblygu'r materion arfordirol. O ran yr hyn y gwnaethoch gyfeirio ato hefyd, rydym ni yn edrych ar y llongau llai oherwydd mae llongau llai'n awyddus iawn i ddocio mewn porthladdoedd llai. Rydym wedi cael rhywfaint o gynnydd yn y maes hwnnw, wrth edrych ar y materion penodol hyn. Rwy'n meddwl bod gennym lawer mwy i'w wneud mewn termau real, ond rydym ar y trywydd iawn o ran datblygu'r polisi.

You asked me about the short sea—I'm getting as tongue-tied as with some other things today—the short sea route. I'm still awaiting that particular report. The problem is, in terms of shipping, they're all independent, these ports. Trust ports manage themselves, Associated British Ports manage ports, Stena, so it's up to them how they create and bring in the trade, not for us. Obviously, if there are any measures they wanted us to particularly look at, we would do so.

Roeddech yn gofyn imi am y môr byr—rwy'n mynd yn dafodrwym unwaith eto yma—y llwybr môr byr. Rwy'n dal i aros am yr adroddiad penodol hwnnw. Y broblem yw, o ran llongau, bod y porthladdoedd hyn i gyd yn annibynnol. Mae porthladdoedd ymddiriedolaeth yn eu rheoli eu hunain, mae Associated British Ports yn rheoli porthladdoedd, Stena, felly eu lle nhw yw penderfynu sut y maent yn creu ac yn denu'r fasnach, nid ein lle ni. Yn amlwg, pe baent am inni edrych ar unrhyw fesurau'n arbennig, byddem yn gwneud hynny.

There is no further update on business rates in relation to ports. That's in the whole pool, as it were, of some of the issues we are looking around in terms of business rates.

Nid oes diweddariad pellach am ardrethi busnes yng nghyswllt porthladdoedd. Mae hynny yn y gronfa gyfan, fel petai, o rai o'r materion yr ydym yn edrych arnynt o ran ardrethi busnes.

However, on rail links, you do make a good point, and I think I responded to Joyce Watson about the importance of looking at rail links into ports. That's actually quite essential in terms of how we get the goods to elsewhere.

Fodd bynnag, o ran cysylltiadau rheilffordd, rydych yn gwneud pwynt da, ac rwy'n meddwl fy mod wedi sôn wrth ateb Joyce Watson am bwysigrwydd edrych ar gysylltiadau rheilffordd i borthladdoedd. A dweud y gwir, mae hynny'n eithaf hanfodol o ran sut yr ydym yn mynd â'r nwyddau i rywle arall.

On the issue you raised about aquaculture, that is obviously an issue, and it was an issue that was part of the discussions about getting rid of the Anglesey Aluminium site. Part of that was an exploration of aquaculture. In terms of how we look at the whole of marine, it's important to recognise there are enormous opportunities in terms of business with marine energy, wave and tidal and the ports. There are such close interlinks there and additional things. For instance, if we have the tidal lagoon, what more could be done in terms of developments within that area? So, these are issues that are on our agenda and are being considered.

O ran y mater a godwyd gennych ynglŷn â dyframaeth, mae hynny'n amlwg yn fater perthnasol, ac roedd yn fater a oedd yn rhan o'r trafodaethau ar gael gwared ar safle Alwminiwm Môn. Roedd archwilio dyframaeth yn rhan o hynny. O ran sut yr ydym yn edrych ar bob mater morol, mae'n bwysig cydnabod y cyfleoedd enfawr sy'n bodoli o ran busnes gydag ynni morol, tonnau a llanw a'r porthladdoedd. Mae cydgysylltu mor agos yno a phethau ychwanegol. Er enghraifft, os oes gennym y morlyn llanw, beth arall y gellid ei wneud o ran datblygiadau yn yr ardal honno? Felly, mae'r rhain yn faterion sydd ar ein hagenda ac yn cael eu hystyried.

15:39 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think Eluned Parrott has pretty much covered every aspect there that I was going to ask about, so I'll restrict it to just three quick areas, if I may.

Rwy'n meddwl bod Eluned Parrott wedi cwmpasu bron bob agwedd yno yr oeddwn yn mynd i holi amdanynt, felly gwnaf gyfyngu hyn i dri maes cyflym yn unig, os caf.

First of all, the cruise ship sector that you mentioned. It's been exactly three years since the publication of the Enterprise and Business Committee report into ports and airports, which called on the Welsh Government to do more to encourage the cruise sector within Wales. So, I'd like to ask you what concrete measures are you implementing to follow through those recommendations to improve the tourist experience at ports? How are you funding better berthing facilities to increase the cruise liner market even further?

Yn gyntaf oll, y sector llongau mordeithio y sonioch chi amdano. Mae tair blynedd yn union wedi mynd heibio ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ynglŷn â phorthladdoedd a meysydd awyr, a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i annog y sector mordeithiau yng Nghymru. Felly, hoffwn ofyn ichi pa fesurau pendant yr ydych chi yn eu rhoi ar waith i ddilyn yr argymhellion hynny i wella profiad ymwelwyr mewn porthladdoedd? Sut yr ydych chi'n ariannu gwell cyfleusterau angori i gynyddu'r farchnad llongau mordeithio ymhellach eto?

Secondly, the M4 and the M4 black route have been mentioned by a number of speakers. You will be aware that there are a number of concerns from the port of Newport commissioners, who are concerned about the potential impact of the severing of the north dock, which the M4 could do. Eluned Parrott has already mentioned the potential damage of having larger ships, which could be in conflict with Welsh Government policy, in response to our earlier report on the Enterprise and Business Committee.

Yn ail, mae'r M4 a llwybr du'r M4 wedi cael sylw gan nifer o siaradwyr. Byddwch yn ymwybodol bod gan gomisiynwyr porthladd Casnewydd nifer o bryderon; maent yn pryderu am effaith bosibl torri'r doc gogleddol, y gallai'r M4 ei wneud. Mae Eluned Parrott eisoes wedi sôn am y difrod posibl o gael llongau mwy o faint, a allai fod yn groes i bolisi Llywodraeth Cymru, wrth ymateb i'n hadroddiad cynharach ar y Pwyllgor Menter a Busnes.

Finally, Minister, I don't think anybody has asked you about tidal lagoons and the potential impact there. If the proposals for the proposed tidal lagoons do go ahead, they'll clearly have a potentially massive opportunity for Wales in terms of making Wales self-sufficient in energy, and indeed in providing energy to the rest of the UK. Five were announced recently. What analysis has been made of the effect of some of these lagoons on nearby port facilities? I think this is an under-investigated area. I think it's something that would be useful to have a discussion with the ports about.

Yn olaf, Weinidog, nid wyf yn meddwl bod neb wedi gofyn ichi am forlynnoedd llanw a'r effaith bosibl yno. Os bydd y cynigion ar gyfer y morlynnoedd llanw arfaethedig yn mynd yn eu blaen, byddant yn amlwg yn creu cyfle a allai fod yn enfawr i Gymru o ran gwneud Cymru'n hunangynhaliol o ran ynni, ac yn wir o ran darparu ynni i weddill y Deyrnas Unedig. Cyhoeddwyd pump yn ddiweddar. Pa ddadansoddiad a wnaethpwyd o effaith rhai o'r lagwnau hyn ar gyfleusterau porthladd cyfagos? Rwy'n credu bod hwn yn faes sydd heb ei archwilio'n ddigonol. Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y byddai'n ddefnyddiol cael trafodaeth â'r porthladdoedd amdano.

**Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Well, obviously, Eluned Parrott did actually beat you to it, because she did raise the tidal lagoon with me, but not in the context that you did. Can I say on that that these are obviously issues that will be taken into account? Initial planning has of course been granted by—I think it was probably Lord Bourne and that department. So obviously we will have to look at these issues in terms of how they impact in the long run.

Wel, yn amlwg, mae Eluned Parrott wedi achub y blaen arnoch, oherwydd soniodd hi am y morlyn llanw, ond nid yn y cyd-destun a wnaethoch chi. A gaf i ddweud am hynny bod y rhain yn amlwg yn faterion a gaiff eu hystyried? Mae caniatâd cynllunio cychwynnol wedi cael ei roi, wrth gwrs, gan—rwy'n meddwl yn ôl pob tebyg mai'r Arglwydd Bourne a'r adran honno a wnaeth. Felly, mae'n amlwg y bydd yn rhaid inni edrych ar y materion hyn o ran eu heffaith hirdymor.

In terms of Newport docks and the M4, and the continuing fascination about the preferred route around Newport, I can assure you that, as a Government, we did consider port usage and designed a horizontal and vertical alignment that avoids the south dock and will allow the majority of port operations to continue unimpeded. Now, we recognise ABP as a key stakeholder and will continue liaising with them throughout the development of the scheme.

O ran dociau Casnewydd a'r M4, a'r diddordeb parhaus yn y llwybr a ffefrir o amgylch Casnewydd, gallaf eich sicrhau ein bod ni, fel Llywodraeth, wedi ystyried y defnydd o'r porthladd ac wedi cynllunio aliniad llorweddol a fertigol sy'n osgoi'r doc de ac a fydd yn caniatáu i'r rhan fwyaf o weithrediadau'r porthladd barhau heb rwystr. Nawr, rydym yn cydnabod bod ABP yn rhanddeiliad allweddol a byddwn yn parhau i gysylltu â nhw drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r cynllun.

On the cruise market, I think it's important for us to recognise that Cruise Wales has a marketing plan in place that is linked to Visit Wales's annual business plan and the overall tourism strategy, 'A Partnership for Growth'. In order to increase the cruise line product knowledge of Wales and its port facilities, the Government offers familiarisation visits to cruise executives, so they can experience and understand the Welsh cruise product. In fact, there was a visit, I think, just about two or three weeks ago. These visits are offered to the ground handlers to increase their product knowledge of the destination as well. We have an itinerary of workshops throughout Wales in order to develop a new boutique tour offering in conjunction with the ground handlers, so local people from different sectors are involved in workshops, along with various outside stakeholders, such as new attractions and local authorities.

O ran y farchnad llongau mordeithio, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i ni gydnabod bod gan Cruise Cymru gynllun marchnata ar waith sy'n gysylltiedig â chynllun busnes blynyddol Croeso Cymru a'r strategaeth dwristiaeth gyffredinol, 'Partneriaeth ar gyfer Twf'. Er mwyn cynyddu gwybodaeth Cymru a'i chyfleusterau porthladd am y cynnyrch llongau mordeithio, mae'r Llywodraeth yn cynnig ymweliadau ymgyfarwyddo i swyddogion gweithredol mordeithiau, fel y gallant gael profiad o gynnyrch mordeithiau Cymru a'i ddeall. Yn wir, bu ymweliad, rwy'n meddwl, ddim ond rhyw ddwy neu dair wythnos yn ôl. Mae'r ymweliadau hyn yn cael eu cynnig i'r trinwyr ar y ddaear i gynyddu eu gwybodaeth am gynnyrch y gyrchfan hefyd. Mae gennym deithlen o weithdai ledled Cymru er mwyn datblygu cynnig taith boutique newydd ar y cyd â'r trinwyr ar y tir, fel bod pobl leol o wahanol sectorau'n cymryd rhan mewn gweithdai, ynghyd ag amryw randdeiliaid allanol, megis atyniadau newydd ac awdurdodau lleol.

Shore-side services are being developed. As I indicated, we had the German ambassadors, and we're looking forward now to having more linguistic skills available. As I indicated in response to everything else, we've been having regular discussions with some of the big ports about the use of their jetties et cetera. As I advised you, we do attend the cruise events. I would be more than happy, in view of the interest in this, Deputy Presiding Officer, to issue something further in the autumn.

Mae gwasanaethau ar y lan yn cael eu datblygu. Fel y nodais, cawsom y llysgenhadon Almaeneg, ac rydym yn edrych ymlaen yn awr at fod mwy o sgiliau ieithyddol ar gael. Fel y nodais wrth ateb popeth arall, rydym wedi bod yn cael trafodaethau rheolaidd â rhai o'r porthladdoedd mawr ynghylch defnyddio eu glanfeydd ac ati. Fel y dywedais wrthych, rydym ni yn mynychu'r digwyddiadau mordeithiau. Byddwn yn fwy na pharod, yn wyneb y diddordeb yn hyn, Ddirprwy Lywydd, i gyhoeddi rhywbeth pellach yn yr hydref.

15:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Weinidog.

Thank you very much, Minister.

15:43

# 5. Datganiad: Blwyddyn Antur 2016

# 5. Statement: Year of Adventure 2016

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Eitem 5 yw'r datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Blwyddyn Antur. Galwaf ar Ken Skates.

Item 5 is a statement by the Deputy Minister for Culture, Sports and Tourism: Year of Adventure. I call on Ken Skates.

15:43

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Diolch, Deputy Presiding Officer. On 2 April this year, I was delighted to announce a series of thematic years for Wales, starting with the Year of Adventure in 2016, followed by the Year of Legends in 2017, and the Year of the Sea in 2018. Building on the success of the Dylan Thomas 100 celebrations, the aim is to provide a focus for investment, product development and marketing across my portfolio and beyond, galvanising the people of Wales, inspiring our tourism markets, giving the media a fresh hook, and enriching the Wales brand message globally. Prior to the launch, I wrote to Cabinet colleagues to outline my plans, which have significant potential for cross-Government working. I'm now pleased to be able to provide an update on developments for the Year of Adventure.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Ar 2 Ebrill eleni, roeddwn yn falch iawn o gyhoeddi cyfres o flynyddoedd thematig ar gyfer Cymru, gan ddechrau gyda Blwyddyn Antur yn 2016, wedi'i dilyn gan Flwyddyn y Chwedlau yn 2017, a Blwyddyn y Môr yn 2018. Gan adeiladu ar lwyddiant dathliadau Dylan Thomas 100, y nod yw darparu craidd ar gyfer buddsoddi, datblygu cynnyrch a marchnata ar draws fy mhortffolio a thu hwnt, gan symbylu pobl Cymru, ysbrydoli ein marchnadoedd twristiaeth, rhoi bachyn newydd i'r cyfryngau, a chyfoethogi neges brand Cymru'n fyd-eang. Cyn y lansiad, ysgrifennais at gydweithwyr yn y Cabinet i amlinellu fy nghynlluniau, sy'n creu potensial sylweddol i waith trawslywodraethol. Rwyf yn awr yn falch o allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ar gyfer y Flwyddyn Antur.

Tourism in Wales is in a strong position: 2014 was a record-breaking year for Wales, as the number of overnight visits to our country by British residents hit an impressive 10 million for the first time since the Great Britain tourism survey was set up in its present form. There was also an increase of 7 per cent in international visits. We know that the Welsh Government has contributed to this success. Our marketing campaign last year generated an additional £240 million in spending in Wales, and supports over 5,000 jobs.

Mae twristiaeth yng Nghymru mewn sefyllfa gref: roedd 2014 yn flwyddyn a dorrodd record i Gymru, wrth i nifer yr ymweliadau dros nos â'n gwlad gan drigolion Prydain daro’r ffigur trawiadol o 10 miliwn am y tro cyntaf ers sefydlu arolwg twristiaeth Prydain Fawr ar ei ffurf bresennol. Bu cynnydd hefyd o 7 y cant mewn ymweliadau rhyngwladol. Rydym yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at y llwyddiant hwn. Cynhyrchodd ein hymgyrch farchnata y llynedd £240 miliwn o wariant ychwanegol yng Nghymru, ac mae’n cynnal dros 5,000 o swyddi.

However, it is a competitive world and the strength of the pound will make it increasingly important for Wales to innovate in quality products, to keep our message fresh and give compelling reasons why people should visit Wales. Our thematic years, with their focus on Wales’s core strengths, are of course outward-facing and carefully chosen to boost Wales’s image and tourism performance. But they are also planned to inspire the people of Wales for the benefit of our collective confidence, health and wellbeing.

Fodd bynnag, mae'n fyd cystadleuol a bydd cryfder y bunt yn ei gwneud yn fwy a mwy pwysig i Gymru arloesi i greu cynnyrch o ansawdd, i gadw ein neges yn ffres ac i roi rhesymau cymhellol i bobl ymweld â Chymru. Mae ein blynyddoedd thematig, â'u ffocws ar gryfderau craidd Cymru, wrth gwrs yn wynebu tuag allan ac wedi’u dewis yn ofalus i roi hwb i ddelwedd a pherfformiad Cymru o ran twristiaeth. Ond maent hefyd wedi’u cynllunio i ysbrydoli pobl Cymru er budd ein hyder, ein hiechyd a’n lles ni i gyd.

And a Year of Adventure in 2016 is a great place to start. Aspirational, inspirational—the outdoor activity sector is worth £481 million to the Welsh economy and is growing across the globe. The year 2016 will see us build on a wave of exciting new openings and developments and over 10 years of ongoing investment to make Wales one of the UK’s leading adventure destinations.

Ac mae Blwyddyn Antur yn 2016 yn lle gwych i ddechrau. Yn uchelgeisiol, yn ysbrydoledig—mae’r sector gweithgareddau awyr agored gwerth £481 miliwn i economi Cymru ac mae’n tyfu ledled y byd. Yn y flwyddyn 2016, byddwn yn adeiladu ar don o agoriadau a datblygiadau newydd cyffrous a dros 10 mlynedd o fuddsoddiad parhaus i wneud Cymru yn un o gyrchfannau antur mwyaf blaenllaw'r DU.

The private sector, with Welsh Government backing in many instances, has built new icons for modern Wales: Zip World and Bounce Below in Blaenau Ffestiniog, world-class mountain bike centres such as Bike Park Wales near Merthyr, water sports facilities such as the Swansea Bay centre of excellence, and an indoor air trampoline park in Cardiff. With European support through the environment for growth programme, more than £37 million has been invested in eight new centres of excellence, all now launched and open to visitors—from the improved offer at Saundersfoot harbour to the Porth y Swnt visitor centre in Aberdaron. And shortly the taps will be opened to fill the Wavegarden lagoon at Surf Snowdonia in Dolgarrog, our latest truly world-class Welsh adventure product and a UK first, which has received £4 million of support from Welsh Government.

Mae'r sector preifat, gyda chymorth Llywodraeth Cymru mewn llawer o achosion, wedi adeiladu eiconau newydd ar gyfer Cymru fodern: Zip World a Bounce Below ym Mlaenau Ffestiniog, canolfannau beicio mynydd o'r radd flaenaf fel Parc Beicio Cymru ger Merthyr, cyfleusterau chwaraeon dŵr fel canolfan ragoriaeth Bae Abertawe, a pharc trampolîn aer dan do yng Nghaerdydd. Gyda chymorth Ewrop drwy’r rhaglen amgylchedd ar gyfer twf, mae dros £37 miliwn wedi’i fuddsoddi mewn wyth o ganolfannau rhagoriaeth newydd, a phob un nawr wedi’i lansio ac ar agor i ymwelwyr—o'r arlwy well yn harbwr Saundersfoot i ganolfan ymwelwyr Porth y Swnt yn Aberdaron. Ac yn fuan bydd y tapiau’n cael eu hagor i lenwi'r lagŵn Wavegarden yn Surf Snowdonia yn Nolgarrog, ein cynnyrch antur Cymreig diweddaraf o safon wirioneddol fyd-eang a’r cyntaf o’i fath yn y DU, sydd wedi cael £4 miliwn o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

But adventure means different things to different people, and, while some of our activity will of course focus on pure adventure experiences for surfers, cyclists, canoeists, hikers and so on, Wales’s big celebration will also include a range of softer adventures, aimed at general markets, not least the people of Wales. Physical, natural, cultural—we will celebrate the rich variety of experiences Wales has to offer people of all ages and all abilities.

Ond mae antur yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl, ac, er y bydd rhywfaint o'n gweithgarwch wrth gwrs yn canolbwyntio ar brofiadau antur pur i syrffwyr, beicwyr, canŵ-wyr, cerddwyr ac yn y blaen, bydd dathliad mawr Cymru hefyd yn cynnwys amrywiaeth o anturiaethau meddalach, wedi’u hanelu at farchnadoedd cyffredinol, yn enwedig pobl Cymru. Ffisegol, naturiol, diwylliannol—byddwn yn dathlu’r amrywiaeth cyfoethog o brofiadau sydd gan Gymru i'w cynnig i bobl o bob oed a phob gallu.

So, what can we look forward to in 2016? In the main, as I mentioned, the year will provide an opportunity to celebrate all of our sustained investments in outstanding adventure activities and attractions. Physical, natural, cultural—we will celebrate the rich variety of experiences Wales has to offer people of all ages and all abilities.

Felly, beth allwn ni edrych ymlaen ato yn 2016? Ar y cyfan, fel y soniais, bydd y flwyddyn yn rhoi cyfle i ddathlu ein holl fuddsoddiadau parhaus mewn gweithgareddau ac atyniadau antur rhagorol. Ffisegol, naturiol, diwylliannol—byddwn yn dathlu’r amrywiaeth cyfoethog o brofiadau sydd gan Gymru i'w cynnig i bobl o bob oed a phob gallu.

I recently announced a £1 million regional engagement fund for destinations across Wales, and can confirm that 24 applications have been approved, including activity of relevance to the adventure theme, such as a food adventure safari product in Carmarthenshire, and a series of new adventure experiences in Gwynedd.

Yn ddiweddar, cyhoeddais gronfa ymgysylltu rhanbarthol gwerth £1 filiwn ar gyfer cyrchfannau ledled Cymru, a gallaf gadarnhau bod 24 o geisiadau wedi'u cymeradwyo, gan gynnwys gweithgarwch sy'n berthnasol i'r thema antur, megis cynnyrch saffari antur bwyd yn Sir Gaerfyrddin, a chyfres o brofiadau antur newydd yng Ngwynedd.

Furthermore, there are also two other funding options for the sector that can be linked to the themed years: a new product innovation fund to enable clusters of businesses to come together for grant support, and the Partnership for Growth fund, which focuses on pan-regional and Wales-wide projects, especially in protected landscapes.

Ar ben hynny, mae yna hefyd ddau opsiwn ariannu arall ar gyfer y sector y gellir eu cysylltu â'r blynyddoedd thema: cronfa arloesi cynnyrch newydd i alluogi clystyrau o fusnesau i ddod at ei gilydd i gael cymorth grant, a'r gronfa Partneriaeth ar gyfer Twf, sy'n canolbwyntio ar brosiectau i ranbarthau cyfan ac i Gymru gyfan, yn enwedig mewn tirweddau gwarchodedig.

2016 will provide an opportunity to showcase some of Wales's existing high-adrenaline major events, such as the Snowdonia marathon, the Cardiff triathlon and Ironman Wales, as well as existing events that provide softer, more magical cultural experiences to customers from across the world, such as the Green Man Festival and Festival No. 6.

Bydd 2016 yn rhoi cyfle i arddangos rhai o'r digwyddiadau mawr adrenalin uchel sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru, megis marathon Eryri, triathlon Caerdydd ac Ironman Cymru, yn ogystal â digwyddiadau sy'n bodoli eisoes sy'n cynnig profiadau diwylliannol meddalach, mwy hudol i gwsmeriaid o bob cwr o'r byd, megis Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Gŵyl Rhif 6.

I am pleased today to announce two major strands of activity as part of the 2016 calendar: an exciting exhibition at the national museum in Cardiff from January—this will include some intriguing material that I'm sure will be popular with all ages—and a Great Weekend of Adventure to take place in the spring in collaboration with tourism industry organisations and businesses.

Rwy'n falch heddiw o gyhoeddi dau brif linyn o weithgaredd fel rhan o galendr 2016: arddangosfa gyffrous yn yr amgueddfa genedlaethol yng Nghaerdydd o fis Ionawr ymlaen—bydd hon yn cynnwys deunydd diddorol ac rwy'n siŵr y bydd yn boblogaidd gyda phobl o bob oed—a Phenwythnos Antur Mawr i ddigwydd yn y gwanwyn ar y cyd â sefydliadau a busnesau'r diwydiant twristiaeth.

Visit Wales's marketing in 2016 will celebrate adventure in all its guises. The spring campaign will help showcase our most epic adventure products, as we shine a seasonal spotlight on different aspects of the adventure across the year—outdoor, family, cultural and food adventures. We are grateful to the ambassadors that have already agreed to work with us, including Bear Grylls and Richard Parks, and I'm delighted to announce now that Lowri Morgan, ultra-marathon runner and broadcaster, will also be taking part. We look forward to working with a host of other familiar faces across the year, each of appeal to different market groups.

Bydd marchnata Croeso Cymru yn 2016 yn dathlu antur yn ei holl ffurfiau. Bydd ymgyrch y gwanwyn yn helpu i arddangos ein cynnyrch antur mwyaf epig, wrth inni dynnu sylw tymhorol at wahanol agweddau ar yr antur drwy gydol y flwyddyn—anturiaethau awyr agored, teulu, diwylliant a bwyd. Rydym yn ddiolchgar i'r llysgenhadon sydd eisoes wedi cytuno i weithio gyda ni, gan gynnwys Bear Grylls a Richard Parks, ac rwy'n falch iawn o gyhoeddi nawr y bydd Lowri Morgan, y rhedwr ultra-marathon a'r darlledwr, hefyd yn cymryd rhan. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda llu o wynebau cyfarwydd eraill drwy gydol y flwyddyn, a phob un yn apelio at wahanol grwpiau marchnad.

The Year of Adventure theme was deliberately selected to complement and feature the Dahl centenary. The Dahl programme will greatly enhance the year, and plans include a major showpiece immersive theatre experience, jointly produced by the Wales Millennium Centre and National Theatre Wales. We are also planning a major golden ticket competition, aimed at offering life-changing Welsh adventure experiences to a handful of lucky winners.

Cafodd y thema Blwyddyn Antur ei dewis yn fwriadol i gyd-fynd â chanmlwyddiant Dahl a thynnu sylw ato. Bydd y rhaglen Dahl yn gwella'r flwyddyn yn fawr, ac mae'r cynlluniau'n cynnwys profiad blaenllaw mawr o theatr trochi, a gynhyrchwyd ar y cyd gan Ganolfan Mileniwm Cymru a National Theatre Wales. Rydym hefyd yn cynllunio cystadleuaeth fawr tocynnau aur, gyda'r nod o gynnig profiadau antur yng Nghymru sy'n newid bywydau i lond llaw o enillwyr lwcus.

Dahl believed firmly in the power of adventure to expand horizons and to change lives, and that is our ambition, too. Yes, adventure is exciting, thrilling and fun, but adventure also has the potential to transform. Adventure can refresh the Wales brand, making us relevant to our markets and the media. Adventure such as Zip World and Bounce Below are literally creating a new kind of industrial revolution in some of Wales's post-industrial areas, generating year-round job opportunities. Most importantly, perhaps, there is real scope through adventure—physical, cultural and natural—to truly inspire the children and adults of Wales to become more confident, healthy and happy.

Roedd Dahl yn credu'n gadarn yng ngrym antur i ehangu gorwelion ac i newid bywydau, a dyna ein huchelgais ni, hefyd. Ydy, mae antur yn gyffrous, yn wefreiddiol ac yn hwyl, ond mae gan antur hefyd y potensial i weddnewid. Gall antur adfywio brand Cymru, gan ein gwneud yn berthnasol i'n marchnadoedd a'r cyfryngau. Mae anturiaethau fel Zip World a Bounce Below yn llythrennol yn creu math newydd o chwyldro diwydiannol yn rhai o ardaloedd ôl-ddiwydiannol Cymru, gan gynhyrchu cyfleoedd swyddi drwy gydol y flwyddyn. Yn bwysicaf oll, efallai, ceir cyfle gwirioneddol drwy antur—ffisegol, diwylliannol a naturiol—i roi ysbrydoliaeth wirioneddol i blant ac oedolion Cymru i ddod yn fwy hyderus, iach a hapus.

As our adventure ambassador, Bear Grylls, has said:

Fel mae ein llysgennad antur, Bear Grylls, wedi'i ddweud:

'Taking part in activities is about empowering people and we see people's confidence and pride grow.... Wales is where the adventure starts in 2016.'

'Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau'n fater o rymuso pobl ac rydym yn gweld hyder a balchder pobl yn tyfu.... Cymru yw lle mae'r antur yn dechrau yn 2016.'

I would encourage you all to join us for a new adventure—to take pride and to take part.

Byddwn yn eich annog chi i gyd i ymuno â ni am antur newydd—i fod yn falch ohoni ac i gymryd rhan.

15:51 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Deputy Minister. Along with the industry itself, I think it's helpful to know a bit more about the themes that Visit Wales has in mind. Even though, perhaps, this oral statement could have been made back in April, I am pleased to hear from you now. Thank you very much for a statement that sounds an awful lot of fun, even though perhaps slightly exhausting, and which looks back at the Dylan Thomas experience before looking forward to that of Roald Dahl.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Weinidog. Ynghyd â'r diwydiant ei hun, rwy'n meddwl ei bod yn ddefnyddiol gwybod ychydig mwy am y themâu sydd gan Croeso Cymru mewn golwg. Er y gallai'r datganiad llafar hwn fod wedi'i wneud, efallai, yn ôl ym mis Ebrill, rwy'n falch i glywed gennych nawr. Diolch yn fawr am ddatganiad sy'n swnio'n llawer iawn o hwyl, er ei fod efallai ychydig yn flinedig, ac sy'n edrych yn ôl ar y profiad Dylan Thomas cyn edrych ymlaen at y profiad Roald Dahl.

There still seems to be some difficulty identifying the brand for Wales though, but I am pleased to see this specific focus in a statement that industry can identify and which it can buy into. So, my first question is this: bearing in mind that tourism businesses, by and large, are either small or microbusinesses, with limited time to explore how to make the most of what you're offering in the statement today, what proactive means of communication will you be employing to ensure that businesses know about the Year of Adventure, that they will be inspired by it—I think you mentioned that they would be inspired by it in your speech as well—and that they will respond to the information in a bespoke way that can help them with their business? I don't think it can all revolve around one Great Weekend of Adventure next spring.

Mae rhywfaint o anhawster yn dal i fodoli o ran adnabod brand Cymru fodd bynnag, ond rwy'n falch o weld y ffocws penodol hwn mewn datganiad y gall y diwydiant ei adnabod a'i gefnogi. Felly, dyma fy nghwestiwn cyntaf: o ystyried bod busnesau twristiaeth, ar y cyfan, naill ai'n fusnesau bach neu'n ficrofusnesau, ac nad oes ganddynt lawer o amser i archwilio sut i fanteisio i'r eithaf ar yr hyn yr ydych yn ei gynnig yn y datganiad heddiw, pa ddulliau cyfathrebu rhagweithiol y byddwch yn eu defnyddio i sicrhau bod busnesau'n gwybod am y Flwyddyn Antur, ac y bydd yn eu hysbrydoli—rwy'n meddwl eich bod wedi dweud y byddai'n eu hysbrydoli yn eich araith hefyd—ac y byddant yn ymateb i'r wybodaeth mewn ffordd bwrpasol a all eu helpu â'u busnes? Nid wyf yn credu y gall y cyfan droi o gwmpas un Penwythnos Mawr Antur y gwanwyn nesaf.

I'm very pleased that your statement made much of the critical role of the private sector in this. Some of those businesses you mentioned are perhaps a little more iconic than others—I won't revisit the experience in Bounce Below; it was too scary the first time—but it does strike me that there's been support for businesses across Wales, and it does look like the private sector are taking the leadership role, rather than Welsh Government—rather than the other way around. Now, I think these businesses may well have inspired the Year of Adventure to a degree, but my second question is this: how much of the support that Welsh Government gave was conditional on that these businesses then buy back into the thematic years, generally, with their marketing, and, specifically, work with other local businesses to ensure that there is quality accommodation and quality hospitality, if you like, in place to support those core attractions?

Rwy'n falch iawn bod eich datganiad wedi sôn llawer am waith hanfodol y sector preifat yn hyn. Mae rhai o'r busnesau hynny y sonioch amdanynt o bosibl ychydig yn fwy eiconig nag eraill—ni wnaf sôn eto am y profiad yn Bounce Below; roedd yn rhy frawychus y tro cyntaf—ond mae'n fy nharo bod cefnogaeth wedi bodoli i fusnesau ledled Cymru, ac mae'n edrych yn debyg mai'r sector preifat sy'n cymryd yr awenau, yn hytrach na Llywodraeth Cymru—yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Nawr, rwy'n meddwl ei bod yn bosibl iawn bod y busnesau hyn wedi ysbrydoli'r Flwyddyn Antur i raddau, ond dyma fy ail gwestiwn: faint o'r gefnogaeth a roddodd Llywodraeth Cymru a oedd yn amodol ar y busnesau hyn wedyn yn cefnogi'r blynyddoedd thematig, yn gyffredinol, gyda'u marchnata, ac, yn benodol, yn gweithio gyda busnesau lleol eraill i sicrhau bod llety o safon a lletygarwch o safon, os mynnwch chi, ar gael i gefnogi'r atyniadau craidd hynny?

I'm also pleased to see the arrival of what you referred to as the 'ambassadors'. I think celebrities' endorsements, while they may not be to everybody's taste, certainly do work in the modern world. I think a celebrity endorsement of a Government plan is rather unusual, actually. So, can you tell us, because these endorsements will have to be paid for somehow, do you plan to publish a global figure—not individually, obviously, but a global figure—that you'll be spending on these endorsements? Secondly, because this is also a marketing spend question, will the three funding routes you referred to require the beneficiaries to provide, in due course, evidence of the effectiveness of the marketing cases they include in their bids?

Rwyf hefyd yn falch o weld dyfodiad yr hyn yr ydych yn cyfeirio ato fel y 'llysgenhadon'. Rwy'n meddwl bod cefnogaeth gan enwogion, er na fyddant efallai at ddant pawb, yn sicr yn gweithio yn y byd modern. Rwy'n credu bod cefnogaeth gan enwogion i gynllun gan Lywodraeth yn eithaf anghyffredin, a dweud y gwir. Felly, a allwch ddweud wrthym, gan y bydd yn rhaid talu rywsut am y gefnogaeth hon, a ydych yn bwriadu cyhoeddi'r ffigur cyffredinol—ddim yn unigol, yn amlwg, ond ffigur cyffredinol—y byddwch yn ei wario ar y gefnogaeth hon? Yn ail, gan fod hyn hefyd yn ymwneud â gwariant ar farchnata, a fydd y tri llwybr cyllido y sonioch amdanynt yn mynnu bod y buddiolwyr yn darparu, maes o law, tystiolaeth o effeithiolrwydd yr achosion marchnata y maent yn eu cynnwys yn eu cynigion?

I am intrigued by what's happening in the national museum; I must admit to that. Can you tell us whether the museum has any plans for touring this exciting exhibition so that other parts of Wales buying into the Year of Adventure might have access to part of the offer other than through the internet?

Rwy'n chwilfrydig ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn yr amgueddfa genedlaethol; mae'n rhaid imi gyfaddef hynny. A allwch chi ddweud wrthym a oes gan yr amgueddfa unrhyw gynlluniau i fynd â'r arddangosfa gyffrous hon ar daith fel y gall rhannau eraill o Gymru sy'n cefnogi'r Flwyddyn Antur gael mynediad at ran o'r arlwy ac eithrio drwy'r rhyngrwyd?

Then, finally, I think we all share your delight in the improved tourism figures for Wales, and I think I've said before in this Chamber, actually, that I am happy to praise Visit Wales for any part that it has played in that. However, I think it is a bit of a claim to say that:

Yna, yn olaf, rwy'n meddwl ein bod ni i gyd yn rhannu eich boddhad â'r ffigurau twristiaeth gwell i Gymru, ac rwy'n meddwl fy mod wedi dweud o'r blaen yn y Siambr hon, a dweud y gwir, fy mod yn barod i ganmol Croeso Cymru am unrhyw ran y mae wedi'i chwarae yn hynny. Fodd bynnag, credaf ei fod yn dipyn o honiad dweud:

'Our marketing campaign last year generated an additional £240 million in spending in Wales'.

'Cynhyrchodd ein hymgyrch farchnata y llynedd £240 miliwn o wariant ychwanegol yng Nghymru'.

I think you would acknowledge that perhaps the weather, the improved economy, and the adventurous spirit of tourism operators themselves, may also have had something to do with that extra spend. So, my question based on that is: as hits to the website in themselves are no reliable indicator of visits generated, what other methods do you have to try and establish and measure the link between the activities of Welsh Government and partners and that additional spend? I'm sure there is a link, but trying to prove it is quite difficult, I think. But the analysis of the methodologies and data would be very usefully shared with businesses themselves, so that they can be part of joint plans to extend stay and spend as well. In particular, I'd be grateful if you'd confirm what assessment tools you use to satisfy WEFO, if it is indeed WEFO, that the spending of £37 million—and perhaps it might be more than that—will have achieved the stated aims for that expenditure in due course. Thank you.

Rwy'n meddwl y byddech yn cydnabod efallai bod y tywydd, yr economi well, ac ysbryd anturus gweithredwyr twristiaeth eu hunain, efallai hefyd wedi cyfrannu at y gwariant ychwanegol. Felly, fy nghwestiwn yn seiliedig ar hynny yw: gan nad yw ymweliadau â'r wefan ynddynt eu hunain yn ddangosydd dibynadwy o ymweliadau a gynhyrchir, pa ddulliau eraill sydd gennych i geisio sefydlu a mesur y cyswllt rhwng gweithgareddau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid a'r gwariant ychwanegol hwnnw? Rwy'n siŵr bod cyswllt yn bodoli, ond mae ceisio ei brofi'n eithaf anodd, rwy'n meddwl. Ond byddai'n ddefnyddiol iawn rhannu'r dadansoddiad o'r fethodoleg a'r data â'r busnesau eu hunain, fel y gallant fod yn rhan o gynlluniau ar y cyd i ymestyn arosiadau a gwariant hefyd. Yn benodol, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau pa offer asesu a ddefnyddiwch i fodloni WEFO, os mai WEFO ydyw yn wir, y bydd y gwariant o £37 miliwn—ac efallai ei fod yn fwy na hynny—wedi cyflawni'r nodau a ddatganwyd ar gyfer y gwariant hwnnw maes o law. Diolch.

15:55 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Member for her very positive comments? First of all, to take up the issue of additional spend, the Member mentioned that good weather may have had a great part to play in seeing our tourism figures go through the roof and hit record highs. But the fact of the matter is that the same weather was experienced across the UK, yet, in contrast to Wales, across the UK tourism had slipped. Wales is therefore clearly doing something right. What's the difference between Wales and the rest of the UK? A Welsh Labour Government—that's the difference—leading through Visit Wales a buoyant tourism economy. That's the difference. I do note that, in a recent press release—[Interruption.] I do note that, in a recent press release, the Member said that.

A gaf ddiolch i'r Aelod am ei sylwadau cadarnhaol iawn? Yn gyntaf oll, i sôn am y gwariant ychwanegol, soniodd yr Aelod y gallai tywydd da fod wedi cyfrannu'n gryf at y ffaith bod ein ffigurau twristiaeth wedi mynd drwy'r to a chyrraedd y niferoedd uchaf erioed. Ond y ffaith amdani yw bod yr un tywydd wedi digwydd ledled y DU, ac eto, yn wahanol i Gymru, ar draws y DU roedd twristiaeth wedi llithro. Felly mae'n amlwg bod Cymru'n gwneud rhywbeth yn iawn. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Cymru a gweddill y DU? Llywodraeth Lafur Cymru—dyna'r gwahaniaeth—sy'n arwain economi dwristiaeth ffyniannus drwy Croeso Cymru. Dyna'r gwahaniaeth. Rwyf yn nodi, mewn datganiad diweddar i'r wasg—[Torri ar draws.] Rwyf yn nodi, mewn datganiad diweddar i'r wasg, bod yr Aelod wedi dweud

'we just need to give the industry the tools to deliver its potential.'

'y cyfan sydd ei angen arnom yw rhoi'r offer i'r diwydiant i wireddu ei botensial.'

Well, the biggest gift that any Government could give right now to the tourism sector is a cut in VAT, but unfortunately that's been ruled out at UK Government level by Ministers.

Wel, y rhodd fwyaf y gallai unrhyw Lywodraeth ei rhoi ar hyn o bryd i'r sector twristiaeth yw toriad mewn TAW, ond yn anffodus cafodd hynny ei ddiystyru ar lefel Llywodraeth y DU gan Weinidogion.

In terms of the endorsements by the adventure ambassadors, I'm pleased to say that these are actually free. These have come about because those ambassadors have given their generous time and energy because they believe in the adventure of Wales and the adventure experiences that Wales has to offer people within our country and beyond.

O ran y gefnogaeth gan y llysgenhadon antur, rwy'n falch o ddweud bod y rhain mewn gwirionedd yn rhad ac am ddim. Mae'r rhain wedi digwydd oherwydd bod y llysgenhadon hynny wedi rhoi'n hael o'u hamser a'u hegni oherwydd eu bod yn credu yn antur Cymru a'r profiadau antur sydd gan Gymru i'w cynnig i bobl o fewn ein gwlad a thu hwnt.

In terms of touring exhibitions, I'm pleased to be able to say that we'll also be featuring an exhibition of the work of Quentin Blake as part of Roald Dahl 100, and I'm very much hoping that that will be able to travel across Wales. I will, of course, be bringing more details of the National Museum of Wales exhibition as soon as I can.

O ran arddangosfeydd teithiol, rwy'n falch o allu dweud y byddwn hefyd yn cynnwys arddangosfa o waith Quentin Blake fel rhan o Roald Dahl 100, ac rwy'n mawr obeithio y bydd honno'n gallu teithio ledled Cymru. Byddaf, wrth gwrs, yn rhoi mwy o fanylion am arddangosfa Amgueddfa Genedlaethol Cymru cyn gynted ag y gallaf.

This is an opportunity, and not an obligation for the private sector. This is a unique opportunity for the private sector to come together with Visit Wales to be able, through collective efforts, to promote one another and collectively promote ourselves as we have never done before. So, it's not an obligation—it is purely an opportunity.

Cyfle yw hwn, nid rhwymedigaeth, i'r sector preifat. Mae hwn yn gyfle unigryw i'r sector preifat ymuno â Croeso Cymru i hyrwyddo ei gilydd a hyrwyddo ein hunain drwy ymdrechion ar y cyd, fel nad ydym erioed wedi ei wneud o'r blaen. Felly, nid yw'n rhwymedigaeth—dim ond cyfle.

In addition, the Member raised the question of whether there's capacity within small and medium-sized enterprises to effectively engage with us and for us to engage with them. I'm pleased to be able to say that I've set up a steering group for the Year of Adventure. That contains membership from a number of organisations representing small and medium-sized enterprises, including the Welsh Association of Visitor Attractions, and that steering group met for the first time yesterday.

Hefyd, gofynnodd yr Aelod a oes gallu o fewn mentrau bach a chanolig eu maint i ymgysylltu'n effeithiol â ni ac i ni ymgysylltu â nhw. Rwy'n falch o allu dweud fy mod wedi sefydlu grŵp llywio ar gyfer y Flwyddyn Antur. Mae hwnnw'n cynnwys aelodau o nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau bach a chanolig, gan gynnwys Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru, a chynhaliodd y grŵp llywio hwnnw eu cyfarfod cyntaf ddoe.

15:58

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the statement. Plaid Cymru has been calling for some time for larger-scale events and major events to be attracted to Wales, and we've looked to Scotland for elements of this, from their Homecoming event in 2009, and the Ryder Cup and the Commonwealth Games into 2014, bringing £53.7 million additional tourism revenue, and more than 95,000 visitors to Scotland in 2009 as a result of the marketing campaigns. So, while I see merit in what the Welsh Government is doing, I see that a lot of it will rely—well, unless I'm wrong—on the goodwill of the private sector coming together behind this idea.

Diolch am y datganiad. Mae Plaid Cymru wedi bod yn galw ers tro i fynd ati i ddenu digwyddiadau ar raddfa fwy a digwyddiadau mawr i Gymru, ac rydym wedi edrych tua'r Alban ar gyfer elfennau o hyn, o'u digwyddiad Homecoming yn 2009, a Chwpan Ryder a Gemau'r Gymanwlad i mewn 2014, a ddaeth â £53.7 miliwn o refeniw twristiaeth ychwanegol, a mwy na 95,000 o ymwelwyr â'r Alban yn 2009 o ganlyniad i'r ymgyrchoedd marchnata. Felly, er fy mod yn gweld rhinwedd yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud, rwy'n gweld y bydd llawer ohono'n dibynnu—wel, oni bai fy mod yn anghywir—ar ewyllys da'r sector preifat yn dod at ei gilydd i gefnogi'r syniad hwn.

You mentioned in your statement that there will be product innovation funds and other such funds linked to the Year of Adventure, but that doesn't suggest that it will be just for the Year of Adventure. So, will you get other companies that are not focused on adventure being able to take part in those funds and therefore then perhaps undermining—well, not undermining, but diluting the effect of this Year of Adventure that you've clearly taken an interest in?

Fe sonioch chi yn eich datganiad y bydd cronfeydd arloesi cynnyrch a chronfeydd eraill o'r fath sy'n gysylltiedig â'r Flwyddyn Antur, ond nid yw hynny'n awgrymu y bydd ar gyfer y Flwyddyn Antur yn unig. Felly, a fydd cwmnïau eraill nad ydynt yn canolbwyntio ar antur yn gallu cymryd rhan yn y cronfeydd hynny ac felly yna efallai'n tanseilio—wel, ddim yn tanseilio, ond yn gwanhau effaith y Flwyddyn Antur hon yr ydych yn amlwg wedi cymryd diddordeb ynddi?

I'd be interested to find out how you've consulted on these concepts, especially, I suppose, given that we are celebrating Roald Dahl after celebrating Dylan Thomas. I welcome that, but one of the ideas that I had as a spokesperson within this party was that we would go out to the public, potentially, and ask the public who they think are important, cultural and artistic and poetic figures, either present or past, so that we can have a collective concept of those figures of importance to the future. It may be someone we've not heard of. It may be an unsung hero. It may be someone who needs to have that recognition who doesn't have it at the moment.

Byddai gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod sut yr ydych wedi ymgynghori ar y cysyniadau hyn, yn enwedig, am wn i, o ystyried ein bod yn dathlu Roald Dahl ar ôl dathlu Dylan Thomas. Rwy'n croesawu hynny, ond un o'r syniadau a gefais fel llefarydd o fewn y blaid hon oedd y byddem yn mynd at y cyhoedd, o bosibl, ac yn gofyn i'r cyhoedd pwy maen nhw'n meddwl yw'r ffigurau diwylliannol, artistig a barddonol pwysig, naill ai o'r presennol neu o'r gorffennol, fel y gallwn gael syniad cyfunol o'r ffigurau pwysig hynny ar gyfer y dyfodol. Efallai y byddai'n rhywun nad ydym wedi clywed amdano. Efallai y byddai'n arwr di-glod. Efallai y byddai'n rhywun sydd ag angen cael y gydnabyddiaeth honno ond nad yw wedi'i chael eto.

One of the caveats that I do have, because, obviously, I think that it's a good idea to have something themed in this way, is that—. Because there are going to be cuts to the public sector, how are we going to administer some of these new ideas? For example, we found out today that the Afan Argoed visitor centre's cafe may be closed due to council cuts. That's a massively important sector for my area. How many people are going to come to us, to our area, if they can't have anywhere to stop afterwards?

Un o'r cafeatau sydd gennyf, oherwydd, yn amlwg, rwy'n meddwl ei fod yn syniad da cael rhywbeth â thema fel hyn, yw—. Oherwydd y toriadau sy'n mynd i ddod i ran y sector cyhoeddus, sut yr ydym ni'n mynd i weinyddu rhai o'r syniadau newydd hyn? Er enghraifft, cawsom wybod heddiw y gallai caffi canolfan ymwelwyr Afan Argoed gael ei gau oherwydd toriadau'r cyngor. Mae hwnnw'n sector aruthrol o bwysig i fy ardal i. Faint o bobl sy'n mynd i ddod atom ni, i'n hardal ni, os nad oes unrhyw le iddynt stopio wedyn?

You mention Lowri Morgan and Bear Grylls, and obviously I think they're amazing people in what they do and they're brilliant to have on board, but I guess it reflects what Suzy Davies said earlier about how they can realise tangible benefits from them being in inspirational roles. They can say a lot about what they do, but how will that make a difference to generations getting involved in physical activity and adventure-style activities?

Rydych yn sôn am Lowri Morgan a Bear Grylls, ac yn amlwg rwy'n meddwl eu bod yn bobl anhygoel yn yr hyn y maent yn ei wneud ac mae'n wych eu bod yn rhan o hyn, ond am wn i mae'n adlewyrchu'r hyn a ddywedodd Suzy Davies yn gynharach, ynghylch sut y gallant wireddu buddion pendant o'r ffaith eu bod yn rhai sy'n ysbrydoli. Gallant ddweud llawer am yr hyn y maen nhw'n ei wneud, ond sut y bydd hynny'n gwneud gwahaniaeth i berswadio cenedlaethau i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a gweithgareddau antur?

The other question I had was about whether you'd be looking to create some sort of legacy as well as longer term benefits for business and tourism. Are you hoping this will inspire greater take-up of sport and physical activity among younger people? You will know of my concern about the participation levels of young girls. Teenagers are not getting involved in sport, and that's just general sport, not anything deeper than that, so that would be a concern of mine. What worried me is that it's been reported this week that the London Olympics has delivered no discernible legacy. So, how will you ensure that these plans do have lasting legacy and that they're not just something that will look good in a press release? Thank you.

Y cwestiwn arall a oedd gennyf oedd a fyddech chi'n bwriadu creu rhyw fath o etifeddiaeth yn ogystal â buddion mwy hirdymor ar gyfer busnes a thwristiaeth. A ydych chi'n gobeithio y bydd hyn yn ysbrydoli mwy o bobl iau i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol? Byddwch yn gwybod am fy mhryder am lefelau cyfranogiad merched ifanc. Nid yw pobl yn eu harddegau'n cymryd rhan mewn chwaraeon, a chwaraeon yn gyffredinol yw hynny, dim byd dyfnach na hynny, felly mae hynny'n destun pryder imi. Yr hyn a oedd yn fy mhoeni yw ein bod wedi clywed yr wythnos hon nad yw Gemau Olympaidd Llundain wedi cyflwyno unrhyw etifeddiaeth ganfyddadwy. Felly, sut y byddwch chi'n sicrhau bod gan y cynlluniau hyn etifeddiaeth barhaol a'u bod yn fwy na dim ond rhywbeth a fydd yn edrych yn dda mewn datganiad i'r wasg? Diolch.

16:02

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to thank again, for her generous comments and support, Bethan Jenkins. The Member rightly mentioned and referred to Scotland. Scotland we can learn from, there's no doubt about that, but, clearly, given that we are outperforming Scotland in terms of tourism, they can also learn from us. I have confidence in the private sector to bring goodwill to this project. From my engagement with the private sector thus far, there has been universal endorsement of the theme of adventure and of the subsequent themes of legends and the sea. In terms of whether there is any conditionality of funding, no, there isn't. The aim of the funds is to enhance tourism but with a specific focus on adventure as a theme.

Hoffwn ddiolch eto, am ei sylwadau a'i chefnogaeth hael, i Bethan Jenkins. Roedd yr Aelod yn iawn i sôn am yr Alban a chyfeirio ati. Gallwn ddysgu oddi wrth yr Alban, does dim amheuaeth am hynny, ond, yn amlwg, ac ystyried ein bod yn perfformio'n well na'r Alban o ran twristiaeth, gallant hwythau ddysgu oddi wrthym ni hefyd. Mae gennyf hyder yn y sector preifat i ddod ag ewyllys da i'r prosiect hwn. O fy ymgysylltiad i â'r sector preifat hyd yn hyn, cafwyd cymeradwyaeth cyffredinol i'r thema antur ac i'r themâu dilynol, sef chwedlau a'r môr. O ran a yw'r cyllid yn amodol ar unrhyw beth, na, nid oes unrhyw amodau. Bwriad y cyllid yw gwella twristiaeth ond gyda ffocws penodol ar antur fel thema.

The Member is right to say the local authorities are under immense pressure. The fact of the reality is that we've had a £1.4 billion cut in the amount of money that comes to Wales from Westminster, and local authorities, clearly, are having to make very difficult decisions. However, through the £1 million regional tourism engagement fund, we have been able to support local authorities in their destination management right across Wales. For example, Destination Wrexham are now going to be working with Destination Flintshire to be able to extend the tourism ambassador scheme, a very, very successful ambassador scheme right across north-east Wales.

Mae'r Aelod yn iawn i ddweud bod yr awdurdodau lleol dan bwysau aruthrol. Y realiti yw ein bod ni wedi cael toriad o £1.4 biliwn yn y swm o arian a ddaw i Gymru o San Steffan, ac mae awdurdodau lleol, yn amlwg, yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn. Fodd bynnag, drwy'r gronfa ymgysylltu twristiaeth ranbarthol gwerth £1 filiwn, rydym wedi gallu cefnogi awdurdodau lleol wrth reoli cyrchfannau ledled Cymru. Er enghraifft, mae Cyrchfan Wrecsam yn awr yn mynd i weithio gyda Chyrchfan Sir y Fflint i ymestyn y cynllun llysgenhadon twristiaeth, sy'n gynllun llysgenhadon llwyddiannus iawn, iawn ar draws y gogledd-ddwyrain.

There are also similar funding opportunities for Gwynedd, for Conwy, for Anglesey, for north Wales as a whole, for Swansea bay, for Pembrokeshire, for Mid Wales Tourism, for North Mid Powys Destination Network, Destination Carmarthenshire, Brecon Beacons Sustainable Destination Partnership and a whole number of other organisations that are benefiting from our funding opportunities.

Ceir cyfleoedd cyllido tebyg hefyd ar gyfer Gwynedd, ar gyfer Conwy, ar gyfer Ynys Môn, ar gyfer y gogledd i gyd, ar gyfer Bae Abertawe, ar gyfer Sir Benfro, ar gyfer Twristiaeth Canolbarth Cymru, ar gyfer Rhwydwaith Cyrchfannau Gogledd a Chanol Powys, Cyrchfan Sir Gaerfyrddin, Partneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy Bannau Brycheiniog a llu o sefydliadau eraill sy'n elwa o'n cyfleoedd cyllido.

I think it's absolutely right that we do have a collective concept of important figures, people of significance—not just at a national level, but also at local level—and that's precisely why the First Minister established the St David awards, which celebrate heroic endeavours and which celebrate leadership and inspiration at every level right across Wales. But, I think it's really hard to argue with the profile that people like Dylan Thomas and Roald Dahl have internationally. It's absolutely right that we claim them as our own. Roald Dahl was Norwegian by heritage, but he was born here in Wales and he was baptised just near here at the Norwegian church. Let's embrace Roald Dahl as one of our finest writers and make sure that the world knows that he is Welsh.

Rwy'n meddwl ei bod yn hollol iawn bod gennym gysyniad cyfunol o ffigurau pwysig, pobl o arwyddocâd—nid dim ond ar lefel genedlaethol, ond hefyd ar lefel leol—a dyna'n union pam sefydlodd y Prif Weinidog wobrau Dewi Sant, sy'n dathlu ymdrechion arwrol ac sy'n dathlu arweinyddiaeth ac ysbrydoliaeth ar bob lefel ledled Cymru. Ond, rwy'n meddwl ei bod yn anodd iawn dadlau â'r proffil sydd gan bobl fel Dylan Thomas a Roald Dahl yn rhyngwladol. Mae'n hollol gywir ein bod yn eu hawlio fel ein rhai ein hunain. Norwyad oedd Roald Dahl o ran treftadaeth, ond cafodd ei eni yma yng Nghymru a chafodd ei fedyddio'n agos iawn atom yma yn yr eglwys Norwyaidd. Dewch inni gofleidio Roald Dahl fel un o'n hawduron gorau a gwneud yn siŵr bod y byd yn gwybod mai Cymro ydyw.

In terms of ambassadors, again there is a need, without a shadow of a doubt, for people to become active participants in society. There is a need not just for opportunities and for access, but also for inspiration, for icons and for leaders. That's precisely what I believe our adventure ambassadors are to a whole number of people. The adventure ambassadors are able to reach people in a way that we, as politicians, simply cannot. They're able to reach people in a way that tourism operators simply cannot. They're able to inspire in a way that we can never dream of inspiring. So, it's absolutely vital that when they come to us and they indicate their willingness to participate in this scheme, we take them by the hand and we say, 'Absolutely. Do as you wish; we're with you'.

O ran llysgenhadon, unwaith eto, mae angen, heb ddim amheuaeth, i bobl ddod yn gyfranogwyr gweithgar yn y gymdeithas. Yn ogystal â chyfleoedd a mynediad, mae angen ysbrydoliaeth, eiconau ac arweinwyr. Dyna'n union beth yr wyf i'n credu yw ein llysgenhadon antur i nifer mawr o bobl. Mae'r llysgenhadon antur yn gallu cyrraedd pobl mewn ffordd sy'n amhosibl i ni fel gwleidyddion. Maent yn gallu cyrraedd pobl mewn ffordd sy'n amhosibl i weithredwyr twristiaeth. Maent yn gallu ysbrydoli mewn ffordd na allwn ni byth freuddwydio am ysbrydoli. Felly, mae'n gwbl hanfodol, pan fyddant yn dod atom ac yn nodi eu parodrwydd i gymryd rhan yn y cynllun hwn, ein bod yn gafael yn eu dwylo ac yn dweud, 'Wrth gwrs. Gwnewch fel y dymunwch; rydym ni gyda chi'.

In terms of a legacy, well, there won't be a specific legacy to adventure in terms of increasing participation in physical activity. Instead, there will be a continuation through subsequent themed years. So, for example, in the year of legends, a centrepiece of that themed year will, of course, be the UEFA Champions League final—an incredible event and probably the biggest single sporting event that Wales has hosted. That, again, will inspire, particularly young people, to take up sport and other forms of physical activity. So, it's my aim to utilise the themed years, as a continual method of getting young people and people of all ages engaged in physical activity.

O ran etifeddiaeth, wel, ni fydd etifeddiaeth benodol i antur o ran cynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol. Yn lle hynny, bydd parhad drwy flynyddoedd thema dilynol. Felly, er enghraifft, yn y flwyddyn chwedlau, un o ganolbwyntiau'r flwyddyn thematig honno fydd, wrth gwrs, rownd derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA—digwyddiad anhygoel ac yn ôl pob tebyg y digwyddiad chwaraeon unigol mwyaf i Gymru ei gynnal. Bydd hynny, unwaith eto, yn ysbrydoli, yn enwedig pobl ifanc, i gymryd rhan mewn chwaraeon a mathau eraill o weithgarwch corfforol. Felly, fy nod yw defnyddio'r blynyddoedd thema fel dull parhaus o berswadio pobl ifanc a phobl o bob oed i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.

The Member is absolutely right that the legacy of London 2012 was not as it was wished. That simply is shameful, I think. I think it's unacceptable that benefits were not delivered in the way that we had hoped they would be and I do put that down, in substantial part, to the fact that the Department for Culture, Media and Sport budget was massacred, subsequent to 2010, and gave no opportunity to deliver the legacy that we would've wished right across the United Kingdom.

Mae'r Aelod yn llygad ei le na wireddwyd etifeddiaeth Llundain 2012 fel y dymunwyd. Mae hynny, yn syml, yn gywilyddus yn fy marn i. Rwy'n credu ei bod yn annerbyniol na chafodd manteision eu cyflwyno yn y ffordd yr oeddem wedi gobeithio y byddent a'r prif reswm am hynny, yn fy marn i, yw'r ffaith bod cyllideb yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cael ei dinistrio, ar ôl 2010, ac nad oedd cyfle i gyflwyno'r etifeddiaeth y byddem wedi'i dymuno ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

16:07

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I start by very much welcoming this very promising initiative? I think the idea of having themed years is a very important one for tourism in Wales, and I very much welcome it. I think we're all very conscious of the wonderful outdoors that we have in Wales and the great opportunities that brings in terms of visitors to Wales and also the people living here.

A gaf i ddechrau drwy groesawu'r fenter addawol iawn hon yn fawr iawn? Rwy'n meddwl bod y syniad o gael blynyddoedd thema'n un pwysig iawn i dwristiaeth yng Nghymru, ac rwy'n ei groesawu'n fawr. Rwy'n credu ein bod ni i gyd yn ymwybodol iawn o'r mannau awyr agored gwych sydd gennym yng Nghymru a'r cyfleoedd gwych y maent yn eu cynnig o ran ymwelwyr i Gymru a hefyd y bobl sy'n byw yma.

One issue for us, I think, Minister, as we go forward, is improving and increasing access to that great outdoors. I think that has been an issue for some time and I'm sure it's one that we'll continue to give consideration to as an Assembly, and I'm sure as a Welsh Government.

Un mater i ni, rwy'n meddwl, Weinidog, wrth inni symud ymlaen, yw gwella a chynyddu mynediad at yr awyr agored. Credaf fod hynny wedi bod yn fater ers cryn amser ac rwy'n siŵr ei fod yn un y byddwn yn parhau i'w ystyried fel Cynulliad, ac rwy'n siŵr fel Llywodraeth Cymru.

Some of the issues around that that I'm aware of involve water, for example. I think we're all familiar with the thorny issues of the canoers and the anglers. Certainly, I can recall —

Mae rhai o'r materion sy'n ymwneud â hynny yr wyf i'n ymwybodol ohonynt yn cynnwys dŵr, er enghraifft. Rwy'n meddwl ein bod i gyd yn gyfarwydd â materion dyrys y canŵ-wyr a'r pysgotwyr. Yn sicr, gallaf gofio—

16:08 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Don't go there.

Peidiwch â sôn.

16:08 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, don't go there. I accept that advice, Dirprwy Lywydd. [Laughter.]

Na, peidiwch â sôn. Rwy'n derbyn y cyngor hwnnw, Ddirprwy Lywydd. [Chwerthin.]

I can recall, for example, some private operators in north Wales at Lake Bala telling me that they felt that if there was greater access to the rivers that flow from and into Lake Bala, then they could offer a much better experience—an adventure experience—for visitors to Wales and people in Wales in terms of a prolonged canoeing experience over a number of days, largely uninterrupted by having to get off the water and carry the canoes, because there was no access over particular stretches. So, they felt that they could prosper and Wales could prosper if there was greater access in that way.

Gallaf gofio, er enghraifft, rhai gweithredwyr preifat yn y gogledd yn Llyn Tegid yn dweud wrthyf eu bod yn teimlo, pe bai mwy o fynediad i'r afonydd sy'n llifo o Lyn Tegid ac i mewn iddo, y gallent gynnig profiad llawer gwell—profiad antur—i ymwelwyr i Gymru ac i bobl yng Nghymru o ran profiad canŵio hir dros nifer o ddiwrnodau, heb lawer o darfu o ran gorfod dod oddi ar y dŵr a chario'r canŵod, gan nad oedd dim mynediad dros ddarnau penodol. Felly, roeddent yn teimlo y gallent ffynnu ac y gallai Cymru ffynnu pe bai mwy o fynediad yn y ffordd honno.

Similarly, I know that people who were involved in cliff climbing felt that there were, sometimes, restrictions in terms of accessing that cliff, because of some of the strips of land that had to be crossed. There were also many issues in terms of the Wales coast path, which I know, persist in terms of making it a truer coast path, in terms of private interest that sometimes frustrates that ambition. So, I think there are issues there that we will need to continue to wrestle with as we move forward if we are to open up our great outdoors for tourism and quality-of-life benefits.

Yn yr un modd, rwy'n gwybod bod pobl sydd wedi bod yn dringo clogwyni'n teimlo bod, weithiau, cyfyngiadau o ran cael mynediad at y clogwyn hwnnw, oherwydd rhai o'r darnau o dir yr oedd rhaid eu croesi. Roedd llawer o faterion hefyd yn ymwneud â llwybr arfordirol Cymru, sydd, rwy'n gwybod, yn dal i fodoli o ran ei wneud yn llwybr arfordir mwy gwirioneddol, oherwydd buddiannau preifat sydd weithiau'n peri rhwystredigaeth i'r uchelgais hwnnw. Felly, rwy'n meddwl y bydd angen inni barhau i ymgodymu â rhai o'r materion hyn wrth inni symud ymlaen os ydym am agor ein hawyr agored i fuddiannau twristiaeth ac ansawdd bywyd.

Also, I think, in terms of the Active Travel (Wales) Act 2013, Minister, I think there are some great opportunities there as we move forward and as those interlinked routes become more available. You know, it's very important in terms of access to work, education and leisure, but I think it could be part of the wider offer in terms of tourism to Wales as well. So, I wonder if you could say something about those access issues, and any others in terms of opening up our great outdoors to a greater extent.

Hefyd, rwy'n meddwl, o ran Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, Weinidog, rwy'n meddwl bod rhai cyfleoedd gwych yno wrth inni symud ymlaen ac wrth i fwy o'r llwybrau cydgysylltiol hynny fod ar gael. Wyddoch chi, mae'n bwysig iawn o ran mynediad i waith, addysg a hamdden, ond rwy'n meddwl y gallai fod yn rhan o'r arlwy ehangach o ran twristiaeth i Gymru yn ogystal. Felly, tybed a allech ddweud rhywbeth am y materion mynediad hynny, ac unrhyw rai eraill o ran rhoi mwy o fynediad at yr awyr agored?

I also wonder, Minister, whether you could say a little bit about partner organisations, such as Cadw, our national parks and areas of outstanding natural beauty, and how they will link in with this themed year to make sure that everything they have to offer is part of what will be offered.

Tybed hefyd, Weinidog, a allech ddweud ychydig am sefydliadau partner, fel Cadw, ein parciau cenedlaethol a'n hardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, a sut y byddant yn cysylltu â'r flwyddyn thema hon i wneud yn siŵr bod popeth sydd ganddynt i'w gynnig yn rhan o'r arlwy?

Finally, in terms of the people of Wales, I very much welcome your mention of, you know, the people living here as well as visitors to Wales because, obviously, they are tourists within Wales, or visitors within Wales to other parts of Wales that they do not live within, which is very important. Also, it's very important for the quality of life for people living here. I've met many people who, you know, will say, 'This mountain is on my doorstep, but, actually, I've never walked up it' or 'This water is alongside my home, but I've never been out there to experience it'. We do need to improve the engagement of people in Wales with the great outdoors. I think we're probably all familiar with lists such as the 101—or whatever it is—things that people ought to do by the age of eleven and a half—[Laughter.]—and I wonder whether we will link in with our schools and perhaps particularly the Communities First areas as part of this themed year of adventure.

Yn olaf, o ran pobl Cymru, rwy'n croesawu'n fawr iawn y ffaith eich bod wedi sôn, wyddoch chi, am y bobl sy'n byw yma yn ogystal ag ymwelwyr i Gymru oherwydd, yn amlwg, maent yn dwristiaid o fewn Cymru, neu'n Gymry sy'n ymwelwyr â rhannau eraill o Gymru nad ydynt yn byw ynddynt, sy'n bwysig iawn. Hefyd, mae'n bwysig iawn i ansawdd bywyd pobl sy'n byw yma. Rwyf wedi cwrdd â llawer o bobl a fydd, wyddoch chi, yn dweud, 'Mae'r mynydd hwn ar fy stepen ddrws, ond, a dweud y gwir, dydw i erioed wedi mynd i gerdded arno' neu 'Mae'r dŵr hwn y tu allan i'm cartref, ond dydw i erioed wedi bod allan yno i'w brofi'. Mae angen inni wella ymgysylltiad pobl yng Nghymru â'r awyr agored. Rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn gyfarwydd â rhestrau fel y 101—neu beth bynnag ydyw—o bethau y dylai pobl ei wneud erbyn eu bod yn un ar ddeg a hanner oed—[Chwerthin.]—ac rwy'n meddwl tybed a fyddwn yn cysylltu â'n hysgolion ac efallai yn enwedig â'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf fel rhan o'r flwyddyn thema antur hon.

16:12

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank John Griffiths for his comments and suggestions? I know that the Member will be a very keen adventurer in 2016 himself. Of course, adventure means different things to different people. To some it means high-octane adrenaline; to others it can mean adventures in food or adventures in literature. When I hear or see the word 'adventure' I immediately think of Indiana Jones. I do think it would be quite magical to be able to weave a bit of Indy into the year of adventure in 2016.

Hoffwn ddiolch i John Griffiths am ei sylwadau a'i awgrymiadau. Gwn y bydd yr Aelod yn anturiaethwr awyddus iawn yn 2016 ei hun. Wrth gwrs, mae antur yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. I rai pobl mae'n golygu adrenalin cyffrous; i eraill gall olygu anturiaethau mewn bwyd neu anturiaethau mewn llenyddiaeth. Pan fyddaf yn clywed neu'n gweld y gair 'antur' rwy'n meddwl ar unwaith am Indiana Jones. Rwy'n meddwl y byddai'n eithaf hudol gallu gwehyddu ychydig o Indy i mewn i'r flwyddyn antur yn 2016.

In terms of access, we are working with the national parks, with the Urdd, with the Ramblers, the Duke of Edinburgh's Award scheme, with the Prince's Trust, and a number of other organisations to make sure that there are opportunities for people to experience great adventures outdoors. Of course, we also have the coastal path alongside the Active Travel (Wales) Act. So, I'm working with other Ministers to ensure that we fully exploit these for the purpose of the year of adventure.

O ran mynediad, rydym yn gweithio gyda'r parciau cenedlaethol, gyda'r Urdd, gyda'r Cerddwyr, gyda chynllun Gwobr Dug Caeredin, gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog, a nifer o sefydliadau eraill i wneud yn siŵr bod pobl yn cael cyfleoedd i brofi anturiaethau awyr agored. Wrth gwrs, mae gennym hefyd y llwybr arfordirol ochr yn ochr â'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru). Felly, rwy'n gweithio gyda Gweinidogion eraill i sicrhau ein bod yn manteisio'n llawn ar y rhain at ddibenion y flwyddyn antur.

The Member mentioned cliff climbing. Of course, the latest rage is cliff sleeping, and there is a fantastic opportunity to now do this on Ynys Môn. I'd like to invite Members to experience this with me, perhaps later in the year.

Soniodd yr Aelod am ddringo clogwyni. Wrth gwrs, y ffasiwn diweddaraf yw cysgu ar glogwyni, ac mae cyfle gwych i wneud hyn ar Ynys Môn yn awr. Hoffwn wahodd Aelodau i brofi hyn gyda mi, efallai'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

Cadw will have a very, very special—[Interruption.]

Bydd gan Cadw swyddogaeth arbennig iawn, iawn—[Torri ar draws.]

I think the Member doth protest too much. Cadw will have a very, very special role, not just for the purpose of castle and abbey sleepovers, but for another enticing opportunity that I'll be able to announce in the coming weeks. I think Cadw, in particular, have an opportunity and a role to engage in Communities First areas, and to ensure that there is a strong link through the roll-out of the Fusion programme that seeks to tackle poverty by bringing together communities and culture. They have an opportunity and a role to make sure that people in every community can access cultural opportunities.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn rhy brotestiol. Bydd gan Cadw swyddogaeth arbennig iawn, iawn, nid dim ond at ddiben pobl yn cysgu mewn cestyll ac abatai, ond o ran cyfle deniadol arall y byddaf yn gallu ei gyhoeddi yn yr wythnosau nesaf. Rwy'n meddwl bod gan Cadw, yn arbennig, gyfle a rhan i'w chwarae wrth ymgysylltu mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac i sicrhau bod yna gysylltiad cryf drwy'r broses o gyflwyno'r rhaglen Fusion sy'n ceisio trechu tlodi drwy ddwyn ynghyd cymunedau a diwylliant. Mae ganddynt gyfle a rhan i'w chwarae i wneud yn siŵr bod cyfleoedd diwylliannol ar gael i bobl ym mhob cymuned.

In terms of the challenge that the Member raises, I think there is a great opportunity through 2016, working in partnership with other organisations, to lay down challenges to individuals, to companies, to third-sector organisations, and to schoolchildren as well, to do something different in 2016—to take up a challenge, to take up something new, to experience a new adventure. Again, this is something on which I'm working with stakeholders in terms of its development.

O ran yr her y mae'r Aelod yn ei chodi, rwy'n credu bod cyfle gwych drwy gydol 2016, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, i osod heriau i unigolion, i gwmnïau, i fudiadau trydydd sector, ac i blant ysgol hefyd, i wneud rhywbeth gwahanol yn 2016—i ymgymryd â her, i wneud rhywbeth newydd, i brofi antur newydd. Unwaith eto, mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn gweithio gyda rhanddeiliaid i'w ddatblygu.

16:14 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, Minister, I think you have to be very careful making offers like that in the Chamber. You never know who will take you up on it. [Laughter.]

Wel, Weinidog, rwy'n meddwl bod yn rhaid ichi fod yn ofalus iawn wrth wneud cynigion fel 'na yn y Siambr. Wyddoch chi byth pwy fydd yn derbyn eich cynnig. [Chwerthin.]

Can I welcome the statement today? In terms of the theming of the next three years, I think it's a great idea. It helps to cross-market different events and different attractions, and I think it can provide a useful catalyst for visitor businesses to coalesce around. Of course, what we're trying to do is fire the imagination of our visitors as well. But I think when you're looking at choosing themes, you have to be very careful to keep those themes broad enough to enable the widest possible range of businesses to get involved. We want to be as much of a boost to a B&B in Brecon as a beach café in Barry or, indeed, Bounce Below in Blaenau Ffestiniog. I think 'adventure' and 'legend' both do that. Year of the Sea, I think, is going to be a bit more tricky, because we don't want inland businesses to think that it's not for them, it's not about them, and that they're somehow excluded from that. So, I'm wondering if you can just share with us how you think you can make sure that businesses across Wales can engage successfully every year, and that, as we move forward, we're choosing themes that will have the broadest possible base.

A gaf i groesawu'r datganiad heddiw? O ran themâu'r tair blynedd nesaf, rwy'n meddwl ei fod yn syniad gwych. Mae'n helpu i draws-farchnata gwahanol ddigwyddiadau a gwahanol atyniadau, ac rwy'n meddwl y gall fod yn gatalydd defnyddiol i fusnesau ymwelwyr uno y tu ôl iddo. Wrth gwrs, yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw tanio dychymyg ein hymwelwyr hefyd. Ond rwy'n meddwl, pan fyddwch yn edrych ar ddewis themâu, bod yn rhaid ichi fod yn ofalus iawn i gadw'r themâu hynny'n ddigon eang i alluogi'r ystod ehangaf posibl o fusnesau i gymryd rhan. Hoffem fod yn llawn cymaint o hwb i lety gwely a brecwast yn Aberhonddu ag i gaffi traeth yn y Barri neu, yn wir, i Bounce Below ym Mlaenau Ffestiniog. Rwy'n meddwl bod 'antur' a 'chwedl' ill dau'n gwneud hynny. Bydd Blwyddyn y Môr, rwy'n meddwl, ychydig yn anoddach, oherwydd dydyn ni ddim eisiau i fusnesau mewndirol feddwl nad yw iddynt hwy, nad yw ar eu cyfer hwy, a'u bod rywsut wedi'u heithrio rhag hynny. Felly, tybed a allwch rannu gyda ni sut yr ydych chi'n meddwl y gallwch wneud yn siŵr bod busnesau ledled Cymru yn gallu ymgysylltu'n llwyddiannus â hyn bob blwyddyn, ac, wrth inni symud ymlaen, ein bod yn dewis themâu â'r sylfaen ehangaf bosibl?

In terms of the regional engagement fund, I wonder if you can confirm what the geographical spread of the 24 successful applications is, roughly. Also, what is the nature of the businesses that have been successful? Now, I understand that, clearly, if they are being targeted towards the adventure theme, then it's likely that they will be visitor attractions, museums and those kinds of organisations. I think we've got some world-beating visitor attractions, actually, in Wales.

O ran y gronfa ymgysylltu rhanbarthol, tybed a allwch gadarnhau beth yw dosbarthiad daearyddol y 24 o geisiadau llwyddiannus, yn fras? Hefyd, beth yw natur y busnesau sydd wedi bod yn llwyddiannus? Nawr, rwy'n deall, yn amlwg, os ydynt yn cael eu targedu at y thema antur, ei bod yn debyg mai atyniadau i ymwelwyr, amgueddfeydd a'r mathau hynny o sefydliadau ydynt. Rwy'n meddwl bod gennym rai o'r atyniadau ymwelwyr gorau yn y byd yng Nghymru, a dweud y gwir.

We have fantastic facilities for visitors when they get here, but we just need to make sure that we've got an adequate supply and an adequate quality of places to stay as well. I'm wondering if you can tell me how well Wales's accommodation maps onto the markets that we're targeting in terms of bringing visitors in, because clearly we are aiming for very different markets to the ones that we have previously aimed for in terms of tourism. We know that adventure travellers prefer a particular kind of accommodation. Are we able to provide the right accommodation for them? Are we able to provide the right accommodation or the right number, for example, of hotel beds across Wales, not just in cities like Cardiff? Are you undertaking that kind of mapping exercise to make sure that we're keeping in step with what we need to do, to increase the percentage of people spending more when they do visit us, over the ones who pop in and then pop out without really making a positive impact on our economy?

Mae gennym gyfleusterau gwych i ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd yma, ond mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod gennym ddigon o leoedd i aros o ansawdd digonol hefyd. Tybed a allwch ddweud wrthyf pa mor dda y mae llety Cymru'n mapio ar y marchnadoedd yr ydym yn eu targedu o ran dod ag ymwelwyr i mewn, oherwydd yn amlwg rydym yn anelu at farchnadoedd gwahanol iawn i'r rhai yr ydym wedi anelu atynt o'r blaen o ran twristiaeth. Rydym yn gwybod ei bod yn well gan deithwyr antur fath penodol o lety. A ydym yn gallu darparu llety addas ar eu cyfer? A ydym yn gallu darparu'r llety cywir neu'r nifer cywir, er enghraifft, o welyau mewn gwestai ledled Cymru, nid dim ond mewn dinasoedd fel Caerdydd? A ydych yn ymgymryd â'r math hwnnw o ymarfer mapio i wneud yn siŵr ein bod yn cadw llygad ar yr hyn y mae angen inni ei wneud, er mwyn cynyddu canran y bobl sy'n gwario mwy pan fyddant yn ymweld â ni, dros y rhai sy'n galw i mewn ac yna'n gadael heb gael llawer o effaith gadarnhaol ar ein heconomi?

Finally, you won't be surprised to know that I'm very, very excited by the activities planned for the Dahl centenary year, and I'm sure that other visitor attractions will be pitching in with great enthusiasm with their own events, which will just add value to the plans that the Welsh Government is already putting together. I'm pleased to see organisations like the national museum really involved in that, too.

Yn olaf, ni fyddwch yn synnu o wybod fy mod yn gyffro i gyd am y gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer canmlwyddiant Dahl, ac rwy'n siŵr y bydd atyniadau eraill i ymwelwyr yn cyfrannu'n frwdfrydig iawn â'u digwyddiadau eu hunain, a fydd yn ychwanegu gwerth at y cynlluniau y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn eu llunio. Rwy'n falch o weld sefydliadau fel yr amgueddfa genedlaethol hefyd yn cyfrannu'n frwd at hynny hefyd.

One of the things I would suggest, though, is that we need to be supporting exhibitions with more interactive activities if we want to be engaging with children and families. I'm wondering if you can give us an idea of what kind of activities you're hoping we'll be able to support to add value to those exhibitions. I think, in the long term, wouldn't it be wonderful for Cardiff, wouldn't it be wonderful for Wales as well, if we can use this centenary of Dahl's birth to launch a lasting legacy? Perhaps in Llandaff, perhaps here in Cardiff bay around the Norwegian church, but a lasting exhibition, a lasting visitor centre, celebrating Dahl's legacy for Wales. You want the world to know about what he's done for us. Well, there's an opportunity here, not just in terms of tourism, not just really in terms of bringing visitors to our capital city, but isn't it a fantastic opportunity, too, to inspire our children, to show them the love of reading and writing, the love of storytelling, the love of the imagination that can help them succeed at school as well? Isn't now the time to be doing that?

Un o'r pethau y byddwn yn eu hawgrymu, fodd bynnag, yw bod angen inni gefnogi arddangosfeydd â gweithgareddau mwy rhyngweithiol os ydym am ymgysylltu â phlant a theuluoedd. Tybed a allwch chi roi syniad inni o ba fath o weithgareddau yr ydych yn gobeithio y gallwn eu cefnogi i ychwanegu gwerth at yr arddangosfeydd hynny. Rwy'n meddwl, yn y tymor hir, oni fyddai'n wych i Gaerdydd, oni fyddai'n wych i Gymru hefyd, pe gallem ddefnyddio canmlwyddiant geni Dahl i lansio etifeddiaeth barhaus? Efallai yn Llandaf, efallai yma ym mae Caerdydd o amgylch yr eglwys Norwyaidd, ond arddangosfa barhaol, canolfan ymwelwyr barhaol, i ddathlu etifeddiaeth Dahl ar gyfer Cymru. Rydych am i'r byd wybod am yr hyn y mae wedi'i wneud inni. Wel, dyma gyfle, nid dim ond o ran twristiaeth, nid dim ond o ran dod ag ymwelwyr i'n prifddinas, ond onid yw'n gyfle gwych, hefyd, i ysbrydoli ein plant, i ddangos iddynt y cariad at ddarllen ac ysgrifennu, y cariad at adrodd straeon, y cariad at ddychymyg a all eu helpu i lwyddo yn yr ysgol hefyd? Onid nawr yw'r amser i fod yn gwneud hynny?

16:18

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Member for her fantastic comments and warm endorsement of the themed year? I'm very grateful for the welcome that Eluned Parrott has given the Year of Adventure. In terms of the choice of themes, of course there has to be that careful balance between selecting themes that are so broad and so vague that they're bland, and themes that are too focused. The Year of Adventure and the Year of Legends are sufficiently broad to capture the whole of Wales, but I do recognise that, with the Year of the Sea, there may be an element of exclusion by virtue of many tourist operators being inland. Therefore, as we move beyond 2018, potentially to 2019 and 2020, I'd seek to address that.

A gaf ddiolch i'r Aelod am ei sylwadau gwych a'i chymeradwyaeth gynnes i'r flwyddyn â thema? Rwy'n ddiolchgar iawn am y croeso y mae Eluned Parrott wedi'i roi i'r Flwyddyn Antur. O ran y dewis themâu, wrth gwrs mae'n rhaid taro cydbwysedd yn ofalus rhwng dewis themâu sydd mor eang ac mor amwys nes eu bod yn ddi-flas, a themâu â ffocws rhy gul. Mae Blwyddyn Antur a Blwyddyn Chwedlau'n ddigon eang i gynnwys Cymru gyfan, ond rwy'n cydnabod, gyda Blwyddyn y Môr, efallai y bydd llawer o weithredwyr twristiaeth yn teimlo elfen o gael eu heithrio yn rhinwedd y ffaith eu bod wedi'u lleoli'n fewndirol. Felly, wrth inni symud y tu hwnt i 2018, o bosibl i 2019 a 2020, byddwn yn ceisio unioni hynny.

The selection of the Year of the Sea was made in part to celebrate the phenomenal coast that we have, and the incredible value that the coast has to our economy. It was also reached to promote and to utilise the first ever occasion that the Volvo Ocean Race has come to the UK, and, of course, it will be coming to Wales.

Cafodd Blwyddyn y Môr ei dewis yn rhannol i ddathlu’r arfordir anhygoel sydd gennym, a gwerth anhygoel yr arfordir hwnnw i’n heconomi. Cafodd hefyd ei dewis i hyrwyddo a manteisio ar y tro cyntaf erioed i Ras Fôr Volvo ddod i'r DU, ac, wrth gwrs, bydd yn dod i Gymru.

In terms of the regional engagement fund, I can confirm that there were six awards to north Wales, three to the south-west, six to mid Wales and nine to the south-east of Wales. Of course, we’ve been using the tourism infrastructure support grant in order to make sure that there is sufficient and appropriate accommodation across Wales. We’ve been using the support scheme not just to enhance the ratings of the hotels—not just to carry out improvements so they go from two to three stars, three to four stars, or four to five—but also to make sure that we have in appropriate places really good-quality campsites, glamping sites and pods. I’ve met with Members to discuss already some fantastic, innovative projects that the private sector is looking at developing at the moment, and I’m very keen to ensure that we use TIS, the tourism infrastructure support grant, to enable the private sector to deliver those reputation-changing opportunities.

O ran y gronfa ymgysylltu rhanbarthol, gallaf gadarnhau y bu chwe dyfarniad i’r gogledd, tri i'r de-orllewin, chwech i’r canolbarth a naw i'r de-ddwyrain. Wrth gwrs, rydym wedi bod yn defnyddio'r grant cynnal seilwaith twristiaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod llety digonol a phriodol ar gael ledled Cymru. Rydym wedi bod yn defnyddio'r cynllun cefnogi, nid yn unig i wella graddau'r gwestai—nid yn unig i wneud gwelliannau fel eu bod yn mynd o ddwy i dair seren, tair i bedair seren, neu bedair i bump—ond hefyd i sicrhau bod gennym wersylloedd, meysydd glampio a phodiau o ansawdd da iawn mewn mannau priodol. Rwyf wedi cwrdd ag Aelodau eisoes i drafod rhai prosiectau gwych, arloesol y mae’r sector preifat yn edrych ar eu datblygu ar hyn o bryd, ac rwy'n awyddus iawn i sicrhau ein bod yn defnyddio'r TIS, y grant cynnal seilwaith twristiaeth, i alluogi'r sector preifat i ddarparu’r cyfleoedd hynny a all hybu enw da.

Can I, in particular, thank the Member for her fine endorsement of Roald Dahl as one of the greatest writers who has ever lived? His work has been translated into 58 languages. He has an incredible reach and inspires not just children but adults alike. I am really keen—in fact, I’ve said this to a number of the stakeholders who are going to be delivering the programmes over the course of 2016—that participation, active participation, must be at the core of what they deliver. So, it can’t just be about storytelling, it must also be about story writing, as well—inspired by Dahl and inspired by adventure. A series of programmes and a series of outreach opportunities are being planned, which will ensure that active participation is right at the core of what they do.

A gaf, yn benodol, ddiolch i'r Aelod am ei chymeradwyaeth wych o Roald Dahl fel un o'r awduron mwyaf sydd wedi byw erioed? Mae ei waith wedi ei gyfieithu i 58 o ieithoedd. Mae ganddo gyrhaeddiad anhygoel ac mae’n ysbrydoli oedolion yn ogystal â phlant. Rwy’n awyddus iawn—yn wir, rwyf wedi dweud hyn wrth nifer o’r rhanddeiliaid a fydd yn cyflwyno'r rhaglenni yn ystod 2016—bod yn rhaid i gyfranogiad, cyfranogiad gweithredol, fod wrth wraidd yr hyn y maent yn ei ddarparu. Felly, ni all fod yn fater o adrodd straeon yn unig, rhaid iddo fod yn fater o ysgrifennu stori, hefyd—wedi’i ysbrydoli gan Dahl ac wedi’i ysbrydoli gan antur. Mae cyfres o raglenni a chyfres o gyfleoedd allgymorth yn cael eu cynllunio, a bydd hynny’n sicrhau bod cyfranogiad gweithredol wrth graidd yr hyn y maent yn ei wneud.

16:22

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I did see you on your zip wire recently, Deputy Minister—the most impressive performance, I think, since Boris Johnson famously got stuck on one. That fate didn’t seem to befall you, anyway.

Fe’ch gwelais ar eich gwifren zip yn ddiweddar, Ddirprwy Weinidog—y perfformiad mwyaf trawiadol, rwy’n meddwl, ers y tro enwog hwnnw pan aeth Boris Johnson yn sownd ar un. Nid oedd yn ymddangos bod y dynged honno wedi dod i’ch rhan chi, beth bynnag.

Can I welcome your statement and just focus on one area—well, that one area, actually, that you didn't mention, which was cycling events such as Velothon Wales? You know, as we're all very well aware, there were real problems with the organisation of the recent velothon in south-east Wales, an event that should've been very exciting and fruitful to the local area but, in the end, tended to be marred by some of the concerns that local people had. There is the prospect of that event returning to south-east Wales next year—very concerning to some of my constituents. In light of the lack of meaningful communication with constituents and businesses about that event, how are the Welsh Government going to ensure that next year and in future years, if this event happens again, it will not be marred by the same sort of problems that afflicted it this year? It's very, very sad, I think, Minister—I'm sure you would agree—that, if Wales does attract big mainstream events, like cycling events like this, they should be spoilt by poor communication in the first instance. This sort of event happens elsewhere in the UK without these sorts of problems. Communication happens in other areas of the UK without these sorts of problems. Rolling road blocks happen without these sorts of problems. They don't have to happen here.

A gaf i groesawu eich datganiad a chanolbwyntio ar un maes—wel, yr un maes, mewn gwirionedd, na wnaethoch sôn amdano, sef digwyddiadau beicio fel Velothon Cymru? Rydych yn gwybod, fel yr ydym i gyd yn ymwybodol iawn, y bu problemau go iawn gyda threfniadaeth y Velothon diweddar yn y de-ddwyrain, digwyddiad a ddylai fod wedi bod yn gyffrous ac yn fuddiol iawn i'r ardal leol, ond, yn y diwedd, roedd yn tueddu i gael ei ddifetha gan rai o bryderon pobl leol. Mae'n bosibl y bydd y digwyddiad hwnnw'n dychwelyd i'r de-ddwyrain y flwyddyn nesaf—sy'n destun pryder mawr i rai o fy etholwyr. Yn wyneb y diffyg cyfathrebu ystyrlon ag etholwyr a busnesau am y digwyddiad hwnnw, sut y mae Llywodraeth Cymru'n mynd i sicrhau y flwyddyn nesaf ac yn y blynyddoedd i ddod, os bydd y digwyddiad hwn yn digwydd eto, na chaiff ei ddifetha gan yr un math o broblemau a effeithiodd arno eleni? Mae'n drist iawn, iawn, rwy'n meddwl, Weinidog—rwy'n siŵr y byddech yn cytuno—os yw Cymru'n denu digwyddiadau mawr prif ffrwd, fel y digwyddiadau beicio fel hyn, eu bod yn cael eu difetha gan gyfathrebu gwael yn y lle cyntaf. Mae'r math hwn o ddigwyddiad yn cael ei gynnal mewn mannau eraill yn y DU heb y problemau hyn. Mae cyfathrebu'n digwydd mewn ardaloedd eraill yn y DU heb y problemau hyn. Mae blociau ffordd symudol yn digwydd heb y problemau hyn. Nid oes yn rhaid iddynt ddigwydd yma.

16:23

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, can I thank the Member for his contribution and say that the reason that Zip World doesn't break down, of course, is because it's Welsh and it's being supported by the Welsh Labour Government?

Ie, a gaf i ddiolch i'r Aelod am ei gyfraniad a dweud mai'r rheswm nad yw Zip World yn torri i lawr, wrth gwrs, yw am ei fod yng Nghymru ac yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Lafur Cymru?

I do think there is a danger, particularly in the rhetoric coming from your colleague, the Member of Parliament for Monmouth, that the Welsh Conservatives are anti-cyclist, and I think there is a careful balance to be struck between, effectively, saying, 'We don't want this event anywhere near us', and saying, actually, in the teething problems that emerged with the velothon, we can address the problems that were encountered and, in future years, this can have a major role in improving the local economies through which the velothon runs.

Rwyf yn meddwl bod perygl, yn enwedig yn y rhethreg sy'n dod gan eich cydweithiwr, Aelod Seneddol Mynwy, bod Ceidwadwyr Cymru'n wrth-feicwyr, ac rwy'n meddwl bod angen taro cydbwysedd gofalus rhwng, i bob diben, dweud, 'Nid ydym am weld y digwyddiad hwn unman yn agos atom ni', a dweud, mewn gwirionedd, o ran y problemau cychwynnol a ddaeth i'r amlwg gyda'r velothon, y gallwn ddatrys y problemau a wynebwyd ac, yn y dyfodol, gall hyn chwarae rhan bwysig wrth wella'r economïau lleol lle mae'r mae'r velothon yn cael ei gynnal.

The Member says that problems don't happen elsewhere. Well, actually, they do. If you look at other cycling closed-road races, for example, tacks are often thrown on the roads. They are still thrown on the roads in the Tour de France. The difference is that, over time, what happens is communities embrace these, not just as great sporting events, but also as opportunities to come together—to come together around something special, unique and one-off, and something that has a benefit of delivering improved economic prosperity.

Mae'r Aelod yn dweud nad oes problemau mewn mannau eraill. Wel oes, mewn gwirionedd. Os ydych yn edrych ar rasys beicio eraill sy'n cau ffyrdd, er enghraifft, mae taciau'n aml yn cael eu taflu ar y ffyrdd. Maent yn dal i gael eu taflu ar y ffyrdd yn y Tour de France. Y gwahaniaeth yw, dros amser, mai'r hyn sy'n digwydd yw bod cymunedau'n cofleidio'r digwyddiadau hyn, nid dim ond fel digwyddiadau chwaraeon mawr, ond hefyd fel cyfleoedd i ddod at ei gilydd—i ddod at ei gilydd yn gefn i rywbeth arbennig, unigryw ac un-tro, a rhywbeth sydd â'r fantais o gyflawni gwell ffyniant economaidd.

16:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr, Weinidog.

Thank you very much, Minister.

16:25

## 6. Datganiad: Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin

## 6. Statement: The Common Agricultural Policy Basic Payment Scheme

Y

Senedd.tv
Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Eitem 6 yw'r datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar gynllun taliad sylfaenol y polisi amaethyddol cyffredin. Galwaf Rebecca Evans.

Item 6 is the statement by the Deputy Minister for Farming and Food on the basic payment scheme for the common agricultural policy. I call Rebecca Evans.

16:25

### Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. As Members will recall, Welsh Government's plans for a new CAP direct system based on classification of land into regions were challenged in the courts last year. Notwithstanding our original policy intentions, which were widely supported, the legal challenge demonstrated that we could not introduce those arrangements without risking inequitable treatment of farmers with similar types of land parcels spread across different payment regions. The result was that the associated regulations were quashed.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fel y bydd yr Aelodau'n cofio, cafodd cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer system uniongyrchol PAC newydd wedi'u seilio ar ddosbarthu tir i ranbarthau eu herio yn y llysoedd y llynedd. Er gwaethaf ein bwriad gwreiddiol ar gyfer y polisi, a gafodd gefnogaeth eang, roedd yr her gyfreithiol yn dangos na allem gyflwyno'r trefniadau hynny heb y risg o drin yn annheg ffermwyr a oedd â mathau tebyg o barseli tir wedi eu lledaenu ym mhob rhan o wahanol ranbarthau talu. Y canlyniad oedd i'r rheoliadau cysylltiedig gael eu diddymu.

Our consultation on revised payment models for the basic payment scheme, setting out the options available to us in the governing EU regulations, closed on 23 June. I'm pleased to report that we received 233 responses from a range of stakeholders, including many individual farm businesses. Stakeholder organisations helped extend the reach of the consultation, and I'm grateful for the work that many of them undertook in canvassing their members for views. The valuable feedback provided through the consultation has assisted me in reaching my decision on the future CAP direct payment regime that will operate in Wales.

Daeth ein hymgynghoriad ar fodelau talu diwygiedig ar gyfer y cynllun taliad sylfaenol, yn nodi'r dewisiadau sydd ar gael i ni yn y rheoliadau UE llywodraethol, i ben ar 23 Mehefin. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi derbyn 233 o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys llawer o fusnesau fferm unigol. Bu sefydliadau sy'n rhanddeiliaid o gymorth o ran ymestyn cyrhaeddiad yr ymgynghoriad, ac rwy'n ddiolchgar am y gwaith y gwnaeth llawer ohonynt wrth ganfasio eu haelodau am eu barn. Mae'r adborth gwerthfawr a ddarparwyd drwy'r ymgynghoriad wedi fy helpu i wneud fy mhenderfyniad ar y gyfundrefn taliadau uniongyrchol PAC a fydd yn gweithredu yng Nghymru yn y dyfodol.

I should emphasise that we are now in the new CAP reform programme period, and that 'no change' is not an option. All member states are required to move towards area-based farm payments, and to begin implementation of those new arrangements this year. Failure to do this in Wales would result in our farmers losing their BPS payments and in significant EU fines, which the country can ill afford. Moreover, any decision can only be taken in the best interests of Welsh agriculture as a whole. Within a fixed CAP budget, any move from historic entitlements to payments based on land area will inevitably result in changes to payments at farm level. There is no option that will suit every business's individual circumstances.

Dylwn bwysleisio ein bod yn awr yng nghyfnod y rhaglen ddiwygio PAC newydd, ac nid yw 'dim newid' yn ddewis. Mae'n ofynnol i bob aelod-wladwriaeth symud tuag at daliadau i ffermydd yn seiliedig ar arwynebedd, ac i ddechrau gweithredu'r trefniadau newydd hynny eleni. Byddai methu â gwneud hyn yng Nghymru yn arwain at ein ffermwyr yn colli eu taliadau drwy'r Cynllun Taliad Sylfaenol a dirwyon sylweddol gan yr UE, na all y wlad eu fforddio. Yn ogystal â hynny, ni ellir ond gwneud unrhyw benderfyniad er lles gorau amaethyddiaeth yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. O fewn cyllideb PAC sefydlog, bydd unrhyw newid o hawliau hanesyddol i daliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd y tir yn anochel yn arwain at newidiadau i daliadau ar lefel y fferm. Nid oes unrhyw ddewis a fydd yn addas ar gyfer amgylchiadau unigol pob busnes.

In reaching my decision, I've had to balance the weight of stakeholder feedback with the Welsh Government's policy goals as set out in the consultation. Within those goals, which were generally supported by the consultation responses, my stated top priorities were to ensure Wales meets the requirements of the EU regulations and to be able to make payments as soon as possible in the 2015 payment window. Those remain my key objectives.

Wrth wneud fy mhenderfyniad, rwyf wedi gorfod cydbwyso pwysau adborth gan randdeiliaid ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad. O fewn yr amcanion hynny, a gafodd gefnogaeth gyffredinol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, fy mlaenoriaethau datganedig oedd sicrhau bod Cymru yn bodloni gofynion rheoliadau'r UE ac yn gallu gwneud taliadau cyn gynted ag y bo modd yng nghyfnod taliad 2015. Dyma fy amcanion allweddol o hyd.

As expected, the consultation responses reflected a wide range of opinions about the way forward. In summary, 19 per cent of respondents advocated option A, regional payment rates, notwithstanding the operational problems and potential costs associated with implementing such a model in the time available. My assessment is that the risks associated with pursuing this approach for Wales in this reform period are too high. Eleven per cent of respondents gave option B, a flat area rate from 2015, as their favoured option. Whilst simple to implement, I have concluded that this payment model would entail too abrupt a change for many farm businesses, with insufficient opportunity to make the necessary adjustments. Option C, a flat area rate by 2019, gained the most support at 32 per cent of responses, whilst option D, tunnelling to attenuate gains and losses, attracted 29 per cent. Both can be implemented in the time available to us, and both help moderate the rate of change to farm businesses.

Fel y disgwylid, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau am y ffordd ymlaen. I grynhoi, roedd 19 y cant o'r ymatebwyr yn argymell dewis A, cyfraddau talu rhanbarthol, er gwaethaf y problemau gweithredol a chostau posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu model o'r fath yn yr amser sydd ar gael. Fy asesiad i yw bod y risgiau sy'n gysylltiedig â mynd ar drywydd y dull hwn ar gyfer Cymru yn y cyfnod diwygio hwn yn rhy uchel. Nododd un ar ddeg y cant o’r ymatebwyr mai dewis B, cyfradd unffurf ar gyfer ardal o 2015 ymlaen, oedd y dewis yr oeddynt yn ei ffafrio. Er ei fod yn syml i'w weithredu, rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai’r model taliad hwn yn newid rhy sydyn i lawer o fusnesau fferm, heb ddigon o gyfle i wneud yr addasiadau angenrheidiol. Dewis C, cyfradd unffurf ar gyfer ardal erbyn 2019, a gafodd y gefnogaeth fwyaf sef 32 y cant o’r ymatebion, tra bod dewis D, twnelu i wanhau enillion a cholledion, wedi denu 29 y cant. Gall y ddau gael eu gweithredu yn yr amser sydd ar gael i ni, ac mae'r ddau yn helpu i gymedroli cyfradd y newid i fusnesau fferm.

On balance, I’ve concluded that option D, tunnelling, is less desirable. This approach would perpetuate any perceived inequalities in existing entitlements, and would not achieve a move to common payment rates by 2019. Many who favoured tunnelling were arguing for a wholly open-ended approach to CAP reform, and this would not address the necessary process of change. Option C, a flat rate by 2019, is my favoured option for the following reasons: it treats all farmers equally in moving payments to the same value per hectare by 2019 in five annual steps; it meets most of our policy goals, including providing opportunities for new entrants; and it gives a clear basis on which our farmers can plan for the future.

Ar y cyfan, rwyf wedi dod i'r casgliad bod dewis D, twnelu, yn llai dymunol. Byddai'r dull hwn yn parhau ag unrhyw anghydraddoldebau canfyddedig mewn hawliau sy'n bodoli eisoes, ac ni fyddai'n cyflawni newid i gyfraddau taliadau cyffredin erbyn 2019. Roedd llawer o’r rhai a oedd o blaid twnelu yn dadlau dros ymagwedd gwbl benagored i ddiwygio'r PAC, ac ni fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r broses angenrheidiol o newid. Dewis C, cyfradd unffurf erbyn 2019, yw fy hoff ddewis i am y rhesymau canlynol: mae'n trin pob ffermwr yn gyfartal wrth symud taliadau i'r un gwerth fesul hectar erbyn 2019 mewn pum cam blynyddol; mae’n bodloni’r rhan fwyaf o'n hamcanion polisi, gan gynnwys darparu cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid; ac mae'n rhoi sail glir i’n ffermwyr allu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

We also consulted on three add-on options. Options F and G, adjusting entitlement allocations, were not highly regarded in the consultation, with only six and 12 responses in support respectively. I will not be applying these, as they do not support my policy goals. There were many more responses in relation to option E, the possibility of redistributive payments that provide for a separate, higher-value payment for the first 54 hectares of each farm business. Forty-one per cent of consultation respondents, including a number of the farming organisations, were in favour, 21 per cent were opposed, and 38 per cent did not answer the question. Taking these into consideration and assessing them against our policy goals, I have decided that we will apply the redistributive payments option alongside option C. This will provide for a softer transition for many. Our modelling shows that, when used alongside option C, redistribution will reduce the number of losers overall, and the number of significant losers, by nearly 1,000 claimants.

Ymgynghorwyd hefyd ar dri dewis ychwanegol.  Nid oedd dewisiadau F a G, addasu dyraniadau hawl, yn uchel eu parch yn yr ymgynghoriad, gyda dim ond chwech ymateb yn cefnogi dewis F a 12 ymateb yn cefnogi dewis G. Ni fyddaf yn defnyddio’r rhain, gan nad ydynt yn cefnogi fy amcanion polisi. Roedd llawer mwy o ymatebion ar gyfer dewis E, y posibilrwydd o gael taliadau ailddosbarthu sy'n darparu ar gyfer taliad ar wahân, gwerth uwch ar gyfer y 54 hectar cyntaf o bob busnes fferm. Roedd pedwar deg un y cant o ymatebwyr yr ymgynghoriad, gan gynnwys nifer o'r sefydliadau ffermio, o blaid, 21 y cant yn gwrthwynebu, ac ni wnaeth 38 y cant ateb y cwestiwn. Gan ystyried hyn a'i asesu yn erbyn ein hamcanion polisi, rwyf wedi penderfynu y byddwn yn defnyddio’r dewis taliadau ailddosbarthu ochr yn ochr â dewis C. Bydd hyn yn darparu ar gyfer cyfnod pontio haws i lawer. Mae ein gwaith modelu yn dangos, pan gaiff ei ddefnyddio ochr yn ochr â dewis C, bydd ailddosbarthu yn lleihau nifer y rhai sy'n colli yn gyffredinol, a nifer y rhai sy’n colli’n sylweddol, gan bron i 1,000 o hawlwyr.

The consultation exercise elicited a number of other important points and questions. Chief among these was a desire on the part of some respondents to see a comprehensive exercise undertaken to remap Wales to a sufficient standard to allow the introduction in future of a revised regionalised payment based on the agricultural potential of land. Others suggested that self-certification or satellite-based mapping should be considered to allow such an approach to be implemented now.

Cododd yr ymarfer ymgynghori nifer o bwyntiau a chwestiynau pwysig eraill. Y prif un o’r rhain oedd awydd ar ran rhai o'r ymatebwyr i weld ymarfer cynhwysfawr i ailfapio Cymru i safon ddigonol i ganiatáu cyflwyno taliad rhanbarthol diwygiedig yn y dyfodol yn seiliedig ar botensial amaethyddol tir. Awgrymodd eraill y dylai hunan-ardystio neu fapio yn seiliedig ar loeren gael eu hystyried er mwyn caniatáu i ddull o'r fath gael ei roi ar waith yn awr.

I have considered these matters in detail. Arrangements based on any form of mapping other than a comprehensive land survey carried out for the Government and undertaken on foot are very unlikely to provide the level of detail required to avoid discrimination between the treatment of land parcels in different payment regions or to satisfy the audit requirements of the European Commission. As such, they would pose a significant risk to the implementation of the BPS. We do not believe they could be successfully introduced in this CAP reform period.

Rwyf wedi ystyried y materion hyn yn fanwl. Mae trefniadau sy’ n seiliedig ar unrhyw fath o fapio ac eithrio arolwg tir cynhwysfawr a gynhelir ar ran y Llywodraeth ac a wneir ar droed yn annhebygol iawn o ddarparu lefel y manylder sy'n ofynnol i osgoi gwahaniaethu rhwng y driniaeth o barseli tir mewn rhanbarthau talu gwahanol neu i fodloni gofynion archwilio’r Comisiwn Ewropeaidd. Fel y cyfryw, byddent yn peri risg sylweddol i weithrediad y cynllun taliad sylfaenol. Nid ydym yn credu y gellid eu cyflwyno'n llwyddiannus yn y cyfnod hwn o ddiwygio'r PAC.

Welsh Government will consider the merits of undertaking such a detailed mapping exercise for the longer term, but, as I set out in my recent letter to Assembly Members, this would both be costly and time-consuming. We could also only be clear about the value of such work when we had a better idea of the European Commission’s intentions for the next round of CAP reform. All this, of course, assumes that the UK remains a member of the European Union, a matter that should be of considerable concern to all of us in Wales.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried rhinweddau ymgymryd ag ymarfer mapio manwl o'r fath ar gyfer y tymor hwy, ond, fel y nodais yn fy llythyr diweddar at Aelodau'r Cynulliad, byddai hyn yn gostus ac yn cymryd llawer o amser. Ni allem ychwaith ond bod yn glir ynghylch gwerth gwaith o'r fath pan fyddai gennym syniad gwell o fwriadau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y rownd nesaf o ddiwygio'r PAC. Mae hyn i gyd, wrth gwrs, yn cymryd yn ganiataol bod y DU yn parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, mater a ddylai fod o bryder sylweddol i bob un ohonom ni yng Nghymru.

Within the options available to us, implementing a flat payment rate by 2019, coupled with redistributive payments covering the first 54 hectares of each claim, offers the best balance of meeting our policy and operational requirements on the one hand, and addressing the feedback from the stakeholder consultation on the other. Welsh Government will now seek the necessary approval from the European Commission, and move swiftly to implement this model so that part payments can be made as early as possible within the EU payments window. Assuming the Commission are content, later next month we will also make an online ready-reckoner available. This will offer an indication of payment rates under the new system at farm level, and should help businesses with their forward planning. I commend this approach to the Assembly.

Ymhlith y dewisiadau sydd ar gael i ni, gweithredu cyfradd dalu unffurf erbyn 2019, ynghyd â thaliadau ailddosbarthu sy’n cynnwys y 54 hectar cyntaf o bob hawliad, sy’n cynnig y cydbwysedd gorau o fodloni ein polisi a gofynion gweithredol ar y naill law, a mynd i'r afael â'r adborth o’r ymgynghoriad â rhanddeiliaid ar y llaw arall. Bydd Llywodraeth Cymru yn awr yn ceisio cael y gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Comisiwn Ewropeaidd, a symud yn gyflym i weithredu'r model hwn fel y gall taliadau rhannol gael eu gwneud cyn gynted ag y bo modd o fewn cyfnod taliadau yr UE. Gan gymryd yn ganiataol y bydd y Comisiwn yn fodlon, yn ddiweddarach y mis nesaf byddwn hefyd yn sicrhau bod canllaw cyflym ar-lein ar gael. Bydd hwn yn cynnig syniad o'r cyfraddau talu o dan y system newydd ar lefel y fferm, a dylai helpu busnesau gyda'u blaengynllunio. Cymeradwyaf y dull hwn i'r Cynulliad.

16:33

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Deputy Minister for her statement today, and to a point which, I think, it ends the ongoing uncertainty that farmers have faced in recent months? The move to the new payments system will lead to significant change for the farming industry in Wales. I’m sure you would agree with me, Deputy Minister, that, given the current uncertainty in the agricultural markets, the basic payment scheme can undoubtedly be a vehicle to provide the necessary support to the industry. I do have to say that the uncertainty can wholly be attributed to the Welsh Government’s previous mismanagement of the process, which has made it impossible for farmers to plan financially. Farmers have already faced a modulation rate of 15 per cent, which is the highest across the European Union, not to mention the 17 per cent cut to the rural affairs budget.

A gaf i ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad heddiw, ac i bwynt sydd, mi gredaf, yn rhoi diwedd ar yr ansicrwydd parhaus y mae ffermwyr wedi ei wynebu yn y misoedd diwethaf? Bydd symud i'r system daliadau newydd yn arwain at newid sylweddol i'r diwydiant ffermio yng Nghymru. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi, Ddirprwy Weinidog, o ystyried yr ansicrwydd presennol yn y marchnadoedd amaethyddol, y gall y cynllun taliad sylfaenol yn ddiau fod yn gyfrwng i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i'r diwydiant. Mae'n rhaid i mi ddweud y gall yr ansicrwydd gael ei briodoli’n llwyr i’r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi camreoli’r broses yn flaenorol, sydd wedi ei gwneud hi’n amhosibl i ffermwyr gynllunio’n ariannol. Mae ffermwyr eisoes wedi wynebu cyfradd modiwleiddio o 15 y cant, sef yr uchaf ledled yr Undeb Ewropeaidd, heb sôn am y toriad o 17 y cant i'r gyllideb materion gwledig.

But you've made your decision on the way forward and you have opted for the flat-rate payments by 2019, combined with redistribution payments, and I have to say I am pleased that you have adopted a redistributive budget at the maximum 13 per cent in order to minimise the overall disruption to the new system on the industry.

Ond rydych wedi gwneud eich penderfyniad ar y ffordd ymlaen ac rydych wedi dewis y taliadau cyfradd safonol erbyn 2019, wedi eu cyfuno â thaliadau ailddosbarthu, ac mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn falch eich bod wedi mabwysiadu cyllideb ailddosbarthu'r ar yr uchafswm o 13 y cant er mwyn lleihau tarfu cyffredinol y system newydd ar y diwydiant.

It's also vital, of course, that as much of the basic payment as possible is paid to farmers as early as possible in the payment window, and, in relation to part payments, can I ask when does the Welsh Government expect to be in a position to complete the payments to the majority of farmers in Wales?

Mae hefyd yn hanfodol, wrth gwrs, bod cymaint o'r taliad sylfaenol ag y bo modd yn cael ei dalu i ffermwyr cyn gynted ag y bo modd yn y cyfnod talu, ac, ynglŷn â thaliadau rhannol, a gaf i ofyn pryd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod mewn sefyllfa i gwblhau'r taliadau i'r rhan fwyaf o ffermwyr yng Nghymru?

And, second, of the 5,463 farmers who will lose out, the Welsh Government model predicts that 1,323 farmers would lose at least €2,300 under this option. Can I ask what additional support the Government intends to offer any farmers facing significant losses? Can I ask, has the Government done any modelling to determine if there are any specific sectors of the industry that are likely to lose out more than others under this option? Perhaps the Minister would have an opportunity to expand on that point. Can I further ask how can you ensure, Minister, that farmers who have lost out as a result of this decision have every opportunity to recoup some of those losses via the rural development plan? When do you envisage that RDP schemes are likely to be in place so that they can provide, of course, an additional support of income to farmers?

Ac, yn ail, o'r 5,463 o ffermwyr a fydd yn dioddef colled, mae model Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd 1,323 o ffermwyr yn colli o leiaf €2,300 o dan y dewis hwn. A gaf i ofyn pa gymorth ychwanegol y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei gynnig i unrhyw ffermwyr sy'n wynebu colledion sylweddol? A gaf i ofyn, a yw'r Llywodraeth wedi gwneud unrhyw fodelu er mwyn penderfynu a oes unrhyw sectorau penodol o'r diwydiant sydd yn debygol o golli mwy nag eraill o dan y dewis hwn? Efallai bod gan y Gweinidog gyfle i ymhelaethu ar y pwynt hwnnw. A gaf i ofyn hefyd sut y gallwch chi sicrhau, Weinidog, bod ffermwyr sydd wedi cael colledion o ganlyniad i'r penderfyniad hwn yn cael pob cyfle i adennill rhai o'r colledion hynny drwy'r cynllun datblygu gwledig? Pryd ydych chi'n rhagweld y bydd y Cynlluniau Datblygu Gwledig yn debygol o fod wedi eu sefydlu er mwyn iddynt allu darparu, wrth gwrs, incwm ychwanegol i ffermwyr?

Finally, I note your comments on the merits of mapping, but, given the fact that the industry bodies believe that a mapping exercise is essential to ensure fairness under a future CAP payment regime, and for it to be considered at a possible mid-term review of the CAP, can I press you to commit to a detailed mapping exercise? I, along with others, am keen that this takes place and is not kicked into the long grass. So, I would appreciate any comments and views you have on that.

Yn olaf, nodaf eich sylwadau ar rinweddau mapio, ond, o gofio'r ffaith bod cyrff y diwydiant yn credu bod ymarfer mapio yn hanfodol i sicrhau tegwch o dan drefn taliadau PAC yn y dyfodol, ac iddo gael ei ystyried mewn adolygiad canol tymor o'r PAC, a gaf i bwyso arnoch i ymrwymo i gynnal ymarfer mapio manwl? Rwyf fi, ynghyd ag eraill, yn awyddus i hyn ddigwydd ac nad yw'n cael ei roi o'r neilltu. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau a safbwyntiau sydd gennych ar hynny.

16:36

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank you for those questions and for the recognition that today does end the period of uncertainty that there has been for farmers, and the fact that you've welcomed the redistributive payments and the rate at which we have set them as well.

Diolchaf i chi am y cwestiynau yna ac am y gydnabyddiaeth bod heddiw yn ddiwedd ar y cyfnod o ansicrwydd a fu i ffermwyr, a'r ffaith eich bod wedi croesawu'r taliadau ailddosbarthu a'r gyfradd yr ydym wedi eu gosod arni hefyd.

With regard to the timing of payments, the option I've chosen is one of those that is simpler to administer, so that will allow us to pay as early as possible in the payment window. We also need, however, farmers to do their bit as well. We need them to respond very quickly to any queries or requests for further information that they might receive from Rural Payments Wales. So, the more that they can help us in terms of providing that information in a full and timely manner, the better it will be for all of us.

O ran amseriad y taliadau, mae'r dewis yr wyf wedi ei ddewis yn un o'r rhai sy'n symlach i'w weinyddu, felly bydd hynny'n ein galluogi i'w dalu cyn gynted ag y bo modd yn y cyfnod talu. Fodd bynnag, mae arnom angen hefyd i ffermwyr chwarae eu rhan hefyd. Mae angen iddynt ymateb yn gyflym iawn i unrhyw ymholiadau neu geisiadau am fwy o wybodaeth y gallent eu derbyn gan Taliadau Gwledig Cymru. Felly, po fwyaf y gallant ein helpu ni o ran darparu'r wybodaeth honno mewn modd llawn ac amserol, y gorau y bydd pethau i bob un ohonom.

Farmers have said that they want to be informed promptly in terms of all decisions related to CAP, but particularly on payments, which is why they were given 12 months' notice that the payments within this first year will be part payments as soon as possible when the payment window opens, and that opens in December. We'll be aiming to, as I say, make those payments in December. The reason that they will be part payments is because it's the first year of a complex new scheme, so there are a multitude of tests that need to be done. We need to clarify the number of hectares that are eligible and so on. So, there are lots of tests and inspections that need to take place before we get there.

Mae ffermwyr wedi dweud eu bod yn awyddus i gael gwybod yn brydlon am bob penderfyniad sy'n ymwneud â PAC, ond yn enwedig am daliadau, a dyna pam y rhoddwyd rhybudd o 12 mis y bydd y taliadau yn ystod y flwyddyn gyntaf hon yn daliadau rhannol cyn gynted ag y bo modd pan fydd y cyfnod talu yn agor, ac mae hwnnw'n agor ym mis Rhagfyr. Ein nod fydd, fel y dywedais, gwneud y taliadau hynny ym mis Rhagfyr. Y rheswm y byddant yn daliadau rhannol yw y bydd hon yn flwyddyn gyntaf cynllun newydd gymhleth, ac felly mae llu o brofion y bydd angen eu gwneud. Mae angen i ni egluro nifer yr hectarau sy'n gymwys ac yn y blaen. Felly, mae llawer o brofion ac arolygiadau y mae angen eu cynnal cyn i ni gael pethau'n iawn.

You referred to the number of farmers who will lose out as a result of the current model, but there will also be 10,887 of our approximately 17,000 farmers in the BPS who will actually gain as a result of this. When you look across the different sectors, around 45 per cent of dairy farms will remain within €5,000 of their current payment; there's 51 per cent remaining within €5,000 of their current payment on sheep farms; and, on beef farms, around 57 per cent will remain within €5,000 of their current payment. So, I hope that provides you with a kind of picture as to where things are.

Fe wnaethoch gyfeirio at nifer y ffermwyr a fydd yn cael colled o ganlyniad i'r model presennol, ond bydd hefyd 10,887 o'n oddeutu17,000 o ffermwyr yn y cynllun taliad sylfaenol a fydd mewn gwirionedd yn elwa o ganlyniad i hyn. Pan eich bod yn edrych ar bob un o'r gwahanol sectorau, bydd tua 45 y cant o ffermydd llaeth yn parhau i fod o fewn €5,000 i'w taliad presennol; mae 51 y cant yn aros o fewn €5,000 i'w taliad presennol ar ffermydd defaid; ac, ar ffermydd eidion, bydd tua 57 y cant yn aros o fewn €5,000 i'w taliad presennol. Felly, rwyf yn gobeithio bod hyn yn rhoi rhyw fath o ddarlun i chi o ran sut y mae pethau.

With regard to a mid-term review, the European Commission has not yet confirmed whether or not there will be a mid-term review of CAP. If there were, it would be unlikely to be substantial; it's more likely to be tweaking smaller aspects of CAP in response to representations that regions and member states make to them over the course of the next year or so, as we enter this new payment period.

O ran adolygiad canol tymor, nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cadarnhau eto pa un a fydd adolygiad canol tymor o PAC ai peidio. Pe byddai un, byddai'n annhebygol o fod yn sylweddol; mae'n fwy tebygol o addasu ychydig ar agweddau llai ar PAC mewn ymateb i sylwadau y mae rhanbarthau ac aelod-wladwriaethau yn eu nodi wrthynt yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf, wrth i ni ddechrau ar y cyfnod talu newydd hwn.

In terms of additional support—and you did mention the RDP in particular—the RDP has been prepared to be as flexible a programme as it can be, and the schemes that we intend to implement will also be flexible. So, we're at an early stage in understanding the actual impact of the decision, as we need to understand the full amount of land that comes into the programme, and so on. So, it's prudent to wait until we have a better picture of the impacts before making any particular changes. However, I should say that the purpose of the RDP is not to plug gaps within the subsidy regime, and I think that's a well-understood point. The RDP is about putting our rural communities—and that does include farming businesses—on the strongest footing for the future. Within farming, support will be available to help farm businesses become more resilient, profitable, sustainable and professional, in line with the strategic approach to agriculture that we published recently in partnership with the industry bodies. The RDP will obviously be seeking to help those farming businesses that want to help themselves.

O ran cymorth ychwanegol—gwnaethoch sôn am y Cynllun Datblygu Gwledig yn benodol—mae'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi cael ei baratoi i fod yn rhaglen mor hyblyg ag y gall fod, a bydd y cynlluniau yr ydym yn bwriadu eu gweithredu yn hyblyg hefyd. Felly, rydym ar gam cynnar o ran deall effaith wirioneddol y penderfyniad, gan fod angen i ni ddeall maint llawn y tir sy'n dod i mewn i'r rhaglen, ac yn y blaen. Felly, mae'n ddoeth i chi aros tan y bydd gennym well darlun o'r effeithiau cyn gwneud unrhyw newidiadau penodol. Fodd bynnag, dylwn ddweud nad pwrpas y Cynllun Datblygu Gwledig yw llenwi bylchau yn y gyfundrefn cymhorthdal, ac rwy'n credu bod hwnnw'n bwynt a ddeellir yn dda. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn ymwneud â rhoi ein cymunedau cefn gwlad—ac mae hynny'n cynnwys busnesau ffermio—ar y sylfaen gryfaf ar gyfer y dyfodol. O fewn ffermio, bydd cymorth ar gael i helpu busnesau fferm ddod yn fwy cydnerth, proffidiol, cynaliadwy a phroffesiynol, yn unol â'r dull strategol tuag at amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar mewn partneriaeth â chyrff y diwydiant. Bydd y Cynllun Datblygu Gwledig yn amlwg yn ceisio helpu'r busnesau ffermio hynny sydd eisiau helpu eu hunain.

16:40 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad. O'r diwedd, rŷm ni'n cael ychydig o eglurder ynglŷn â lle yn union rydym ni'n mynd, ond rwyf yn ategu'r sylw ei bod hi'n annerbyniol ein bod ni'n ffeindio'n hunain yn y sefyllfa yma, gyda Llywodraeth Cymru wedi gwneud cymaint o smonach wrth gyflwyno'r bwriad gwreiddiol. Yn amlwg, mae'r Llywodraeth wedi ffeindio'i hun mewn sefyllfa anodd, ond rwy'n meddwl ei bod hi'n deg i ni i gyd atgoffa'n hunain nad yw'r sefyllfa yna hanner mor anodd â'r un y mae ffermwyr ar lawr gwlad yn ffeindio eu hunain ynddi y dyddiau yma, yn enwedig o gofio sefyllfa prisiau llaeth a phrisiau ŵyn, ac yn y blaen. Mae'r Ceidwadwyr yn iawn i fod yn feirniadol o drosglwyddo 15 y cant o biler 1 i biler 2, ond byddwn yn eu hatgoffa hefyd mai nhw, wrth gwrs, oedd lladmeryddion mwyaf uchel torri cyllideb CAP ar lefel Ewropeaidd yn y lle cyntaf, felly mae angen i chi edrych ar eich hunain hefyd, yn fy marn i. Mae hynny yn sicr yn cael effaith ar y sefyllfa y mae ffermwyr yn ffeindio eu hunain ynddi.

Thank you, Minister, for your statement. At last, we have some clarity as to where exactly we are going, but I do echo the comment that it is unacceptable that we find ourselves in this situation, with the Welsh Government having made such a mess of introducing the original intention. Obviously, the Government has found itself in a difficult situation, but I think it's fair for us to remind ourselves that that situation isn't half as difficult as the situation facing farmers on the ground these days, particularly given prices in the dairy and lamb sectors, and so on. The Conservatives are right to be critical of the transfer of 15 per cent from pillar 1 to pillar 2, but I would also remind them that they, of course, were the greatest advocates of a cut in the CAP budget at a European level in the first place, so you need to look at yourselves too, in my view. That is certainly having an impact on the situation that farmers find themselves in.

Wrth gwrs, mae'r ffermwyr hynny wedi gorfod gwylio Llywodraeth Cymru yn cael ei herio yn y llysoedd ac yn cael ei llusgo'n ôl i ailgychwyn y broses yma, ac mae'r oedi yna wedi creu ansicrwydd i'r diwydiant, wedi creu gofid i'r diwydiant, ac wedi, fel yr wyf yn ei ddweud, tanseilio hyder y cyhoedd yn llawer o'r gwaith y mae'r Llywodraeth yn trio ei gyflawni o safbwynt symud y diwydiant ymlaen.

Of course, those farmers have had to watch the Welsh Government being challenged in the courts and being dragged back to restart this process, and that delay has created uncertainly within the industry, has created anxiety within the industry, and has, as I say, undermined the public's confidence in much of the work that the Government is trying to do from the point of view of moving the industry forward.

O gofio bod y bwriad gwreiddiol, wrth gwrs, wedi cael ei gymryd i'r llysoedd, rwy'n meddwl mai'r lle addas i gychwyn yw gofyn i chi, Weinidog, i ddatgan yn gwbl glir bellach eich bod yn hyderus na fydd y penderfyniad yma yn agored i unrhyw fath o her gyfreithiol lwyddiannus. Byddwn i'n awyddus i gael hynny ar y record.

Bearing in mind that the original intention, of course, had been challenged in the courts, I think the appropriate starting point is to ask you, Minister, to state clearly now that you are confident that this decision will not be open to any sort of successful legal challenge. I would be eager to have that on the record.

Hwn hefyd, wrth gwrs, yw un o'r opsiynau hawsaf, fel sy'n cael ei ddweud yn y ddogfen ymgynghorol a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth—un o'r opsiynau hawsaf i'w gweithredu. Rŷch chi'n dweud mai rhandaliad, mae'n debyg, fydd yn cael ei wneud yn y ffenestr dalu eleni. Onid yw'n deg i ffermwyr ddisgwyl taliad llawn os ydy'r drefn yn un o'r rhai hawsaf i'w gweinyddu? Byddwn â diddordeb i glywed ymhellach pam rŷch chi'n teimlo na fyddai hynny'n bosib.

This, of course, is one of the easiest options, as is stated in the consultation document published by the Government—one of the easiest options to implement. You say that part payments will be made in this year's payment window. Isn't it fair for farmers to expect a full payment if this new regime is one of the easiest to implement? I'd be interested to hear more as to why you don't think that would be possible.

Rŷch chi wedi dweud o'r blaen, wrth gwrs,fbod yn rhaid i daliadau piler 1 a philer 2 weithredu mewn modd sy'n 'complement-io' ei gilydd. Rŷch chi wedi dweud, wrth gwrs, nad plygio gaps—rwy'n meddwl, yn eich ymateb blaenorol chi—yw rôl y cynllun neu'r rhaglen datblygu gwledig. Ond, yn y gorffennol, wrth gwrs, pan oedd yna fwriad i gyflwyno taliadau rhanbarthol, mi wnaethoch hi'n eithaf clir y byddai taliadau RDP yn cael eu blaenoriaethu i'r ucheldiroedd. Byddwn yn licio gwybod felly a allwch chi sicrhau mewn egwyddor i ffermwyr Cymru y bydd y busnesau a'r rhanbarthau hynny fydd fwyaf ar eu colled yn sgîl eich penderfyniad chi o safbwynt y cynllun taliadau sylfaenol yma yn cael cefnogaeth a blaenoriaeth efallai pan fo'n dod i edrych ar y mathau o gynlluniau y byddwch yn eu cyflwyno o dan yr RDP. Rwy'n gwybod nad ŷch chi mewn sefyllfa i fod yn 'explicit' ynglŷn â natur y cynlluniau hynny, ond, mewn egwyddor, byddem ni'n falch o glywed eich bod yn awyddus i gefnogi'r sectorau yna a fydd yn wynebu efallai colli o dan y drefn arfaethedig.

You have stated in the past, of course, that pillar 1 and pillar 2 payments must act in a complementary fashion. You have said, of course, that the RDP isn't there to plug gaps—I think you said that in your earlier comments. But, in the past, of course, when there was an intention to introduce regional payments, you made it quite clear that RDP payments would be prioritised for the uplands. I would like to hear whether you can ensure in principle for the farmers in Wales that those businesses and regions that will lose out most as a result of your decision on the basic payment scheme will be given support and priority perhaps when it comes to looking at the kinds of schemes that you will introduce under the RDP. I know that you're not in a position to be explicit as to the nature of those schemes, but, in principle, I would be pleased to hear that you are eager to support those sectors that will face the greatest losses under the proposed regime.

Rŷch chi’n dweud eich bod yn agored eich meddwl i broses o ailfapio. Yn amlwg, mae rhywun yn cydnabod y byddai hynny yn cymryd amser ac y byddai hynny â chost ynghlwm ag ef. Ond mi fyddwn i’n hoffi clywed os ydych chi wir yn meddwl bod hynny’n ddymunol. Gallwch fod yn agored eich meddwl, ond rwy’n credu y byddai pobl yn awyddus i wybod a oes bwriad gan y Llywodraeth i symud i’r cyfeiriad yna.

You state that you are open-minded on the process of remapping. Clearly, one would have to acknowledge that that would take time and would have a cost attached to it. But I would like to hear whether you truly believe that that is desirable. You can be open-minded, but I think people would be eager to know whether the Government intends to move in that direction.

Mae yna drafodaeth wedi bod ynglŷn â’r posibilrwydd y bydd yn rhaid i bawb drwy Ewrop symud i raddfa gyffredin ar ôl 2019, ond pan edrychwch chi ar rai o’r rhanbarthau a’r gwledydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi mabwysiadu cyfnodau hirach sydd yn mynd tu hwnt i 2019, byddai rhywun yn tybio’n wleidyddol y byddai’n annhebygol iawn y symudwn ni i’r pwynt yna adeg y CAP nesaf. Felly, byddwn yn gofyn i chi a ydy hi’n deg i dybio bod yr amser i gyrraedd y ‘flat rate’ yna yn gorfod digwydd erbyn 2019, ac, o ganlyniad, sut y byddai hynny yn effeithio ar unrhyw broses o ailfapio. Mi fyddwn i hefyd, Weinidog, yn ategu ac yn cefnogi’r pwynt a wnaethoch chi yn eich datganiad ei bod hi’n gwbl hanfodol ein bod ni’n aros yn rhan o’r Undeb Ewropeaidd, oherwydd, heblaw am hynny, ni fyddem yn cael y drafodaeth yma o gwbl ac ni fyddai’r gefnogaeth bwysig a’r farchnad bwysig sydd yna i ffermwyr Cymru o bosib yn diflannu dros nos.

There has been discussion on the possibility that everyone throughout Europe will have to move to a common rate post 2019, but when you look at some of the regions and nations within the European Union that have adopted longer periods that go beyond 2019, one would anticipate politically that it would be very unlikely that we will move to that point by the time of the next CAP. So, I would ask you whether it is fair to predict that the timing for reaching that flat rate would have to happen by 2019, and, as a result, how would that impact on any remapping process. I would also, Minister, endorse and support the point that you made in your statement that it is crucially important that we do remain part of the European Union, because, without that, we wouldn’t be having this debate at all and this important support and the important market that exists for Welsh farmers could possibly disappear overnight.

16:45

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for those questions and for your contribution. The decision that I’ve made today is well within the EU regulations, and you know from my policy goals, which I set out in the consultation document itself, that the No. 1 policy goal was to meet the requirement of the regulations. So, I can confirm that my decision today is well within the scope of those regulations.

Diolchaf i chi am y cwestiynau yna ac am eich cyfraniad. Mae'r penderfyniad yr wyf wedi ei wneud heddiw yn sicr o fewn rheoliadau'r UE, ac rydych yn gwybod o fy amcanion polisi, a nodais yn y ddogfen ymgynghori ei hun, mai amcan Rhif 1 y polisi oedd bodloni gofyniad y rheoliadau. Felly, gallaf gadarnhau bod fy mhenderfyniad heddiw yn bendant o fewn cwmpas y rheoliadau hynny.

I think, perhaps, you misunderstood what I was saying about part payments. Farmers will receive their entire payment within the window, and the window opens, of course, in December, but it closes in June of next year. So, payments will be made in two instalments, and there’s a good reason for that, which is completely separate to today’s decision, and it’s the fact that we’re entering the first year of a new scheme. In order to calculate those new rates for farmers, we must know the total number of farmers who will qualify under the scheme, how many hectares of land are eligible for payment and how the farmer chooses to apply, so that is whether they have linked their basic payment scheme payments to their old single payment scheme entitlement values or applied to the national reserve as a new entrant or young farmer, for example. So, we need to understand all of those before we can make the full payments.

Rwyf yn credu, efallai, eich bod wedi camddeall yr hyn yr oeddwn i’n ei ddweud am daliadau rhannol. Bydd ffermwyr yn cael eu taliad cyfan o fewn y cyfnod, ac mae’r cyfnod hwnnw yn agor, wrth gwrs, ym mis Rhagfyr, ond yn cau ym mis Mehefin y flwyddyn nesaf. Felly, bydd taliadau'n cael eu gwneud mewn dau randaliad, ac mae rheswm da am hynny, sydd yn gwbl ar wahân i benderfyniad heddiw, sef y ffaith ein bod yn mynd i mewn i flwyddyn gyntaf cynllun newydd. Er mwyn cyfrifo’r cyfraddau newydd hynny i ffermwyr, mae'n rhaid i ni wybod cyfanswm nifer y ffermwyr a fydd yn gymwys o dan y cynllun, faint o hectarau o dir sy’n gymwys i gael taliad a sut mae'r ffermwr yn dewis gwneud cais, sef pa un a yw wedi cysylltu ei daliadau o dan y cynllun taliad sylfaenol i werthoedd hawl ei hen gynllun taliad sengl neu wedi gwneud cais i'r gronfa genedlaethol fel newydd-ddyfodiad neu ffermwr ifanc, er enghraifft. Felly, mae angen inni ddeall bob un o’r rheini cyn i ni allu gwneud y taliadau llawn.

If Rural Payments Wales did attempt to pay farmers in full in December, before sufficient claims had been validated, then the number of eligible hectares would be down to guesswork, and that could result in overpayments or underpayments or exceeding our EU scheme budget, and that would obviously risk disallowance for failing to administer the scheme correctly. So, as you’d appreciate, I’m very keen that we administer the scheme correctly. So, that’s the explanation as to why the full payments will be made but in two instalments this year.

Pe byddai Taliadau Gwledig Cymru yn gwneud ymdrech i dalu ffermwyr yn llawn ym mis Rhagfyr, cyn i ddigon o hawliadau gael eu dilysu, yna byddai nifer yr hectarau cymwys yn fater o ddyfalu, a gallai hynny arwain at ordaliadau neu dandaliadau neu gallai fod yn fwy na chyllideb ein cynllun UE, a byddai hynny yn amlwg yn peri risg o gosb ariannol am fethu â gweinyddu'r cynllun yn gywir. Felly, fel y byddwch yn ei werthfawrogi, rwy'n awyddus iawn ein bod yn gweinyddu'r cynllun yn gywir. Felly, dyna’r esboniad ynghylch pam y bydd y taliadau llawn yn cael eu gwneud, ond mewn dau randaliad eleni.

With regard to the RDP, I have said before that funding through the RDP will be put where it's needed. In terms of supporting the farming industry, it will be supporting those farm businesses that seek to make a change to become more resilient and more profitable, regardless of what sector they're in. You'll have heard me speak before about our strategic initiatives that we are developing for the dairy industry, for red meat, for the food industry, and so on. I'll be saying a little bit more about those at the Royal Welsh this year.

O ran y Cynllun Datblygu Gwledig, rwyf wedi dweud o'r blaen y bydd cyllid trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei ddarparu lle y bydd ei angen. O ran cefnogi'r diwydiant ffermio, bydd yn cefnogi'r busnesau fferm hynny sy'n ceisio gwneud newid i fod yn fwy cydnerth ac yn fwy proffidiol, pa bynnag sector y maent ynddo. Byddwch wedi fy nghlywed i'n siarad o'r blaen am y mentrau strategol yr ydym yn eu datblygu ar gyfer y diwydiant llaeth, ar gyfer cig coch, ar gyfer y diwydiant bwyd, ac yn y blaen. Byddaf yn dweud ychydig mwy am y rhain yn y Sioe Frenhinol eleni.

With regard to remapping, I said in my statement that I didn't think it would be a possibility within this particular reform period, and, if remapping was to take place, it would have to take place within context, and it's a fact that it would take millions of pounds to do that remapping because, as I said in my statement, it would have to be done on foot. It would take a great deal of time—years—and, again, whether or not this would be a desirable thing to do in the first instance depends very much on our future relationship with the European Union in terms of whether we're still members of the European Union. You did say that the European Commission had indicated previously that there was a plan at one point to move to a common rate across Europe. We don't have confirmation that that remains the European Commission's intention, but it was certainly an intention at one point, and we understand there is a good amount of support for that.

O ran ailfapio, dywedais yn fy natganiad nad oeddwn yn credu y byddai'n bosibl o fewn y cyfnod diwygio penodol hwn, a, phe byddai ailfapio'n digwydd, byddai'n rhaid iddo ddigwydd o fewn cyd-destun, ac mae'n ffaith y byddai'n cymryd miliynau o bunnoedd i wneud y gwaith ailfapio hynny oherwydd, fel y dywedais yn fy natganiad, byddai'n cael ei wneud ar droed. Byddai'n cymryd llawer iawn o amser—blynyddoedd—ac, eto, mae'r cwestiwn o ba un a fyddai hyn yn beth dymunol i'w wneud yn y lle cyntaf yn dibynnu i raddau helaeth ar ein perthynas yn y dyfodol â'r Undeb Ewropeaidd o ran pa un a fyddwn yn dal i fod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd. Fe ddywedasoch fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi o'r blaen bod cynllun ar un adeg i symud i gyfradd gyffredin ledled Ewrop. Nid oes gennym gadarnhad mai dyna yw bwriad y Comisiwn Ewropeaidd o hyd, ond roedd yn sicr yn fwriad ar un adeg, ac rydym yn deall bod llawer iawn o gefnogaeth i hynny.

16:48

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Unlike the first two speakers, I welcome very much the Deputy Minister's proposals and, indeed, more importantly, so does the Farmers Union of Wales, who have issued a press release since you stood up and who are very much in favour of your approach to the flat-rate payments by 2019 as well as the proposal to pay more money to farmers on the first 54 hectares. I don't understand the description from Russell George that farmers are facing losses. The farmers that might be facing losses are people with very large farms and, therefore, in the context of the losses about to be faced by families on low wages tomorrow, I think that this is inappropriate. All farmers are going to get a fair deal based on this, and, unlike Russell George, I do not believe that the proposal to top-slice 15 per cent off pillar 1 and put it into pillar 2—. The whole point of that is to make sure that the rural communities are more resilient because it is perfectly obvious that the agricultural payments are going to decline as Europe has to get round to resolving other problems. So, I very much welcome the proposal to move towards a flat-rate payment, which seems to me much more equitable.

Yn wahanol i'r ddau siaradwr cyntaf, rwyf yn croesawu llawer iawn o gynigion y Dirprwy Weinidog ac, yn wir, yn bwysicach, mae Undeb Amaethwyr Cymru yn eu cefnogi hefyd, ac wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg ers i chi sefyll ar eich traed ac maent yn sicr o blaid eich agwedd at y taliadau cyfradd safonol erbyn 2019 yn ogystal â'r cynnig i dalu mwy o arian i ffermwyr am y 54 hectar cyntaf. Nid wyf yn deall y disgrifiad gan Russell George fod ffermwyr yn wynebu colledion. Mae'r ffermwyr a allai fod yn wynebu colledion yn bobl â ffermydd mawr iawn ac, felly, yng nghyd-destun y colledion y mae teuluoedd ar gyflogau isel ar fin eu hwynebu yfory, rwyf o'r farn bod hyn yn amhriodol. Bydd pob ffermwr yn cael bargen deg yn seiliedig ar hyn, ac, yn wahanol i Russell George, nid wyf yn credu bod y cynnig i dynnu 15 y cant oddi ar golofn 1 a'i roi yng ngholofn 2—. Holl bwynt hynny yw sicrhau bod y cymunedau gwledig yn fwy gwydn oherwydd ei fod yn gwbl amlwg bod y taliadau amaethyddol yn mynd i ddirywio gan fod angen i Ewrop ddatrys problemau eraill. Felly, rwyf yn croesawu'n fawr y cynnig i symud tuag at daliad cyfradd safonol, sy'n ymddangos i mi yn llawer tecach.

I just wanted to ask the Deputy Minister two or three things. Could you just tell us what clarification the Government has received around the new rules on woodland areas, and whether that could lead either to the Welsh Government being handed a bill for disapplication of land that was not deemed suitable for inclusion in the agricultural scheme, or the risk of farmers cutting down trees to enhance the amount of money they could get on CAP payments?

Roeddwn i eisiau gofyn dau neu dri pheth i'r Dirprwy Weinidog. A wnewch chi ddweud wrthym pa eglurhad y mae'r Llywodraeth wedi ei dderbyn ynglŷn â'r rheolau newydd ar ardaloedd coetir, ac a allai hynny arwain at Lywodraeth Cymru yn cael bil am ddatgymhwyso tir na ystyrir yn addas i'w gynnwys yn y cynllun amaethyddol, neu y risg bod ffermwyr yn torri coed i wella'r swm o arian y gallent ei gael mewn taliadau PAC?

Could you also say a bit more about how the flat-rate payments provide opportunities for new entrants? I'm bearing in mind the context of people living in cities who are facing food poverty, who cannot, actually, access good food to feed their children. The Cardiff Sustainable Food City's press release this week highlights the fact that a growing number of people are unable to provide an adequate diet to their families, and Food Cardiff is having to pilot holiday lunch schemes this summer, so that children don't go hungry when schools are closed. So, how can the Welsh agriculture industry, supported by the common agricultural policy, play its part in ensuring all citizens have access to good food, as a matter of course, not as a result of charity?

A wnewch chi hefyd ddweud ychydig mwy am y modd y mae'r taliadau cyfradd safonol yn darparu cyfleoedd ar gyfer newydd-ddyfodiaid? Yr hyn sydd gennyf dan sylw yw'r cyd-destun o bobl sy'n byw mewn dinasoedd ac sy'n wynebu tlodi bwyd, nad ydynt yn gallu, mewn gwirionedd, cael gafael ar fwyd da i fwydo eu plant. Mae datganiad i'r wasg Sustainable Food Cities Caerdydd yr wythnos hon yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer gynyddol o bobl nad ydynt yn gallu darparu diet digonol i'w teuluoedd, ac mae Bwyd Caerdydd yn gorfod treialu cynlluniau cinio gwyliau dros yr haf, fel nad yw plant yn mynd yn llwglyd pan fydd yr ysgolion ar gau. Felly, sut y gall diwydiant amaethyddiaeth Cymru, gyda chefnogaeth y polisi amaethyddol cyffredin, chwarae ei ran mewn sicrhau bod bwyd da ar gael ar gyfer pob dinesydd, yn rhan o'r drefn arferol, nid o ganlyniad i elusen?

16:51

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank you for those questions, particularly for your reference to the stakeholder bodies at the start of your contribution. The stakeholder groups have been invaluable in the support that they've given Welsh Government throughout this process in terms of their membership of the high-level group and the data modelling group. Those meetings have really helped us shape the way forward and to get an understanding of what was possible under the regulations, following the judicial review, and what options might fit Welsh agriculture best there.

Diolch i chi am y cwestiynau yna, yn enwedig eich cyfeiriad at y cyrff sy'n rhanddeiliaid ar ddechrau eich cyfraniad. Mae'r grwpiau sy'n rhanddeiliaid wedi bod yn amhrisiadwy o ran y gefnogaeth y maent wedi ei rhoi i Lywodraeth Cymru drwy gydol y broses hon o ran eu haelodaeth yn y grŵp lefel uchel a'r grŵp modelu data. Mae'r cyfarfodydd hynny wedi bod o gymorth gwirioneddol i ni wrth lunio'r ffordd ymlaen ac i gael dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn bosibl o dan y rheoliadau, yn dilyn yr adolygiad barnwrol, a pha ddewisiadau a fyddai fwyaf addas ar gyfer amaethyddiaeth Cymru.

All of that modelling data, I should say, is available online and Members will be aware that, over the course of this period, I've kept Members up to date in terms of writing to you when the data modelling group has met and when new data have been provided online. I've been really keen to ensure that this process has been completely open and transparent and that the information has been available to Members when and where they need it.

Mae'r holl ddata modelu hwnnw, dylwn ddweud, ar gael ar-lein a bydd yr Aelodau'n ymwybodol, yn ystod y cyfnod hwn, fy mod wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau wrth ysgrifennu atoch pan fo'r grŵp modelu data wedi cyfarfod a phan fo data newydd wedi ei ddarparu ar-lein. Rwyf wedi bod yn awyddus iawn i sicrhau bod y broses hon wedi bod yn gwbl agored a thryloyw a bod y wybodaeth wedi bod ar gael i Aelodau pryd bynnag yr oedd ei hangen arnynt.

With regard to trees, I've considered the matter in some depth. Back in February, I decided to implement the model that takes us to where we are now in terms of our approach to trees, scattered trees and so on. My officials engaged with the European Commission at the highest level and they were unable to receive assurances that including groups of trees as a landscape feature would not result in the Welsh Government receiving the disallowance to which you referred in future. Without that kind of reassurance, there was no way that I would commit the Welsh Government to a course of action that would risk us receiving millions of pounds worth of disallowance in future, especially because the area affected is only around 3 per cent of the land within the basic payment scheme—that's around 41,000 hectares. That was just a risk too far to risk millions of pounds in terms of disallowance.

O ran coed, rwyf wedi ystyried y mater yn fanwl. Yn ôl ym mis Chwefror, penderfynais weithredu'r model sy'n mynd â ni i ble'r ydym ni nawr o ran ein hagwedd at goed, coed gwasgaredig ac yn y blaen. Cysylltodd fy swyddogion â'r Comisiwn Ewropeaidd ar y lefel uchaf ac nid oeddent yn gallu cael sicrwydd na fyddai cynnwys grwpiau o goed fel nodwedd tirwedd yn arwain at Lywodraeth Cymru yn cael y gosb ariannol y cyfeiriwyd ati gennych, yn y dyfodol. Heb y math hwnnw o sicrwydd, nid oedd unrhyw ffordd y byddwn yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ffordd o weithredu a fyddai'n peri risg i ni gael gwerth miliynau o bunnoedd o gosb ariannol yn y dyfodol, yn enwedig gan fod yr ardal yr effeithir arni ddim ond tua 3 y cant o'r tir o fewn y cynllun taliad sylfaenol—sef tua 41,000 hectar. Roedd honno'n un risg yn ormod i beryglu miliynau o bunnoedd mewn cosb ariannol.

I was aware of concerns that farmers might seek to fell trees in a bid to get around this rule, and I did put a challenge out to people who were raising this with me to provide me with some examples of where this had taken place. And there was no evidence whatsoever that the felling of trees has taken place in order that farmers can secure larger payments within the basic payment scheme.

Rwyf yn ymwybodol o'r pryderon y gallai ffermwyr geisio torri coed mewn ymgais i osgoi'r rheol hon, fe wnes herio'r bobl a oedd yn codi hyn gyda mi i roi rhai enghreifftiau i mi o achosion lle y mae hyn wedi digwydd. Ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o gwbl bod coed wedi'u torri er mwyn i ffermwyr sicrhau taliadau mwy o fewn y cynllun taliad sylfaenol.

With regard to new entrants, that's one of the reasons that this model that I've announced today was appealing and that's because it met one of our policy goals, which was to support new entrants into farming. For example, tunnelling with no end date would have made it more difficult for new entrants into farming. So, that was one of our seven outlined policy goals and I'm pleased to say that this model does meet that goal.

O ran newydd-ddyfodiaid, mae hwnnw'n un o'r rhesymau pam mae'r model hwn yr wyf wedi'i gyhoeddi heddiw yn apelgar, ac mae hynny oherwydd ei fod wedi bodloni un o'n hamcanion polisi, sef cefnogi newydd-ddyfodiaid i ffermio. Er enghraifft, byddai twnelu heb unrhyw ddyddiad terfyn wedi ei gwneud hi'n fwy anodd i newydd-ddyfodiaid ddechrau ffermio. Felly, dyna oedd un o'n saith nod polisi a amlinellwyd ac rwy'n falch o ddweud bod y model hwn yn bodloni'r nod hwnnw.

16:54 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to thank you, Deputy Minister, very much for today's statement and also to thank you for the briefing that you gave to me and other spokesmen just earlier today, ahead of this announcement.

Hoffwn ddiolch i chi, Ddirprwy Weinidog, yn fawr iawn am y datganiad heddiw a hefyd hoffwn ddiolch i chi am y sesiwn briffio a roesoch i mi a llefarwyr eraill yn gynharach heddiw, cyn y cyhoeddiad hwn.

It's true to say that today's statement brings to an end an unedifying period in terms of agricultural policy in this regard, and it is, as Russell George correctly said, one of the Welsh Government's own making. In our consultation response on the basic payment scheme, the Welsh Liberal Democrats urged Welsh Government to commit to carrying out a comprehensive remapping exercise, which is widely supported, as we've already heard today, in the industry.

Mae'n wir i ddweud bod datganiad heddiw yn ddiwedd ar gyfnod annifyr o ran polisi amaethyddol, ac roedd Russell George yn gywir i ddweud mai Llywodraeth Cymru oedd wedi creu'r sefyllfa honno ei hun. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y cynllun taliadau sylfaenol, roedd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i ymrwymo i gynnal ymarferiad ailfapio cynhwysfawr, ac mae llawer o gefnogaeth i hynny yn y diwydiant, fel yr ydym eisoes wedi ei glywed heddiw.

I understand from your comments today and earlier discussion that given the scale of expense involved, combined with the uncertainty about our long-term membership of the European Union, which has been unleashed in the form of the forthcoming referendum, this is not the time for that. However, Deputy Minister, will you please revisit this issue in terms of a future period because remapping, I would contend, should be prioritised so as to inform the payments regime for the next CAP period, if indeed we remain members, and you rightly emphasise the importance of that. In our view that would enable us to move to a fairer payment system in the long term and one which accurately reflects the range of different farming areas that are being worked. In the context of today's announcement I continue to believe that that should be prioritised. Whereas there is no consensus, or there has been no consensus in the sector about the preferred payment system, there is an acceptance about the paucity of data and the problems that it causes.

Rwyf yn deall o'ch sylwadau heddiw a'r drafodaeth yn gynharach, o ystyried maint y gost dan sylw, ynghyd â'r ansicrwydd ynghylch ein haelodaeth yn y tymor hir o'r Undeb Ewropeaidd, sydd wedi dod i'r amlwg ar ffurf y refferendwm sydd i ddod, nad dyma'r amser ar gyfer hynny. Fodd bynnag, Ddirprwy Weinidog, a wnewch chi os gwelwch yn dda ailedrych ar y mater hwn o safbwynt cyfnod yn y dyfodol oherwydd dylai ailfapio, byddwn yn dadlau, gael ei flaenoriaethu er mwyn llywio'r drefn taliadau ar gyfer y cyfnod PAC nesaf, os yn wir y byddwn yn parhau i fod yn aelodau, ac rydych yn iawn i bwysleisio pwysigrwydd hynny. Yn ein barn ni, byddai hynny yn ein galluogi i symud at system dalu decach yn y tymor hir ac un sy'n adlewyrchu'n gywir yr ystod o wahanol ardaloedd ffermio sy'n cael eu gweithredu. Yng nghyd-destun cyhoeddiad heddiw, rwyf yn dal i gredu y dylid eu blaenoriaethu. Er nad oes consensws, neu na chafwyd consenswsyn y sector am y system dalu a ffefrir, derbynnir bod prinder data a bod hynny'n achosi problemau.

Clarity and certainty for the industry are both vital, but so is fairness. That's why I continue, on behalf of my party, to call on the Welsh Government to deliver a fair deal for all farmers, and one which seeks, via a targeted and focused approach to the RDP, to promote the competitiveness and indeed the resilience of Welsh farming. However, we also need to have regard to the resilience of individual farmers, and we need to recall for a moment the difficulties that many farmers, many farm businesses and farming communities have had over recent weeks in terms of the division, discussion and robust argument that the situation has brought.

Mae eglurder a sicrwydd i'r diwydiant ill dau yn hanfodol, ond felly hefyd tegwch. Dyna pam rwyf yn parhau, ar ran fy mhlaid, i alw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bargen deg i bob ffermwr, ac un sy'n ceisio, trwy agwedd o dargedu a chanolbwyntio ar y Cynllun Datblygu Gwledig, hybu cystadleurwydd ac yn wir cydnerthedd ffermio yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen hefyd inni roi sylw i gydnerthedd ffermwyr unigol, ac mae angen i ni gofio am eiliad yr anawsterau y mae llawer o ffermwyr, llawer o fusnesau fferm a chymunedau ffermio wedi eu cael dros yr wythnosau diwethaf o ran y rhaniad, y drafodaeth a'r ddadl gadarn y mae'r sefyllfa wedi eu hachosi.

Whilst recognising, Deputy Minister, your Government's attempt to minimise the scale of the losers from today's announcements, some sole traders and farm businesses will see a devastating falloff in their income. In this context, I think we need to be aware of the difficulties that farmers are currently facing, from disappointing farm-gate prices, surging insurance and accountancy costs, and indeed wafer-thin margins. We need to be aware, as indeed your colleague the Minister for Health and Social Services is, about the potential impacts that such radical changes can bring in terms of stress, and this is important. I would urge you, Minister, to be cognisant of that and also to follow the example, if it is desirable to do so, of your predecessor, the Member for Blaenau Gwent, who made available an allocation of funds to rural stress charities in the context of the 2013 extreme weather events. Will you, Minister, please ensure that your communications team makes it clear that the work that such charities do in the difficult times, which Welsh farming faces, is promoted both by the relevant Welsh Government offices and also in publications?

Rwy'n cydnabod, Ddirprwy Weinidog, ymgais eich Llywodraeth i leihau nifer y collwyr o ganlyniad i gyhoeddiadau heddiw, ond bydd rhai masnachwyr unigol a busnesau fferm yn gweld dirywiad aruthrol yn eu hincwm. Yn y cyd-destun hwn, rwyf yn credu bod angen i ni fod yn ymwybodol o'r anawsterau y mae ffermwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd, sef prisiau siomedig wrth giât y fferm, yswiriant yn cynyddu a chostau cyfrifyddu, ac, yn wir, elw bach iawn. Mae angen i ni fod yn ymwybodol, fel yn wir y mae eich cydweithiwr, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, am yr effeithiau posibl y gall newidiadau mor sylfaenol eu hachosi o ran straen, ac mae hyn yn bwysig. Byddwn yn eich annog, Weinidog, i fod yn ymwybodol o hynny a hefyd i ddilyn esiampl, os yw'n ddymunol i wneud hynny, eich rhagflaenydd, yr Aelod dros Flaenau Gwent, a sicrhaodd fod dyraniad o arian ar gael i elusennau straen yng nghefn gwlad yng nghyd-destun digwyddiadau tywydd eithafol 2013. A wnewch chi, Weinidog, wneud yn siŵr bod eich tîm cyfathrebu yn ei gwneud yn glir bod y gwaith y mae elusennau o'r fath yn ei wneud yn y cyfnod anodd y mae ffermio yng Nghymru yn ei wynebu, yn cael ei hyrwyddo gan swyddfeydd perthnasol Llywodraeth Cymru a hefyd mewn cyhoeddiadau?

Deputy Minister, finally from me, will you commit to working with your senior officials in the coming weeks to maintain dialogue with the European Commission so as to expedite the roll-out of this new system, and to deliver timely payments to farmers across Wales?

Ddirprwy Weinidog, yn olaf gennyf i, a wnewch chi ymrwymo i weithio gyda'ch uwch swyddogion yn yr wythnosau nesaf i gynnal deialog gyda'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno'r system newydd hon, ac i gyflwyno taliadau prydlon i ffermwyr ledled Cymru?

16:58

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for those questions. With regard to revisiting mapping, you asked me to do so for a future period. I absolutely haven't closed the door on a mapping exercise at all, but as I say, that decision would sit within the context of, you know, the funding and the future of the scheme and so on in future. But, I haven't closed the door on that at all.

Diolch i chi am y cwestiynau yna. O ran edrych eto ar fapio, rydych yn gofyn i mi wneud hynny ar gyfer cyfnod yn y dyfodol. Yn sicr, nid wyf wedi cau'r drws o gwbl ar ymarfer mapio, ond fel y dywedais, byddai'r penderfyniad hwnnw yn dibynnu ar gyd-destun, wyddoch chi, y cyllid a dyfodol y cynllun ac yn y blaen yn y dyfodol. Ond, nid wyf wedi cau'r drws ar hynny o gwbl.

It is a difficult time for many farmers for many different reasons, some of which you've outlined there. I'm very keen to work closely with the farming charities. The Welsh Government does already provide some funding to some of those organisations and we seek to work with them in other ways. For example, recently, the Royal Agricultural Benevolent Institution provided an article for our most recent 'Gwlad' magazine, for example. So, there are ways that we can work together, you know, between times of crisis in order to make farmers aware of the kind of support that is available for them out there.

Mae'n gyfnod anodd i lawer o ffermwyr am lawer o wahanol resymau, rhai ohonynt wedi'u hamlinellu gennych chi yn y fan yna. Rwy'n awyddus iawn i weithio'n agos gyda'r elusennau ffermio. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu rhywfaint o arian i rai o'r sefydliadau hynny ac rydym yn ceisio gweithio gyda nhw mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, yn ddiweddar, darparodd y Sefydliad Amaethyddol Buddiannol Brenhinol erthygl i gylchgrawn diweddaraf 'Gwlad'. Felly, mae ffyrdd y gallwn eu defnyddio i weithio gyda'n gilydd, wyddoch chi, rhwng adegau o argyfwng er mwyn gwneud ffermwyr yn ymwybodol o'r math o gefnogaeth sydd ar gael iddynt allan yn y fan yna.

With regard to the European Commission, they're very well aware of the situation that Wales has found itself in. They've been kept up to date right across this period, and we expect to receive confirmation from the European Commission that our approach meets with their approval in the coming month or two. But, we don't need to wait for that approval now, because we're confident that what we're proposing is well within the regulations. So, as from now, we will move forward in terms of the implementation of it.

O ran y Comisiwn Ewropeaidd, maen nhw'n ymwybodol iawn o'r sefyllfa y mae Cymru wedi canfod ei hun ynddi. Maent wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy'r cyfnod hwn, ac rydym yn disgwyl cael cadarnhad gan y Comisiwn Ewropeaidd bod ein hymagwedd yn cael ei chymeradwyo ganddynt yn y mis neu ddau nesaf. Ond, nid oes angen i ni aros am y gymeradwyaeth honno bellach, gan ein bod yn hyderus bod yr hyn yr ydym yn ei gynnig yn bendant o fewn y rheoliadau. Felly, o hyn ymlaen, byddwn yn symud ymlaen i weithredu hyn.

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are over time. I still have three Members to call, but, please, succinct, focused questions now. Nick Ramsay.

Rydym wedi mynd y tu hwnt i'n hamser. Mae gennyf dri Aelod i'w galw eto, ond, os gwelwch yn dda, cwestiynau cryno â phwyslais o hyn ymlaen. Nick Ramsay.

17:00 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Deputy Minister, this does at least bring to an end a period of ongoing uncertainty for farmers in Wales, so we do welcome the statement today. The NFU have questioned why the new system could not have differential payments as part of it, and they are concerned about the level of disruption, and it being greater than it could've been. Why were differential payments ruled out?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Ddirprwy Weinidog, mae hyn o leiaf yn dod â chyfnod o ansicrwydd parhaus ar gyfer ffermwyr yng Nghymru i ben, felly rydym yn croesawu datganiad heddiw. Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr wedi holi pam na allai'r system newydd gael taliadau gwahaniaethol yn rhan ohoni, ac maent yn pryderu am lefel y tarfu, a'i fod yn fwy nag y gallai fod. Pam y cafodd taliadau gwahaniaethol eu diystyru?

I appreciate your decision about tunnelling. Tunnelling was not a perfect solution, but it did at least mitigate the blow for some farmers during the transitionary period. So, why did you not look at that again?

Rwyf yn gwerthfawrogi eich penderfyniad ynghylch twnelu. Nid yw twnelu yn ateb perffaith, ond o leiaf roedd yn lliniaru'r ergyd i rai ffermwyr yn ystod y cyfnod pontio. Felly, pam na wnaethoch chi edrych ar hynny eto?

Secondly, many AMs have mentioned remapping. I appreciate it's time consuming. You seem to be saying that you are going to leave the door open on that. Do you have any timescales in mind for when a remapping exercise could happen in the future? That would mitigate some of the concerns that we've heard of today.

Yn ail, mae llawer o ACau wedi crybwyll ailfapio. Rwyf yn sylweddoli y byddai hynny'n cymryd llawer o amser. Mae'n ymddangos eich bod yn dweud eich bod yn mynd i adael y drws ar agor ar hynny. A oes gennych chi unrhyw amserlenni mewn golwg ar gyfer pryd y gallai ymarfer ailfapio ddigwydd yn y dyfodol? Byddai hynny'n lleddfu rhai o'r pryderon yr ydym wedi eu clywed heddiw.

Finally, Deputy Presiding Officer, contrary to Jenny Rathbone's view that these changes are only worse for larger farmers, it's been many younger farmers, actually, who have expressed concerns to me—younger farmers who I'm sure you and we would want to encourage to stay in that industry in the future. What are you going to do to reassure them that these changes will not harm the farming industry and their livelihoods in the future?

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, yn groes i farn Jenny Rathbone bod y newidiadau hyn ddim ond yn waeth ar gyfer ffermwyr mwy, mae llawer o ffermwyr iau, mewn gwirionedd, wedi mynegi pryderon wrthyf—ffermwyr iau, rwy'n siŵr y byddech chi a ninnau, yn dymuno eu hannog i aros yn y diwydiant hwnnw yn y dyfodol. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud i roi sicrwydd iddynt na fydd y newidiadau hyn yn niweidio'r diwydiant ffermio a'u bywoliaeth yn y dyfodol?

17:01 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those questions. I hoped I'd made it clear at the start of my statement that our original policy intentions were to recognise the productivity of land and introduce a regional payment system. However, the legal challenge before Christmas demonstrated that we couldn't introduce those arrangements without risking inequitable treatment of farmers with similar types of land parcels spread across different payment regions. With the mapping that Welsh Government has available to it, both from Welsh Government and from other sources such as Natural Resources Wales, for example, none of these options provide us with the kind of level of mapping and detail that we would need in order to provide a robust system now in the context of that judicial review.

Diolch i chi am y cwestiynau yna. Roeddwn i'n gobeithio fy mod wedi ei gwneud yn glir ar ddechrau fy natganiad mai ein bwriadau polisi gwreiddiol oedd cydnabod cynhyrchiant tir a chyflwyno system dalu ranbarthol. Fodd bynnag, dangosodd yr her gyfreithiol cyn y Nadolig na allem gyflwyno'r trefniadau hynny heb y perygl o drin yn annheg ffermwyr â mathau tebyg o barseli tir wedi'u lledaenu ar draws gwahanol ranbarthau talu. Gyda'r mapio sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, gan Lywodraeth Cymru ac o ffynonellau eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft, nid oes yr un o'r dewisiadau hyn yn rhoi i ni y math o lefel o fapio a manylder y byddai ei angen arnom er mwyn darparu system gadarn nawr yng nghyd-destun yr adolygiad barnwrol hwnnw.

So, for now, there will not be a regional system, and it would require that remapping exercise that we've talked about in the future. Just to be clear, that's not going to happen within this particular reform period.

Felly, am y tro, ni fydd system ranbarthol, a byddai'n ofynnol cael yr ymarfer ailfapio hwnnw yr ydym wedi sôn amdano yn y dyfodol. I fod yn glir, nid yw hynny'n mynd i ddigwydd yn y cyfnod diwygio penodol hwn.

You asked about the reasons behind rejecting the tunnelling option. Although it does reduce disruption, it does continue some of that inequality that exists under the current single payment scheme in terms of stacked entitlements and so on, and it does lock in those current entitlement values for longer. So, farmers would be paid more based on values in 2000 to 2002. Those higher payments can sometimes be a result of trading entitlements rather than higher production levels, so, in a sense, we'd be continuing to pay for what had happened in the past, not what's happening now. So, those are the reasons behind not choosing the tunnelling option, despite the fact it could be done within the same timescales as the option that I've decided on today. The option of a flat rate by 2019 is the fairer, more preferable option from those available to me.

Roeddech yn gofyn am y rhesymau y tu ôl i wrthod y dewis o dwnelu. Er ei fod yn lleihau tarfu, mae'n parhau rhywfaint o'r anghydraddoldeb sy'n bodoli o dan gynllun y taliad sengl cyfredol o ran hawliadau wedi'u pentyrru ac yn y blaen, ac mae'n cloi'r gwerthoedd hawliadau cyfredol hynny am gyfnod hwy. Felly, byddai ffermwyr yn cael eu talu mwy yn seiliedig ar werthoedd yn 2000 i 2002. Weithiau gall y taliadau uwch hynny fod o ganlyniad i hawliadau masnachu yn hytrach na lefelau cynhyrchu uwch, felly, mewn un ystyr, byddem yn parhau i dalu am yr hyn oedd wedi digwydd yn y gorffennol, nid yr hyn sy'n digwydd nawr. Felly, dyna'r rhesymau y tu ôl i beidio dewis yr opsiwn twnelu, er gwaethaf y ffaith y gellid ei wneud o fewn yr un amserlenni â'r dewis yr wyf wedi penderfynu arno heddiw. Y dewis o gyfradd sefydlog erbyn 2019 yw'r dewis tecach, mwyaf ffafriol o'r rhai hynny sydd ar gael i mi.

17:03

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I did respond to the consultation, and despite the fact that the redistribution element will numb the pain somewhat, the Deputy Minister will know that there'll be dismay in Anglesey, which is all lowland productive farmland, of course, though no-one really held out any hope of a return to regional payments after the mess of the unravelling of the Government's original plan.

Fe wnes i ymateb i'r ymgynghoriad, ac er gwaethaf y ffaith y bydd yr elfen ailddosbarthu yn lleddfu rhywfaint ar y boen, bydd y Dirprwy Weinidog yn gwybod y bydd siom yn Ynys Môn, lle mae'r holl dir fferm yn iseldir cynhyrchiol, wrth gwrs, ond nid oedd gan unrhyw un unrhyw obaith mewn gwirionedd o ddychwelyd at daliadau rhanbarthol ar ôl y llanast o ddatod cynllun gwreiddiol y Llywodraeth.

Now, Deputy Minister, can you confirm that regional payments have been deemed acceptable in other parts of the UK? Will you confirm that that has been the case largely because of accepted detailed mapping that has taken place in those other parts of the UK? Will she accept that the failure to map in the past has led, in part, to the situation that we find ourselves in now? The Minister questions the purpose of detailed remapping. She knows the frustration at the fact that the out-of-date maps derailed the original scheme. Does she not see that this is a vital tool that she need in her armoury, if only to avoid Wales finding itself in a similar situation again?

Nawr, Ddirprwy Weinidog, a allwch chi gadarnhau bod taliadau rhanbarthol wedi cael eu hystyried yn dderbyniol mewn rhannau eraill o'r DU? A wnewch chi gadarnhau bod hynny wedi bod yn wir yn bennaf oherwydd mapio manwl a dderbyniwyd sydd wedi digwydd yn y rhannau eraill hynny o'r DU? A wnaiff hi dderbyn bod y methiant i fapio yn y gorffennol wedi arwain, yn rhannol, at y sefyllfa yr ydym yn canfod ein hunain ynddi nawr? Mae'r Gweinidog yn cwestiynu diben ailfapio manwl. Mae hi'n gwybod y rhwystredigaeth sydd yn y ffaith bod y mapiau sydd wedi dyddio wedi bwrw'r cynllun gwreiddiol oddi ar y cledrau. Onid yw hi'n gweld bod hwn yn offeryn hanfodol y mae ei angen arni yn ei harfogaeth, petai hynny dim ond i osgoi Cymru'n canfod ei hun mewn sefyllfa debyg eto?

17:04

## Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank you for that. Obviously, the systems operating in England and Scotland, for example, are matters for those Governments. They are running regional payment systems there. England has been running one since 2005, and that was on a transitional basis until 2012. Since then, it's been on a fully area-based system. England can't be challenged on their decision now, because the system has been in place for so long and the challenging timetable has come to an end. However, it could be argued that their system would be vulnerable to the same kind of arguments that were put in the judicial review that we faced before Christmas.

Diolch i chi am hynna. Yn amlwg, mae'r systemau sy'n gweithredu yn Lloegr a'r Alban, er enghraifft, yn faterion i'r Llywodraethau hynny. Maent yn gweithredu systemau talu rhanbarthol yno. Mae Lloegr wedi bod yn gweithredu un ers 2005, ac roedd hynny ar sail pontio hyd at 2012. Ers hynny, mae wedi bod ar system gwbl seiliedig ar ardaloedd. Ni all Lloegr gael ei herio ar ei phenderfyniad yn awr, gan fod y system wedi bod ar waith ers cyhyd ac mae'r amserlen heriol wedi dod i ben. Fodd bynnag, gellid dadlau y byddai eu system yn agored i'r un math o ddadleuon a roddwyd yn yr adolygiad barnwrol a wynebwyd gennym cyn y Nadolig.

Scotland's system remains untested at the moment, and this will be the first year of their regional system. They're using a system that features naturally kept land. Wales doesn't have large areas of this kind of land, so that makes that regional classification unsuitable, because the land types used in the Scottish model don't accurately reflect the land types used in Wales. It's worth making the point also that there's no evidence that farmers in Wales would be disadvantaged by not having the same model as that being used in England, Scotland or elsewhere, because we've been operating a different system in Wales to that in England since 2005. So, there's no evidence that different models disadvantage one group of farmers over another in this case.

Mae system yr Alban yn parhau i fod heb ei phrofi ar hyn o bryd, a dyma fydd blwyddyn gyntaf ei system ranbarthol. Maent yn defnyddio system sy'n cynnwys tir a gedwir yn naturiol. Nid oes gan Gymru ardaloedd mawr o'r math hwn o dir, felly mae hynny'n gwneud dosbarthiad rhanbarthol yn anaddas, oherwydd nad yw'r mathau o dir a ddefnyddiwyd ym model yr Alban yn adlewyrchu'r mathau o dir a ddefnyddir yng Nghymru yn gywir. Mae'n werth nodi hefyd nad oes unrhyw dystiolaeth y byddai ffermwyr yng Nghymru dan anfantais drwy beidio â chael yr un model ag a ddefnyddir yn Lloegr, yr Alban neu yn rhywle arall, oherwydd ein bod wedi bod yn gweithredu system wahanol yng Nghymru i'r un yn Lloegr ers 2005. Felly, nid oes unrhyw dystiolaeth fod gwahanol fodelau yn anfanteisio un grŵp o ffermwyr dros un arall yn yr achos hwn.

17:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, Kirsty Williams.

Yn olaf, Kirsty Williams.

17:05

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, and I draw Members' attention to my interest, as registered in the Members' register of interest, that my husband is a partner in a farming business.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, ac rwyf yn tynnu sylw'r Aelodau at fy muddiant, fel sydd wedi'i gofrestru yng nghofrestr buddiannau yr Aelodau, fod fy ngŵr yn bartner mewn busnes ffermio.

Minister, this will be very disappointing news for many farmers in my own constituency, because, rather than the ill-informed comments we heard earlier, the people who will potentially lose out most under this scheme are actually those in highly stocked areas—i.e., the farmers who don't have massive land holdings, but actually produce the most food and produce out of those holdings. Given that they are to be the largest losers in this, what steps will you take to ensure that the rural development plan enables schemes to be put in place to get money back onto those farms to assist them to do what they have always done, which is produce first-quality beef and sheep here in Wales?

Weinidog, bydd hyn yn newyddion siomedig iawn i lawer o ffermwyr yn fy etholaeth i, oherwydd, yn hytrach na'r sylwadau anwybodus y clywsom yn gynharach, y bobl a fydd o bosibl yn cael y golled fwyaf o dan y cynllun hwn fydd, mewn gwirionedd, y rhai hynny mewn ardaloedd â llawer o stoc—hynny yw y ffermwyr nad oes ganddynt daliadau tir enfawr, ond sydd mewn gwirionedd yn cynhyrchu'r mwyaf o fwyd o'r daliadau hynny. O ystyried mai nhw fydd y rhai a fydd fwyaf ar eu colled yn hyn, pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i sicrhau bod y cynllun datblygu gwledig yn galluogi cynlluniau i gael eu rhoi ar waith i gael arian yn ôl i'r ffermydd hynny i'w cynorthwyo i wneud yr hyn y maent wedi ei wneud erioed, sef cynhyrchu eidion a defaid o'r ansawdd gorau yma yng Nghymru?

Secondly, you seem to have ruled out the issue of remapping, because of the threat of Britain leaving the EU because of the referendum. Would you give a commitment here that, when that referendum is held and, hopefully, people vote to stay in the EU, that does then give us an opportunity to look at a remapping exercise, either for a mid-term review, or, if that's impossible, we could have a remapping exercise ready for the next series of CAP reform, so that we can move to a system that differentiates between parcels of land and those that are producing the most? Surely, food security and food production should be the ultimate policy aim of any agricultural Minister.

Yn ail, mae'n ymddangos eich bod wedi diystyru y mater o ailfapio, oherwydd y bygythiad o Brydain yn gadael yr UE oherwydd y refferendwm. A wnewch chi roi ymrwymiad yma, pan gynhelir y refferendwm, a gobeithio, y bydd pobl yn pleidleisio i aros yn yr UE, y bydd hynny'n rhoi cyfle i ni edrych ar ymarfer ailfapio, naill ai ar gyfer adolygiad canol tymor, neu, os yw hynny'n amhosibl, gallem gael ymarfer ailfapio yn barod ar gyfer y gyfres nesaf o ddiwygiadau i'r PAC, fel y gallwn symud i system sy'n gwahaniaethu rhwng parseli o dir a'r rhai hynny sy'n cynhyrchu'r mwyaf? Siawns mai diogelu cyflenwadau bwyd a chynhyrchu bwyd ddylai fod amcan polisi pwysicaf unrhyw Weinidog amaeth.

17:07 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. I think it's fair to say that it's a subjective and generalised view that smaller farms are less productive, but then, equally, the flipside applies as well, because numerous factors impact on productivity on farms. A small farm could be highly productive because of its land, location and operational practices, whilst a large farm could be less productive for exactly the same kind of reasons. So, the level of subsidy received is not a determining factor in terms of whether a farm is productive or not. For example, some semi-intensive dairy farms are very productive, yet they're likely to—well, they will—benefit from redistribution, but they're likely not to be attracting those large subsidies of some of the bigger farms.

Diolch i chi am hynna. Rwy'n credu ei bod yn deg i ddweud mai barn oddrychol a chyffredinol yw y bydd ffermydd llai o faint yn llai cynhyrchiol, ond wedyn, yn yr un modd, mae'r ochr arall yn berthnasol hefyd, oherwydd bod nifer o ffactorau yn effeithio ar gynhyrchiant ar ffermydd. Gallai fferm fechan fod yn hynod gynhyrchiol oherwydd ei thir, ei lleoliad a'i harferion gweithredu, pan allai fferm fawr fod yn llai cynhyrchiol am yn union yr un fath o resymau. Felly, nid yw lefel y cymhorthdal a dderbyniwyd yn ffactor o ran penderfynu a yw fferm yn gynhyrchiol ai peidio. Er enghraifft, mae rhai ffermydd llaeth lled-ddwys yn gynhyrchiol iawn, ac eto maent yn debygol o—wel, fe fyddant—yn elwa ar ailddosbarthu, ond maent yn debygol o beidio â denu y cymorthdaliadau mawr hynny a gaiff rai o'r ffermydd mwy o faint.

In terms of remapping, I hope I've made it clear that remapping won't happen now within this reform period, but, subject to all of those caveats that I outlined earlier, I'm keeping an open mind to it for the future.

O ran ailfapio, rwyf yn gobeithio fy mod i wedi ei gwneud yn glir na fydd ailfapio yn digwydd bellach o fewn y cyfnod diwygio, ond, yn ddarostyngedig i'r holl gafeatau hynny a amlinellais yn gynharach, rwyf yn cadw meddwl agored ynglŷn â hynny ar gyfer y dyfodol .

17:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Weinidog.

Thank you very much, Minister.

17:08

Senedd.tv Fideo Video

## 7., 8. & 9. Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru), Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru), a Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru)

## 7., 8. & 9. The Higher Education (Fee and Access Plans) (Wales) Regulations, the Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations, and the Higher Education (Designation of Providers of Higher Education) (Wales) Regulations

Y

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now have three motions to approve higher education regs. In accordance with Standing Order 12.24, I propose that the motions under items 7, 8 and 9 are grouped for debate. Does any Member object? I call the Minister for Education and Skills to move the motions.

Mae gennym yn awr dri chynnig i gymeradwyo rheoliadau addysg uwch. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.24, rwyf yn cynnig bod y cynigion o dan eitemau 7, 8 a 9 yn cael eu grwpio ar gyfer y ddadl. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynnig y cynigion.

Cynnig NDM5803 Jane Hutt

Motion NDM5803 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mehefin 2015.

Approves that the draft The Higher Education (Fee and Access Plans) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 16 June 2015.

Cynnig NDM5804 Jane Hutt

Motion NDM5804 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mehefin 2015.

Approves that the draft The Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 16 June 2015.

Cynnig NDM5805 Jane Hutt

Motion NDM5805 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mehefin 2015.

Approves that the draft The Higher Education (Designation of Providers of Higher Education) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 16 June 2015.

*Cynigiwyd y cynigion.*

*Motions moved.*

17:09

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Following Royal Assent to the Higher Education (Wales) Act 2015 on 12 March this year, I am pleased to present three sets of regulations for approval. The Act established a comprehensive regulatory framework for higher education in Wales. Regulations are now required to ensure the framework operates effectively.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yn dilyn Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ar 12 Mawrth eleni, rwyf yn falch o gyflwyno tair set o reoliadau i'w cymeradwyo. Sefydlodd y Ddeddf fframwaith rheoleiddio cynhwysfawr ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Bellach mae angen rheoliadau i sicrhau bod y fframwaith yn gweithredu'n effeithiol.

The first set of regulations, the Higher Education (Fee and Access Plans) (Wales) Regulations 2015, prescribe the arrangements for applying for approval of a fee and access plan. These plans are central to the operation of the regulatory framework. A provider of higher education that has an application for a fee and access plan approved becomes subject to the provisions of the Act. The regulations include provisions that require institutions to maintain their focus on promoting equality of opportunity, ensuring higher education remains accessible to all.

Mae'r set gyntaf o reoliadau, Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015, yn rhagnodi trefniadau ar gyfer gwneud cais i gymeradwyo cynlluniau ffioedd a mynediad. Mae'r cynlluniau hyn yn ganolog i weithrediad y fframwaith rheoleiddio. Mae darparwr addysg uwch sy'n sicrhau cymeradwyaeth i gais am gynllun ffioedd a mynediad yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf. Mae'r rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau barhau i roi pwyslais ar hyrwyddo cyfle cyfartal, gan sicrhau bod addysg uwch yn parhau i fod yn hygyrch i bawb.

Secondly, the Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations 2015 prescribe the maximum tuition fee that institutions may charge qualifying persons pursuing qualifying courses. The maximum fee remains at £9,000, with lower rates for certain other courses. This fee limit, together with financial support from the Welsh Government, ensures higher education remains affordable.

Yn ail, mae Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 yn rhagnodi uchafswm y ffioedd dysgu y gall sefydliadau eu codi ar bobl gymwys sy'n dilyn cyrsiau cymwys. £9,000 yw'r ffi uchaf o hyd gyda chyfraddau is ar gyfer cyrsiau penodol eraill. Mae'r terfyn ffioedd, ynghyd â chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, yn sicrhau bod addysg uwch yn parhau i fod yn fforddiadwy.

Finally, the Higher Education (Designation of providers of Higher Education) (Wales) Regulations 2015 enable providers not normally treated as an institution for the purpose of the Act to apply to the Welsh Ministers to be designated as an institution. This allows the provider to seek approval of a fee and access plan.

Yn olaf, mae Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015 yn galluogi darparwyr nad ydynt fel arfer yn cael eu trin fel sefydliad at ddibenion y Ddeddf i wneud cais i Weinidogion Cymru i gael eu dynodi fel sefydliad. Mae hyn yn caniatáu i'r darparwr geisio cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad.

I consulted on these regulations earlier this year. Changes were made to the Higher Education (Fee and Access Plans) (Wales) Regulations 2015 as a result. These regulations, together with two further sets, which are to be laid using the negative procedure, are an indispensible part of the regulation of higher education in Wales. Effective, proportionate regulation is important if our institutions and students are to thrive. I ask Members to support the motions.

Ymgynghorais ar y rheoliadau hyn yn gynharach eleni. Gwnaed newidiadau i Reoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015 o ganlyniad. Mae'r rheoliadau hyn, ynghyd â dwy set arall, sydd i'w gosod gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol, yn rhan anhepgor o'r broses o reoleiddio addysg uwch yng Nghymru. Mae rheoleiddio effeithiol a chymesur yn bwysig er mwyn i'n sefydliadau a'n myfyrwyr ffynnu. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r cynigion.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:11.*

*The Presiding Officer took the Chair at 17:11.*

17:11

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fe fyddaf i a Phlaid Cymru yn cefnogi'r rheoliadau hyn, ond hoffwn jest gyfle i ofyn ychydig o gwestiynau i'r Gweinidog sy'n deillio o'r rheoliadau a sut mae'n bwriadu i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn benodol eu gweithredu nhw.

Plaid Cymru and I will support these regulations, but I'd just like the opportunity to ask a few questions of the Minister arising from the regulations and how he intends the Higher Education Funding Council for Wales specifically to implement them.

Yn gyntaf oll, ynglŷn â dynodi sefydliadau a fydd yn gallu gweithio yn y maes yng Nghymru, a all y Gweinidog jest esbonio sut mae'n gallu lleihau biwrocratiaeth yn y broses yma, ac yn benodol hefyd sut mae'n delio â cheisiadau gan fudiadau o'r tu faes i Gymru a fydd efallai yn cynnig cyrsiau addysg uwch yng Nghymru, a'r berthynas rhyngddyn nhw? A fydd arnyn nhw angen cynlluniau ffioedd a mynediad? Achos mae'n ymddangos i fi bod y Ddeddf a'r rheoliadau yn caniatáu i hynny ddigwydd.

First of all, regarding the designation of institutions that will be able to work in this field in Wales, could the Minister just explain how he can reduce bureaucracy in this process and also specifically how he will deal with applications from institutions outside Wales, which may provide higher education courses in Wales, and the relationship between them? Will they need fee and access plans? Because it appears to me as though the Act and the regulations permit that to happen.

A throi at y cynlluniau ffioedd a mynediad, mae'r rhain yn bwysig iawn, wrth gwrs, i bolisi cyhoeddus y Llywodraeth, ac roedden nhw wedi cael cefnogaeth Plaid Cymru yn y Mesur, sydd nawr yn Ddeddf. Hoffwn i ofyn, serch hynny, a fydd yna fwy o ganllawiau neu feini prawf yn cael eu cyhoeddi, efallai gan y cyngor cyllido addysg uwch, ynglŷn â'r ffordd y byddan nhw nawr yn mesur prifysgolion a didoli y cynlluniau hyn, yn enwedig gan fod y rheoliadau yn sôn am bethau megis hyfywedd cyllidol sefydliadau a safon neu ansawdd addysg yn y sefydliadau hynny. Mae'r rhain yn anodd eu mesur, ac yn anodd rhoi bys arnyn nhw o bryd i'w gilydd, ac mae'n amlwg bod honno'n broses rhagweithiol, efallai, a rhyngweithiol gan y cyngor cyllido gyda'r sefydliadau dan sylw. Tybed a oes yna fwriad cyhoeddi mwy o fanylion a mwy o feini prawf—nid fel rheoliadau cyfreithiol ond fel canllawiau ar gyfer y sefydliadau.

Turning to the fee and access plans, these are extremely important, of course, to the Government's public policy, and they had the support of Plaid Cymru when they were in the Bill, which is now an Act. I would like to ask, however, whether further guidance or criteria will be published, perhaps by the higher education funding council, on how they will now benchmark universities and separate these plans, particularly as the regulations talk of such things as the financial viability of institutions and the quality or standard of education within those institutions. These are difficult to quantify, and sometimes difficult to put one's finger on, and that is clearly a proactive and perhaps interactive process on the part of HEFCW with the institutions concerned. I wonder whether you intend to publish more details and more criteria—not as legal regulations, necessarily, but as guidance for the institutions.

Yn olaf, os ydw i'n gallu troi at y rheoliadau sy'n dynodi £9,000 fel yr uchafswm sy'n gallu cael ei godi yng Nghymru, rŷm ni'n derbyn mai dyna yw'r sefyllfa o hyd oherwydd cyflwyno ffioedd dysgu—gan y Blaid Lafur, fel mae'n digwydd, yn y lle cyntaf—ond beth fydd y drefn os bydd ffioedd dysgu'n cael eu codi yn Lloegr o hyn ymlaen? Mae yna drafod sylweddol yn digwydd yn San Steffan am hyn, ac nid yw'r Gweinidog prifysgolion, Jo Johnson, wedi dweud na fydd yn codi ffioedd, ac felly mae'n bosibl y bydd y Llywodraeth yn sybsideiddio ffioedd i fyfyrwyr sy'n astudio yn Lloegr sy'n uwch na £9,000, ond drwy'r rheoliadau hyn wedi cyfyngu prifysgolion yng Nghymru i £9,000. A oes rhaid aros am set arall o reoliadau i ymateb i sefyllfa a allai newid yn Lloegr?

Finally, if I may turn to the regulations that denote £9,000 as the maximum amount that can be charged in Wales, we accept that that is the situation because of the introduction of tuition fees—by the Labour Party, as it happens, in the first place—but what will the position be if tuition fees are increased in England in future? There is significant debate under way in Westminster about this, and the Minister for universities, Jo Johnson, hasn't stated that he won't increase fees, and therefore there is a possibility that the Government will be subsidising the tuition fees of students studying in England, which are higher than £9,000, but through these regulations limiting universities in Wales to £9,000. Do we have to wait for another set of regulations to respond to a situation that could change in England?

17:14 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Byddwn ni hefyd fel grŵp yn cefnogi'r rheoliadau, ond rwyf i hefyd yn awyddus i wrando ar beth sydd gan y Gweinidog i'w ddweud ynghylch, hwyrach, newid polisïau yn Lloegr a sut y byddai hynny'n gweithredu o ran rheoliadau ychwanegol yma. A gaf i jest hefyd ofyn ynglŷn â'r cytundebau ffioedd a mynediad? Rydych chi'n gwybod bod gennym ni bryder ynghylch sefyllfa lle oedd yna fesur o resymoldeb ynglŷn â HEFCW yn tynnu y cytundeb yn ôl o ran prifysgolion. Roeddech chi'n dweud ar y pryd bod hyn yn dderbyniol o'ch rhan chi o achos bod HEFCW o dan reolau cyfraith weinyddol. Hoffem ni wybod hefyd a fydd yna ganllawiau ychwanegol ynglŷn â'r ffordd mae HEFCW yn mynd ati i ddweud wrth brifysgolion os oes ganddyn nhw unrhyw fath o bryderon ynghylch y ffordd mae'r cytundebau yna yn cael eu gweithredu.

We, as a group, will also be supporting the regulations, but I'm also keen to listen to what the Minister has to say about perhaps changing policies in England and how that would work in terms of additional regulations here. May I also just ask about the fee and access agreements? You know that we are concerned about the situation where there was a measure of reasonableness about HEFCW pulling back from the agreement in terms of universities. You said at the time that you considered this to be acceptable because HEFCW was under administrative law. We would also like to know whether there will be additional guidance on the way in which HEFCW will tell universities whether they have any concerns about the way in which those agreements are implemented.

17:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

17:15 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First of all, I don't blame Members for getting a few questions in while these regulations are passing through the Chamber—it's quite in order. In terms of—

Diolch ichi, Lywydd. Yn gyntaf oll, nid wyf yn gweld bai ar yr Aelodau am ofyn ychydig o gwestiynau tra bo'r rheoliadau hyn yn pasio drwy'r Siambr—mae'n eithaf priodol. O ran—

17:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It is in order.

Mae'n dderbyniol.

17:15 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, since you didn't overrule it, Presiding Officer, I assumed it was in order.

Wel, gan na wnaethoch ei wrthod, Lywydd, roeddwn yn cymryd yn ganiataol ei fod yn dderbyniol.

In terms of developments in England, of course, we will have to see what emerges from the deliberations of the Government in Whitehall. We here in Wales are awaiting the publication of the Diamond review, and his factual report will be with us this autumn, and we will make decisions in the best interests of Welsh students and Welsh institutions. We always have to pay mind to what is going on in England, of course, because we have such a large neighbour and such a permeable border, but developments in England do not dictate policy here in Wales.

O ran datblygiadau yn Lloegr, wrth gwrs, bydd yn rhaid inni weld beth a ddaw o drafodaethau'r Llywodraeth yn Whitehall. Rydym ni yma yng Nghymru'n aros am gyhoeddi adolygiad Diamond, a bydd ei adroddiad ffeithiol gyda ni yn yr hydref, a byddwn yn gwneud penderfyniadau er lles myfyrwyr Cymru a sefydliadau Cymru. Rhaid inni bob amser dalu sylw i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, wrth gwrs, gan fod gennym gymydog mor fawr a ffin mor hydraidd, ond nid yw datblygiadau yn Lloegr yn pennu polisi yma yng Nghymru.

In terms of the various questions surrounding HEFCW, I will be making further separate announcements on that and other issues connected to HEFCW very soon—this summer. Many of the questions that have been posed this afternoon, I hope, will be answered as a result of the announcement that I make.

O ran y cwestiynau amrywiol ynghylch CCAUC, byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach ar wahân ar hynny a materion eraill sy'n gysylltiedig â CCAUC yn fuan iawn—yr haf yma. Bydd nifer o'r cwestiynau sydd wedi cael eu holi'r prynhawn yma, rwyf yn gobeithio, yn cael eu hateb yn sgil y cyhoeddiad a wnaf.

In terms of fee and access plans being required of institutions that are currently operating only outside Wales, yes, the regulations fit with the Act, of course, and the Act was always intended to accommodate the possibility that new institutions would wish to set up shop here in Wales. It certainly isn't the case that we would want to close off options. The usual criteria would apply—charitable status and so on. But, I hope Members will see that today's regulations are a very necessary part of the good operation of the Higher Education (Wales) Act 2015—indispensable, in fact—and I hope they will support the motions here this afternoon.

O ran bod cynlluniau ffioedd a mynediad yn ofynnol ar gyfer sefydliadau sy'n gweithredu y tu allan i Gymru yn unig ar hyn o bryd, ydyn, mae'r rheoliadau yn cyd-fynd â'r Ddeddf, wrth gwrs, a bwriad y Ddeddf bob amser oedd darparu ar gyfer y posibilrwydd y byddai sefydliadau newydd yn dymuno ymsefydlu yma yng Nghymru. Yn sicr, nid yw'n wir y byddem am wrthod opsiynau. Byddai'r meini prawf arferol yn berthnasol— statws elusennol ac yn y blaen. Ond, rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n gweld bod y rheoliadau heddiw yn rhan angenrheidiol iawn o weithrediad da Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015—yn anhepgor, mewn gwirionedd—ac rwyf yn gobeithio y byddant yn cefnogi'r cynigion yma y prynhawn yma.

17:17

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion under item 7. Does any Member object? No objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig o dan eitem 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next proposal is to agree the motion under item 8. Does any Member object? No objections. Therefore, item 8 is agreed.

Y cynnig nesaf yw cytuno ar y cynnig o dan eitem 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, caiff eitem 8 ei derbyn.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And finally, the motion under item 9. Does anyone object? No objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Ac yn olaf, y cynnig o dan eitem 9. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:18

# 10. & 11. Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 a Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Mentrau Cymdeithasol, Cydweithredol a Thrydydd Sector) (Cymru) 2015

# 10. & 11. The Care and Support (Partnership Arrangements for Population Assessments) (Wales) Regulations 2015 and the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (Social Enterprise, Co-operative and Third Sector) (Wales) Regulations 2015

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 10, which is the Care and Support (Partnership Arrangements for Population Assessments) (Wales) Regulations 2015 and the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (Social Enterprise, Co-operative and Third Sector) (Wales) Regulations 2015. I call on the Minister for Health and Social Services to move the motions.

Symudwn yn awr at eitem 10, sef Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Mentrau Cymdeithasol, Cydweithredol a Thrydydd Sector) ( Cymru) 2015. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynigion.

Cynnig NDM5806 Jane Hutt

Motion NDM5806 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2015.

Approves that the draft The Care and Support (Partnership Arrangements for Population Assessments) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 12 June 2015.

Cynnig NDM5807 Jane Hutt

Motion NDM5807 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Mentrau Cymdeithasol, Cydweithredol a Thrydydd Sector) (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2015.

Approves that the draft The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (Social Enterprise, Co-operative and Third Sector) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 12 June 2015.

*Cynigiwyd y cynigion.*

*Motions moved.*

17:18

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Lywydd. Rwy’n cynnig y cynnig. Mae’r ddau set o reoliadau sydd ger eich bron heddiw yn cefnogi rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith o fis Ebrill 2016 ymlaen. Mae’r ddau yn ymwneud â swyddogaethau yn Rhan 2 o’r Ddeddf honno. Cafodd ymgynghoriad 12 wythnos ei chael ar y rhain a’r codau ymarfer sy’n cyd-fynd â nhw. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 2 Chwefror. Mae drafft o’r cod ymarfer wedi cael ei gyhoeddi i helpu’r gwaith craffu, a bydd hwn yn cael ei osod gerbron y Cynulliad ym mis Tachwedd.

Thank you very much, Presiding Officer. I move the motion. The two sets of regulations before you today support the implementation of the Social Services Act and well-being (Wales) from April 2016. Both relate to functions in Part 2 of that Act. A 12-week consultation was held on these and on the codes of practice that accompany them. The consultation ended on 2 February. A draft of the code of practice has been published to inform scrutiny, and this will be laid before the Assembly in November.

In that context, Llywydd, the Care and Support (Partnership Arrangements for Population Assessments) (Wales) Regulations 2015 are issued under section 166 of the Act. They support the key requirement in section 14 for local authorities and local health boards jointly to undertake a population assessment of care and support needs. These regulations establish in law the partnership arrangements between each health board and the local authorities in the area of that health board for the purposes of undertaking a population assessment. The result will be seven combined population assessment reports covering the needs of people in the whole of the health board area, and each of those reports must be submitted to Welsh Ministers. A collaborative assessment will ensure local authorities and health boards work together to take a preventative approach to meeting care and support needs. Separate regulations under section 14 of the Act providing the detail of how a population assessment should be undertaken were also laid before the Assembly on 12 June. Those are subject to the negative procedure and, if all goes well, are scheduled to be completed by 16 September next. The same regulations require first population assessment reports to be published by April 2017.

Yn y cyd-destun hwnnw, Lywydd, mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 yn cael eu cyhoeddi dan adran 166 y Ddeddf. Maent yn cefnogi'r gofyniad allweddol yn adran 14 ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ar y cyd i gynnal asesiad poblogaeth o anghenion gofal a chymorth. Mae'r rheoliadau hyn yn sefydlu mewn cyfraith y trefniadau partneriaeth rhwng pob bwrdd iechyd a'r awdurdodau lleol yn ardal y bwrdd iechyd hwnnw at ddibenion cynnal asesiad o'r boblogaeth. Y canlyniad fydd saith adroddiad asesu poblogaeth cyfun sy'n ymdrin ag anghenion pobl yn holl ardal y bwrdd iechyd, a rhaid i bob un o'r adroddiadau hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru. Bydd asesiad ar y cyd yn sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio dull ataliol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth. Cafodd rheoliadau ar wahân dan adran 14 o'r Ddeddf yn darparu manylion ynghylch sut y dylid cynnal asesiad poblogaeth hefyd eu gosod gerbron y Cynulliad ar 12 Mehefin. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os bydd popeth yn mynd yn dda, y bwriad yw eu cwblhau erbyn 16 Medi y flwyddyn nesaf. Mae'r un rheoliadau'n mynnu bod yr adroddiadau asesu poblogaeth cyntaf yn cael eu cyhoeddi erbyn mis Ebrill 2017.

The consultation on the regulations before the National Assembly today involved 84 different responses. While no changes have been made to draft regulations, the supporting code of practice has been strengthened, and work has begun on the development of a toolkit, including a minimum data set and a template to be used in the assessment process.

Roedd yr ymgynghoriad ar y rheoliadau sydd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol heddiw yn cynnwys 84 o wahanol ymatebion. Er nad oes dim newidiadau wedi'u gwneud i'r rheoliadau drafft, mae'r cod ymarfer ategol wedi cael ei gryfhau, ac mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu pecyn cymorth, gan gynnwys set ddata sylfaenol a thempled i'w ddefnyddio yn y broses asesu.

Llywydd, a population assessment report must set out how local authorities and LHBs will take a preventative approach to meeting the needs identified. In that context, the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (Social Enterprise, Co-operative and Third Sector) (Wales) Regulations 2015 are one of the ways in which that preventative approach can be accomplished, as those regulations support the section 16 duty on local authorities to promote not-for-private-profit service models.

Lywydd, rhaid i adroddiad asesu poblogaeth nodi sut y bydd awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn arfer ymagwedd ataliol i ddiwallu anghenion a nodwyd. Yn y cyd-destun hwnnw, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rheoliadau (Mentrau Cymdeithasol, Cydweithredol a Thrydydd Sector) (Cymru) 2015 yn un o'r ffyrdd y gellir sicrhau’r ymagwedd ataliol honno, gan fod y rheoliadau hynny’n cefnogi’r ddyletswydd adran 16 ar yr awdurdodau lleol i hyrwyddo modelau gwasanaeth dielw preifat.

Consultation responses were strongly supportive of these draft regulations, particularly those around involving people as equal partners in these new forms of social enterprise. These regulations were revised in response to the consultation. The changes ensure definitions are in line with agreed and existing legal definitions. They take a broad view of what is meant by ‘social enterprise’ for the purpose of the Act. They are now clearer, I believe, and underscore the aim of putting people firmly at the centre, supporting our commitment to both equality and inclusion, and I commend both sets of regulations to Members this afternoon.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol iawn i’r rheoliadau drafft hyn, yn enwedig y rhai yn ymwneud â phobl fel partneriaid cyfartal yn y mathau newydd hyn o fentrau cymdeithasol. Cafodd y rheoliadau hyn eu hadolygu mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r newidiadau hyn yn sicrhau bod y diffiniadau’n cyd-fynd â’r diffiniadau cyfreithiol y cytunwyd arnynt ac sydd eisoes yn bodoli. Maent yn cymryd golwg eang o'r hyn a olygir wrth 'menter gymdeithasol' at ddibenion y Ddeddf. Maent yn awr yn gliriach, yn fy marn i, ac yn tanlinellu’r nod o roi pobl yn gadarn yn y canol, gan gefnogi ein hymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant, a chymeradwyaf y ddwy set o reoliadau i’r Aelodau’r prynhawn yma.

17:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We will discuss items 10 and 11 together, but they will be voted on separately. Lindsay Whittle.

Byddwn yn trafod eitemau 10 ac 11 gyda'i gilydd, ond pleidleisir arnynt ar wahân. Lindsay Whittle.

17:22

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Llywydd, I would like to make the point that there is no clear definition of what is meant by ‘the third sector’ in the explanatory memorandum. I think we must be aware that, with the Welsh Government’s option 2, as Kirsty Williams mentioned earlier on today, there is this danger of palming off responsibilities on local authorities, who then pass off much of their social care responsibilities to other organisations, both in the private and third sectors. So, I think that’s one that needs strict monitoring in the future. I also want to be sure what we mean by ‘involving’ service users and carers, and that this really does mean equal powers to make decisions and doesn’t just turn out to be a token gesture from the top down, really.

Lywydd, hoffwn wneud y pwynt nad oes diffiniad clir o'r hyn a olygir wrth 'y trydydd sector' yn y memorandwm esboniadol. Credaf fod yn rhaid inni fod yn ymwybodol, gydag opsiwn 2 Llywodraeth Cymru, fel y crybwyllodd Kirsty Williams yn gynharach heddiw, fod perygl o roi cyfrifoldebau i awdurdodau lleol, sydd wedyn yn trosglwyddo llawer o'u cyfrifoldebau gofal cymdeithasol i sefydliadau eraill, yn y sectorau preifat a'r trydydd sector. Felly, credaf fod angen monitro hynny’n ofalus yn y dyfodol. Rwyf hefyd am fod yn siŵr beth yw ystyr 'cynnwys' defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, a bod hyn mewn gwirionedd yn golygu pwerau cyfartal i wneud penderfyniadau, ac nad yw yn y pen draw yn ddim ond arwydd symbolaidd o'r brig i lawr, mewn gwirionedd.

The final point I want to make is that the memorandum refers to the fact that the Minister ‘may’ require local authorities and other bodies to report on their duties in implementing these regulations. We could—and some did—argue that this should be a requirement and not an option. If the Welsh Government is to monitor local authorities’ and other bodies’ compliance with the regulations, I think this again will be strictly monitored, and I think the Minister, as I recall—because these have been very complicated Bills—did give assurances to the Health and Social Care Committee and, of course, I always accept the Minister’s assurances.

Y pwynt olaf yr wyf am ei wneud yw bod y memorandwm yn cyfeirio at y ffaith y 'caiff' y Gweinidog ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff eraill adrodd ar eu dyletswyddau o ran gweithredu'r rheoliadau hyn. Gallem—ac fe wnaeth rhai—ddadlau y dylai hyn fod yn ofyniad ac nid yn opsiwn. Os yw Llywodraeth Cymru am fonitro cydymffurfiaeth awdurdodau lleol a chyrff eraill â'r rheoliadau, credaf y bydd hyn yn cael ei fonitro’n llym eto, a chredaf fod y Gweinidog, fel rwyf yn cofio—gan fod y rhain wedi bod yn Filiau cymhleth iawn—wedi rhoi sicrwydd i’r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac, wrth gwrs, rwyf bob amser yn derbyn sicrwydd y Gweinidog.

17:24 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I begin on the issue of partnership working? I think the regulations, in this regard, are to be welcomed. Everything that we can do to persuade, cajole or, in this case, compel through regulations, local authorities and health boards to work together is a step forward. If I may be parochial, I'm also grateful for the Minister's acknowledgment once again that Powys is different and that Powys has been able to have a separate organisation for the health board and the council to work together, rather than being hived off into chunks, which perhaps is the first instinct. So, I'm grateful to the Minister for that.

Hoffwn ddechrau drwy drafod gweithio mewn partneriaeth. Credaf fod y rheoliadau, yn hyn o beth, i'w croesawu. Mae popeth y gallwn ei wneud i ddarbwyllo, cymell neu, yn yr achos hwn, orfodi drwy reoliadau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i weithio gyda'i gilydd yn gam ymlaen. Os caf fod yn blwyfol, rwyf yn ddiolchgar hefyd am gydnabyddiaeth y Gweinidog unwaith eto fod Powys yn wahanol a bod Powys wedi gallu cael sefydliad ar wahân i'r bwrdd iechyd a'r cyngor i weithio gyda'i gilydd, yn hytrach na chael ei ddosrannu'n ddarnau, sef y reddf gyntaf efallai. Felly, rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am hynny.

Moving to the issue of alternative models of care, again, we are very supportive here of trying to develop new models of providing care within Wales, especially around co-operatives and not-for-profit organisations. I think perhaps we've been underdeveloped in that sector in the past, and whatever can be done to stimulate that sector is to be welcomed. Of course, the voluntary sector already does an absolutely huge amount in the field of health, social care and wellbeing across Wales, but my concern is, just like local authorities are hard pressed for resources at present, many voluntary sector organisations find it difficult to attract funding over a sustained period of time, which then allows them to enter with some confidence into contracts with local authorities or local health boards about their ability to deliver services. Sometimes, the way in which those third sector organisations are dealt with by statutory bodies is not what we would wish it to be. So, whilst we will be supporting these today, I am concerned whether we are truly confident that the third sector has the capacity to respond to the agenda that the Welsh Government is clearly setting out for it with regard to social care and wellbeing as we move forward.

A symud at fater modelau gofal amgen, unwaith eto, rydym yn gefnogol iawn yma i geisio datblygu modelau newydd o ddarparu gofal yng Nghymru, yn enwedig ynghylch cwmnïau cydweithredol, a sefydliadau dielw. Credaf efallai nad ydym wedi datblygu digon yn y sector hwnnw yn y gorffennol, ac mae beth bynnag y gellir ei wneud i ysgogi'r sector hwnnw i'w groesawu. Wrth gwrs, mae'r sector gwirfoddol eisoes yn gwneud llawer iawn ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar draws Cymru, ond fy mhryder i yw hyn: yn union fel y mae'r awdurdodau lleol yn cael trafferth o ran adnoddau ar hyn o bryd, mae llawer o sefydliadau yn y sector gwirfoddol yn ei chael yn anodd denu arian dros gyfnod estynedig, sydd wedyn yn eu galluogi i drefnu contractau â pheth hyder gydag awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd lleol ynghylch eu gallu i ddarparu gwasanaethau. Weithiau, nid yw'r ffordd y mae cyrff statudol yn ymdrin â'r sefydliadau trydydd sector hynny gystal ag y byddem yn dymuno iddi fod. Felly, er y byddwn yn cefnogi'r rhain heddiw, rwyf yn pryderu a ydym yn wirioneddol hyderus fod gan y trydydd sector y gallu i ymateb i'r agenda y mae Llywodraeth Cymru yn ei phennu'n glir ar ei gyfer o ran gofal cymdeithasol a lles wrth inni symud ymlaen.

17:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply to the debate.

Y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:26 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I thank both Members who've taken part in the debate. It is true that the Act does contain a definition of the third sector that is broad and encompassing, but it is deliberately drawn in that way because we want to make sure that the plurality of models that we hope to see in Wales in the future can all play their part within the Act. We didn't want a narrow definition that would lead to disputes as to whether or not organisations were capable of being treated as competent for the purposes that this Act sets out.

Diolch i'r ddau Aelod sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl. Mae'n wir fod y Ddeddf yn cynnwys diffiniad o'r trydydd sector sy'n eang ac yn cwmpasu llawer, ond mae wedi'i lunio yn y modd hwnnw yn fwriadol oherwydd ein bod eisiau gwneud yn siŵr bod lluosogrwydd y modelau yr ydym yn gobeithio eu gweld yng Nghymru yn y dyfodol i gyd yn gallu chwarae eu rhan yn y Ddeddf. Nid oedd arnom eisiau diffiniad cul a fyddai'n arwain at anghydfodau ynghylch p'un a oedd neu nad oedd sefydliadau yn gallu cael eu trin fel rhai cymwys at y dibenion y mae'r Ddeddf hon yn eu pennu.

I entirely agree with what Lindsay Whittle said, though, about the need to make sure that participation by users of services is genuine and is regarded as equally valuable as the contribution that providers of services make. That's the essence of the co-production model that we talk about in health and social care—that sense that all partners have important things to contribute and that those contributions are equally valuable while being different.

Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd Lindsay Whittle, fodd bynnag, am yr angen i sicrhau bod cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau yn ddilys ac yn cael ei ystyried yr un mor werthfawr â'r cyfraniad y mae darparwyr gwasanaethau yn ei wneud. Dyna hanfod y model cydgynhyrchu yr ydym yn sôn amdano mewn iechyd a gofal cymdeithasol—yr ymdeimlad fod gan yr holl bartneriaid bethau pwysig i'w cyfrannu a bod y cyfraniadau hynny'r un mor werthfawr er eu bod yn wahanol.

I repeat what I said before to Lindsay about the importance of monitoring the Act. We are very committed to doing that—to making sure that we learn the lessons from its implementation, and can have confidence that it's doing what we want it to do.

Ailadroddaf yr hyn a ddywedais o'r blaen wrth Lindsay am bwysigrwydd monitro'r Ddeddf. Rydym yn ymrwymedig iawn i wneud hynny—i sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o weithredu'r Ddeddf, ac y gallwn fod yn hyderus ei bod yn gwneud yr hyn yr ydym am iddi ei wneud.

Partnership working is absolutely at the core of the way that the Act was developed by Gwenda Thomas. Third sector organisations are full partners in the regional leadership arrangements that the Act sets out. They're there at the table as of right. They're there on the basis of equality with local authorities and with local health boards. In that sense, their contribution to partnership working is absolutely essential.

Mae gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd y ffordd y cafodd y Ddeddf ei datblygu gan Gwenda Thomas. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn bartneriaid llawn yn y trefniadau arweinyddiaeth ranbarthol y mae'r Ddeddf yn eu nodi. Maent yno wrth y bwrdd trwy hawl. Maent yno ar y sail eu bod yn gyfartal ag awdurdodau lleol ac â byrddau iechyd lleol. Yn hynny o beth, mae eu cyfraniad at weithio mewn partneriaeth yn gwbl hanfodol.

The development of new models, I think, is an enormous opportunity for some of our third sector partners to be able to put themselves on a more sustainable footing. The scale of what is provided by local authorities in the social care field is extensive. We want to rebalance that market by making sure there is greater plurality of providers with new models at their disposal, and, by being effective contributors in that field, I think third sector organisations will find that it is to their advantage in securing streams of funding that do not depend upon grant income, but where they are being paid for the service that they are providing in a proper way. So, there are challenges for all participants in the social care field, but I think these regulations provide far more opportunities for the third sector than they provide difficulties. I'm grateful for the support that other Members have provided and hope that that will translate into these regulations being passed by the Assembly this afternoon.

Credaf fod datblygu modelau newydd yn gyfle aruthrol i rai o'n partneriaid yn y trydydd sector i allu rhoi sylfaen fwy cynaliadwy iddynt eu hunain. Mae graddfa'r hyn a ddarperir gan awdurdodau lleol ym maes gofal cymdeithasol yn helaeth. Rydym yn awyddus i ailfantoli'r farchnad honno drwy sicrhau bod mwy o luosogrwydd o ran darparwyr a bod modelau newydd ar gael iddynt, a thrwy fod yn gyfranwyr effeithiol yn y maes hwnnw, credaf y bydd sefydliadau'r trydydd sector yn gweld ei bod o fantais iddynt sicrhau ffrydiau arian nad ydynt yn dibynnu ar incwm grant, ond eu bod yn cael eu talu am y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu mewn ffordd briodol. Felly, mae heriau i bawb sy'n cymryd rhan ym maes gofal cymdeithasol, ond credaf fod y rheoliadau hyn yn darparu llawer mwy o gyfleoedd i'r trydydd sector nag o anawsterau. Rwyf yn ddiolchgar am y gefnogaeth y mae Aelodau eraill wedi'i rhoi ac yn gobeithio y bydd hynny'n golygu y caiff y rheoliadau hyn eu pasio gan y Cynulliad y prynhawn yma.

17:29

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion under item 10. Does any Member object? No objections. Therefore, that motion is passed under Standing Order 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig o dan eitem 10. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei basio o dan Reol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The next proposal is to agree the motion under item 11. Does any Member object? No objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig nesaf yw cytuno ar y cynnig o dan eitem 11. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:30

# 12. Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)

# 12. Debate on the General Principles of the Renting Homes (Wales) Bill

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move on to item 12, which is a debate on the general principles of the Renting Homes (Wales) Bill. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Rydym bellach yn symud ymlaen at eitem 12, sef dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5808 Lesley Griffiths

Motion NDM5808 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru).

Agrees to the general principles of the Renting Homes (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Presiding Officer. I move the motion. I am pleased to open this debate on the general principles of the Renting Homes (Wales) Bill. I introduced the Bill into the Assembly in February. It is the second major piece of housing legislation introduced by this Government this term, and it too will make a significant difference to people's lives. The Bill complements what is now the Housing (Wales) Act 2014. Together, they will deliver significant improvements and contribute to our strategic priorities of more homes, better homes and better housing-related services. As the Communities, Equality and Local Government Committee concludes in its report, the Bill has received broad support from a wide range of organisations. The Bill has a solid evidence base, being founded on Law Commission recommendations. We worked closely with the commission and stakeholders in developing the Bill. Ninety-five per cent of White Paper respondents supported our proposals.

Diolch ichi, Lywydd. Cynigiaf y cynnig. Rwy'n falch o agor y ddadl hon ar egwyddorion cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru). Cyflwynais y Bil i'r Cynulliad ym mis Chwefror. Dyma'r ail ddarn pwysig o ddeddfwriaeth tai a gyflwynwyd gan y Llywodraeth hon y tymor hwn, a bydd hwn hefyd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl. Mae'r Bil yn ategu Deddf Tai (Cymru) 2014 fel y'i gelwir erbyn hyn. Gyda'i gilydd, byddant yn cyflwyno gwelliannau sylweddol ac yn cyfrannu at ein blaenoriaethau strategol, sef mwy o gartrefi, gwell cartrefi a gwell gwasanaethau ym maes tai. Fel y dywed y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ei adroddiad, mae'r Bil wedi cael cefnogaeth eang gan amrywiaeth eang o sefydliadau. Mae gan y Bil sylfaen dystiolaeth gadarn, gan iddo gael ei seilio ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r comisiwn a rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Bil. Roedd naw deg pump y cant o'r rhai a ymatebodd i'r Papur Gwyn yn cefnogi ein cynigion.

I cannot cover the Bill in detail now, but I will remind Members of its key proposals. The Bill will greatly simplify arrangements for renting a home, establishing a clear legal framework for renting from local authorities, housing associations and private landlords. I welcome the Constitutional and Legislative Affairs Committee's support for making housing law more accessible and easier to understand. A multitude of tenancies and licences will be replaced by two contracts: a secure contract, based on the local authorities' secure tenancy, and a standard contract similar to the assured shorthold tenancy. Most contractual terms will reflect provisions either in the Bill or in regulations made under the Bill. Landlords will be required to issue a written statement of the contract. This will set out the rights and responsibilities of the landlord and the tenant or licensee, referred to as a contract holder in the Bill. Disputes should be reduced due to greater clarity of those rights and responsibilities and will be easier to resolve if they do arise. We will make model written statements of contract freely available to landlords, which should save them time and money.

Nid wyf yn gallu ymdrin â'r Bil yn fanwl yn awr, ond hoffwn atgoffa'r Aelodau o'i gynigion allweddol. Bydd y Bil yn symleiddio'r trefniadau'n fawr ar gyfer rhentu cartref, gan sefydlu fframwaith cyfreithiol eglur ar gyfer rhentu oddi wrth awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a landlordiaid preifat. Rwy'n croesawu cefnogaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gyfer gwneud cyfraith tai yn fwy hygyrch ac yn haws ei deall. Bydd llu o denantiaethau a thrwyddedau yn cael eu disodli gan ddau gontract: contract diogel, yn seiliedig ar denantiaeth ddiogel yr awdurdodau lleol, a chontract safonol tebyg i'r denantiaeth fyrddaliol sicr. Bydd y rhan fwyaf o delerau'r contractau yn adlewyrchu darpariaethau naill ai yn y Bil neu mewn rheoliadau a wneir o dan y Bil. Bydd yn ofynnol i landlordiaid gyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'r contract. Bydd hwn yn nodi hawliau a chyfrifoldebau'r landlord a'r tenant neu drwyddedai, y cyfeirir ato fel deiliad contract yn y Bil. Dylai llai o anghydfodau godi oherwydd bod yr hawliau a'r cyfrifoldebau hynny'n fwy eglur, a bydd yn haws eu datrys os byddant yn codi. Byddwn yn sicrhau bod datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol o gontract ar gael yn rhwydd i landlordiaid, a dylai'r rhain arbed amser ac arian iddynt.

The Bill introduces other important changes. It offers more help for victims of domestic abuse by targeting perpetrators for eviction. It will require landlords to ensure rental properties are fit for human habitation and help protect against retaliatory eviction. The Bill provides greater flexibility for short-term renting and the operation of joint contracts, avoiding unintentional homelessness. It will enhance and standardise succession rights, including providing a succession right for carers. The Bill enables young people to rent a home and establishes a legal framework for supported housing. In creating a single social tenure, the Bill removes the threat of mandatory eviction for rent arrears from housing association tenants.

Mae'r Bil yn cyflwyno newidiadau pwysig eraill. Mae'n cynnig mwy o help i bobl sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig trwy dargedu troseddwyr ar gyfer troi allan. Bydd yn ofynnol i landlordiaid sicrhau bod eiddo ar rent yn ffit i bobl fyw ynddynt ac yn helpu i ddiogelu pobl rhag cael eu troi allan er mwyn dial. Mae'r Bil yn darparu mwy o hyblygrwydd ar gyfer rhentu tymor byr a gweithredu contractau ar y cyd, gan osgoi digartrefedd anfwriadol. Bydd yn gwella a safoni'r hawliau olyniaeth, gan gynnwys darparu hawl olyniaeth i ofalwyr. Mae'r Bil yn galluogi pobl ifanc i rentu cartref ac yn sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer tai â chymorth. Wrth greu un ddeiliadaeth gymdeithasol, mae'r Bil yn dileu'r bygythiad y gallai tenantiaid cymdeithasau tai gael eu troi allan yn orfodol am ôl-ddyledion rhent.

The Bill has been scrutinised by members of the Communities, Equality and Local Government Committee, the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and the Finance Committee. I'm grateful to the three Chairs, Christine Chapman, David Melding and Jocelyn Davies and to all Members for their thoughtful scrutiny. I'm also grateful to stakeholders for their evidence, which has contributed to robust scrutiny. Inevitably, some stakeholders do not agree totally with some aspects, but I do believe all recognise I am seeking to achieve balance in the Bill between the interests of landlords and those of contract holders. I'm carefully considering the committee's recommendations with a view to responding positively, where appropriate, to as many as possible either through Government amendments or by other means, such as regulations and guidance. For example, I note the concern raised by the Communities, Equality and Local Government Committee regarding temporary exclusions under the supported standard contract. As indicated in committee, I'm considering an amendment to enable guidance to be issued on the use of the power. Such guidance would address, for example, the seniority of the person deciding to exclude someone, referral to homelessness support, and ensuring that any exclusions are monitored closely.

Craffwyd ar y Bil gan aelodau o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a'r Pwyllgor Cyllid. Rwy'n ddiolchgar i'r tri Chadeirydd, Christine Chapman, David Melding a Jocelyn Davies ac i'r holl Aelodau am eu gwaith craffu meddylgar. Rwy'n ddiolchgar hefyd i randdeiliaid am eu tystiolaeth, sydd wedi cyfrannu at graffu cadarn. Yn anochel, mae rhai rhanddeiliaid nad ydynt yn cytuno'n llwyr â rhai agweddau, ond rwy'n credu eu bod i gyd yn cydnabod fy mod yn ceisio sicrhau cydbwysedd yn y Bil rhwng buddiannau landlordiaid a rhai deiliaid y contract. Rwy'n ystyried yn ofalus argymhellion y pwyllgor gyda golwg ar ymateb yn gadarnhaol, lle bo'n briodol, i gynifer ohonynt ag y bo modd naill ai drwy welliannau'r Llywodraeth neu drwy ddulliau eraill, megis rheoliadau a chanllawiau. Er enghraifft, nodaf y pryder a godwyd gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ynglŷn â gwaharddiadau dros dro dan y contract safonol â chymorth. Fel y nodwyd yn y pwyllgor, rwy'n ystyried gwelliant i alluogi canllawiau i gael eu cyhoeddi ar y defnydd o'r pŵer. Byddai canllawiau o'r fath yn mynd i'r afael, er enghraifft, â lefel swydd y sawl sy'n penderfynu gwahardd rhywun, atgyfeirio at gymorth digartrefedd, a sicrhau bod unrhyw waharddiad yn cael ei fonitro'n agos.

The committee's report also seeks clarity on links between the Bill and the Housing Wales Act 2014. There are significant links. For example, breaching the provisions of the Bill by a private landlord could lead to withdrawal of their licence to manage property under Part 1 of the 2014 Act. I would consider whether and how greater links can be made. I also note the committee's call for there to be a default model contract, which would apply where a landlord has not issued a written statement. I am as keen as the committee to avoid unnecessary recourse to the courts and will examine whether an amendment to the Bill could assist. Of course, we would want to ensure the contract holder would not be disadvantaged by such a change.

Mae adroddiad y pwyllgor hefyd yn gofyn am gael egluro'r cysylltiadau rhwng y Bil a Deddf Tai Cymru 2014. Ceir cysylltiadau sylweddol. Er enghraifft, pe bai landlord preifat yn torri darpariaethau'r Bil gallai ei drwydded i reoli eiddo dan Ran 1 o Ddeddf 2014 gael ei thynnu'n ôl. Byddwn yn ystyried a ellir gwneud mwy o gysylltiadau, a sut. Nodaf hefyd alwad y pwyllgor am gael contract enghreifftiol diofyn, a fyddai'n berthnasol lle nad yw landlord wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig. Rwyf mor awyddus â'r pwyllgor i osgoi gorfod troi at y llysoedd yn ddiangen a byddaf yn archwilio a fyddai gwelliant i'r Bil o gymorth. Wrth gwrs, byddem am sicrhau na fydd deiliad y contract dan anfantais oherwydd newid o'r fath.

Many Members have called for the mandatory installation of smoke and carbon monoxide detectors and for five-year electrical safety testing. These are excellent examples of how the power to make regulations concerning fitness for human habitation can be used progressively to improve quality. We're also looking to see if the existing power in the Bill can be broadened.

Mae llawer o Aelodau wedi galw am osod synwyryddion mwg a charbon monocsid gorfodol ac am brofi diogelwch trydanol bob pum mlynedd. Mae'r rhain yn enghreifftiau gwych o sut y gellir defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau ynghylch anheddau ffit i bobl fyw ynddynt mewn ffordd flaengar i wella ansawdd. Rydym hefyd yn ystyried a ellir ehangu'r pŵer presennol yn y Bil.

Regarding the Constitutional and Legislative Affairs Committee's report—

O ran adroddiad y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Materion Deddfwriaethol—

*Alun Davies a gododd—*

*Alun Davies rose—*

17:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:35

## Lesley Griffiths
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, sorry.

Gwnaf, mae'n ddrwg gennyf.

17:35

## Alun Davies
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You said there that you were looking towards broadening that existing power in the Bill. I wonder if you could just say a little more on that in your opening statement.

Rydych newydd ddweud eich bod yn ystyried ehangu'r pŵer presennol yn y Bil. Tybed a allech ddweud ychydig mwy am hynny yn eich datganiad agoriadol.

17:36

## Lesley Griffiths
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will come to that later on.

Byddaf yn dod at hynny yn nes ymlaen.

I welcome the finding that, broadly, the Bill strikes the right balance between primary and secondary legislation. The committee asked for clarification on the interaction between the Bill and human rights law. As with all Bills, careful consideration is given to the interface with the European Convention on Human Rights. I also consider that the Bill strikes the right balance between landlords' and contract holders' rights. The Presiding Officer determined the Bill was within the legislative competence of the Assembly and compliance with the convention is one aspect of competence.

Rwy'n croesawu'r canfyddiad bod y Bil, yn fras, yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Gofynnodd y pwyllgor am eglurhad o'r modd y mae'r Bil yn rhyngweithio â'r gyfraith hawliau dynol. Fel gyda phob Bil, rhoddir ystyriaeth ofalus i'r rhyngwyneb â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Rwyf hefyd o'r farn bod y Bil yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng hawliau landlordiaid a deiliaid contract. Penderfynodd y Llywydd bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac un agwedd ar gymhwysedd yw ei fod yn cydymffurfio â'r confensiwn.

In advance of Stage 2, I know Members would not expect me to set out in detail amendments the Welsh Government may introduce. However, a number of these will respond to recommendations from the committees and the views of other stakeholders.

Cyn Cyfnod 2, rwy'n gwybod na fyddai Aelodau'n disgwyl imi nodi'n fanwl y gwelliannau y gallai Llywodraeth Cymru eu cyflwyno. Fodd bynnag, bydd nifer o'r rhain yn ymateb i argymhellion gan y pwyllgorau a barn rhanddeiliaid eraill.

In response to Alun Davies's intervention, that is an issue that I'm currently discussing with stakeholders to find the best way forward, but I'm very happy to hear Members' contributions during this debate.

Mewn ymateb i ymyriad Alun Davies, mae hwnnw'n fater yr wyf wrthi'n ei drafod gyda rhanddeiliaid i ganfod y ffordd orau ymlaen, ond rwy'n falch iawn o glywed cyfraniadau Aelodau yn ystod y ddadl hon.

17:37

## Y Llywydd / The Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, Christine Chapman.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Christine Chapman.

17:37

## Christine Chapman
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I am pleased to contribute to this debate as the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee. I'd like to thank all those who gave evidence to us. Their contributions have greatly informed our work. In total, we've made 37 recommendations that we believe will strengthen the Bill and, given the time available, I will focus on just a few.

Diolch ichi, Lywydd. Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl hon fel Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth inni. Mae eu cyfraniadau wedi cyfrannu at ein gwaith yn fawr. Yn gyfan gwbl, rydym wedi gwneud 37 o argymhellion y credwn y byddant yn cryfhau'r Bil ac, o ystyried yr amser sydd ar gael, byddaf yn canolbwyntio ar ddim ond ychydig ohonynt.

Obviously, starting with the general principles, overall stakeholders were generally supportive of the main policy objectives of the Bill. However, we heard evidence that the Minister had missed the opportunity to make more significant improvements for those involved in renting homes in Wales. We agree with this view. We also believe that the Bill places too much reliance on the courts to resolve disputes between landlords and contract holders. But, again, I welcome any support there.

That said, in terms of consolidating and modernising the existing range of housing legislation, we could find little to object to, and, as such, we recommend that the Assembly agrees the general principles of the Bill. It seems to us that, in order to give full effect to the provisions in the Bill, considerable repeal and amendment of existing legislation will be needed and we believe that this information should have been included on the face of the Bill. As you know, Minister, we've recommended that the Minister publishes a list of all amendments and repeals to be made to existing legislation as a consequence of the Bill and that she does so before the committee completes its consideration of the Bill.

In relation to the provisions for supported standard contracts, we are concerned that the Bill will enable landlords to exclude a supported standard contract holder from their home for 48 hours without a court order and with no right of appeal. Contract holders in supported accommodation are likely to be vulnerable and, if excluded, may well be homeless for two days and at serious risk of harm. Additionally, they may find it difficult to seek legal advice or access support or medication during this period. We believe that a failure to have any form of independent review process could lead to a breach of the excluded person's right to a fair hearing under article 6 of the European Convention on Human Rights. Obviously, I was pleased with what the Minister commented on that and we look forward, Minister, to hearing more about that.

If I can just talk about the proposals for 16 and 17-year-olds to hold tenancies in their own right, Minister, we did applaud your intention to help young people secure their own accommodation, but we believe that these proposals may be unworkable in practice and have unintended effects. For example, we are concerned that 16 or 17-year-olds will have difficulty entering into contracts for gas and electricity as well as insurance for their possessions. The evidence we received suggested that, particularly in the private rented sector, landlords would be unlikely to enter into contracts with 16 and 17-year-olds. Additionally, we are concerned that the private sector may not provide the right support for these potentially vulnerable contract holders, who could be open to exploitation. We believe that the Minister should enable only community landlords to offer tenancies to 16 and 17-year-olds. This would ensure that potentially vulnerable young people are adequately protected and receive the right level of support.

Yn amlwg, gan ddechrau â'r egwyddorion cyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn gefnogol ar y cyfan i brif amcanion polisi'r Bil. Fodd bynnag, clywsom dystiolaeth fod y Gweinidog wedi colli'r cyfle i wneud gwelliannau mwy sylweddol ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â rhentu cartrefi yng Nghymru. Rydym yn cytuno â'r farn hon. Rydym hefyd yn credu bod y Bil yn dibynnu gormod ar y llysoedd i ddatrys anghydfodau rhwng landlordiaid a deiliaid contract. Ond, unwaith eto, rwy'n croesawu unrhyw gymorth yn hynny o beth.

Wedi dweud hynny, o ran atgyfnerthu a moderneiddio'r ystod bresennol o ddeddfwriaeth tai, ni allem weld fawr ddim i'w wrthwynebu, ac, o ganlyniad, rydym yn argymell bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Mae'n ymddangos i ni y bydd angen cryn ddiddymu a diwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, er mwyn rhoi effaith lawn i'r darpariaethau yn y Bil, ac rydym yn credu y dylai'r wybodaeth hon fod wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil. Fel y gwyddoch, Weinidog, rydym wedi argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi rhestr o'r holl welliannau a diddymiadau sydd i'w gwneud i'r ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad i'r Bil, a'i bod yn gwneud hynny cyn i'r pwyllgor orffen ystyried y Bil.

O ran y darpariaethau ar gyfer contractau safonol â chymorth, rydym yn pryderu y bydd y Bil yn galluogi landlordiaid i wahardd deiliad contract safonol â chymorth o'u cartref am 48 awr heb orchymyn llys ac heb unrhyw hawl i apelio. Mae deiliaid contractau mewn llety â chymorth yn debygol o fod yn agored i niwed ac, os cânt eu gwahardd, gallant yn hawdd fod yn ddigartref am ddau ddiwrnod ac mewn perygl difrifol o niwed. Yn ogystal, efallai y byddant yn ei chael yn anodd ceisio cyngor cyfreithiol neu gael gafael ar gefnogaeth neu feddyginiaeth yn ystod y cyfnod hwn. Rydym yn credu y gallai'r ffaith nad oes unrhyw fath o broses adolygu annibynnol arwain at dorri hawl y person a waharddwyd i gael gwrandawiad teg o dan erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn amlwg, roeddwn yn falch o'r hyn a ddywedodd y Gweinidog ynglŷn â hynny ac edrychwn ymlaen, Weinidog, at glywed mwy am hynny.

Os caf fi siarad am y cynigion i ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed ddal tenantiaethau eu hunain, Weinidog, gwnaethom ganmol eich bwriad i helpu pobl ifanc i sicrhau eu llety eu hunain, ond rydym yn credu y gallai'r cynigion hyn fod yn anymarferol ac arwain at effeithiau anfwriadol. Er enghraifft, rydym yn bryderus y bydd pobl ifanc 16 neu 17 mlwydd oed yn ei chael yn anodd ymrwymo i gontractau ar gyfer nwy a thrydan yn ogystal ag yswiriant ar gyfer eu heiddo. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn awgrymu y byddai landlordiaid, yn enwedig yn y sector rhentu preifat, yn annhebygol o ymrwymo i gontractau gyda phobl ifanc 16 ac 17 oed. Yn ogystal, rydym yn pryderu na fydd y sector preifat, o bosibl, yn darparu'r cymorth cywir ar gyfer y deiliaid contract hyn a allai fod yn agored i niwed, ac yn agored i gael eu hecsbloetio. Rydym yn credu y dylai'r Gweinidog alluogi landlordiaid cymunedol yn unig i gynnig tenantiaethau i rai 16 a 17 mlwydd oed. Byddai hyn yn sicrhau bod pobl ifanc a allai fod yn agored i niwed yn cael eu diogelu'n ddigonol ac yn cael y lefel gywir o gefnogaeth.

Finally, in relation to the condition of rental properties, the Bill places an obligation on landlords to ensure that the condition of the property they are offering for rent is fit for human habitation. We feel that this part of the Bill could go further and needs further consideration. Now, while we support the Minister's aim of improving the condition of these properties for those living in them, we don't believe that the fitness for human habitation test in the Bill is sufficient to raise the standard of accommodation in the rental sector in a meaningful way.

Yn olaf, o safbwynt cyflwr eiddo ar rent, mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar landlordiaid i sicrhau bod cyflwr yr eiddo y maent yn ei gynnig i'w rentu yn ffit i bobl fyw ynddo. Rydym yn teimlo y gallai'r rhan hon o'r Bil fynd ymhellach a bod angen ei hystyried ymhellach. Nawr, er ein bod yn cefnogi nod y Gweinidog o wella cyflwr y cartrefi hyn ar gyfer y rhai sy'n byw ynddynt, nid ydym yn credu bod y prawf ffitrwydd i bobl fyw yn y Bil yn ddigon i godi safon y llety yn y sector rhentu mewn ffordd ystyrlon.

In 2006, the Scottish Government introduced provisions requiring landlords to keep in repair their fixtures and fittings, furniture and white goods, and to ensure the property is wind and watertight. We believe that a similar requirement in Wales would represent a clear commitment by the Welsh Government to high-quality rented housing. So, as such, we recommend that the Minister reconsiders the criteria to be used for the fitness for human habitation test for the purpose of setting a more ambitious test.

Yn 2006, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban ddarpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gadw eu gosodiadau a ffitiadau, dodrefn a nwyddau gwyn mewn cyflwr da, a sicrhau bod yr eiddo yn dal gwynt a dŵr. Rydym yn credu y byddai gofyniad tebyg yng Nghymru yn dangos ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau ansawdd uchel tai rhent. Felly, fel y cyfryw, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ailystyried y meini prawf i'w defnyddio ar gyfer y prawf ffitrwydd i bobl fyw er mwyn pennu prawf mwy uchelgeisiol.

In conclusion, if the Assembly agrees the general principles of the Bill today, I look forward to the committee's consideration of amendments at Stage 2. Obviously, Minister, I look forward to the committee working with you in future on this as well.

I gloi, os bydd y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw, rwy'n edrych ymlaen at ystyriaeth y pwyllgor o'r gwelliannau yng Nghyfnod 2. Yn amlwg, Weinidog, edrychaf ymlaen at weld y pwyllgor yn gweithio gyda chi yn y dyfodol ar hyn hefyd.

17:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

17:42

## David Melding Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. We reported on this Bill on 24 June. Broadly speaking, we welcomed the balance between primary and secondary legislation and felt that the choice of procedure was appropriate in most cases. We also supported the Welsh Government's use of the Law Commission's expertise in drafting this Bill.

Diolch ichi, Lywydd. Cyflwynodd y pwyllgor adrodd ar y Bil hwn ar 24 Mehefin. Yn fras, roeddem yn croesawu'r cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ac yn teimlo bod y dewis o weithdrefn yn briodol yn y rhan fwyaf o achosion. Roeddem hefyd yn cefnogi'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio arbenigedd Comisiwn y Gyfraith wrth ddrafftio'r Bil hwn.

We only recommended a change of procedure on two sections—that's section 22 powers in relation to fundamental provisions, and section 254, about the Act coming into force. However, we did make recommendations on other areas of note, and I will now turn to those.

Ni wnaethom ond argymell newid y weithdrefn ar gyfer dwy adran—sef pwerau adran 22 o ran darpariaethau sylfaenol, ac adran 254 ynglŷn â'r Ddeddf yn dod i rym. Fodd bynnag, fe wnaethom argymhellion ar feysydd eraill o bwys, a byddaf yn troi yn awr at y rheini.

As the other committee noted, the Bill will require extensive repeal and amendment of existing legislation. We were not convinced by the arguments to place such important information in subordinate legislation, and we recommend that the repeals and amendments are placed on the face of the Bill.

Fel y nododd y pwyllgor arall, bydd y Bil yn golygu bod gofyn i ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes gael ei diddymu a'i diwygio'n helaeth. Ni chawsom ein hargyhoeddi gan y dadleuon o blaid rhoi gwybodaeth mor bwysig mewn is-ddeddfwriaeth, ac rydym yn argymell bod y diddymiadau a'r diwygiadau'n cael eu rhoi ar wyneb y Bil.

Can I turn to human rights issues? The Minister's evidence to the committee on human rights was very broad. It was therefore difficult to come to a view on whether there had been sufficient consideration of human rights, and we did invite her to make things clearer in this debate. I hope I'm not being hypercritical, but I don't think we advanced on that very much in your further assertions. Of course, you've used the Law Commission and I'm sure that you do believe it is robust, but, should this become an Act and any clauses in the Act are challenged on human rights grounds, the courts will look at our debates on those issues and how full a discussion was had on them, and may not be altogether reassured if we've not actually examined the Bill more rigorously from a human rights standpoint. So, I do urge you, either in your wind-up now, or when this Bill now proceeds, to make that process quite clear, and reassure us that it has been properly robust.

A gaf i droi at faterion hawliau dynol? Roedd tystiolaeth y Gweinidog i'r pwyllgor ar hawliau dynol yn fras iawn. Felly roedd yn anodd barnu a roddwyd ystyriaeth ddigonol i hawliau dynol, ac fe wnaethom ei gwahodd i wneud pethau'n gliriach yn y ddadl hon. Rwy'n gobeithio nad ydw i'n bod yn orfeirniadol, ond nid wyf yn meddwl ein bod wedi symud ymlaen rhyw lawer ar hynny yn eich sylwadau ychwanegol. Wrth gwrs, rydych chi wedi defnyddio Comisiwn y Gyfraith ac rwy'n siŵr eich bod yn credu ei fod yn gadarn, ond, pe byddai'r Bil hwn yn dod yn Ddeddf a bod unrhyw gymalau yn y Ddeddf yn cael eu herio ar sail hawliau dynol, bydd y llysoedd yn edrych ar ein dadleuon ar y materion hynny a pha mor llawn oedd y drafodaeth a gafwyd arnynt, ac efallai na fyddant yn hollol dawel eu meddwl os nad ydym mewn gwirionedd wedi edrych ar y Bil yn fwy trylwyr o safbwynt hawliau dynol. Felly, rwy'n eich annog, naill ai wrth ddirwyn i ben nawr, neu pan fydd y Bil hwn yn symud ymlaen, i wneud y broses honno'n hollol glir, a'n sicrhau y bu'r broses mor drylwyr ag y dylai fod.

The other matter we wanted to raise was the definition of anti-social behaviour. We felt that the current definition, which is contained in section 55, is very broad indeed and open to different interpretations. We recommended that the Welsh Government considered reviewing the definition to ensure the meaning is clear and gives sufficient weight to the seriousness of domestic abuse. We also called for the Welsh Government to provide more information in this debate on how the principle of proportionality applies to the current definition. I don't think the Minister referred to that; so, again, I hope you can make it clear specifically how being able to evict contract holders on this definition is to be considered a proportionate means of achieving a legitimate aim. It's a very, very broad definition and presumably you don't intend that its breach, in all its range, would trigger eviction. But you really do need to make this clear at some process of the legislative timetable.

Y mater arall yr oeddem yn awyddus i'w godi oedd y diffiniad o ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Rydym yn teimlo bod y diffiniad presennol, sy'n cael ei gynnwys yn adran 55, yn eang iawn ac yn agored i wahanol ddehongliadau. Fe wnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried adolygu'r diffiniad er mwyn sicrhau bod yr ystyr yn glir ac yn rhoi digon o bwys ar ddifrifoldeb cam-drin domestig. Roeddem hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu mwy o wybodaeth yn y ddadl hon ar sut y mae'r egwyddor o gymesuredd yn gymwys i'r diffiniad presennol. Nid wyf yn credu bod y Gweinidog wedi cyfeirio at hynny; felly, unwaith eto, rwy'n gobeithio y gallwch chi ei gwneud yn glir yn benodol sut y gellid ystyried bod y gallu i droi deiliaid contract allan ar sail y diffiniad hwn yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Mae'n ddiffiniad eang iawn, iawn ac rwy'n cymryd nad ydych yn bwriadu i rywun gael ei droi allan yn sgil ei dorri, yn holl amrywiaeth ei ystyr. Ond mae gwir angen i chi wneud hyn yn glir ar ryw gam o'r amserlen ddeddfwriaethol.

17:45

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

This afternoon I will be agreeing with the general principles of the Renting Homes (Wales) Bill. Current housing law is incredibly complex. It's made up of a patchwork of legislation and common law—in some cases, of course, dating back hundreds of years—and is full of inconsistencies.

Y prynhawn yma, byddaf yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru). Mae'r gyfraith bresennol ym maes tai yn hynod o gymhleth. Mae'n cynnwys clytwaith o ddeddfwriaeth a chyfraith gyffredin—mewn rhai achosion, wrth gwrs, yn dyddio'n ôl gannoedd o flynyddoedd—ac yn llawn anghysondebau.

The complexity of the current system opens the door for unfairness, confusion and sometimes exploitation. So, I fully support the purpose of the Bill. I want to see housing more simplified, made more accessible and understandable for everyone, and that is no easy task. I think the Minister is making a good start on that journey.

Mae cymhlethdod y system bresennol yn agor y drws i annhegwch, dryswch ac weithiau ecsbloetio. Felly, rwy'n llwyr gefnogi diben y Bil. Rwyf am weld maes tai yn symlach, yn fwy hygyrch a dealladwy i bawb, ac nid yw honno'n dasg hawdd. Rwy'n meddwl bod y Gweinidog yn gwneud cychwyn da ar y daith honno.

Now, of course, is the right time to act. Recent statistics show that home ownership has fallen for the first time in a century, while the number of people living in privately rented accommodation continues to rise. As the demographics of those living in rented accommodation changes it is more important than ever that tenants and landlords understand the rights and responsibilities that they have to each other. I'd certainly support measures that put a stop to the poor image, not always deserved, that the private rented sector has gained. Of course, we as Assembly Members never get to see the best of the sector, and we're only ever involved when things go badly wrong.

Nawr, wrth gwrs, yw'r adeg gywir i weithredu. Mae ystadegau diweddar yn dangos bod perchentyaeth wedi gostwng am y tro cyntaf mewn canrif, a bod nifer y bobl sy'n byw mewn llety rhent preifat yn parhau i godi. Wrth i ddemograffeg y rhai sy'n byw mewn llety rhent newid, mae'n bwysicach nag erioed bod tenantiaid a landlordiaid yn deall eu hawliau a'r cyfrifoldebau sydd ganddynt tuag at ei gilydd. Byddwn yn sicr yn cefnogi mesurau sy'n rhoi terfyn ar y ddelwedd wael sydd gan y sector rhentu preifat, nad yw'n haeddiannol bob amser. Wrth gwrs, nid ydym ni fel Aelodau Cynulliad byth yn cael gweld y sector ar ei orau, a dim ond pan fydd pethau'n mynd o chwith yn ddifrifol y byddwn ni'n ymwneud â'r maes.

However, I don't think that we should overstate the effect that the Bill will have. Many of those who currently rent their home, either in the private or the social rented sector, will be unlikely to see a huge change in their legal position. This Bill does little to address the really big issues that some renters are facing—the lack of housing supply, of course, and the dangers of poor conditions and exploitation by bad landlords who hold all the power as a result. So, we need to encourage good landlords, discourage bad ones. We also need to protect good tenants, and to deter bad tenants.

Fodd bynnag, nid wyf yn meddwl y dylem orbwysleisio'r effaith y bydd y Bil yn ei chael. Bydd llawer o'r rhai sy'n rhentu eu cartref ar hyn o bryd, naill ai yn y sector preifat neu'r sector rhentu cymdeithasol, yn annhebygol o weld newid mawr yn eu sefyllfa gyfreithiol. Nid yw'r Bil hwn yn gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â'r problemau mawr iawn y mae rhai rhentwyr yn eu hwynebu—y diffyg cyflenwad tai, wrth gwrs, a pheryglon llety o gyflwr gwael a chamfanteisio gan landlordiaid gwael sy'n dal yr holl bŵer o ganlyniad. Felly, mae angen inni annog landlordiaid da, peidio ag annog rhai gwael. Mae angen amddiffyn tenantiaid da hefyd, ac atal tenantiaid gwael.

We need to be cautious, I think, because given that the law is so complex, any changes made will need to be carefully considered to ensure that there are no unforeseen circumstances. It is worrying that we are yet to see a list of all the amendments and repeals to existing legislation that will be made as a result of the Bill. I hope the Minister will produce this shortly because you can't really expect the Assembly to pass legislation without informing us fully of the legal consequences that that legislation might have.

Mae angen inni fod yn ofalus, rwy'n meddwl, oherwydd o ystyried bod y gyfraith mor gymhleth, bydd angen ystyried unrhyw newidiadau a wneir yn ofalus er mwyn sicrhau nad oes unrhyw amgylchiadau annisgwyl. Mae'n destun pryder nad ydym eto wedi gweld rhestr o'r holl ddiwygiadau a diddymiadau a fydd yn cael eu gwneud i ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad i'r Bil. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn paratoi hon yn fuan oherwydd na allwch chi wir ddisgwyl i'r Cynulliad basio deddfwriaeth heb ein hysbysu'n llawn am y canlyniadau cyfreithiol y gallai'r ddeddfwriaeth honno eu cael.

The Stage 1 committee report lays out a number of important recommendations that the Minister should take on board. Provisions on joint tenancies, retaliatory eviction and the removal of the six-month moratorium on landlords recovering possession on the no-fault ground were of particular concern to many who responded to our inquiry. Now, these sections of the Bill should be improved and strengthened at Stage 2 to make things fairer for both landlords and tenants. I was very pleased to hear from the Minister earlier that she is considering changes, especially the electrical safety checks, and I look forward to seeing the Government amendments.

Mae'r adroddiad pwyllgor Cyfnod 1 yn nodi nifer o argymhellion pwysig y dylai'r Gweinidog eu hystyried. Roedd darpariaethau ar denantiaethau ar y cyd, troi allan er mwyn dial a chael gwared ar y moratoriwm chwe mis ar landlordiaid yn adennill meddiant ar sail dim bai yn peri pryder mawr i lawer a ymatebodd i'n hymchwiliad. Nawr, dylai'r adrannau hyn o'r Bil gael eu gwella a'u cryfhau yng Nghyfnod 2 i wneud pethau'n decach i landlordiaid a thenantiaid. Roeddwn yn falch iawn o glywed gan y Gweinidog yn gynharach ei bod yn ystyried newidiadau, yn enwedig yr archwiliadau diogelwch trydanol, ac edrychaf ymlaen at weld gwelliannau'r Llywodraeth.

I'm particularly concerned about the introduction of tenancies for 16 and 17-year-olds. Several respondents to the inquiry raised potential issues with offering legal contracts to those under the age of 18, including the difficulties in taking them to court if something goes wrong and the dangers that they will be unable to hold contracts for essential utilities—credit contracts, certainly. I'm more worried that the availability of tenancies for 16 and 17-year-olds in the private rented sector will be used by local authorities to avoid their responsibilities to vulnerable young people. Unless we see tenancies, of course, restricted to the social rented sector, and accompanied, I think, by a statutory requirement to give housing support and advice, we could see vulnerable young people being given a legal contract that they're ill-equipped to deal with rather than the support and care that they have a right to. So, the current ability, of course, to create a tenancy trust, works perfectly well and I'm not sure why there is a need for any change. I hope the Minister gives serious consideration to all the recommendations laid out in our report and is willing to engage with opposition parties and external organisations as we continue to scrutinise the Bill. I'm sure, together, we can strengthen and improve it and offer a fairer deal to landlords and tenants. So, I very much welcome the commitment by the Minister to be open-minded about amendments as we go forward to Stage 2 and Stage 3. Thank you, Presiding Officer.

Rwy'n arbennig o bryderus am gyflwyno tenantiaethau i bobl 16 a 17 mlwydd oed. Codwyd problemau posibl gan nifer o ymatebwyr i'r ymchwiliad o ran cynnig contractau cyfreithiol i bobl ifanc dan 18 oed, gan gynnwys y ffaith y byddai'n anodd mynd â nhw i'r llys pe byddai rhywbeth yn mynd o'i le a'r peryglon na fyddant yn gallu dal contractau ar gyfer cyfleustodau hanfodol—contractau credyd, yn sicr. Rwy'n poeni mwy y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r ffaith y bydd tenantiaethau ar gael i bobl 16 a 17 oed yn y sector rhentu preifat er mwyn osgoi eu cyfrifoldebau i bobl ifanc sy'n agored i niwed. Oni bai ein bod yn gweld cyfyngu tenantiaethau, wrth gwrs, i'r sector rhentu cymdeithasol, a gofyniad statudol yn cyd-fynd â hynny, rwy'n credu, i roi cymorth a chyngor ym maes tai, gallem weld pobl ifanc agored i niwed yn cael contract cyfreithiol nad oes ganddynt yr adnoddau i ddelio ag ef yn hytrach na'r cymorth a'r gofal y mae ganddynt hawl iddo. Felly, mae'r gallu presennol, wrth gwrs, i greu ymddiriedolaeth tenantiaeth, yn gweithio'n iawn ac nid wyf yn siŵr pam y mae angen unrhyw newid. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r holl argymhellion a nodir yn ein hadroddiad a'i bod yn barod i ymgysylltu â gwrthbleidiau a sefydliadau allanol wrth inni barhau i graffu ar y Bil. Rwy'n siŵr y gallwn ei gryfhau a'i wella, gyda'n gilydd, a chynnig bargen decach i landlordiaid a thenantiaid. Felly, rwy'n croesawu'n fawr yr ymrwymiad gan y Gweinidog i fod yn agored ei meddwl am welliannau wrth inni symud ymlaen i Gyfnod 2 a Chyfnod 3. Diolch ichi, Lywydd.

17:50

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We broadly agree with this Bill's objectives to simplify existing legislation, clarify relationships between landlords and tenants, promote understanding and ensure greater consistency of practice, but much more work is needed before the Bill becomes law. Above all, rather than repeat the mistakes of previous legislation, we must work with the sector and tenants to maximise housing supply and target bad landlords. As the committee report states,

Rydym yn cytuno'n fras ag amcanion y Bil hwn i symleiddio'r ddeddfwriaeth bresennol, gwneud y berthynas rhwng landlordiaid a thenantiaid yn fwy eglur, hyrwyddo dealltwriaeth a sicrhau ymarfer mwy cyson, ond mae angen gwneud llawer mwy o waith cyn i'r Bil ddod yn gyfraith. Yn fwy na dim, yn hytrach nag ailadrodd camgymeriadau deddfwriaeth flaenorol, rhaid inni weithio gyda'r sector a thenantiaid i gynyddu i'r eithaf y cyflenwad tai a thargedu landlordiaid gwael. Fel y mae adroddiad y pwyllgor yn datgan,

'Whilst simplification in itself is not without merit, there seems to be very little else within the Bill that will deliver clear improvement for Welsh contract-holders in the social and private rented sectors.'

'Er nad yw symleiddio ar ben ei hun yn beth drwg, ymddengys nad oes fawr ddim arall yn y Bil a fydd yn sicrhau gwelliannau clir i ddeiliaid contract yng Nghymru yn y sectorau rhentu cymdeithasol a phreifat.'

It adds:

Mae'n ychwanegu:

'Moreover, in some respects we have concerns that the Bill may put Wales in a less favourable position than other parts of the UK.'

'Ymhellach, i ryw raddau mae gennym bryderon y gallai'r Bil roi Cymru mewn sefyllfa lai ffafriol na rhannau eraill o'r DU.'

Whilst a disproportionate number of private tenants seek advice and guidance, the majority of landlords only make genuine errors and need help, not punishment, to improve. Landlords don't spend their time looking for the first opportunity to evict tenants, with only 7 per cent of all tenancies ended by the landlord. In their evidence, reputable landlords' organisations have welcomed the proposed end of the six-month moratorium on landlords being able to regain possession of their property where tenants are failing to pay their rent or committing anti-social or criminal activity. As a landlord choosing to house the hardest to home recently told me, the committee recommendation to instead prevent recovered possession during the first six months would undermine his continued work in this area. Shelter proposed instead a six-month probationary period on a monthly periodic basis, defaulting into secure terms at the end, and the Residential Landlords Association Cymru proposed a long-term tenancy agreement that will provide a tenant with the right to renew a tenancy for up to five years as well as maintaining the flexibility for contracts below six months, where chosen.

Er bod nifer anghymesur o denantiaid preifat yn gofyn am gyngor ac arweiniad, dim ond camgymeriadau gwirioneddol y mae mwyafrif y landlordiaid yn eu gwneud a help, nid cosb, sydd ei angen arnynt er mwyn gwella. Nid yw landlordiaid yn treulio'u hamser yn chwilio am y cyfle cyntaf i droi tenantiaid allan, gyda dim ond 7 y cant o'r holl denantiaethau'n cael eu terfynu gan y landlord. Yn eu tystiolaeth, mae sefydliadau landlordiaid cyfrifol wedi croesawu'r cynnig i roi terfyn ar y moratoriwm chwe mis ar allu landlordiaid i adennill meddiant o'u heiddo pan fo tenantiaid yn methu â thalu eu rhent neu'n cyflawni gweithgaredd gwrthgymdeithasol neu droseddol. Fel y clywais yn ddiweddar gan landlord sy'n dewis rhoi llety i'r mwyaf anodd eu cartrefu, byddai argymhelliad y pwyllgor i atal landlordiaid rhag adennill meddiant yn ystod y chwe mis cyntaf yn tanseilio ei waith parhaus yn y maes hwn. Cynigiodd Shelter gyfnod prawf o chwe mis yn lle hynny ar sail gyfnodol fisol, gan droi'n delerau sicr ar y diwedd, a chynigiodd Cymdeithas Landlordiaid Preswyl Cymru gytundeb tenantiaeth tymor hir a fydd yn rhoi'r hawl i denant adnewyddu tenantiaeth am hyd at bum mlynedd yn ogystal â chynnal hyblygrwydd ar gyfer contractau dan chwe mis, pan fydd pobl yn dewis hynny.

So, what assessment has the Minister made to provide greater security for tenants, while still maintaining the flexibility that has been crucial to the growth of the private rented sector to meet housing need? And what provisions has the Minister made for the inclusion of a default contract in the event that a landlord issues a contract informally or with unintentional mistakes?

Felly, pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud i roi mwy o sicrwydd i denantiaid, yn ogystal â pharhau i gynnal yr hyblygrwydd sydd wedi bod yn hanfodol i dwf y sector rhentu preifat er mwyn diwallu anghenion o ran tai? A pha ddarpariaethau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud i gynnwys contract diofyn rhag ofn y bydd landlord yn cyhoeddi contract yn anffurfiol neu gyda chamgymeriadau anfwriadol?

The committee recognised the need for safeguards to prevent proposals to address retaliatory evictions being used to delay claims for possession without justification. Implementation should target the minority of landlords who are criminals rather than increasing costs for good landlords. What safeguards, therefore, does the Minister proposes to ensure that this does not become a weapon against landlords trying to recover possession for genuine reasons, such as rent arrears?

Roedd y pwyllgor yn cydnabod yr angen am fesurau diogelu i atal pobl rhag defnyddio cynigion i fynd i'r afael ag achosion o droi allan er mwyn dial i oedi hawliadau am feddiant heb gyfiawnhad. Dylid targedu'r lleiafrif o landlordiaid sy'n droseddwyr yn hytrach na chynyddu costau i landlordiaid da. Pa fesurau diogelu, felly, y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cynnig i sicrhau na fydd hyn yn dod yn arf yn erbyn landlordiaid sy'n ceisio adennill meddiant am resymau dilys, megis ôl-ddyledion rhent?

Proposals in the Bill would mean that, where accommodation has been granted alongside a job but the job has not worked out—for example, through misconduct—the employer must give two months' notice to the occupier. In this situation, finding and housing a replacement can be a matter of urgency, especially in the rural economy. Both the Country Land and Business Association Cymru and RLA Cymru therefore gave evidence that service occupiers—those occupying property for the better performance of their job—should be excluded from the legislation. What assessment has the Minister made of the impact that this proposal would have in the rural economy?

Lle mae llety wedi cael ei roi ochr yn ochr â swydd ond nad yw'r swydd wedi gweithio—er enghraifft, drwy gamymddwyn— byddai cynigion yn y Bil yn golygu bod rhaid i'r cyflogwr roi dau fis o rybudd i'r meddiannydd. Yn y sefyllfa hon, gall canfod rhywun yn ei le a'i symud i mewn i'r llety fod yn fater o frys, yn enwedig yn yr economi wledig. Felly rhoddodd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru a Chymdeithas Landlordiaid Preswyl Cymru dystiolaeth y dylai meddiannydd gwasanaeth—pobl sy'n byw mewn eiddo er mwyn cyflawni eu swydd yn well—gael eu heithrio o'r ddeddfwriaeth. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y byddai'r cynnig hwn yn ei chael yn yr economi wledig?

Evidence to committee regarding the proposed fitness for human habitation standard noted that the problem is not the law but the lack of enforcement, and that a financial impact assessment would be needed. This requires co-working and co-regulation with the sector to make standards more usable for landlords and understandable to tenants. The committee acknowledged concerns raised about issues that may arise as a result of changes proposed by the Bill to the current law in relation to joint contracts. The burden on the remaining contract holder could be more than they could afford if one contract holder leaves, requiring not only guidance to prospective contract holders, but also the opportunity for the remaining contract holder to end the contract.

Nododd tystiolaeth i'r pwyllgor ynghylch y safon arfaethedig ar gyfer ffitrwydd i bobl fyw nad y gyfraith yw'r broblem, ond y diffyg gorfodi, ac y byddai angen asesiad o effaith ariannol. Mae hyn yn galw am weithio a rheoleiddio ar y cyd gyda'r sector i wneud safonau'n fwy ymarferol i landlordiaid eu defnyddio ac yn fwy dealladwy i denantiaid. Cydnabu'r pwyllgor bryderon a godwyd ynglŷn â materion a allai godi o ganlyniad i newidiadau a gynigir gan y Bil i'r gyfraith bresennol mewn perthynas â chontractau ar y cyd. Gallai'r baich ar y deiliad contract sy'n aros fod yn fwy nag y gallai ei fforddio pe byddai un deiliad contract yn gadael. Mae hyn yn golygu bod angen rhoi arweiniad i ddarpar ddeiliaid contract, ond hefyd y cyfle i'r deiliad contract sy'n aros roi terfyn ar y contract.

The Housing Law Practitioners Association told committee that the Bill placed too much emphasis on tenants having to apply to the courts to exercise their rights, putting them at a disadvantage. Overall, there is a concern that instead of repealing existing legislation, the Bill so far fails to simplify a currently complex area of law, and, as the Finance Committee has concluded, insufficient evidence has been presented to allow for proper financial scrutiny of the Bill.

Dywedodd y Gymdeithas Ymarferwyr Cyfraith Tai wrth y pwyllgor fod y Bil yn gosod gormod o bwyslais ar ofyn i denantiaid wneud cais i'r llysoedd i arfer eu hawliau, gan eu rhoi dan anfantais. At ei gilydd, ceir pryder nad yw'r Bil yn diddymu deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ac nad yw, hyd yn hyn, yn symleiddio maes o'r gyfraith sy'n gymhleth ar hyn o bryd ac, fel y mae'r Pwyllgor Cyllid wedi dod i'r casgliad, nid oes digon o dystiolaeth wedi ei chyflwyno er mwyn gallu craffu'n briodol ar y Bil o safbwynt ariannol.

17:55

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think that in principle I accept that this Bill is necessary because we do need to simplify and consolidate the existing law on rented homes. My problem with the Bill is that there are a number of issues in there that still need to be addressed before we have achieved that aim, whilst, in terms of consolidation of the existing law, we still have yet to see the actual clauses that are to be repealed or changed as a result of this Bill. So, we are now debating this effectively without having a complete picture of how that Bill would go forward.

Credaf fy mod mewn egwyddor yn derbyn fod angen y Bil hwn oherwydd bod angen inni symleiddio a chydgrynhoi'r gyfraith bresennol ar gartrefi rhent. Fy mhroblem gyda'r Bil yw bod nifer o faterion yno y mae angen rhoi sylw iddynt cyn inni lwyddo i gyflawni'r nod hwnnw, er nad ydym eto, o ran cydgrynhoi'r gyfraith bresennol, wedi gweld yr union gymalau sydd i'w diddymu neu eu newid o ganlyniad i'r Bil hwn. Felly, rydym yn awr yn trafod hyn i bob pwrpas heb gael darlun cyflawn o sut y byddai'r Bil hwnnw yn mynd yn ei flaen.

I do have a number of issues with the Bill, and I hope that the Minister will take on board changes so that we are able to support this Bill, as it goes forward. I think, in terms of simplification, although simplification is key here, the length of the model contract does give me some pause for thought as to whether that will actually assist. That is going to be a very long document, which I think people are going to struggle with. I think the Minister does need to look at that, although, obviously, that will largely come through regulation and guidance as opposed to being on the face of the Bill.

Mae gennyf nifer o broblemau gyda'r Bil, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried newidiadau fel ein bod yn gallu cefnogi'r Bil hwn, wrth iddo fynd yn ei flaen. Rwy'n meddwl, o ran symleiddio, er bod symleiddio'n allweddol yma, bod hyd y contract enghreifftiol yn gwneud imi feddwl p'un a fydd mewn gwirionedd o gymorth. Mae'n mynd i fod yn ddogfen hir iawn, a chredaf fod pobl yn mynd i gael trafferth â hi. Rwy'n meddwl bod angen i'r Gweinidog edrych ar hynny, er y bydd, yn amlwg, yn dod yn bennaf drwy reoliadau a chanllawiau yn hytrach na bod ar wyneb y Bil.

There are issues, I think, arising from joint contracts, which came out of the evidence that was given to the committee, particularly issues with deposits and outstanding rents and how they will be resolved if a joint contract passes to other people, and I think the Minister needs to address that as part of amendments to the Bill and to clarify exactly how that is going to work. I know that landlords are particularly concerned about that because of the condition that properties may be left in and the difficulty in actually holding people to account for the way that they have left property.

Mae materion, rwy'n meddwl, yn deillio o gontractau ar y cyd, a daeth y rhain i'r amlwg yn sgil y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor, yn enwedig materion o ran adneuon a rhenti dyledus a sut y byddant yn cael eu datrys os yw contract ar y cyd yn cael ei drosglwyddo i bobl eraill, ac rwy'n meddwl bod angen i'r Gweinidog roi sylw i hynny fel rhan o'r gwelliannau i'r Bil ac egluro sut yn union y mae hynny'n mynd i weithio. Gwn fod landlordiaid yn arbennig o bryderus ynghylch hynny oherwydd y cyflwr y gellir gadael eiddo ynddo a'r anhawster o ran dwyn pobl i gyfrif mewn gwirionedd am y modd y maent wedi gadael eiddo.

The abolition of the six-month moratorium is a matter of huge concern to me and to the Welsh Liberal Democrats. The evidence that we heard on this was mixed, but, for me, what stood out was one particular witness who asked the question: what problem exactly are we trying to solve by abolishing the six-month moratorium? It does seem to me that that is actually going to leave tenants in a worse place and a less secure place by doing that, and I feel very strongly that that will put Wales at a disadvantage compared with the rest of the UK and will actually leave us behind the rest of the UK in terms of protecting tenants and their tenancies. Therefore, it seems to me that that is going to be one that I will find very difficult to support if it remains in the Bill, as it is currently put in place.

Mae diddymu'r moratoriwm chwe mis yn destun pryder mawr i mi ac i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae'r dystiolaeth a glywsom ar hyn yn gymysg, ond, i mi, yr hyn rwy'n ei gofio'n fwyaf amlwg oedd un tyst penodol a ofynnodd y cwestiwn: pa broblem yn union yr ydym ni'n ceisio'i datrys drwy ddileu'r moratoriwm chwe mis? Mae'n ymddangos imi y bydd hynny mewn gwirionedd yn gadael tenantiaid mewn sefyllfa waeth a sefyllfa lai sicr drwy wneud hynny, ac rwy'n teimlo'n gryf iawn y bydd hynny'n rhoi Cymru o dan anfantais o'i chymharu â gweddill y DU ac y bydd mewn gwirionedd yn ein gadael y tu ôl i weddill y DU o ran diogelu tenantiaid a'u tenantiaethau. Felly, mae'n ymddangos imi y bydd hwnnw'n un y byddaf yn ei chael yn anodd iawn ei gefnogi os bydd yn parhau i fod yn y Bil, fel y mae ar hyn o bryd.

The other concern I have with this Bill is the way that it relies so much on the courts and puts a lot into the hands of the courts, which is not there at the moment. Particularly, I think this is a concern because of changes to legal aid, which means that tenants will end up in court without having that support to get legal representation. But, also, I think that this is a missed opportunity in either using the residential property tribunal, or some other body, to actually provide a proper, non-court-based place where tenants and landlords can go for issues such as challenging rent increases, adjudication of disputes, challenging in terms of fitness for human habitation, succession rights, failure to supply a contract and mediation disputes—all of which could be dealt with in a residential property tribunal, or some other body, and I think the Minister needs to consider looking again at that to take these issues out of the court so that we get a situation where people are not going to have to incur legal expenses to resolve them.

Y pryder arall sydd gennyf â'r Bil hwn yw'r ffordd y mae'n dibynnu cymaint ar y llysoedd ac yn rhoi llawer yn nwylo'r llysoedd, nad yw yno ar hyn o bryd. Yn arbennig, rwy'n credu bod hyn yn bryder oherwydd newidiadau i gymorth cyfreithiol, sy'n golygu y bydd tenantiaid yn mynd i'r llys heb fod y gefnogaeth honno ar gael iddynt gael cynrychiolaeth gyfreithiol. Ond, hefyd, rwy'n meddwl bod cyfle wedi'i golli naill ai i ddefnyddio'r tribiwnlys eiddo preswyl, neu ryw gorff arall, i ddarparu lle priodol, ar wahân i'r llys, lle y gall tenantiaid a landlordiaid fynd i ddatrys materion megis herio codiadau rhent, dyfarnu anghydfodau, herio o ran ffitrwydd i bobl fyw, hawliau olyniaeth, methiant i ddarparu contract a chyfryngu. Gellid ymdrin â phob un o'r rhain mewn tribiwnlys eiddo preswyl, neu ryw gorff arall, ac rwy'n meddwl bod angen i'r Gweinidog ystyried edrych eto ar hynny i gymryd y materion hyn allan o'r llys er mwyn inni gael sefyllfa lle nad oes raid i bobl fynd i gostau cyfreithiol i'w datrys.

The exclusion provisions in supported accommodation have been referred to. This, for me, is a major concern. I notice the Minister gave an assurance in her speech that she was going to produce guidance on how this power would be used, but, for me, that is not enough. The power is unnecessary, and as, I think, the committee's report makes clear, it is a potential breach of human rights. The committee's report said:

Cyfeiriwyd at y darpariaethau ynglŷn â gwaharddiadau mewn llety â chymorth. Mae hyn, i mi, yn bryder mawr. Sylwaf fod y Gweinidog wedi rhoi sicrwydd yn ei haraith ei bod yn mynd i baratoi canllawiau ar sut y byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio, ond, i mi, nid yw hynny'n ddigon. Mae'r pŵer yn ddiangen, ac fel y mae adroddiad y pwyllgor yn ei gwneud yn glir, rwy'n credu, fe allai fod yn torri hawliau dynol. Dywedodd adroddiad y pwyllgor:

'We believe that a failure to have any form of independent review process would lead to a breach of the excluded person's right to a fair hearing under Article 6 of the Convention. We believe that a decision to exclude a person, being a decision taken by a body exercising a public function, would in fact be amenable to judicial review. Additionally, we understand that there is already a process in place to allow for emergency injunctions to exclude persons to be sought in the courts. We therefore see no reason for a process akin to the current emergency injunction powers not to be included in the Bill in this area.'

'Credwn y byddai methu cael unrhyw fath o broses adolygu annibynnol yn arwain at dorri hawliau'r person sy'n cael ei wahardd i wrandawiad teg o dan Erthygl 6 y Confensiwn. Credwn y gallai fod yn ddymunol cael adolygiad barnwrol o benderfyniad i wahardd person, sef penderfyniad gan gorff sy'n ymarfer swyddogaeth gyhoeddus. Hefyd, rydym yn deall bod proses eisoes ar waith i ganiatáu gofyn i'r llysoedd am waharddebau brys i wahardd unigolion. Felly, nid ydym yn gweld rheswm dros beidio â chynnwys proses debyg i'r pwerau gwaharddeb frys cyfredol yn y Bil yn y maes hwn.'

Where we have a situation in the UK where the Human Rights Act 1998 is under threat, it does seem to me to be difficult to ask us to also support a provision that would be a clear breach of that Human Rights Act, and I, for one, would not support a Bill that contains that provision in its current form, and I don't think guidance is going to cut it.

Lle y mae gennym sefyllfa yn y DU lle mae Deddf Hawliau Dynol 1998 dan fygythiad, mae'n ymddangos i mi ei bod yn anodd gofyn inni hefyd gefnogi darpariaeth a fyddai'n amlwg yn torri'r Ddeddf Hawliau Dynol, ac ni fyddwn i, yn un, yn cefnogi Bil sy'n cynnwys y ddarpariaeth honno yn ei ffurf bresennol, ac nid wyf yn credu y bydd canllawiau'n ddigonol.

Issues about 16 and 17-year-olds were raised by the committee, particularly in terms of support and guidance, and I think it's important that the Minister addresses that, I also think, in terms of fitness for human habitation, what is in the Bill at the moment is far too conservative, particularly in terms of things like the external condition of properties. I think, Presiding Officer, that there are a whole range of issues in this Bill that do need to be addressed and I haven't got the time to go into them here today, but I think that the report does make very clear indeed that this Bill is still not fit for purpose.

Cododd y pwyllgor faterion ynglŷn â phobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed, yn enwedig o ran cymorth a chanllawiau, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i'r Gweinidog fynd i'r afael â'r ffaith, rwyf hefyd yn meddwl, o ran ffitrwydd i bobl fyw, bod yr hyn sydd yn y Bil ar hyn o bryd yn llawer rhy geidwadol, yn enwedig o ran pethau fel cyflwr allanol eiddo. Rwy'n meddwl, Lywydd, bod ystod eang o faterion yn y Bil hwn y mae angen mynd i'r afael â nhw ac nid oes digon o amser imi eu trafod yma heddiw, ond rwy'n meddwl bod yr adroddiad yn ei gwneud yn glir iawn bod y Bil hwn yn dal yn anaddas at y diben.

18:00

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, can I thank Christine Chapman for the way she chaired the investigation and the evidence that we took. I think the committee went through a very detailed investigation and came up with a large number of recommendations. I'm happy to support the general principles of the Renting Homes (Wales) Bill and I'm sure the Minister was pleased to see that the first recommendation of the Communities, Equality and Local Government Committee was that it recommends that the Assembly agrees the general principles of the Bill; she might have even been slightly relieved.

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i Christine Chapman am y ffordd y gwnaeth hi gadeirio'r ymchwiliad a'r dystiolaeth a dderbyniwyd gennym. Rwy'n meddwl bod y pwyllgor wedi mynd drwy ymchwiliad manwl iawn ac wedi cyflwyno nifer fawr o argymhellion. Rwy'n hapus i gefnogi egwyddorion cyffredinol Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) ac rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn falch o weld mai argymhelliad cyntaf y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol oedd ei fod yn argymell bod y Cynulliad yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil; gallai hyd yn oed fod wedi teimlo rhywfaint o ryddhad.

There are two distinct rental markets. First is the high-cost, high-quality, generally short-term rental properties, where there are usually no problems. The second is the lower cost end of the sector, which provides housing that, 40 years ago, would have been provided by the local council or by halls of residence for students. The committee made 37 recommendations, but I intend to concentrate solely on four of them.

Ceir dwy farchnad wahanol ar gyfer tai rhent. Y gyntaf yw eiddo cost uchel, o ansawdd uchel, sy'n cael ei rentu yn y tymor byr ar y cyfan, lle nad oes unrhyw broblemau fel arfer. Yr ail yw pen cost is y sector, sy'n darparu tai a fyddai, 40 mlynedd yn ôl, wedi cael eu darparu gan y cyngor lleol neu drwy neuaddau preswyl i fyfyrwyr. Gwnaeth y pwyllgor 37 o argymhellion, ond rwy'n bwriadu canolbwyntio ar bedwar ohonynt yn unig.

The first one is an issue that I raised in 2011, and that is electrical safety. Recommendation 30 calls for provision and installation of carbon monoxide and smoke alarms and for the periodic inspection of electrical wiring to be mandatory in rental properties. Carbon monoxide, fire and poorly maintained electrics can, and have, led to deaths. I believe we should support hardwired smoke alarms. We know that electrical sources are the biggest causes of fires in Welsh homes. I believe we should have five-yearly electrical safety checks in the Welsh private rented sector; it's going to keep people alive. This is not asking for something unusual or particularly expensive, or onerous. Scotland has already done it.

Mae'r cyntaf yn fater a godais yn 2011, sef diogelwch trydanol. Mae argymhelliad 30 yn galw am ei gwneud yn orfodol darparu a gosod larymau carbon monocsid a mwg ac archwilio gwifrau trydanol yn rheolaidd mewn eiddo ar rent. Gall carbon monocsid, tân a gwifrau trydan wedi'u cynnal yn wael arwain at farwolaethau, ac maent wedi gwneud hynny. Rwy'n credu y dylem gefnogi larymau mwg sydd wedi'u cysylltu â'r cylchedau trydan. Rydym yn gwybod mai ffynonellau trydanol yw prif achosion tanau yng nghartrefi Cymru. Rwy'n credu y dylem gael archwiliadau diogelwch trydanol bob pum mlynedd yn y sector rhentu preifat yng Nghymru; mae'n mynd i gadw pobl yn fyw. Nid yw hyn yn gofyn am rywbeth anarferol nac arbennig o ddrud, na beichus. Mae'r Alban eisoes wedi gwneud hynny.

I also have concerns, which I hope the Minister can allay, regarding contracts for 16 and 17-year-olds. Currently, when 16 and 17-year-olds have accommodation, it's underwritten by a responsible adult, sometimes a parent, but often social services. My concern is that if 16 and 17-year-olds have their own tenancy and manage to organise their own utilities, very hard-pressed social services departments and social workers may decide that they may no longer need support; they're looking after themselves. I know this is not a responsibility of the housing Minister, but can she say whether she has discussed this with the Minister for social services, and if there will be advice to social services departments, provided by the relevant Minister after the Bill becomes an Act? It really does concern me—everything is sorted, they've got a house and they've got their utilities, so why should social services still be involved? Well, for a lot of 16 and 17-year-olds, in that state, they're quite often very vulnerable.

Mae gennyf hefyd bryderon ynghylch contractau ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed, ac rwy'n gobeithio y gall y Gweinidog eu tawelu. Ar hyn o bryd, pan fydd pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed yn cael llety, mae oedolyn cyfrifol, sef rhiant weithiau, ond gwasanaethau cymdeithasol yn aml, yn ei warantu. Fy mhryder i yw y gall adrannau gwasanaethau cymdeithasol, a gweithwyr cymdeithasol dan bwysau sylweddol benderfynu nad oes ar bobl ifanc 16 a 17 oed angen cymorth bellach os oes ganddynt eu tenantiaeth eu hunain a'u bod yn llwyddo i drefnu eu cyfleustodau eu hunain; maent yn gofalu amdanynt eu hunain. Rwy'n gwybod nad yw hyn yn gyfrifoldeb i'r Gweinidog tai, ond all hi ddweud a yw wedi trafod hyn gyda'r Gweinidog gwasanaethau cymdeithasol, ac a fydd y Gweinidog perthnasol yn rhoi cyngor i adrannau gwasanaethau cymdeithasol ar ôl i'r Bil ddod yn Ddeddf? Mae wir yn peri pryder imi—mae popeth wedi'i drefnu, maen nhw wedi cael tŷ ac mae ganddyn nhw eu cyfleustodau, felly pam y dylai fod yn fater i'r gwasanaethau cymdeithasol? Wel, mae llawer o bobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed, yn y cyflwr hwnnw, yn aml yn agored iawn i niwed.

The third issue I want to discuss is retaliatory evictions. When the committee first started to gather views on this, I expected it to be wholly about tenants' complaints about the need for repairs and landlords then going for evictions. Can I strongly urge the Minister to amend the Bill to include a rebuttal presumption that an eviction is retaliatory in cases where it occurs after a contract holder has registered a complaint with a landlord about the condition of the property? At committee, we were also told that a retaliatory eviction had taken place because the tenants gave evidence in court against a landlord. The landlord took it upon himself then to take action against the tenant. This has to be a cause for concern, not just in terms of housing, but in terms of the way the law is. If people feel they're about to lose their home if they give evidence against a landlord taking action, I think the likelihood is that very many people will not actually give evidence when they should.

Y trydydd mater yr wyf am ei drafod yw troi allan er mwyn dial. Pan ddechreuodd y pwyllgor gasglu barn ar hyn gyntaf, roeddwn yn disgwyl iddo ymwneud yn gyfan gwbl â thenantiaid yn cwyno bod angen gwaith atgyweirio a landlordiaid wedyn yn dewis eu troi allan. A gaf i annog y Gweinidog yn gryf i newid y Bil i gynnwys rhagdybiaeth gwrthbrofi fod tenant yn cael ei droi allan er mwyn dial mewn achosion lle mae'n digwydd ar ôl i ddeiliad contract gofrestru cwyn gyda landlord am gyflwr yr eiddo? Yn y pwyllgor, dywedwyd wrthym hefyd bod tenantiaid wedi eu troi allan er mwyn dial oherwydd iddynt roi tystiolaeth yn y llys yn erbyn landlord. Penderfynodd y landlord ei hun wedyn gymryd camau yn erbyn y tenant. Mae'n rhaid i hyn fod yn destun pryder, nid yn unig o ran tai, ond o ran y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio. Os yw pobl yn teimlo eu bod ar fin colli eu cartref os ydynt yn rhoi tystiolaeth yn erbyn landlord, rwy'n meddwl ei bod yn debygol na fydd llawer iawn o bobl mewn gwirionedd yn rhoi tystiolaeth pan ddylent.

Finally, what quality of homes should people expect? Having dealt with constituents who have houses neither wind nor waterproof, which are very expensive to heat due to poorly fitting single glazed windows, and are damp, does this constitute fit for human habitation, because these properties keep the NHS busy? I fully support the ambition of the Bill, and if my constituents end up in safe, warm and dry properties, then it will have succeeded in improving their lives, and also, as a by-product, it will have reduced demand on the health service.

Yn olaf, cartrefi o ba ansawdd y dylai pobl ei ddisgwyl? Ar ôl ymdrin ag etholwyr sydd â thai nad ydynt yn dal gwynt na dŵr, ac sy'n ddrud iawn i'w gwresogi o ganlyniad i ffenestri gwydr sengl sy'n ffitio'n wael, ac yn llaith, a yw'r tai hyn yn ffit i bobl fyw ynddynt, gan eu bod yn cadw'r GIG yn brysur? Rwy'n llwyr gefnogi uchelgais y Bil, ac os bydd fy etholwyr yn y pen draw mewn eiddo sy'n ddiogel, yn gynnes ac yn sych, yna bydd wedi llwyddo i wella eu bywydau, a hefyd, fel canlyniad ychwanegol, bydd wedi lleihau'r galw ar y gwasanaeth iechyd.

18:05 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Like others, I'd like to support the general principles of the Bill whilst making some remarks about some of the more detailed provisions within the proposed legislation. The Minister referred in her opening comments to the relationship between this Bill and the previous Bill passed in this Assembly. It is something that was referred to a number of times during our discussions in various committees, and it is a point that it would be useful for the Government to reflect upon: why two Bills are brought forward in successive years dealing with the same subject. Whilst neither of those Bills deals with consolidation, it does appear to be an unhappy comment on the management of the legislative process that we are dealing with successive Bills on the same subject. Whilst the Bill is designed to simplify procedures and law in the area, the fact that we've got more than one Bill doing that, of course, in itself does not deliver simplification. So, if simplification is the key objective of this and other Bills, then perhaps it would be useful for the Government to reflect on the way in which legislation is managed through this place.

Fel pobl eraill, hoffwn gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil a gwneud rhai sylwadau am rai o'r darpariaethau mwy manwl yn y ddeddfwriaeth arfaethedig. Cyfeiriodd y Gweinidog yn ei sylwadau agoriadol at y berthynas rhwng y Bil hwn a'r Bil blaenorol a basiwyd yn y Cynulliad hwn. Mae'n rhywbeth y cyfeiriwyd ato nifer o weithiau yn ystod ein trafodaethau mewn gwahanol bwyllgorau, ac mae'n bwynt y byddai'n ddefnyddiol i'r Llywodraeth ei ystyried: pam cyflwyno dau Fil mewn blynyddoedd dilynol yn ymdrin â'r un pwnc. Er nad yw'r un o'r Biliau hynny'n ymdrin â chydgrynhoi, mae'n ymddangos yn sylw trist ar y modd y caiff y broses ddeddfwriaethol ei rheoli ein bod yn ymdrin â Biliau olynol ar yr un pwnc. Er bod y Bil wedi ei gynllunio i symleiddio gweithdrefnau a chyfraith yn y maes, nid yw'r ffaith bod gennym fwy nag un Bil sy'n gwneud hynny, wrth gwrs, ynddo'i hun yn symleiddio. Felly, os mai symleiddio yw amcan allweddol y Bil hwn a Biliau eraill, yna efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r Llywodraeth fyfyrio ar y ffordd y mae deddfwriaeth yn cael ei rheoli drwy'r lle hwn.

In terms of the substantive issues, there are three issues I wish to address this afternoon. The first is that of contracts for 16 and 17-year-olds. I applaud the intention behind this measure, and, certainly, the Minister was very convincing in her arguments, but I have serious concerns with the proposal here. The conclusions of the committee, as outlined by our Chair, Chris Chapman, described how there may well be legal issues in terms of insurance and access to utilities for 16 and 17-year-olds, and I agree with those concerns. But also, those people are likely, in many cases, to be very vulnerable. Those witnesses giving evidence to the committee who supported this particular right being extended to 16 and 17-year-olds did so with qualifications, and did so in the context of support frameworks being in place to support and sustain those tenancies. The Bill does not provide for any of those safeguards, and therefore it may well lead to a situation whereby vulnerable people are made more vulnerable.

O ran y materion o sylwedd, rwy'n dymuno mynd i'r afael â thri mater brynhawn heddiw. Y cyntaf yw contractau ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed. Rwy'n canmol y bwriad y tu ôl i'r mesur hwn, ac, yn sicr, roedd y Gweinidog yn argyhoeddiadol iawn yn ei dadleuon, ond mae gennyf bryderon difrifol ynglŷn â'r cynnig yma. Roedd casgliadau'r pwyllgor, fel yr amlinellwyd gan ein Cadeirydd, Chris Chapman, yn disgrifio sut y gallai pobl ifanc 16 a 17 oed gael problemau cyfreithiol o ran yswiriant a defnyddio cyfleustodau, ac rwy'n cytuno â'r pryderon hynny. Ond hefyd, mae'r bobl hynny, mewn llawer o achosion, yn debygol o fod yn agored iawn i niwed. Roedd y tystion a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor yn cefnogi'r syniad o ymestyn yr hawl penodol hwn i rai 16 a 17 oed, yn gwneud hynny ag amodau, ac yng nghyd-destun yr angen i sefydlu fframweithiau cymorth i gefnogi a chynnal y tenantiaethau hynny. Nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer unrhyw un o'r mesurau diogelu hynny, ac felly gall arwain at sefyllfa lle mae pobl sy'n agored i niwed yn cael eu gwneud yn fwy agored i niwed.

The second point I'd wish to raise is about the quality threshold. My friend and colleague Mike Hedges already outlined some of these issues. I can think of a case in my constituency that I'm dealing with today where a tenant living in a private rented home has rent collected by an associate of the landlord every Saturday morning, only in cash. They have no record of who the landlord actually is, no address, no contact for that landlord. They're living in a house that is full of damp, with insect infestations, rotten wood, rotten window frames, broken doors and broken windows. The family in that house are ill. The child is ill in that house, and what we have to do—if this legislation is to pass muster—and what this legislation must do is change the lives of families like that wherever they happen to be in this country. My concern is that this legislation does not do that. The fitness for human habitation test is a low test. It's not sufficient to deliver, in my view, the sort of quality threshold that we want to see provided for. We need more ambition in delivering on this. It isn't sufficient to raise standards, and the framework for quality of accommodation is not sufficient as the Bill stands today. I note that the Minister said she would refer to this in her opening remarks and then didn't; I hope that she will refer to it in her closing remarks.

Mae'r ail bwynt y byddwn yn dymuno ei godi yn ymwneud â'r trothwy ansawdd. Mae fy ffrind a'm cydweithiwr Mike Hedges eisoes wedi amlinellu rhai o'r materion hyn. Gallaf feddwl am achos yn fy etholaeth yr wyf yn delio ag o heddiw lle mae tenant yn byw mewn cartref rhent preifat a chydymaith y landlord yn casglu ei rent bob bore Sadwrn, dim ond mewn arian parod. Nid oes ganddo gofnod o bwy yw'r landlord mewn gwirionedd, dim cyfeiriad, dim cyswllt ar gyfer y landlord. Mae'n byw mewn tŷ sy'n llaith drwyddo, â phla o bryfed, pren wedi pydru, fframiau ffenestri wedi pydru, drysau wedi torri a ffenestri wedi torri. Mae'r teulu yn y tŷ yn sâl. Mae'r plentyn yn sâl yn y tŷ, a'r hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud—er mwyn i'r ddeddfwriaeth hon fod yn ddigon da—a'r hyn y mae'n rhaid i'r ddeddfwriaeth hon ei wneud yw newid bywydau teuluoedd fel hyn ble bynnag y byddant yn digwydd bod yn y wlad hon. Fy mhryder i yw nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn gwneud hynny. Mae'r prawf ffitrwydd i bobl fyw yn brawf isel. Nid yw'n ddigon, yn fy marn i, i gyflawni'r math o drothwy ansawdd yr ydym am ei weld. Mae angen inni fod yn fwy uchelgeisiol er mwyn cyflawni yn hyn o beth. Nid yw'n ddigon i godi safonau, ac nid yw'r fframwaith ar gyfer ansawdd yr adeiladau'n ddigonol fel y mae'r Bil yn sefyll heddiw. Sylwaf fod y Gweinidog wedi dweud y byddai'n cyfeirio at hyn yn ei sylwadau agoriadol ac yna ni wnaeth; rwy'n gobeithio y bydd yn cyfeirio ato yn ei sylwadau i gloi.

I will agree with a point that was made by Peter Black as well: that it is only going so far to pass legislation on this matter; we need enforcement as well, and we do need an enforcement framework that enables people to feel confident that the law will be enforced. This is the final point that I'll make on this matter: there's no provision in the Bill at present to improve the role of the Residential Property Tribunal Wales. I believe this is a real lost opportunity—a real opportunity to actually give tenants enforceable rights, not simply to pass a law through this place and believe that we've delivered something, but to actually then empower the people for whom we say we're acting. By insisting that the only course for redress is through the courts—and we know what's happened in terms of legal aid and the rest of it—what we're doing is giving people rights but not giving them the means to actually deliver and enforce those rights, and that is a tragedy.

Byddaf yn cytuno â phwynt a wnaed gan Peter Black hefyd: mai un cam yn unig yw pasio deddfwriaeth ar y mater hwn; mae angen camau gorfodi hefyd, ac mae angen fframwaith gorfodi sy'n galluogi pobl i deimlo'n hyderus y bydd y gyfraith yn cael ei gorfodi. Dyma'r pwynt olaf y byddaf yn ei wneud ar y mater hwn: nid oes darpariaeth yn y Bil ar hyn o bryd i wella rôl Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Credaf fod cyfle wir wedi'i golli yma—cyfle go iawn i roi hawliau y gellir eu gorfodi i denantiaid. Nid dim ond pasio deddf drwy'r lle hwn a chredu ein bod wedi cyflawni rhywbeth, ond rhoi grym mewn gwirionedd i'r bobl yr ydym yn dweud ein bod yn gweithredu ar eu rhan. Drwy fynnu mai'r unig ffordd o gael iawn yw drwy'r llysoedd—a gwyddom beth sydd wedi digwydd o ran cymorth cyfreithiol ac ati—rydym yn rhoi hawliau i bobl, ond nid yn rhoi iddynt y modd i gyflawni mewn gwirionedd a gorfodi'r hawliau hynny, ac mae hynny'n drasiedi.

In closing—I see my time is up, Presiding Officer—this is not a bad Bill, but it could be so much better. It could be the ambitious Bill that we would want a Labour Government to deliver—a Labour Government delivering for some of the most vulnerable and poorest people in our country. The Bill needs to be improved in order to do so. Thank you.

Wrth gloi—rwy'n gweld bod fy amser ar ben, Lywydd—nid yw hwn yn Fil gwael, ond gallai fod yn llawer gwell. Gallai fod yn y Fil uchelgeisiol y byddem am i Lywodraeth Lafur ei gyflwyno—Llywodraeth Lafur yn cyflawni dros rai o'r bobl fwyaf agored i niwed a'r tlotaf yn ein gwlad. Mae angen i'r Bil gael ei wella er mwyn gwneud hynny. Diolch yn fawr.

18:10

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to reply to the debate—Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ymateb i'r ddadl—Lesley Griffiths.

18:10 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you very much, Presiding Officer. I really thank Members for their contributions today and for their general support for this Bill. Despite broad support in Wales for its recommendations, the Welsh Government couldn't do anything following the work they did with the Law Commission back in 2006 until we had the primary law-making powers. And I think this Bill does demonstrate how we are using the powers, and it will make a significant difference. To reassure Members, I'm very happy to continue to work with all Members, from all parties, and with stakeholders. Again, I'd like to reassure Members that I am very much considering very carefully the points made by the three different committees, with a view to further refining the provisions of the Bill.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Rwyf wir yn diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw ac am eu cefnogaeth gyffredinol i'r Bil hwn. Er gwaethaf cefnogaeth eang yng Nghymru i'w hargymhellion, ni allai Llywodraeth Cymru wneud dim yn dilyn y gwaith a wnaeth gyda Chomisiwn y Gyfraith yn ôl yn 2006 tan inni gael y pwerau deddfu sylfaenol. Ac rwy'n meddwl bod y Bil hwn yn dangos sut yr ydym yn defnyddio'r pwerau, a bydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol. I dawelu meddwl yr Aelodau, rwy'n hapus iawn i barhau i weithio gyda'r holl Aelodau, o bob plaid, a chyda rhanddeiliaid. Unwaith eto, hoffwn dawelu meddwl yr Aelodau fy mod wir yn ystyried yn ofalus iawn y pwyntiau a wnaed gan y tri phwyllgor gwahanol, gyda'r bwriad o fireinio darpariaethau'r Bil ymhellach.

I do recognise the hesitation that's been expressed by some Members regarding renting to 16 and 17-year-olds. I'll stress again that there's nothing in this Bill that removes any existing duties local authorities have to young people. The National Union of Students have also indicated they continue to support making renting to this age group by private landlords easier. I will consider Members' comments further, but this really is about enabling 16 and 17-year-olds to be able to rent, and bringing it in line—. You know, 16 and 17-year-olds can do many other things, and I think it's about bringing it into line. I think it's very important to recognise that we have to realise that 16 and 17-year-olds have housing needs, and the purpose of that provision is to allow that. The children's commissioner's head of policy has indicated that the Bill should treat 16 and 17-year-olds in the same way as those aged 18 and over, but, as I've said, I'm very happy to consider Members' comments further.

Rwy'n cydnabod bod rhai Aelodau wedi mynegi eu bod yn betrusgar ynghylch rhentu i bobl ifanc 16 a 17 oed. Pwysleisiaf eto nad oes dim yn y Bil hwn sy'n dileu unrhyw ddyletswyddau presennol sydd gan awdurdodau lleol o ran pobl ifanc. Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr hefyd wedi dweud eu bod yn parhau i fod o blaid ei gwneud yn haws i landlordiaid preifat rentu i'r grŵp oedran hwn. Byddaf yn ystyried sylwadau'r Aelodau ymhellach, ond mae hyn wir yn ymwneud â galluogi rhai 16 a 17 oed i rentu, fel ei fod yn cyd-fynd—. Fel rydych yn gwybod, gall pobl 16 a 17 oed wneud llawer o bethau eraill, ac rwy'n meddwl ei fod yn fater o sicrhau bod hyn yn cyd-fynd. Credaf ei bod yn bwysig iawn cydnabod bod yn rhaid inni sylweddoli bod gan bobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed anghenion tai, a diben y ddarpariaeth honno yw caniatáu hynny. Mae pennaeth polisi'r comisiynydd plant wedi nodi y dylai'r Bil drin rhai 16 a 17 oed yn yr un ffordd â'r rhai 18 oed a hŷn, ond, fel yr wyf wedi dweud, rwy'n hapus iawn i ystyried sylwadau'r Aelodau ymhellach.

Several Members also raised concerns regarding repeals and consequential amendments on the face of the Bill. Inevitably, with a Bill of this size, there will be a significant number of consequential amendments. I am concerned about the risk of missing an amendment if they were to be produced on the face of the Bill at this stage. So, my preferred approach is to ensure all consequential amendments and repeals are covered in detail through an Order, and I think this does mirror standard legislative practice, namely to deal with such matters as part of Bill implementation.

Cododd sawl Aelod hefyd bryderon ynglŷn â rhoi diddymiadau a diwygiadau canlyniadol ar wyneb y Bil. Yn anochel, gyda Bil o'r maint hwn, bydd nifer sylweddol o ddiwygiadau canlyniadol. Rwy'n pryderu am y perygl o golli diwygiad pe byddent yn cael eu rhoi ar wyneb y Bil ar hyn o bryd. Felly, y dull yr wyf yn ei ffafrio yw sicrhau yr ymdrinnir yn fanwl â'r holl ddiwygiadau canlyniadol a diddymiadau drwy Orchymyn, ac rwy'n credu bod hyn yn adlewyrchu arfer deddfwriaethol safonol, sef ymdrin â materion o'r fath fel rhan o weithredu'r Bil.

Alun Davies questioned why we'd had two major pieces of housing legislation in very quick succession. Both Bills are significantly large. I think to have them both together would have been too much. They also dealt with very different things. The Housing (Wales) Act 2014 dealt with the practice of landlords. This is about renting a home—absolutely what it says on the tin. So, I think that responds to that one.

Holodd Alun Davies pam yr ydym wedi cael dau ddarn mawr o ddeddfwriaeth tai yn gyflym iawn ar ôl ei gilydd. Mae'r ddau Fil yn sylweddol fawr. Rwy'n meddwl y byddai wedi bod yn ormod cael y ddau gyda'i gilydd. Maent hefyd yn ymdrin â phethau gwahanol iawn. Roedd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ymdrin ag arfer landlordiaid. Mae hwn yn ymwneud â rhentu cartrefi—yn union beth y mae'r teitl yn ei awgrymu. Felly, rwy'n meddwl mai dyna ymateb i'r cwestiwn hwnnw.

In relation to the question around electrical safety and the fitting of carbon monoxide detectors, we're looking to amend section 94 by broadening the regulation-making powers to set out steps that could be taken to ensure dwellings—. I've had conversations with Alun Davies around the fit for human habitation criteria, and I know he would very much like to see something similar to the Welsh housing quality standard, for instance, that we have for social housing, but I think that just would not be possible.

O ran y cwestiwn ynghylch diogelwch trydanol a gosod synwyryddion carbon monocsid, rydym yn ystyried newid adran 94 trwy ehangu'r pwerau gwneud rheoliadau i nodi'r camau y gellid eu cymryd i sicrhau bod anheddau—. Rwyf wedi cael sgyrsiau ag Alun Davies ynghylch y meini prawf ffit i bobl fyw, ac rwy'n gwybod ei fod yn awyddus iawn i weld rhywbeth tebyg i safon ansawdd tai Cymru sydd gennym ar gyfer tai cymdeithasol, er enghraifft, ond rwy'n meddwl na fyddai hynny'n bosibl.

In relation to the courts, Peter Black raised the concern about too many cases going to court. I'm hoping, by clarifying the rights and responsibilities of tenants and landlords, that we would reduce the number of cases going, and I know you would like to see the capacity of tribunals built up. But, at the moment, I don't think there is that capacity to enable tribunals to do so.

O safbwynt y llysoedd, cododd Peter Black bryder ynghylch y ffaith y byddai gormod o achosion yn mynd i'r llys. Rwy'n gobeithio y byddem yn lleihau nifer yr achosion sy'n mynd gerbron, drwy sicrhau bod hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid a landlordiaid yn eglur, a gwn y byddech yn hoffi gweld gallu tribiwnlysoedd yn cael ei gynyddu. Ond, ar hyn o bryd, nid wyf yn credu bod y gallu hwnnw yno i alluogi tribiwnlysoedd i wneud hynny.

18:14

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the point is that the Bill, as it's drafted, actually puts things into the courts' jurisdiction that aren't there at the moment. Surely, for a small amount of money, you could build up the capacity of the Residential Property Tribunal and actually give those rights and enable tenants to have a court where they could go without having to resort to law.

Weinidog, y pwynt yw bod y Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn rhoi pethau o fewn awdurdodaeth y llysoedd nad ydynt yno ar hyn o bryd. Siawns na allech, am swm bach o arian, ddatblygu gallu'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl a rhoi'r hawliau hynny a galluogi tenantiaid i gael llys lle y gallent fynd heb orfod troi at y gyfraith.

18:14

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you say a small amount of money, but that's not the advice that I've had—that it would be a small amount of money. The advice I've had is that it would be a significant amount of money. The capacity is just not there in the tribunals. Alun Davies referred to the fact that we could be missing an opportunity, so that's something that I'm very happy to look at again. But, certainly, the initial advice I've had is that there just is not the capacity and it would take a significant amount of money.

Wel, rydych yn dweud ychydig o arian, ond nid dyna'r cyngor yr wyf i wedi ei gael—y byddai'n swm bach o arian. Y cyngor yr wyf i wedi'i gael yw y byddai'n swm sylweddol o arian. Nid yw'r gallu yno yn y tribiwnlysoedd. Cyfeiriodd Alun Davies at y ffaith y gallem fod yn colli cyfle, felly dyna rywbeth yr wyf i'n hapus iawn i edrych arno eto. Ond, yn sicr, y cyngor cychwynnol yr wyf wedi ei gael yw nad yw'r gallu ar gael ac y byddai'n cymryd swm sylweddol o arian.

David Melding raised with me whether I would provide more information on how the Bill addresses the human rights. A very thorough assessment of provisions has been undertaken within the Bill to ensure that they are compatible with human rights and Members will be aware, as I mentioned, that the Presiding Officer has determined that the Bill was within the legislative competence of the Assembly.

Gofynnodd David Melding imi a fyddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut y mae'r Bil yn mynd i'r afael â'r hawliau dynol. Cynhaliwyd asesiad trylwyr iawn o ddarpariaethau o fewn y Bil i sicrhau eu bod yn gydnaws â hawliau dynol a bydd Aelodau yn ymwybodol, fel y soniais, fod y Llywydd wedi penderfynu bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

On the six-month moratorium, I do understand Members' concerns around the six-month moratorium and—

O ran y moratoriwm chwe mis, rwy'n deall pryderon yr Aelodau ynglŷn â'r moratoriwm chwe mis ac—

18:15

## David Melding Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you give way, just on the point that you've looked at human rights issues—

A fyddech chi'n ildio, dim ond ar y pwynt eich bod wedi edrych ar faterion hawliau dynol—

18:15

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking an intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad?

18:15

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

18:15 **David Melding** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you tell us something about the proportionality principle that will apply? Has that been fully considered by your team, because you are proceeding with a very broad definition of anti-social behaviour, for instance, so, if that's too broad and the sanctions too severe, you could well have a human rights challenge to that.

A allwch ddweud rhywbeth wrthym am yr egwyddor cymesuredd a fydd yn berthnasol? A yw eich tîm wedi ystyried hynny'n llawn, oherwydd rydych yn bwrw ymlaen â diffiniad eang iawn o ymddygiad gwrthgymdeithasol, er enghraifft, felly, os yw hwnnw'n rhy eang a'r cosbau'n rhy llym, gallai'r Ddeddf gael ei herio o safbwynt hawliau dynol.

18:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. My officials have looked into it in detail and the proportionality was a point that they specifically looked at.

Do. Mae fy swyddogion wedi ystyried hynny'n fanwl ac roedd y cymesuredd yn bwynt y gwnaethant edrych arno'n benodol.

In relation to the six-month moratorium, our existing housing supply is under severe pressure and I do understand Members' concerns. I've taken a lot of advice from stakeholders. Some stakeholders' positions have moved since I started the discussions with them. Removing the moratorium is designed to encourage landlords to rent to those they might consider at higher risk and to rent on terms of less than six months where this is requested by individuals. Private landlords certainly tell me that this will help. I'm very happy to continue to keep looking at it and very happy to continue to keep working with stakeholders to ensure we get that right.

O ran y moratoriwm chwe mis, mae ein cyflenwad tai presennol dan bwysau difrifol ac rwy'n deall pryderon yr Aelodau. Rwyf wedi cymryd llawer o gyngor gan randdeiliaid. Mae safbwyntiau rhai rhanddeiliaid wedi newid ers imi ddechrau trafodaethau â nhw. Y diben, wrth gael gwared ar y moratoriwm, yw annog landlordiaid i rentu i bobl y gallent ystyried eu bod mewn perygl uwch ac i rentu ar delerau llai na chwe mis pan fo unigolion yn gofyn am hynny. Mae landlordiaid preifat yn sicr yn dweud wrthyf y bydd hyn yn helpu. Rwy'n hapus iawn i barhau i ystyried y mater ac yn hapus iawn i barhau i weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn cael hynny'n iawn.

I also believe that the vast majority of landlords want to keep their tenants for as long as possible. They will continue to seek to agree to fixed-term contracts of at least six to 12 months, but I do think that some people are being forced to rent with the worst landlords, so I think it's really important that we continue to work very closely on this point.

Rwyf hefyd yn credu bod y mwyafrif helaeth o landlordiaid am gadw eu tenantiaid am gyhyd ag y bo modd. Byddant yn parhau i geisio cytuno i gontractau cyfnod penodol o chwech i 12 mis o leiaf, ond rwy'n meddwl bod rhai pobl yn cael eu gorfodi i rentu gyda'r landlordiaid gwaethaf, felly rwy'n credu ei bod hi'n bwysig ein bod yn parhau i weithio'n agos iawn ar y pwynt hwn.

*Julie Morgan a gododd—*

*Julie Morgan rose—*

18:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking another intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad arall?

18:17 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I really haven't got time, sorry.

Na, nid oes digon o amser, mae'n ddrwg gennyf.

I was asked if I would amend the Bill to include a rebuttal presumption that an eviction is retaliatory after a contract holder has registered a complaint with the landlord by Mike Hedges. I would consider this to be an unfair presumption. I believe the very fact that a landlord's notice is not automatically granted where the court is satisfied the landlord is seeking to avoid their repairing or fitness obligation, for instance, would provide adequate protection against retaliatory eviction. I think we have to consider all facts in such cases and a judge must be able to base a decision on a case-by-case basis, having considered these facts.

Gofynnwyd imi gan Mike Hedges a fyddwn yn cyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys rhagdybiaeth gwrthbrofi fod deiliad contract yn cael ei droi allan er mwyn dial ar ôl cofrestru cwyn gyda'r landlord. Byddwn yn ystyried hon yn rhagdybiaeth annheg. Rwy'n credu bod y ffaith nad yw rhybudd y landlord yn cael ei ganiatáu yn awtomatig pan mae'r llys yn fodlon bod y landlord yn ceisio osgoi ei rwymedigaeth trwsio neu ffitrwydd, er enghraifft, yn darparu amddiffyniad digonol rhag i bobl gael eu troi allan er mwyn dial. Rwy'n credu bod yn rhaid inni ystyried yr holl ffeithiau mewn achosion o'r fath a bod yn rhaid i farnwr allu seilio penderfyniad fesul achos, ar ôl ystyried y ffeithiau hyn.

On the housing Act, whilst it's not appropriate for Bills to restate other legislation that already applies, there are, as was commented on in committee, very important links between the Housing (Wales) Act 2014 and this Bill. As I mentioned, I will give careful thought to how best these links could be reinforced for the benefit of all concerned. I think it's really important that we work with stakeholders to develop comprehensive guidance on what the terms of the new contracts mean for both landlords and contract holders and we'll work with housing information and support providers to ensure the guidance is as clear and accessible as possible. I see I've got some time, Presiding Officer, so I will take an intervention from Julie Morgan.

O ran y Ddeddf tai, er nad yw'n briodol i Filiau ailddatgan deddfwriaeth arall sydd eisoes yn berthnasol, mae cysylltiadau pwysig iawn, fel y nodwyd yn y pwyllgor, rhwng Deddf Tai (Cymru) 2014 a'r Bil hwn. Fel y soniais, byddaf yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r ffordd orau i atgyfnerthu'r cysylltiadau hyn er budd pawb dan sylw. Rwy'n credu ei fod yn bwysig iawn ein bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu canllawiau cynhwysfawr ar yr hyn y mae telerau'r contractau newydd yn eu golygu i landlordiaid a deiliaid contractau a byddwn yn gweithio gyda darparwyr gwybodaeth a chymorth ym maes tai i sicrhau bod y canllawiau mor glir a hygyrch â phosibl. Gwelaf fod gennyf amser, Lywydd, felly byddaf yn cymryd ymyriad gan Julie Morgan.

18:18

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Oh, thank you very much. It was about the six-month tenancy. I just wanted some reassurance that you would be sure to end up with a Bill where tenants didn't have less protection than they've got at the moment.

O, diolch yn fawr iawn. Roedd yn ymwneud â'r denantiaeth chwe mis. Roeddwn eisiau rhywfaint o sicrwydd y byddech yn siŵr o ddiweddu gyda Bil lle nad yw'r amddiffyniad i denantiaid yn llai nag sydd ganddynt ar hyn o bryd.

18:19

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that's a really important point and, as I've said, I'm getting very mixed advice from stakeholders and from the evidence given. I think the committee recognised that also, but I'm very happy to continue to do that.

Rwy'n credu bod hwnnw'n bwynt pwysig iawn ac, fel yr wyf wedi dweud, rwy'n cael cyngor cymysg iawn gan randdeiliaid ac o'r dystiolaeth a roddwyd. Rwy'n meddwl fod y pwyllgor wedi cydnabod hynny hefyd, ond rwy'n hapus iawn i barhau i wneud hynny.

So, I'm grateful for Members' support and do hope they will support the general principles of the Bill.

Felly, rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth yr Aelodau ac yn gobeithio y byddant yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

18:19

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:19

# 13. Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)

# 13. Debate on the Financial Resolution of the Renting Homes (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 13, which is the debate on the financial resolution of the Renting Homes (Wales) Bill. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Symudwn yn awr at eitem 13, sef y ddadl ar benderfyniad ariannol Bil Rhentu Cartrefi (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5809 Jane Hutt

Motion NDM5809 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Renting Homes (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

18:19 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Formally move.

Cynnig yn ffurfiol.

Senedd.tv Fideo Video

18:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Formally move. I have no other speakers, therefore, I will say the proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] There is objection. I will defer all voting on this item until voting time.

Cynnig yn ffurfiol. Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill, felly, dywedaf mai'r cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Senedd.tv Fideo Video

18:20

# 14. Cyfnod Pleidleisio

# 14. Voting Time

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We've now come to voting time, so I intend to move straight into the vote. The vote is on the debate on the financial resolution of the Renting Homes (Wales) Bill. I call for a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. In favour 34, nine abstentions, five against. Therefore, the motion is carried.

Rydym yn awr yn dod at amser pleidleisio, felly rwy'n bwriadu symud yn syth at y bleidlais. Mae'r bleidlais ar benderfyniad ariannol Bil Rhentu Cartrefi (Cymru). Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid 34, naw yn ymatal, pump yn erbyn. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 34, Yn erbyn 5, Ymatal 9.*

*Motion agreed: For 34, Against 5, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5809

Result of the vote on motion NDM5809

18:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the next item on the agenda, which is the short debate.

Symudwn yn awr at yr eitem nesaf ar yr agenda, sef y ddadl fer.

Senedd.tv Fideo Video

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 18:20.*

*Peter Black took the Chair at 18:20.*

18:21

# 15. Dadl Fer a Ohiriwyd o 24 Mehefin: Hofrennydd Heddlu Dyfed-Powys—Pam Mae'r X99 yn Darparu Cefnogaeth Hanfodol i Ddiogelwch y Cyhoedd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

# 15. Short Debate Postponed from 24 June: The Dyfed-Powys Police Helicopter—Why the X99 Provides Vital Support to Public Safety in Mid and West Wales

**Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If Members could leave quietly. The short debate is from William Powell. I call William Powell to move his debate.

Pe gallai'r Aelodau adael yn dawel. Mae'r ddadl fer gan William Powell. Galwaf ar William Powell i gynnig ei ddadl.

18:21 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd dros dro.

Thank you very much, acting Deputy Presiding Officer.

Senedd.tv Fideo Video

The subject of my debate today is the Dyfed-Powys Police helicopter, the X99. The support for the campaign to save the X99 is growing by the week, and I'm very pleased indeed to be able to bring this debate to the Assembly this afternoon. I am also pleased to give, subject to time considerations, Keith Davies, Paul Davies, Rhodri Glyn Thomas, Simon Thomas and Joyce Watson the opportunity to contribute to this debate.

Pwnc fy nadl heddiw yw hofrennydd Heddlu Dyfed-Powys, yr X99. Mae'r gefnogaeth i'r ymgyrch i achub yr X99 yn tyfu fesul wythnos, ac rwy'n falch iawn yn wir o allu dod â'r ddadl hon i'r Cynulliad y prynhawn yma. Rwyf hefyd yn falch o roi cyfle i gyfrannu at y ddadl, yn amodol ar ystyriaethau amser, i Keith Davies, Paul Davies, Rhodri Glyn Thomas, Simon Thomas a Joyce Watson.

The X99 is a valued and fundamental asset to the police force and rescue services that operate across Carmarthenshire, Ceredigion, Pembrokeshire and Powys—invaluable in its support to public safety in communities right across the region. It carries out a wide range of tasks, searching for missing people, suspects in vehicles, evacuating casualties from the scene of an accident or crime, and transporting specialist teams around the whole force area, to name just a few. It also operates in terrain that could not be served by a fixed-wing aircraft. The Dyfed-Powys Police website usefully points out that, in 12 minutes and to the cost of £160, the helicopter can search one square mile of territory. The same area would take officers on the ground 454 hours and cost in excess of £4,500. It is little wonder therefore that, in 2010, it was considered good value for money for the police helicopter to be relocated from Carmarthen to a purpose-built and fully supported base at Pembrey. The cost at that time was £1.5 million, with £280,000 coming from a Home Office grant and £1.2 million from other public funds. In light of this relatively recent investment in the state-of-the-art base at Pembrey, to close the base would seem to any right-thinking person to be an enormous waste of public money. I would also maintain that the decision to reduce the number of bases from 23 to 15 flies in the face of every single one of the National Police Air Service’s five key priorities, as set out in their 2013-18 business plan. These priorities are:

Mae'r X99 yn ased gwerthfawr a sylfaenol i'r heddlu a'r gwasanaethau achub sy'n gweithredu ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys—amhrisiadwy yn ei gefnogaeth i ddiogelwch y cyhoedd mewn cymunedau ar hyd a lled y rhanbarth. Mae'n cyflawni amrywiaeth eang o dasgau, yn chwilio am bobl ar goll, rhai dan amheuaeth mewn cerbydau, symud rhai ag anafiadau o leoliad damwain neu drosedd, a chludo timau arbenigol o amgylch ardal gyfan yr heddlu, i enwi ond ychydig. Mae hefyd yn gweithredu ar dir na fyddai modd i awyrennau adenydd sefydlog ei wasanaethu. Mae gwefan Heddlu Dyfed-Powys, yn ddefnyddiol, yn nodi y gall yr hofrennydd, mewn 12 munud ac ar gost o £160, chwilio un filltir sgwâr o diriogaeth. Byddai'n cymryd 454 awr i swyddogion ar lawr gwlad chwilio’r un ardal, am gost o fwy na £4,500. Nid yw'n syndod felly yr ystyriwyd, yn 2010, ei bod yn werth da am arian i hofrennydd yr heddlu gael ei symud o Gaerfyrddin i ganolfan bwrpasol â chefnogaeth lawn ym Mhen-bre. Y gost ar y pryd oedd £1.5 miliwn gyda £280,000 yn dod o grant y Swyddfa Gartref a £1.2 miliwn o arian cyhoeddus arall. Yng ngoleuni’r buddsoddiad cymharol ddiweddar hwn yn y ganolfan o’r radd flaenaf ym Mhen-bre, byddai’n ymddangos i unrhyw berson synhwyrol yn wastraff enfawr o arian cyhoeddus i gau’r ganolfan. Byddwn hefyd yn honni bod y penderfyniad i leihau nifer y canolfannau o 23 i 15 yn mynd yn groes i bob un o bum blaenoriaeth allweddol Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu, fel y’u nodir yn eu cynllun busnes ar gyfer 2013-18. Y blaenoriaethau hyn yw:

‘To maximise the safe and efficient use of our resources’.

Gwneud y defnydd mwyaf diogel ac effeithlon o'n hadnoddau.

‘To assist forces to deliver their police and crime plan’.

Cynorthwyo heddluoedd i gyflawni eu cynllun heddlu a throseddu.

‘To support the response to national threat, risk and harm’.

Cefnogi'r ymateb i fygythiad, risg a niwed cenedlaethol.

‘To develop public confidence in NPAS’.

Datblygu hyder y cyhoedd yn y Gwasanaeth.

And, finally:

Ac, yn olaf:

‘To continually improve and develop the service.’

Gwella a datblygu'r gwasanaeth yn barhaus.

Over the period from 1 January this year to 8 June—a period of 23 weeks—the X99 made no fewer than 78 flights that were directly related to investigating or preventing crime. This averages out to just over three flights a week. Over a period of 12 months from June 2014 to 2015, the police helicopter had 474 deployments, including training, engineering, and transit flights. Captain Winston Thomas, who owns and manages Pembrey airport, recently commented that the police helicopter is not only used for standard policing practice and support, but also in partnership with the south-west air ambulance in medical evacuation cases.

Dros y cyfnod o 1 Ionawr eleni hyd at 8 Mehefin—cyfnod o 23 wythnos—hedfanodd yr X99 ddim llai na 78 o weithiau am resymau’n uniongyrchol gysylltiedig ag atal neu ymchwilio i drosedd. Mae hyn ychydig dros dair gwaith yr wythnos ar gyfartaledd. Dros gyfnod o 12 mis o Fehefin 2014 i 2015, defnyddiwyd hofrennydd yr heddlu 474 gwaith, gan gynnwys ar gyfer hyfforddiant, peirianneg, a chludo. Yn ddiweddar, dywedodd y Capten Winston Thomas, sy'n berchen ar faes awyr Pen-bre ac yn ei reoli, fod hofrennydd yr heddlu’n cael ei ddefnyddio ar gyfer ymarfer plismona safonol a chymorth, ond hefyd mewn partneriaeth ag ambiwlans awyr y de-orllewin er mwyn gwacáu lleoliadau am resymau meddygol.

Response times are likely to suffer under the current relocation plans, which suggest that the helicopter could be relocated to St Athan in the Vale of Glamorgan. As it stands currently, the X99 helicopter is able to reach any emergency in the force area within 20 minutes. It seemed obvious that a relocation would have a serious negative impact in that respect and would also make a 20-minute response time much harder to achieve. This has been confirmed by a recent response to a freedom of information request submitted to the National Police Air Service. After a significant delay of three months, NPAS eventually confirmed that it would take an additional 10 minutes to reach parts of west Wales, although this estimate is based on simulation modelling, which has never before been used for air support and may not therefore be robust.

Mae amseroedd ymateb yn debygol o ddioddef o dan y cynlluniau ail-leoli presennol, sy'n awgrymu y gellid symud yr hofrennydd i Sain Tathan ym Mro Morgannwg. Ar hyn o bryd, mae'r hofrennydd X99 yn gallu cyrraedd unrhyw argyfwng yn ardal yr heddlu o fewn 20 munud. Roedd yn ymddangos yn amlwg y byddai adleoli yn cael effaith negyddol ddifrifol yn hynny o beth ac y byddai hefyd yn llawer anoddach cyflawni amser ymateb o 20 munud. Cafodd hyn ei gadarnhau gan ymateb diweddar i gais rhyddid gwybodaeth a gyflwynwyd i Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Ar ôl oedi sylweddol o dri mis, yn y pen draw cadarnhaodd y Gwasanaeth y byddai'n cymryd 10 munud ychwanegol i gyrraedd rhannau o orllewin Cymru, er bod yr amcangyfrif hwn yn seiliedig ar fodelu efelychu, nad yw erioed o'r blaen wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer cefnogaeth awyr ac efallai na fydd yn gadarn felly.

It has not always been clear what the stance on this proposal has actually been from the police and crime commissioner, Christopher Salmon. On the one hand, he’s expressed deep disappointment at the proposal to cut the number of bases across England and Wales to 15, and yet, as FOI disclosures have revealed, he then said he was ‘reluctant to oppose’, and I quote, the new NPAS model.

Nid yw wedi bod yn glir bob amser beth yn union fu safbwynt y comisiynydd heddlu a throseddu, Christopher Salmon, ynglŷn â’r cynnig hwn. Ar y naill law, mae'n mynegi siom dwfn ynghylch y cynnig i leihau nifer y canolfannau ledled Cymru a Lloegr i 15, ac eto, fel y mae ymatebion Rhyddid Gwybodaeth wedi datgelu, dywedodd wedyn ei fod yn amharod i wrthwynebu’r model newydd, ac rwy’n dyfynnu.

The inconvenient truth is that commissioner Salmon was elected on a pledge that said that he would, and I quote, ‘fight’ to save the helicopter.

Y gwir anghyfleus yw bod y comisiynydd Salmon wedi ei ethol ar sail addewid y byddai, ac rwy’n dyfynnu, yn ymladd i achub yr hofrennydd.

More recently, in press statements, he has claimed to be fighting to ensure we have a helicopter when we need one and can save money to protect local officers. It is becoming increasingly clear that we need absolute clarity on this issue, both from commissioner Salmon and also from the chief constable, Simon Prince. Indeed, I hope that this might be one of the outcomes of the meeting that many of us will be attending later this week at Llangunnor. The one thing that has been clear from Mr Salmon and NPAS is the need to save money. That is clear. Whilst we can all appreciate that there are constraints on public spending—very severe ones—and that efficiencies need to be made, when it comes to a fundamental service of this kind, and we’re dealing with public safety and protection, I would contend that that saving is a saving too far.

Yn fwy diweddar, mewn datganiadau i'r wasg, mae wedi honni ei fod yn ymladd i sicrhau bod gennym hofrennydd pan fydd arnom angen un, ac y gallwn arbed arian i amddiffyn swyddogion lleol. Mae'n dod yn fwyfwy amlwg bod arnom angen eglurder llwyr ar y mater hwn, gan y comisiynydd Salmon a hefyd gan y prif gwnstabl, Simon Prince. Yn wir, rwy’n gobeithio y gallai hyn fod yn un o ganlyniadau'r cyfarfod y bydd llawer ohonom yn mynd iddo’n ddiweddarach yr wythnos hon yn Llangynnwr. Yr un peth sydd wedi bod yn glir oddi wrth Mr Salmon ac NPAS yw'r angen i arbed arian. Mae hynny'n glir. Er ein bod i gyd yn gallu gwerthfawrogi bod cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus—rhai difrifol iawn—a bod angen arbed arian byddwn yn dadlau, o safbwynt gwasanaeth sylfaenol o'r math hwn, ac rydym yn ymdrin â diogelwch ac amddiffyn y cyhoedd, bod hynny’n mynd gam yn rhy bell er mwyn arbed arian.

Having recently been in touch with the Police Federation of England and Wales, I know that, following the 20 per cent cuts to policing budgets, the PFEW continued to have grave concerns with regard to the service it provides to the public and, in respect to the air support, it has severe concerns regarding the resilience that would remain. Whilst acknowledging that the future of the X99 is a non-devolved issue, the campaign to save it has attracted strong cross-party backing in this place, with no fewer than 12 AMs signing the statement of opinion that I tabled back in May. The First Minister was right when he said, just last week, that, were policing to be devolved to Wales, we would probably not be having this discussion today. However, even in the current dispensation, Welsh Ministers do have a significant power of influence, especially when combined with such evident cross-party support. If we maintain the momentum of this campaign, then I firmly believe that the present threat from Theresa May to the X99 base at Pembrey can be seen off.

Ar ôl bod mewn cysylltiad â Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr yn ddiweddar, rwy’n gwybod, yn dilyn y toriadau o 20 y cant i gyllidebau plismona, bod gan y Ffederasiwn bryderon difrifol o hyd ynglŷn â’r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i'r cyhoedd ac, o ran cefnogaeth awyr, bod ganddo bryderon difrifol ynghylch y gwydnwch a fyddai'n parhau. Tra'n cydnabod nad yw dyfodol y X99 yn fater sydd wedi’i ddatganoli, mae’r ymgyrch i’w achub wedi denu cefnogaeth drawsbleidiol gref yn y lle hwn, gyda dim llai na 12 o ACau yn llofnodi'r datganiad barn a gyflwynais yn ôl ym mis Mai. Roedd y Prif Weinidog yn iawn pan ddywedodd, dim ond yr wythnos diwethaf, na fyddem yn ôl pob tebyg yn cael y drafodaeth hon heddiw pe byddai plismona’n cael ei ddatganoli i Gymru. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y sefyllfa bresennol, mae gan Weinidogion Cymru gryn ddylanwad, yn enwedig o'i gyfuno â chefnogaeth drawsbleidiol amlwg o'r fath. Os byddwn yn cynnal momentwm yr ymgyrch hon, yna rwy’n credu'n gryf y gellir gwrthsefyll y bygythiad presennol gan Theresa May i ganolfan yr X99 ym Mhen-bre.

To conclude, acting Presiding Officer, the current proposals to do away with the X99 will serve to undermine public safety within the Dyfed-Powys Police force area, which is, of course, the largest in England and Wales. With your support, and the continuing consensus, which grows all the time, we can unite to see off this flawed plan and to safeguard the X99 for the sake of all who live in, work in or visit mid and west Wales.

I gloi, Lywydd dros dro, bydd y cynigion presennol i wneud i ffwrdd â'r X99 yn tanseilio diogelwch y cyhoedd o fewn ardal Heddlu Dyfed-Powys, sef, wrth gwrs, y mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Gyda'ch cefnogaeth, a'r consensws parhaus, sy'n tyfu drwy'r amser, gallwn uno i wrthsefyll y cynllun diffygiol hwn, a diogelu’r X99 er lles pawb sy'n byw, gweithio neu'n ymweld â chanolbarth a gorllewin Cymru.

18:28 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank William Powell for the opportunity to contribute today. I have real concerns about the removal of the Dyfed-Powys Police helicopter from Pembrey in my constituency. I have met with the team at their state-of-the-art, very modern base in the last few weeks to hear about their current work and how this would be impacted by this short-sighted decision. The base at St Athan would also cover the west of England in addition to the base in Bristol. We can only lay part of the blame at the door of the Dyfed-Powys police and crime commissioner when he signed up to the NPAS, but he has left us exposed to the cuts agenda of his Conservative colleagues at Westminster, when they reduced the proposed network of 23 bases to 15, and the question is: will they stop at 15?

Diolch i William Powell am y cyfle i gyfrannu heddiw. Mae gennyf bryderon gwirioneddol ynghylch cael gwared ar hofrennydd Heddlu Dyfed-Powys o Ben-bre yn fy etholaeth. Rwyf wedi cyfarfod â'r tîm yn eu canolfan flaengar a modern iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf i glywed am eu gwaith presennol a sut y byddai’r penderfyniad annoeth hwn yn effeithio arno. Byddai'r ganolfan yn Sain Tathan hefyd yn cwmpasu gorllewin Lloegr yn ychwanegol at y ganolfan ym Mryste. Ni allwn ond gosod rhan o'r bai wrth ddrws comisiynydd heddlu a throseddu Dyfed-Powys pan ymunodd ag NPAS, ond mae wedi ein gadael yn agored i agenda doriadau ei gydweithwyr Ceidwadol yn San Steffan, pan wnaethant leihau’r rhwydwaith arfaethedig o 23 o ganolfannau i 15, a'r cwestiwn yw: ai 15 fydd diwedd y daith?

I’ve spoken this afternoon to Mark Burns-Williamson, who’s the police and crime commissioner responsible for the NPAS. I have left him in no doubt that we expect the base to remain at Pembrey to provide additional security to west Wales, to support our rural police force, and to form part of a network that works to protect the nation of Wales. I even suggested to him that he could move the helicopter from St Athan to Pembrey. This is an issue of national importance and I trust that the Welsh Government will robustly defend the Dyfed-Powys Police helicopter and that Tories on the opposition benches will do all they can to influence their UK Government colleagues that this decision is the wrong one.

Rwyf wedi siarad y prynhawn yma â Mark Burns-Williamson, sef y comisiynydd heddlu a throseddu sy'n gyfrifol am NPAS. Rwyf wedi rhoi gwybod iddo’n bendant iawn ein bod yn disgwyl i’r ganolfan aros ym Mhen-bre i ddarparu diogelwch ychwanegol i orllewin Cymru, i gefnogi ein heddlu gwledig, ac i fod yn rhan o rwydwaith sy'n gweithio i amddiffyn cenedl Cymru. Rwyf hyd yn oed wedi awgrymu wrtho y gallai symud yr hofrennydd o Sain Tathan i Ben-bre. Mae hwn yn fater o bwys cenedlaethol a hyderaf y bydd Llywodraeth Cymru’n amddiffyn hofrennydd Heddlu Dyfed-Powys yn gadarn, ac y bydd y Torïaid ar feinciau'r wrthblaid yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ddarbwyllo’u cydweithwyr yn Llywodraeth y DU bod y penderfyniad hwn yn un anghywir.

18:30 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to William Powell for allowing me to contribute to this important debate and to put on record my concerns, should the Dyfed-Powys Police helicopter at Pembrey be relocated elsewhere.

Rwy'n ddiolchgar i William Powell am ganiatáu imi gyfrannu at y ddadl bwysig hon ac i gofnodi fy mhryderon, pe digwydd i hofrennydd Heddlu Dyfed-Powys ym Mhen-bre gael ei symud i rywle arall.

The important issue here is, first and foremost, safety for both local people and for visitors. As Members are aware, Pembrokeshire attracts thousands of visitors each year to its beautiful coastline and breathtaking hills and mountains. Despite their beauty, the terrain can certainly be challenging in some places, and therefore there must be sufficient provision to cover the Dyfed-Powys area. In emergency circumstances, local knowledge of these areas is crucial and that must also be considered when planning future air service provision. People living in my constituency want to know that their police service has a helicopter when they need one. I want to make it clear here this afternoon that I will continue to work with Members and, indeed, others to ensure that we have sufficient and appropriate cover. To reassure the Member for Llanelli, I will certainly continue to lobby the powers that be to ensure that this helicopter remains where it is.

Y peth pwysig yma, yn gyntaf ac yn bennaf, yw diogelwch pobl leol ac ymwelwyr. Fel y gŵyr yr Aelodau, mae Sir Benfro yn denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn i'w harfordir hardd a'i bryniau a'i mynyddoedd syfrdanol. Er gwaethaf ei harddwch, gall y dirwedd yn sicr fod yn heriol mewn rhai mannau, ac felly rhaid cael digon o ddarpariaeth i gwmpasu ardal Dyfed-Powys. Mewn argyfwng, mae gwybodaeth leol am yr ardaloedd hyn yn hanfodol ac mae'n rhaid ystyried hynny hefyd wrth gynllunio darpariaeth gwasanaeth awyr yn y dyfodol. Mae pobl sy'n byw yn fy etholaeth i am wybod bod gan eu gwasanaeth heddlu hofrennydd pan fydd angen un. Rwyf am nodi'n eglur yma brynhawn heddiw y byddaf yn parhau i weithio gydag Aelodau ac, yn wir, gydag eraill i sicrhau bod gennym ddarpariaeth ddigonol a phriodol. I roi sicrwydd i'r Aelod dros Lanelli, byddaf yn sicr yn parhau i lobïo'r rhai sydd mewn grym i sicrhau bod yr hofrennydd hwn yn aros lle y mae.

18:31 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf fi ddiolch yn fawr iawn i William Powell am godi'r ddadl yma'r prynhawn yma a diolch yn fawr iddo hefyd am ddyfynnu'r cais rhyddid gwybodaeth wnes i ei gyflwyno er mwyn canfod beth yn union oedd ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i'r penderfyniad yma? Mae hynny yn rhywbeth yr ydym yn drist iawn ynglŷn ag ef—nad oedd wedi ymladd i gadw'r adnodd gwerthfawr yma.

May I thank William Powell for raising this issues this afternoon and I thank him also for quoting the freedom of information request that I made in order to find out exactly what the response of the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys to this decision? That is something that we're very sad about—the fact that he didn't fight to keep this valuable resource.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Jonathan Edwards yn y Senedd, fe ddatgelwyd nad yw Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â Llywodraeth San Steffan o gwbl ar y mater yma. Rwy'n mawr obeithio, Weinidog, y cawn ni eich cefnogaeth chi i'r ymgyrch drawsbleidiol yma, ac y mae hynny wedi'i hamlygu'r prynhawn yma, i achub yr hofrennydd yma ar gyfer gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys. Ac os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod, rwy'n mawr obeithio y byddwch yn cysylltu â'r Gweinidog priodol a'r NPAS yn syth i ddatgan yn glir iawn beth yw barn unol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

In a response to a question from Jonathan Edwards in the Parliament, it was revealed that the Welsh Government hasn't contacted the Westminster Government at all on this issue. I greatly hope, Minister, that we'll have your support for this cross-party campaign, which has become evident this afternoon, to save this helicopter for the Dyfed-Powys Police service. And if you haven't done that already, I greatly hope that you will contact the appropriate Minister and the NPAS immediately to state very clearly what the National Assembly for Wales's united opinion is on this issue.

18:32 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that William Powell has set out very well just how important this service is to the people of Dyfed-Powys, certainly to the region that I represent and that he represents, and its effectiveness in dealing with the numbers that come in in terms of tourists, but also the rural nature and dispersed communities that we have in Dyfed-Powys. I think he is right: if we pull together, we can do something, at least to put in place an effective campaign and challenge to this, and I pay tribute to all Members who have done that and to things like the 'Carmarthen Journal' for running a petition against this.

Credaf fod William Powell wedi mynegi'n dda iawn pa mor bwysig yw'r gwasanaeth hwn i bobl Dyfed-Powys, yn sicr i'r rhanbarth yr wyf i ac y mae ef yn ei chynrychioli, a pha mor effeithiol y mae'n ymdrin â'r niferoedd sy'n dod i mewn o ran twristiaid, ond hefyd natur wledig Nyfed-Powys a'r cymunedau gwasgaredig sydd ynddi. Rwy'n credu ei fod yn iawn: os ydym yn gweithio gyda'n gilydd, gallwn wneud rhywbeth, o leiaf sefydlu ymgyrch effeithiol a her i hyn, ac rwy'n rhoi teyrnged i'r holl Aelodau sydd wedi gwneud hynny ac i bethau fel y 'Carmarthen Journal' am gynnal deiseb yn erbyn hyn.

I particularly wanted to make this final point, which is: we were told that the police and crime commissioners would make it more accountable—would make these decisions closer to the people. That has been exposed by this decision. These are political decisions, driven by cuts and not decisions, driven by a consultation with the people and by delivering services for the people. I think there's a lesson there for elections that we will be holding for these commissioners next year.

Roeddwn yn arbennig o awyddus i wneud y pwynt olaf hwn, sef: dywedwyd wrthym y byddai'r comisiynwyr heddlu a throseddu yn ei wneud yn fwy atebol—yn dod â'r penderfyniadau hyn yn nes at y bobl. Mae'r penderfyniad hwn wedi datgelu'r gwir am hynny. Penderfyniadau gwleidyddol yw'r rhain sy'n cael eu sbarduno gan doriadau, yn hytrach na phenderfyniadau sy'n cael eu sbarduno gan ymgynghoriad â'r bobl a chan yr angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y bobl. Rwy'n credu bod gwers yno ar gyfer etholiadau y byddwn yn eu cynnal ar gyfer y comisiynwyr hyn y flwyddyn nesaf.

18:33

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I want to thank my fellow Member for Mid and West Wales, William Powell, for tabling this debate this afternoon and for giving me a minute. Three years ago, the coalition Government said that pooling police helicopters would be, I quote, 'more effective and efficient'. They promised that the vast majority of the areas would have helicopter support within 20 minutes for a priority call. Tomorrow, George Osborne delivers his budget. No doubt, we'll hear more of the same: effective and efficient cuts—not just tax credit cuts and housing benefit, but cuts biting down into the bones of the public sector like this does.

Hoffwn ddiolch i fy nghyd Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, William Powell, am gyflwyno'r ddadl hon brynhawn heddiw ac am roi munud imi. Dair blynedd yn ôl, dywedodd y Llywodraeth glymblaid y byddai, ac rwy'n dyfynnu, yn fwy effeithiol ac effeithlon i gyfuno hofrenyddion yr heddlu. Roeddent yn addo y byddai cymorth hofrennydd ar gael i'r mwyafrif helaeth o ardaloedd o fewn 20 munud ar gyfer galwad blaenoriaeth. Yfory, mae George Osborne yn cyflwyno ei gyllideb. Mae'n debygol y byddwn yn clywed mwy o'r un peth: toriadau effeithiol ac effeithlon—nid toriadau i gredydau treth a budd-dal tai yn unig, ond toriadau sy'n brathu i lawr i esgyrn y sector cyhoeddus fel y mae hyn yn ei wneud.

As William Powell has detailed, there is nothing effective about shutting Pembrey or scrapping the life-saving X99. There is nothing efficient about abandoning the largest police force area in England and Wales. I am encouraged that Russell George, Paul Davies and Angela Burns have signed the Assembly's statement of opinion, and I urge them to stand up for the communities that they represent and oppose their Government's cuts. I urge them also to scrutinise the role of their Conservative colleague Christopher Salmon, the police commissioner, who just a few months ago was claiming he had secured the future of the helicopter service.

Fel y mae William Powell wedi manylu, nid oes dim effeithiol am gau Pen-bre, neu gael gwared ar yr X99 sy'n achub bywydau. Nid oes dim yn effeithlon ynghylch cefnu ar yr ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Rwyf wedi fy nghalonogi bod Russell George, Paul Davies ac Angela Burns wedi llofnodi datganiad o farn y Cynulliad, ac rwy'n eu hannog i sefyll dros y cymunedau y maent yn eu cynrychioli a gwrthwynebu toriadau eu Llywodraeth. Rwy'n eu hannog hefyd i graffu ar rôl eu cydweithiwr Ceidwadol Christopher Salmon, comisiynydd yr heddlu, a honnodd ddim ond ychydig fisoedd yn ôl ei fod wedi sicrhau dyfodol y gwasanaeth hofrennydd.

18:35

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister for Public Services to reply to the debate, Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ymateb i'r ddadl, Leighton Andrews.

18:35

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Thank you, acting Deputy Presiding Officer. Can I start by thanking all Members for their comments during this debate? We obviously recognise the value of the police helicopter service to the people of mid and west Wales and I recognise very much the powerful exposition of the importance of the police helicopter, set out by William Powell as he introduced this debate, and his remarks have obviously been echoed by colleagues from all over the Chamber on all sides. My colleague the Member for Llanelli made a particularly powerful plea for the presence of the helicopter in his own constituency. Can I say that we, of course, recognise the feeling within the Assembly? Let me say at the outset that I will write to the Home Secretary and to the NPAS about the position.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd dros dro. A gaf i ddechrau drwy ddiolch i'r holl Aelodau am eu sylwadau yn ystod y ddadl hon? Rydym yn amlwg yn cydnabod gwerth gwasanaeth hofrennydd yr heddlu i bobl canolbarth a gorllewin Cymru ac rwy'n cydnabod yn fawr iawn yr eglurhad grymus o bwysigrwydd hofrennydd yr heddlu gan William Powell wrth iddo gyflwyno'r ddadl hon, ac mae ei sylwadau yn amlwg wedi cael eu hadleisio gan gydweithwyr o bob rhan o'r Siambr ar bob ochr. Gwnaeth fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Lanelli, ble arbennig o rymus am bresenoldeb yr hofrennydd yn ei etholaeth ei hun. Gaf i ddweud ein bod, wrth gwrs, yn cydnabod y teimlad yn y Cynulliad? Gadewch imi ddweud ar y dechrau y byddaf yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref ac at NPAS am y sefyllfa.

We must remember, of course, this is not a devolved matter, although we as a Government have made no secret of the fact that we would like to see responsibility for policing devolved to Wales. Indeed, the First Minister made reference to this in his answer in questions in the Chamber at the end of June.

Rhaid inni gofio, wrth gwrs, nad yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, er nad ydym ni fel Llywodraeth wedi cuddio'r ffaith y byddem yn hoffi gweld y cyfrifoldeb am blismona yn cael ei ddatganoli i Gymru. Yn wir, gwnaeth y Prif Weinidog gyfeiriad at hyn yn ei ateb mewn cwestiynau yn y Siambr ddiwedd mis Mehefin.

As William Powell and others have said, police helicopters provide support in several areas. Air support significantly reduces the risks associated with the management of different kinds of activities—it allows police to withdraw from pursuit situations where their presence increases the risk to the public. Helicopters allow police to see events on the ground from control rooms and to control incidents more effectively as they unfold, and provide the opportunity to capture people involved in criminality and to provide continuity of evidence. We know that searching for missing people can take up a considerable amount of time for the emergency services, including the police, and carrying out searches by air, of course, ensures a much larger area can be covered, particularly when supported by technical equipment such as thermal imaging.

Fel y mae William Powell ac eraill wedi dweud, mae hofrenyddion yr heddlu’n rhoi cefnogaeth mewn sawl maes. Mae cefnogaeth awyr yn lleihau'n sylweddol y risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli gwahanol fathau o weithgareddau—mae'n caniatáu i’r heddlu dynnu'n ôl o sefyllfaoedd ymlid os yw eu presenoldeb yn cynyddu'r risg i'r cyhoedd. Mae hofrenyddion yn caniatáu i heddlu weld digwyddiadau ar lawr gwlad o ystafelloedd rheoli, a rheoli digwyddiadau’n fwy effeithiol wrth iddynt ddigwydd, ac yn rhoi'r cyfle i ddal pobl sy'n ymwneud â gweithgarwch troseddol a darparu parhad tystiolaeth. Rydym yn gwybod bod y gwasanaethau brys, gan gynnwys yr heddlu, yn gallu treulio cryn amser yn chwilio am bobl ar goll a thrwy chwilio o’r awyr, wrth gwrs, gellir cwmpasu ardal lawer mwy, yn enwedig wrth ategu hynny ag technegol megis delweddu thermol.

We also know that air support is widely used in managing sporting events, demonstrations and public order situations, so having air coverage for events and incidents allows decisions to be taken promptly on how to handle these situations. Then, of course, there are also occasions where the movement of resources, such as firearms officers, dogs and search officers to a scene, can be significantly accelerated by the use of air support, particularly, obviously, in rural locations. So, it is natural the police will want to ensure they have sufficient coverage for their force and that the coverage provided gives sufficient air time for their force to manage events and incidents effectively.

Rydym hefyd yn gwybod bod cefnogaeth awyr yn cael ei defnyddio'n eang i reoli digwyddiadau chwaraeon, gwrthdystiadau a sefyllfaoedd trefn gyhoeddus, felly mae cefnogaeth o’r awyr ar gyfer digwyddiadau ac achosion yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yn ddi-oed ynglŷn â sut i ymdrin â’r sefyllfaoedd hyn. Yna, wrth gwrs, ceir achlysuron hefyd pan mae modd symud adnoddau, fel swyddogion arfau tanio, cŵn a swyddogion chwilio lawer cyflymach i leoliad drwy ddefnyddio cefnogaeth awyr, yn arbennig, yn amlwg, mewn lleoliadau gwledig. Felly, mae'n naturiol y bydd yr heddlu’n awyddus i sicrhau bod ganddynt ddigon o gefnogaeth, a bod y gefnogaeth a ddarperir yn rhoi digon o amser awyr i’w heddlu reoli digwyddiadau ac achosion yn effeithiol.

We know that the UK Government has targeted a number of services for substantial savings, and the NPAS is clearly under pressure in that context. And, it may be, for all we know, under more pressure tomorrow.

Rydym yn gwybod bod Llywodraeth y DU wedi targedu nifer o wasanaethau ar gyfer arbed llawer o arian, ac mae'r NPAS yn amlwg o dan bwysau yn y cyd-destun hwnnw. Ac efallai y bydd, am a wyddom ni, o dan fwy o bwysau yfory.

I think that the issues that have been raised by Members from all parties—Rhodri Glyn Thomas, Simon Thomas, Paul Davies, as well as William Powell, Joyce Watson, Keith Davies—are very clear. It’s very clear that within this National Assembly there is cross-party support for the maintenance of the helicopter. I think that, as the First Minister said last week, if policing were devolved we would not be in this position. So, can I give my commitment to Members today that we will, as I’ve said, take this issue up with the UK Government?

Rwy’n meddwl bod y materion a godwyd gan Aelodau o bob plaid—Rhodri Glyn Thomas, Simon Thomas, Paul Davies, yn ogystal â William Powell, Joyce Watson, Keith Davies—yn eglur iawn. Mae'n eglur iawn yn y Cynulliad Cenedlaethol hwn y ceir cefnogaeth drawsbleidiol i gadw’r hofrennydd. Credaf, fel y dywedodd y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, na fyddem yn y sefyllfa hon pe byddai plismona wedi ei ddatganoli. Felly, gaf i roi fy ymrwymiad i Aelodau heddiw y byddwn, fel yr wyf wedi dweud, yn trafod y mater hwn gyda Llywodraeth y DU?

18:39

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. That brings today’s proceedings to a close.

Diolch yn fawr, Weinidog. Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:39.*

*The meeting ended at 18:39.*